



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad Ysgrifenedig – crynodeb o ymatebion

Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf

Paratowyd gan Miller Research Cyf

12 Hydref 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Trosolwg	Crynodeb o ymatebion i ymgynghoriad technegol Llywodraeth Cymru ynghylch Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Mwy o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Diwygio AHO Cyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: DiwygioPCET@llyw.cymru
Copiâu ychwanegol	Mae'r ddogfen hon i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://beta.llyw.cymru/comisiwn-addysg-drydyddol-ac-ymchwil-i-gymru
Dogfennau cysylltiedig	Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180423-comisiwn-addysg-drydyddol-ac-ymchwil-i-gymru-dogfen-ymgynggori.pdf

Tabl cynnwys

1.	Ymatebion i'r Ymgynghoriad	1
2.	Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	4
3.	Trosolwg o ymatebion i adran 1: Y Comisiwn	6
4.	Trosolwg o ymatebion i adran 2: Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn	12
5.	Trosolwg o ymatebion i adran 3: Y berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu.....	19
6.	Trosolwg o ymatebion i adran 4: Cryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio a chyllido	39
7.	Trosolwg o ymatebion i adran 5: Diogelu buddiannau dysgwyr	60
8.	Trosolwg o ymatebion i adran 6: Cryfhau llais y dysgwr a'r gynrychiolaeth a roddir iddo	70
9.	Trosolwg o ymatebion i adran 7: Sicrhau a gwella ansawdd	78
10.	Trosolwg o ymatebion i adran 8: Chweched Dosbarth	88
11.	Trosolwg o ymatebion i adran 9: Cefnogi a datblygu prentisiaethau yng Nghymru	95
12.	Trosolwg o ymatebion i adran 10: Ymchwil ac arloesi.....	103
13.	Trosolwg o ymatebion i adran 11: Sicrwydd ariannol a llywodraethiant	109
14.	Trosolwg o ymatebion i adran 12: Llywodraethiant Addysg Uwch ..	124
15.	Trosolwg o ymatebion i adran 13: Cefnogi'r Gymraeg	144
•	“gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;.....	145
16.	Trosolwg o ymatebion i adran 14: Data, ystadegau ac ymchwil	152
17.	Trosolwg o ymatebion i adran 15: Materion yn ymwneud â chyllid myfyrwyr	157
18.	Trosolwg o ymatebion i adran 16: Asesiad effaith	171
19.	Ymatebion cyffredinol i'r ymgynghoriad.....	182
20.	Atodiad 1: Sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad.....	189

Geirfa

Talfyriad / Gair allweddol	Diffiniad
AB	Addysg Bellach
ACL	Dysgu Oedolion yn y Gymuned - Adult Community Learning
AHO	Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET)
ASCL	Association of School and College Leaders
AU	Addysg Uwch
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
CITB Cymru	Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu - Construction Industry Training Board Cymru
CMA	Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd - Competition and Markets Authority
CQFW	Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru - Credit and Qualifications Framework for Wales
CUSP	Partneriaeth Sgiliau Colegau a Phrifysgolion - College University Skills Partnership
CYDAG	Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg
DAP	Pwerau i Ddyfarnu Graddau - Degree Awarding Powers
DOyG	Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL)
DSW	Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL)
DU	Y Deyrnas Unedig
ECITB	Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu Peirianeg - Engineering Construction Industry Training Board
ELWa	Y corff cyhoeddus a oedd yn gyfrifol am addysg a dysgu ôl-16 yng Nghymru rhwng 2000 a 2006 (Education and Learning Wales)
ESG	Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd - European Standards and Guidelines
FHEQ	Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch - Framework for Higher Education Qualifications
FISSS	Federation for Industry Sector Skills and Standards
GDPR	Rheoliadau diogelu data - General Data Protection Regulations
HEFCW	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
HESA	Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch - Higher Education Statistics Agency
IACW	Cyngor Cyngchori Cymru ar Arloesi - Innovation Advisory Council for Wales
LPPP	Cynllun Diogelu a Chynnydd Dysgwyr - Learner Protection and Progression Plan
NAEL	Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol - National Academy for Educational Leadership
NAHT	National Association of Head Teachers
NASUWT	National Association of Schoolmasters Union of Women

	Teachers
NEET	Person ifanc nad yw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant -- "Not in Education, Employment, or Training"
NEU Cymru	National Education Union Cymru
NOS	Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol - National Occupational Standards
NSOA	National Society of Apprentices
NTFW	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru - National Training Federation for Wales
OIA	Swyddfa Dyfarnydd Annibynnol Addysg Uwch - Office of the Independent Adjudicator for Higher Education
PCET	Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (Post-Compulsory Education and Training)
QAA	Asiantaeth Sicrhau Ansawdd - Quality Assurance Agency
QR	Ymchwil cysylltiedig ag Ansawdd - Quality-related Research
REF	Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil - Research Excellence Framework
RIW	Ymchwil ac Arloesi Cymru - Research and Innovation Wales
ROA	Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau - Regulation and Outcome Agreement
RSP	Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol - Regional Skills Partnership
RTO	Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg - Research Technology Organisations
SASW	Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru - Specification of Apprenticeship Standards for Wales
SQAP	Panel Cyngori ar Gymwysterau Sectorau - Sector Qualification Advisory Panel
SSC	Cyngor Sgiliau Sector - Sector Skills Council
TDAP	Pwerau Dyfarnu Graddau a Addysgir - Taught Degree Awarding Powers
TEF	Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Deilliannau Myfyrwyr - Teaching Excellence and Student Outcomes Framework
TERCW	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru - Tertiary Education and Research Commission for Wales
UCAC	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
UCM	Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
UCU	Undeb Prifysgolion a Cholegau - University and College Union
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
UKPSF	Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU - UK Professional Standards Framework
UKRI	Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig - United Kingdom Research and Innovation

ULN	Rhif Unigryw'r Dysgwr - Unique Learner Number
UT	Teitl Prifysgol
WAAB	Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru - Wales Apprenticeship Advisory Board
WAS	Manyleb Brentisiaethau Cymru - Welsh Apprenticeship Specification
WESB	Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru - Wales Employment and Skills Board

1. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Diben ymgynghoriad Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf

- 1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion manwl ar gyfer diwygio'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru a'r ffordd y dylid goruchwyllo a chydgysylltu gwariant ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru. Roedd y papur yn gwahodd ymatebion i gynigion mwy manwl a thechnegol ar gyfer ffurf y Comisiwn newydd a'r ffordd y bydd yn gweithredu.
- 1.2 Mae'r ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar gynigion a nodir ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru, "Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig", a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017.
https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/170620_consultation-cy.pdf
- 1.3 Roedd y Papur Gwyn yn ymateb i'r adroddiad annibynnol gan yr Athro Ellen Hazelkorn, "Tuag at 2030 – Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru":
<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/tuag-at-2030-fframwaith-ar-gyfer-datblygu-system-addysg-ol-orfodol-or-radd-flaenaf-i-gymru.pdf>
- 1.4 Roedd Adroddiad Hazelkorn yn cydnabod bod gan sector addysg ôl-orfodol Cymru gyfres gymhleth ac amrywiol o sefydliadau, sy'n darparu ar gyfer anghenion dysgwyr o 16 oed ymlaen. Er yn cydnabod bod gwahanol rannau o'r system wedi ymateb i heriau a cheisio diwallu anghenion dinasyddion a chymdeithas yn y 21^{fed} ganrif, fe wnaeth yr adroddiad hefyd dynnu sylw at nifer o heriau o safbwynt cynllunio a chyllido'r sector ôl-orfodol:
 - roedd dryswch ynghylch y rolau sy'n gorgyffwrdd, a dyblygu adnoddau, o fewn gwahanol sefydliadau a rhyngddynt a'i gilydd
 - roedd meddwl strategol annigonol gan lywodraeth neu'r sefydliadau, ar bob lefel, gan arwain at gydweithio annigonol a diffyg màs critigol
 - roedd diffyg gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y system ôl-orfodol
 - mae Cymru'n brin o lwybrau dysgu ystyrlon a chyfleoedd addysgol i ddysgwyr, waeth beth fo'u hoed, rhyw neu ddoniau penodol, o'r ysgol i/trwy addysg bellach ac addysg uwch
 - mae angen gwell cydbwysedd rhwng darpariaeth addysg ac ymchwil ac arloesi ar sail cyflenwad ac ar sail galw, gan symud oddi wrth system sy'n cael ei gyrru gan alw masnachol at gymysgedd o gyllid seiliedig ar reoleiddio a chystadleuaeth
 - roedd cryn ansicrwydd o fewn y system wedi ei greu gan y llu o adolygiadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan greu cwestiynau ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y system a chyllid myfyrwyr.
- 1.5 Un o argymhellion allweddol adroddiad Hazelkorn oedd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff strategol hyd-braich newydd i oruchwyllo cyllid a pherfformiad addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru.
- 1.6 Roedd y Papur Gwyn yn nodi tystiolaeth ynglŷn â pherfformiad presennol y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru ac yn mynegi'r achos dros newid. Roedd yn cynnwys cynigion cychwynnol, cyffredinol ar gyfer Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd i Gymru a fyddai'n gyfrifol am addysg uwch ac addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith (gan gynnwys prentisiaethau) a dysgu oedolion. Byddai'r Comisiwn yn gyfrifol hefyd am gyllido, cynllunio, sicrhau

ansawdd, perfformiad a risg, ac am gyflawni deilliannau cryfach i Gymru ar draws yr holl system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Dull ymgynghori

- 1.7 Roedd y ddogfen ymgynghori ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru rhwng 24^{ain} Ebrill hyd 17^{eg} Gorffennaf 2018, gan ddenu 422 o ymatebion gan sefydliadau, mudiadau, cyflogwyr ac unigolion.
- 1.8 Gwahoddwyd ymatebwyr i adolygu'r ddogfen ymgynghori ac ymateb i bob un o 100 o gwestiynau, gan ddefnyddio naill ai holiadur i'w e-bostio neu ei bostio, neu ffurflen ar-lein.
- 1.9 Yn ogystal, cynhaliwyd 19 o weithdai technegol thematig, yn bennaf yng Nghaerdydd, gyda fideogynadledda ar gael o swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled Cymru. Roedd y sesiynau hyn yn galluogi rhanddeiliaid i drafod manylion y cynigion mewn amgylchedd torfol, mewn ymdrech i geisio dealltwriaeth ychwanegol a dyfnach o'r cynigion. Nid yw'r barnau a fynegwyd mewn gweithdai wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r adroddiad hwn, sy'n canolbwyntio ar ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn unig. Manylir ar yr allbynnau o'r gweithdai mewn adroddiad ar wahân.

Strwythur y ddogfen ymgynghori

- 1.10 Cafodd y ddogfen ymgynghori ei gosod o dan 15 o benawdau thematig, gyda phob adran yn nodi rhywfaint o gyd-destun, cyfres o gynigion a chyfres o gwestiynau'n ymwneud â'r rhain.
- 1.11 Roedd mwyafrif y cwestiynau'n ceisio cytundeb neu anghytundeb ag un neu fwy o gynigion, a gchwestiynau atodol, agored, yn cael eu gwahodd ar fanylion yr ymateb a goblygiadau'r cynigion.

Ynglŷn â'r dadansoddiad


- 1.12 Er mwyn eu dadansoddi, cafodd pob ymateb ei godio â rhif ID ac enw'r ymatebydd lle'r oeddent wedi dangos eu bod wedi cytuno i hyn a'u nodi ar daflen Excel.
- 1.13 Roedd mwyafrif yr ymatebion yn dod o'r rhwydwaith Dysgu Oedolion yn y Gymuned lle'r oeddent yn amlinellu eu sylwadau cyffredinol ar y cynigion ac yn codi'r un pwyntiau ynghylch diffyg Dysgu Oedolion yn y cynigion. Gellir gweld eu sylwadau mewn mwy o fanylder ym mhennod 20.
- 1.14 I ddiben dosbarthu ymatebwyr yn ôl sectorau, roedd rhai sefydliadau, fel undebau athrawon, yn anodd eu dosbarthu. Roedd y grwpiau felly'n seiliedig ar y sector y byddai personél o fewn y sefydliad hwnnw'n ymwneud mwyaf ag ef. Cydnabyddir, fodd bynnag, nad yw cysylltu ymatebwyr â sector penodol yn eu rhwystro mewn unrhyw ffordd rhag cael barnau sy'n ymwneud â phob sector, ac mae'r rhain wedi cael eu cynrychioli lle bynnag bo'n bosibl.
- 1.15 Wedyn, defnyddiwyd tablau pifod i ddadansoddi ymatebion yn ôl cwestiwn a sector yr ymatebydd, gan roi:
 - trosolwg o'r dadansoddiad o ymatebion yn ôl sector a'r nifer o ymatebion
 - prif themâu, meysydd consensws ac anghytundeb
 - manylion ychwanegol a phwyntiau arwyddocaol allweddol.

- 1.16 Drwy fod y dadansoddiad o'r ymatebion yn cyfrif am gyfanswm posibl o fwy na 400,000 o gelloedd yn y daenlen derfynol, mae wedi bod yn angenrheidiol crynhoi ymatebion er mwyn cadw'r adroddiad hwn yn ymarferol o ran hyd. Nid yw wedi bod yn bosibl felly cynrychioli'n llawn bob agwedd o bob cyfraniad. Bydd set ddata gynhwysfawr o ymatebion ar gael yn llawn i Lywodraeth Cymru, ond efallai na fydd ymatebion llawn yn ymddangos bob amser yn yr adroddiad cryno hwn.
- 1.17 Mae'r canlyniadau wedi cael eu gosod yn y penodau canlynol, yn ôl thema a chwestiwn.


2. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Proffil o'r ymatebion: Unigol, sefydliad, sector

2.1 Mae Siart 3.1 isod yn dangos nifer yr ymatebion i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad ysgrifenedig wedi hollti yn ôl sector. Nid yw'r siart hwn yn cynnwys ymatebion oedd ddim yn cyfeirio i gwestiwn penodol.



2.2 Mae Siart 3.2 isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig, wedi hollti yn ôl sector. Mae'r holl ymatebion wedi'u cynnwys yma.¹



¹ Noder fod AB/AU yn cyfeirio at sefydliadau sy'n cynrychioli neu'n berthnasol i'r ddau sector

3. Trosolwg o ymatebion i adran 1: Y Comisiwn

Cwestiwn 1: A yw'r fframwaith llywodraethiant arfaethedig yn briodol o ystyried cylch gwaith y Comisiwn newydd?

Ymatebion yn ôl Sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	5
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	11
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	14
Trydydd sector	0
DSW	6
Cynrychiolwyr gweithlu	6
Cyfanswm	68

Y farn gyffredinol

- 3.1 Roedd cefnogaeth gyffredinol i sector sengl AHO, ond roedd y fframwaith arfaethedig yn cael ei weld fel rhywbeth rhy haearnaidd gyda'r Comisiwn â chysylltiad rhy agos â Llywodraeth Cymru.
- 3.2 Roedd ar ymatebwyr eisiau cynrychiolaeth ddigonol o bob sector, staff a dysgwyr ar y Comisiwn a'i fwrdd. Roedd sicrhau adnoddau i bwyllgorau yn cael ei weld fel her yn sgil y nfer o aelodau a phwyllgorau a gynigir.

Dadansoddiad sectorol

- 3.3 Teimlai cynrychiolwyr Addysg Bellach (AB) a Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOyG) fod y fframwaith arfaethedig yn rhy haearnaidd ac y bydd maint y bwrdd yn annigonol i ddiwallu anghenion y nifer arfaethedig o bwyllgorau statudol. Roedd un darparwr yn amau'r angen am gymaint o bwyllgorau ar y cam hwn: "Rydym yn cydnabod bod pwyllgorau archwilio/cydymffurfio a thâl yn bwyllgorau statudol hanfodol, ac yn wyneb y pwyslais ar ymchwil ac arloesi, cytunwn y dylai hwn hefyd fod yn bwyllgor statudol. Fodd bynnag, efallai nad yw manylu ar yr ystod arfaethedig o bwyllgorau eraill ar y cam hwn yn ddefnyddiol, ac nid yw'n caniatáu ar gyfer addasu yn y dyfodol. Byddem yn cynnig rhoi'r pwerau deddfwriaethol i'r Comisiwn sefydlu a diddymu'r pwyllgorau fel y gwêl yn dda, yn hytrach na gorfod parhau gyda phwyllgorau pan y gall blaenoriaethau newid, neu lle bo

gofynion gwahanol yn ymddangos ar ôl sefydlu'r Comisiwn, a'i esblygiad dilynol."

- 3.4 Dywedwyd hefyd y dylai'r Comisiwn gael y pŵer i benderfynu ar benodiadau i bwyllgorau. Dylid ystyried isafswm nifer o gynrychiolwyr DOyG, AB a DSW yn ystod blynnyddoedd cynnar y Comisiwn er mwyn sicrhau cydraddoldeb llais. Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddylai gael y pŵer i benodi neu gymeradwyo'r cadeirydd, yn hytrach na Gweinidogion Cymru.
- 3.5 Teimlai'r ymatebwyr y dylai'r Comisiwn fod yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a ddylai allu darparu craffu uniongyrchol yn hytrach na thrwy Weinidogion Cymru yn unig. Awgrymwyd ymhellach y dylai cyllid y Comisiwn ymddangos fel llinell yng Nghronfa Gyfunol Cymru i ganiatáu ar gyfer hyn.
- 3.6 Roedd un darparwr yn ofni gwrthdrawiad buddiannau yn y trefniadau arfaethedig: "Dylid nodi mai Llywodraeth Cymru, yn sgil Deddf Elusennau 2011, yw Prif Reoleiddiwr y Sector AB ac felly gall fod gwrthdrawiad posibl gan y bydd y Comisiwn yn atebol i Weinidogion Cymru wrth ymarfer ei holl swyddogaethau. Dylid nodi a rheoli'r gwrthdaro hwn."
- 3.7 Fe wnaeth ymatebwyr o Sefydliadau Addysg Uwch leisio amrywiaeth o bryderon yn ymwneud â gradd y manylder a roddir mewn deddfwriaeth a chynrychiolaeth – gan awgrymu y gellid gadael llawer o hyn i'r Comisiwn unwaith y bydd ar waith. Roedd pryderon yn cael eu lleisio ynghylch gallu ac adnoddau'r Comisiwn i roi arweiniad effeithiol, rheoleiddio a chyllid i holl feysydd y system AHO.
- 3.8 Roedd CCAUC yn amau'r sail dystiolaeth ar gyfer y cynigion, gan gynnwys dysgu gwersi o greu ELWa. Roedd pryder hefyd ynghylch diffyg cyfeiriad at Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a chyfraniad tuag at ei hegwyddorion, nodau a ffyrdd o weithio. Fel gydag ymatebwyr eraill, roedd pryderon ynghylch aelodaeth y Comisiwn; ei gynrychiolaeth, set sgiliau ac adnoddau i gyflawni gwaith y pwyllgorau arfaethedig. Rhoddwyd sylw penodol i arweinyddiaeth ac aelodaeth y pwyllgor Ymchwil ac Arloesi arfaethedig.
- 3.9 Roedd UCM yn galw am greu Pwyllgor Mynediad a Chynhwysiant fel rhan o'r diwygiadau. Byddai pwyllgor o'r fath yn cynghori'r Comisiwn ar fynediad, cynhwysiant, amrywiaeth a thegwch drwy holl addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.
- 3.10 Roedd darparwyr awdurdodau lleol a'r sector ysgolion yn galw ar i'w sectorau gael eu cynrychioli'n ddigonol ar y Comisiwn ac yn gofyn am sicrwydd y byddai'r gwahaniaethau cynnil rhwng sectorau yn cael ei gydnabod. Roedd hyn yn cynnwys yn benodol gydnabyddiaeth o'r datblygiad sgiliau o'r cyn-16 a'r ôl-16 a'r angen am bontio di-wniad. Awgrymwyd: "fel rhan o hyn, dylai'r pwyllgorau arfaethedig dynnu ar gyngor seiliedig ar dystiolaeth gan Estyn fel sail i'w craffu a'u penderfynu." Roedd rhywfaint o bryderon ynghylch cyfeiriadau at ddyblygu yng nghyd-destun dosbarthiadau chwech a oedd yn cael eu gweld fel modd o "ddylanwadu ar ffurf darpariaeth uwchradd."

- 3.11 Roedd amryw o sylwebwyr yn bryderus ynghylch diffyg cyfeiriad at staff ac undebau llafur a'u diffyg cynrychiolaeth ar y Comisiwn.
- 3.12 Roedd cynrychiolwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) yn gyffredinol yn croesawu'r cynigion, ond yn adleisio pryderon ynghylch llinellau atebolrwydd ac yn galw am gynrychiolaeth ddigonol o bob sector er mwyn sicrhau parch cydradd.

Crynodeb o gynigion i ddatblygu pwyllgor statudol y Gymraeg

Cwestiwn 2: A ydych chi'n meddwl y dylai fod yna bwyllgor statudol o fewn fframwaith llywodraethiant statudol y Comisiwn i gefnogi'r Gymraeg a'r gwaith o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Gymraeg?

Ymatebion yn ôl Sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	5
AB	8
AB/AU	2
AU	8
Unigol	4
Awdurdod lleol	9
Corff reholeiddio	4
Ysgol	21
Trydydd sector	0
DSW	6
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	74

Y farn gyffredinol

- 3.13 Roedd anghytundeb gyda'r cynnig ar draws AU ac AB. Er bod pwysigrwydd y Gymraeg yn cael ei gydnabod yn gyffredinol, roedd y mwyafrif o ymatebwyr o'r farn y dylai'r Gymraeg gael ei gwreiddio ar draws pob gweithgaredd ac na ddylai fod yn destun pwyllgor statudol.
- 3.14 Roedd cynrychiolwyr ysgolion a DSW yn cefnogi'r cynnig, yn wyneb pwysigrwydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac argymhellion adolygiad Weingarten.

Dadansoddiad sectorol

- 3.15 Ar y cyfan, roedd darparwyr Addysg Uwch (AU) yn awgrymu bod pwyllgor statudol yn ddianghenraid, oherwydd: gallai ddyblygu gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; mae gormod o bwyllgorau statudol wedi cael eu nodi a'r argymhelliad yn Adolygiad Weingarten y dylai hyrwyddo'r Gymraeg gael ei asesu trwy fetrigau ymwithgar gan banel

o arbenigwyr. Roedd sefydliadau'n awyddus, fodd bynnag, i bwysleisio pwysigrwydd cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Awgrymodd UCM Cymru, fodd bynnag, y byddai'r pwyllgor yn "rhoi'r arweiniad strategol angenrheidiol i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws addysg a hyfforddiant ôl-16", cyn belled ag nad oedd yn peryglu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

- 3.16 Roedd ymatebwyr AB yn gadarn o'r farn y dylai'r Gymraeg gael ei hintegreiddio'n llawn i'r Comisiwn a'i bwyllgorau. Awgrymwyd bod "cael pwyllgor ar wahân yn peryglu ymylu materion yn ymwneud â'r Gymraeg". Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r Gymraeg a datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg gael ei arwain gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, er y cydnabuwyd y gallai hyn fod yn her o safbwynt llywodraethu. Awgrymodd UCM Cymru fodd bynnag y byddai pwyllgor yn "rhoi'r arweiniad strategol angenrheidiol i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws holl addysg a hyfforddiant ôl-16", cyn belled ag nad oedd yn peryglu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- 3.17 Roedd cefnogaeth gref i bwyllgor statudol ymysg cynrychiolwyr y sector ysgolion; a oedd yn nodi'r angen am ystyriaeth arbennig i ddarpariaeth yn unol â thargedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Fe wnaeth Estyn nodi: "byddai rhaid i aelodaeth pwyllgor o'r fath adlewyrchu'r arbenigedd o amrywiaeth helaeth o sectorau ... a hefyd bod â dealltwriaeth berthnasol o'r materion sy'n wynebu'r Gymraeg mewn addysg yn ogystal ag yng nghyd-destun ehangach cynllunio ieithyddol."
- 3.18 Awgrymodd un cynrychiolydd awdurdod lleol fod angen weithiau i'r Llywodraeth sicrhau bod y "trosolion yn eu lle i gyflawni'r newidiadau a geisir", gan fod achosion lle'r oedd diffyg statud wedi caniatáu i rannau o'r sector beidio â gweithredu ar ddyheadau.
- 3.19 Roedd ymatebwyr DSW hefyd yn gefnogol i'r cynnig "gan y bydd hyn yn galluogi'r comisiwn i gynyddu'r ddarpariaeth, datblygu staff, cymwysterau ac adnoddau o fewn addysg ôl-16 yng Nghymru", a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.
- 3.20 Fe wnaeth un ymatebydd Dysgu Oedolion yn y Gymuned y pwynt y gallai darnau penodol o waith neu ymchwil gael eu gwneud gan grwpiau gorchwyl a gorffen. Hefyd, lle'r Comisiwn maes o law ddylai penderfynu a oedd angen pwyllgor unswydd ar gyfer y Gymraeg.

Crynodeb o gynigion i ddod â swyddogaeth Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru i'r Comisiwn

Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno y dylid gwneud Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru yn rhan o'r Comisiwn i gryfhau cysylltiadau rhwng y Comisiwn a chyflogwyr?

Ymatebion yn ôl Sector.

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	5
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	4
Awdurdod lleol	10
Corff reholeiddio	3
Ysgol	14
Trydydd sector	0
DSW	6
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	65

	Y farn gyffredinol
3.21	Cefnogaeth (amodol) i'r cynnig er na ddylid enwi sefydliadau penodol mewn deddfwriaeth. Rhai awgrymiadau y dylai hyn fod yn ôl disgresiwn y Comisiwn unwaith y caiff ei sefydlu.
3.22	Roedd rhywfaint o amheuan ynghylch sefydlu pwyllgor statudol ar wahân ar gyfer y maes hwn o waith.

Dadansoddiad sectorol

- 3.23 Ymysg darparwyr AB, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Fodd bynnag, y teimlad oedd na ddylai Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru nac unrhyw gyrff anstatudol eraill gael eu henwi'n benodol yn y ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau hyblygrwydd y ddeddfwriaeth ar gyfer y dyfodol a'i allu i addasu i amgylchiadau sy'n newid. Awgrymwyd y dylai fod yn rhaid i aelodau'r pwyllgor allu dangos bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i fod yn effeithiol. Roedd rhai pryderon ynghylch sut ran y byddai'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ei chwarae, yn enwedig o ran eu perthynas â Dinas-Ranbarthau.
- 3.24 Roedd cynrychiolwyr y sector AU yn gweld hyn fel cyfle i SAU ddod yn nes at gyflogwyr a deall anghenion sgiliau yng Nghymru. Roedd rhywfaint o amheuan ynghylch i'r rhain fod yn bwyllgor statudol, fodd

bynnag. Dylai'r trefniant hefyd gael ei adolygu ar ôl cyfnod penodol o amser, er mwyn asesu a yw'r system newydd yn gweithio'n effeithiol.

- 3.25 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr awdurdodau lleol ac ysgolion yn cytuno â'r dull hwn o weithredu, yn enwedig cynrychiolwyr Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac felly gysylltiadau â Chyflogwyr. Awgrymodd Estyn y gellid mynd ati fesul cam i integreiddio'r cyrff hyn ar ôl cyfnod, gyda'r ddau fwrdd yn gweithio'n agos i gefnogi'r Comisiwn wrth iddo ddod yn sefydledig. Fodd bynnag, roedd eraill yn anghytuno â'r cynnig gan ei fod yn cael ei weld fel rhywbeth gor-gymhleth, gan arwain at bryderon ynghylch cylch gwaith y Comisiwn yn dod yn rhy eang.
- 3.26 Roedd ymatebwyr DSW yn glir ynghylch pwysigrwydd cynrychiolaeth gref o ran y galw, ac integreiddio'r cyfrifoldebau a ddelir ar hyn o bryd gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Bwrdd Cyngori ar Brentisiaethau Cymru â gwaith y Comisiwn. Roedd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn pwysu ar Lywodraeth Cymru "i barhau gyda Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn ei ffurf bresennol, hyd nes y sefydlir y Comisiwn pryd bynnag y bydd hynny, ac wedyn dod â'r Bwrdd (fel y mae) i mewn i'r Comisiwn".

4. Trosolwg o ymatebion i adran 2: Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn

Cwestiwn 4: A yw'r cyfrifoldebau y bwriedir eu dyrannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn o ran gwaith cynllunio strategol yn briodol?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	5
AB	8
AB/AU	2
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	14
Trydydd sector	0
DSW	6
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	65

Y farn gyffredinol

- 4.1 Roedd teimlad cyffredinol fod y cynnig yn brin o fanylder, a bod ganddo hefyd y potensial o beryglu'r berthynas hyd-braich rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru.

Dadansoddiad sectorol

- 4.2 Roedd cynrychiolwyr y sector AU yn cadarnhau'r angen i greu perthynas waith effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn. Fodd bynnag, roedd teimlad nad oedd y cynigion wedi cael eu datblygu'n ddigonol eto i gyflawni hyn. Roedd y meysydd o bryder yn cynnwys:
- Cydbwysedd cyfrifoldebau – “Rhaid i Lywodraeth Cymru osod y cyfeiriad cyffredinol i AHO a chaniatáu i'r Comisiwn benderfynu sut i weithredu hynny o fewn eu prosesau cynllunio strategol” (Undeb Prifysgolion a Cholegau).
 - Gallai'r pŵer i wrthod cymeradwyo cynllun strategol y Comisiwn roi'r cyfle i orchymyn y cynnwys.
 - Mae angen mwy o eglurder ar y sail dros ymyrraeth fel cadw cyllid yn ôl oddi wrth ddarparwyr.

- Yr angen i gynnal annibyniaeth a statws elusennol: “Ni fydd yn ddigon i gynnwys datganiad o egwyddor yn unig ynghylch ymreolaeth a rhyddid academiaidd yn y ddeddfwriaeth; bydd yn angenrheidiol hefyd sicrhau nad yw’r darpariaethau deddfwriaethol yn sefydlu strwythurau, rolau neu berthnasoedd sy’n anghydnaws â’r egwyddor honno” (Cadeiryddion Prifysgolion Cymru).

Cyflwynodd CCAUC gyfres o gamau wedi eu hamserlennu ac iddynt y nod o fframio proses i sicrhau y gallai’r Comisiwn gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru gan gynnal hyblygrwydd ac ymreolaeth darparwyr.

- 4.3 Roedd ymatebwyr AB yn anghytuno â’r cynnig hwn, ar y sail fod angen i’r Comisiwn fod yn gorff ymreolus hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae angen strategaeth AHO glir i Gymru i gefnogi hyn.
- 4.4 Roedd ymatebwyr awdurdodau lleol ar y cyfan yn cefnogi’r cynnig, er y nodwyd y bydd angen i gynllun strategol y Comisiwn roi ystyriaeth i amrywiaeth helaeth rolau darparwyr ôl-16 unigol o ran cyfrannu at bolisi a chynlluniau Llywodraeth Cymru.
- 4.5 Roedd amryw o gynrychiolwyr Ysgolion yn gwrthwynebu’r cynnig ar y sail y dylai dosbarthiadau chwech gael eu heithrio o rôl y Comisiwn. Fodd bynnag, roedd y rheini a oedd yn ei gefnogi yn gwneud hynny ar yr amod fod cyfathrebu clir rhwng gwahanol adrannau yn Llywodraeth Cymru a bod ganddynt ddealltwriaeth lawn o gylchoedd gwaith a chanlyniadau ei gilydd.
- 4.6 Roedd ymatebwyr DSW yn uchel eu cloch ynghylch absenoldeb strategaeth AHO a’r gwacter mae hyn yn ei greu o safbwynt gwneud sylwadau ar ddatblygu cynllun strategol. Teimlid bod diffyg dyletswydd i ymgynghori â chyflogwyr yn fethiant difrifol yn y cynlluniau ar hyn o bryd.

Cwestiwn 5: A yw'r cynigion ar gyfer delio â chyllid yn briodol, pe bai Llywodraeth Cymru yn atal ei chymeradwyaeth i'r cynllun strategol? Pa fesurau diogelu neu dros dro y dylid eu hystyried?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	9
AB/AU	2
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	9
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	7
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	54

Y farn gyffredinol

- 4.7 Anghytundeb gydag atal cymeradwyaeth a chyfeiriadau at yr egwyddor y dylai'r Comisiwn fod yn gorff hyd-braich.

Safbwyntiau eraill

- 4.8 Roedd y rhai a oedd yn cytuno yn pwysleisio'r angen am ddeialog a defnyddio pwerau fel y dewis olaf yn unig.

Dadansoddiad sectorol

- 4.9 Roedd ymatebwyr AB yn teimlo'n gyffredinol y byddai'r sefyllfa hon yn mynd yn uniongyrchol groes i'r egwyddor o'r Comisiwn fel corff hyd-braich, yn adrodd i Weinidogion Cymru. Roedd gan yr ychydig a gytunai bryderon na ddylai unrhyw weithredu o'r fath gael "unrhyw effaith ar ddysgwyr o ran cyflwyno gweithgareddau dysgu o ddydd i ddydd, gan gynnwys i'r staff a'r cyfleusterau sy'n ymwneud â chyflwyno".
- 4.10 Roedd cynrychiolwyr y sector AU yn gweld y risg o hyn yn digwydd fel y nesaf peth i ddim ac y byddai'r cynnig i roi pwerau mewn deddfwriaeth yn tanseilio'r berthynas hyd-braich â'r Comisiwn. Nodwyd y byddai'r Comisiwn, pe bai'n methu â chyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol, yn agored i adolygiad barnwrol ac felly byddai pwerau Llywodraeth Cymru'n ddianghenraid. Teimlai nifer o ymatebwyr fod y cynigion i atal cyllid yn achosi risg i ddarparwyr ac felly i ddysgwyr fel maent yn sefyll. Cyfeiriodd UCM at hyn fel: "dewis

niwclear, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar fyfyrwyr a gallai ddifrodi'r sector ar bwynt allweddol o newid ac addasu."

- 4.11 Roedd llawer o ymatebwyr llywodraeth leol yn datgan yr angen am ddeialog o ansawdd uchel rhwng y gwahanol bartïon er mwyn adnabod a deall yr hanfodion gwleidyddol, y sail dystiolaeth a llais y rhanddeiliaid. Gallai cael amser digonol wrth arwain i mewn at ddatblygu cynllun strategol leihau'r siawns o anghytuno.
- 4.12 Ymysg ymatebwyr y sector ysgolion, er bod cymeradwyaeth i gyllid mwy hirdymor, roedd y mwyafrif yn anghytuno gyda'r cynnig i atal cyllid gan ddweud y byddai'n ddarn cymhleth a diangen o ddeddfwriaeth. Roedd pryderon mwy cyffredinol am gyllido dosbarthiadau chwech drwy'r Comisiwn, oherwydd ofnid y byddai'n ychwanegu at ddarlun cyllido sydd eisoes yn gymhleth i ysgolion. Holodd Estyn: "a fyddai'r elfennau hynny o cynllun strategol y Comisiwn sy'n ymwneud â sicrhau a gwella ansawdd yn rhan o lythyr cylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet at Estyn neu'n cael ei gyllido'n uniongyrchol o'r Comisiwn".
- 4.13 Roedd cynrychiolwyr DSW hefyd yn croesawu'r cynigion am gyllid mwy hirdymor (er eu bod yn dyfalu tybed a fyddai hyn yn cynnwys DSW a phrentisiaethau) ond teimlent na ddylai fod angen i Lywodraeth Cymru atal ei chymeradwyaeth os oedd deialog ddigonol ynghylch cymeradwyo cynllun strategol – mewn camau pe bai angen.

Cwestiwn 6: Ar wahân i atal cymeradwyaeth i'r cynllun strategol, pa bwerau ymyrryd y gallai fod eu hangen ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau ac yn bodloni telerau ei gynllun strategol?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	2
AU	6
Unigol	1
Awdurdod lleol	6
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	12
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	2
Cyfanswm	50

Y farn gyffredinol

- 4.14 Unwaith eto, roedd y mwyafrif o ymatebion yn canolbwyntio ar osgoi'r angen am ymyrryd, er bod awgrymiadau mewn amgylchiadau eithafol yn cynnwys cymryd pwerau'n ôl oddi ar y Comisiwn a chyllido darparwyr yn uniongyrchol.

Dadansoddiad sectorol

- 4.15 Teimlai cynrychiolwyr AU y dylai trefniadau tebyg i'r ddarpariaeth bresennol fod yn ddigonol a chanolbwyntio ar gadw aelodau'r Comisiwn (ee corff llywodraethu) i gyfrif, ac y dylid ymddiried yn y corff i gyflawni. Mae cyllid yn arf digonol. Dylai aelodau a benodir sichrau cydymffurfiaeth â chydaddoldeb ac amrywiaeth, Safonau'r Gymraeg, Cenedlaethau'r Dyfodol, gofynion archwilio, etc. Dylai fod 'Mesurau arbennig i ddiswyddo'r Cadeirydd'.
- 4.16 Dywedodd ymatebwyr AB na ddylai'r Comisiwn adrodd i Lywodraeth Cymru, ond i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid cytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol a'u monitro'n flynyddol, yn gysylltiedig â'r cynllun. Mewn achosion eithafol, gallai Gweinidogion Cymru ymyrryd wrth gael gwared ar swyddi penodedig ar y Comisiwn.
- 4.17 Roedd ymatebion Dysgu Oedolion yn y Gymuned, awdurdodau lleol ac ysgolion yn nodi y gallai Llywodraeth Cymru dynnu'n ôl y pwerau oddi ar y Comisiwn tra gellir ail-sefydlu dyletswyddau a chyfrifoldebau. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â chyfnod o gyllido uniongyrchol.
- 4.18 Awgrymodd cynrychiolwyr DSW y gallai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i flaenoriaethu elfennau penodol o gyflwyno AHO trwy lythyr cylch gwaith blynyddol.

Cwestiwn 7: A fyddai cylch pum mlynedd yn gyfnod priodol ar gyfer cynllun strategol y Comisiwn neu a ddylid caniatáu elfen o hyblygrwydd?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	5
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	3
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	13
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	65

Y farn gyffredinol

- 4.19 Roedd croeso helaeth i gylchoedd cynllunio hirach, er mai penderfyniad y Comisiwn ddylai hyn fod a dylai fod hyblygrwydd fod yn rhan o'r cynllun. Barn y mwyafrif oedd bod cylch pum-mlynedd yn addas, er yr awgrymwyd y gallai cylch saith-mlynedd gadw'r Comisiwn a'i weithgareddau allan o wleidyddiaeth.

Dadansoddiad sectorol

- 4.20 Roedd ymatebwyr y sector AU yn cytuno'n gyffredinol y dylai fod rhywfaint o hyblygrwydd yn y cylch cynllunio, ond roedd ar lawer ohonynt eisiau gweld creu gweledigaeth strategol fwy hirdymor (10-15 mlynedd), yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, efallai wedi'i gefnogi gan gylch cynllunio pum-mlynedd gyda monitro ac adolygu blynyddol. Roedd rhywfaint o farnau cymysg ynghylch a oedd cysoni'r cylch cynllunio â'r tymor gwleidyddol pum mlynedd mewn Llywodraeth yn rhywbeth cadarnhaol neu beidio. Yn y naill achos neu'r llall byddai angen am ddarpariaeth ar gyfer hyblygrwydd byrdymor i ymdrin ag amgylchiadau penodol. Nododd y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth fod "dull 10-mlynedd o ymdrin â seilwaith wedi cael ei ddefnyddio'n flaenorol gan CCAUC yn ei 'Strategaeth Gwella Dysgu ac Addysgu trwy Dechnoleg' ac yn fwy diweddar gan Lywodraeth Cymru yn ei fframwaith strategol Digidol 2030 newydd ar gyfer dysgu digidol ôl-16 yng Nghymru."
- 4.21 Roedd y sector AB yn croesawu cynllunio mwy hirdymor ac yn teimlo'n gyffredinol y byddai cylch saith-mlynedd yn fwy priodol.

Roeddent o'r farn ei bod yn bwysig y dylai'r cylch gael ei gefnogi gan gyllidebau dangosol i ganiatáu ar gyfer cynllunio yn unol â blaenoriaethau. Awgrymodd un ymatebydd y byddai cylch pum-mlynedd treigl yn fanteisiol, ac awgrymodd rhywun arall hyblygrwydd ym mlynnyddoedd cynnar y Comisiwn.

- 4.22 Roedd ymatebwyr o'r sector ysgolion yn rhanedig rhwng y rheini a oedd yn ffafrio cylch tair-blynedd a'r rheini y byddai'n well ganddynt gylch pum-mlynedd. Awgrymodd Estyn osod y cyfnod amser gyda chytundeb Gweinidogion, gan adeiladu hyblygrwydd i mewn i ymateb i newidiadau yn y tirwedd economaidd, er enghraifft.
- 4.23 Teimlai cynrychiolwyr DSW yn gyffredinol mai'r Comisiwn ddylai benderfynu, er bod amryw yn ffafrio cylch o leiaf bum mlynedd o hyd, gan y gall rhai prentisiaethau gymryd cyn hired â hyn i'w cwblhau.
- 4.24 Roedd un cynrychiolydd Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn croesawu symudiad oddi wrth "caethiwo darparwyr a gwneuthurwyr polisi mewn diwylliant lle mae'n ofynnol iddynt feddwl yn y tymor byr yn unig".

5. Trosolwg o ymatebion i adran 3: Y berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu

Cwestiwn 8: Yn adran reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, a oes yna faterion eraill y dylid eu cynnwys? Os felly, beth yw'r rheini? A ddylid cael gwared ag unrhyw faterion? Os felly, pa rai?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	5
AB	8
AB/AU	1
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddiol	4
Ysgol	13
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	64

Y farn gyffredinol

- 5.1 Mae angen manylion pellach er mwyn rhoi ymateb trwyadl ar ran yr holl sector AHO i'r ymgynghoriad.
- 5.2 Pwysleisiodd darparwyr DSW yr angen i gael gwared ar y gofyniad yn y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau am statws elusennol.

Dadansoddiad sectorol

- 5.3 Ymysg ymatebwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned, roedd rhai'n holi sut byddai'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau yn ymwneud â dysgu anffurfiol a dysgu cymunedol. Roedd eraill yn gyffredinol fodlon gyda'r hyn a gynigiwyd ar gyfer rhan reoleiddio'r Cytundeb. Awgrymodd un ymatebydd DOyG fod angen i elfen reoleiddio'r Cytundeb gynnwys prosesau gan sefydliadau i sicrhau ansawdd yr ymwneud â chymunedau a dysgwyr. Roedd disgwyl y byddai'r prosesau hyn yn codi'r gwerth a'r pwysigrwydd a roddir gan sefydliadau ar ddiwallu anghenion cymunedau.
- 5.4 Fe wnaeth amryw o ymatebwyr AB y sylw bod arnynt angen manylion pellach am y gofynion arfaethedig neu Gytundeb Rheoleiddio a Deilliannau drafft neu enghreifftiol er mwyn ffurfio barn. Fe wnaeth un ymatebydd nodi y dylai unrhyw ddarparwr sy'n gweithredu yng

Nghymru fod yn gymwys i dderbyn cyllid gan y Comisiwn, yn hytrach na'i gyfyngu i ddim ond y rheini sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

- 5.5 Dywedodd rhai ymatebwyr yn y sector AU hefyd nad yw'r ymgynghoriad technegol yn rhoi manylion digonol ar sut y byddai'r Cytundebau'n gweithredu.
- 5.6 Fe wnaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru fynegi pryderon ynghylch goblygiadau'r gofynion rheoleiddio arfaethedig i ddarparwyr sy'n gweithredu ar lefel y Deyrnas Unedig: "Mae gennym bryder penodol ynghylch paragraff 68 sydd wedi'i eirio ar hyn o bryd mewn ffordd a fyddai'n allgáu'r Brifysgol Agored yng Nghymru rhag derbyn cyllid gan nad yw'r Brifysgol Agored yn gorff sy'n gweithredu "yng Nghymru yn unig neu'n bennaf." Fel darparwr mwyaf Cymru o addysg uwch rhan-amser i israddedigion, rydym yn ceisio sicrwydd cynnar y bydd y geiriad hwn yn cael ei addasu i alluogi'r Brifysgol Agored i dderbyn cyllid gan y Comisiwn."
- 5.7 Roedd pryderon eraill a fynegwyd gan ymatebwyr AU yn cynnwys:
- Beichiau gweinyddol ychwanegol a gweithgareddau deilliannau yn cyfyngu ar hyblygrwydd a chreadigrwydd y sector.
 - Dyblygu trefniadau rheoleiddio eraill i brifysgolion, fel y rheini a nodir yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992, ac adran gofrestru/rheoleiddio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.
 - Gwrthdaro gyda dyletswyddau statudol a gofynion cyfreithiol eraill i AU, megis:
 - Gofynion cyfraith elusen, sy'n rhwystro elusennau rhag gweithredu polisi llywodraeth neu gyflawni cyfarwyddiadau llywodraeth.
 - Deddfwriaeth AU, sy'n seiliedig ar egwyddorion ymreolaeth sefydliadol ac academaidd.
 - Dosbarthiad cyfrifyddu cenedlaethol a'r risg y gallai cynyddu rheolaeth llywodraeth dros ddarparu arwain at ailddosbarthu.
 - Cyfraith cystadleuaeth a'r perygl y gallai annog neu orfodi cydweithio rhwng darparwyr arwain at ymddygiad cydgynllwyniol sy'n torri cyfraith cystadleuaeth.
- 5.8 Roedd un ymatebydd AU yn croesawu cynnwys trefniadau diogelu dysgwyr a gweithdrefnau cwynion dysgwyr.
- 5.9 Roedd y gwelliannau a awgrymwyd i adran reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau yn cynnwys:
- Gwahanu rheoleiddio oddi wrth ddeilliannau (gan ddysgu o gyflwyno Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau yn yr Alban).
 - Cynnwys rôl partneriaeth ac ymwneud myfyrwyr mewn sicrhau a gwella ansawdd.
- 5.10 Teimlai'r mwyafrif o ymatebwyr o ysgolion ac awdurdodau lleol nad oedd angen y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau arfaetheig ar gyfer dosbarthiadau chwech, yn wyneb y strwythurau rheoleiddio a

llywodraethu sydd yn eu lle mewn ysgolion: “yng nghyd-destun ysgolion, nid yw rheoleiddio’n angenrheidiol gan ei fod eisoes ar waith yn unol â’i lywodraethiant ei hun ac yn cael ei oruchwylio gan yr awdurdod leol a’r consortiwm rhanbarthol.”

- 5.11 Awgrymodd un ymatebydd awdurdod lleol y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr, yn ogystal â chyflenwi data penodol ynghylch darparu cyrsiau i’r Comisiwn, ddarparu data ar ddeilliannau cyrsiau, gan gynnwys cyrchfannau. Awgrymodd un arall gynnwys gofyniad ychwanegol yn ymwneud â’r graddau roedd darpariaeth gyfrwng Cymraeg ar gael mewn ardal leol.
- 5.12 Ymysg y gofynion eraill yr awgrymodd ymatebwyr ysgolion ac AB eu cynnwys yn rhan reoleiddio’r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau roedd:
- Meini prawf yn annog cydweithio rhwng darparwyr
 - Cynnwys “gofal, cymorth a chanllawiau” i ddysgwyr.
- 5.13 Roedd amryw o ymatebwyr o ysgolion yn gofyn am fwy o fanylder ar sut y byddai ansawdd yn cael ei fesur: “mae angen mwy o fanylder er mwyn penderfynu sut y profir digonolrwydd ansawdd yr addysg, hyfforddiant ac ymchwil ac arloesi a gyflwynir gan y darparwr neu ar ei ran – nid yw niferoedd o ddysgwyr sy’n ymgeisio am gyrsiau ac yn eu cwblhau o angenrheidrwydd yn dystiolaeth o ansawdd.”
- 5.14 Roedd pryderon eraill a godwyd gan ymatebwyr o ysgolion yn cynnwys:
- Yr awgrym y byddai angen i ddarparwyr fod yn elusennau gan y byddai hyn yn mynd yn groes i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, sy’n gwahardd ysgolion cymunedol rhag bod yn elusennau.
 - Ni roddwyd digon o feddwl i’r berthynas arfaethedig rhwng chweched dosbarth ysgolion a’r Comisiwn yn cael ei rheoli trwy awdurdodau lleol, sy’n awgrymu y byddai angen i awdurdodau lleol hefyd fod yn elusennau.
 - Y pwysigrwydd a roddir ar “ymreolaeth sefydliadol” drwy gydol yr holl ddogfen ymgynghori: “does dim lle i’r taerineb dogmataidd ar ymreolaeth mewn system addysg sy’n roi bri ar gydweithio a chydweithredu.”
- 5.15 Roedd Estyn yn holi “sut fyddai unrhyw ofynion rheoleiddio a lunir trwy’r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau yn cael eu gwerthuso fel rhan o’n fframwaith archwilio i sectorau AHO.”
- 5.16 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr DSW yn cymeradwyo’r Cytundeb mewn egwyddor a’r “symudiad tuag at system syml o gofrestru darparwyr i ddibenion rheoleiddio”. Roedd y prif bryder yn ymwneud â’r cynnig i wahaniaethu darparwyr DSW oddi wrth weddill y sector AHO, trwy beidio â’i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr AHO lunio Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau: “mae hyn yn atgyfnerthu’r pryder ‘parch cydradd’ ymysg y sector AHO ac yn arwain at system ‘ddwy-haen’.”

- 5.17 Roedd y prif fater arall a nodwyd gan lawer o ymatebwyr DSW yn ymwneud â'r gofyniad arfaethedig ar ddarparwyr i fod â statws elusennol a'r syniad sydd ymhlyg â hyn fod darparwyr masnachol yn gynhenid analluog i gyfrannu at fudd y cyhoedd.
- 5.18 Awgrymodd amryw o ymatebwyr DSW welliannau i'r gofynion rheoleiddio:
- Cynnwys mesurau o ymwneud gan gyflogwyr / angen diwydiant, a mesurau i gynyddu cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifoedd (ee pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig/marched yn y sector peirianeg)
 - Blaenoriaethu mesurau ansawdd dros gyfraddau cwblhau.

Cwestiwn 9: Rydym yn cydnabod, yng ngoleuni eu rhwymedigaethau cytundebol, na fyddai'n ofynnol i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith fod â statws elusennol er mwyn cael cyllid cyhoeddus. Ond a ddylai fod yn ofynnol i fathau eraill o ddarparwyr dysgu fod â statws elusennol er mwyn cael cyllid o'r fath? Beth fyddai'r manteision a'r anfanteision?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	5
AB	9
AB/AU	1
AU	6
Unigol	3
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	9
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	51

Y farn gyffredinol

- 5.19 Roedd Ysgolion, awdurdodau lleol a darparwyr DSW yn pwysleisio pryderon y gallai gofyniad am statws elusennol gyfyngu ar allu darparwyr i gyflwyno hyfforddiant o ansawdd uchel a pherthnasol i ddiwydiant.
- 5.20 Roedd cynrychiolwyr Addysg Bellach a Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn nodi'r angen am statws elusennol os defnyddir cyllid grant, ond nid os oes darpariaeth dan gontract yn ei lle.

Dadansoddiad sectorol

- 5.21 Roedd dau allan o'r tri ymatebydd DOyG i'r cwestiwn hwn yn anghytuno â'r gofyniad arfaethedig i ddarparwyr fod â statws elusennol, ar y sail y byddai mesurau llywodraethu ac atebolrwydd cadarn yn roi graddau digonol o sicrwydd: "Dylai rheoleiddio trwy'r Comisiwn a chytundebau deilliannau clir wedi eu haddasu i angen cymunedau unigol sicrhau gwerth i'r cyhoedd heb fod angen y newid hwn."
- 5.22 Teimlai'r ymatebydd DOyG a oedd o blaid gwneud statws elusennol yn ofynnol ei fod yn "rhoi trywydd archwilio mwy dibynadwy ar gyfer craffu."
- 5.23 Roedd pawb o'r ymatebwyr AB yn cytuno y dylai statws elusennol fod yn ofynnol, er bod llawer yn cymedroli'r farn hon trwy gyfeirio at ddarparwyr DSW a'r angen i gefnogi darpariaeth DSW trwy lwybr arall: "Dylai statws elusennol fod yn ofynnol er mwyn derbyn cyllid grant. Dylai mathau eraill o ddarpariaeth i ddarparwyr heb statws elusennol fod trwy gontract. Dylai darpariaeth o dan gontract fod ar gael i'r darparwyr sy'n gallu cynnig y deilliannau gorau eu hansawdd." (ColegauCymru)
- 5.24 Fe wnaeth llawer o ymatebwyr AU dynnu sylw at densiwn wrth fod statws elusennol yn ofynnol er mwyn derbyn cyllid cyhoeddus. Awgrymodd nifer ohonynt ei fod yn cyfyngu ar arloesi ac amrywiaeth: "Er bod y Brifysgol yn cytuno bod angen diogelu cyllid cyhoeddus, teimlwn fodd bynnag fod y rheoliadau presennol yn rhy haearnaidd ac yn cyfyngu ar y cyfleoedd datblygu busnes i brifysgolion yn enwedig gan fod y sector yn ceisio cyflwyno dulliau newydd o ddarparu sy'n cefnogi hyblygrwydd i fyfyrwyr."
- 5.25 Nodwyd hefyd nad yw statws elusennol o angenrheidrwydd yn diogelu buddiannau dysgwyr. Teimlai amryw fod angen dull cyson ar draws y sector AHO, gan gynnwys felly ddarparwyr DSW. Awgrymwyd y gellid ehangu'r gofyniad cul o statws elusennol i gynnwys darparwyr sy'n ddi-elw neu sy'n cyfrannu at lesiant pobl Cymru.
- 5.26 Roedd ymatebwyr o'r sector awdurdodau lleol yn galw am fwy o eglurder ar sut y byddai'r gofyniad arfaethedig yn effeithio ar awdurdodau lleol, yn wyneb yr awgrym y byddai'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a wnaed rhwng y Comisiwn ac awdurdodau lleol, a fyddai'n cynrychioli'r ysgolion perthnasol yn eu hardal/rhanbarth. Yn unol â barn rhai ymatebwyr AU, awgrymodd un cynrychiolydd awdurdod lleol gael "diffiniad ychydig yn ehangach [yn y gofynion] ... i gynnwys statws elusennol, sefydliad di-elw neu fenter gymdeithasol."
- 5.27 Roedd pawb o'r ymatebwyr o Ysgolion yn gwrthwynebu'r gofyniad arfaethedig i gael statws elusennol.
- 5.28 Roedd cynrychiolwyr DSW yn galw am fwy o eglurder ynghylch beth fydd y cynigion am fodel Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau yn ei

olygu i'r trefniadau tendro cystadleuol ac is-gontractio presennol sydd ar waith yn y sector DSW.

5.29 Fe wnaeth ymatebwyr fynegi pryderon y gallai gwneud statws elusennol yn ofynnol olygu:

- Allgáu cyflogwyr sector preifat rhag cyflwyno “dysgu o ansawdd uchel ac sy’n berthnasol i ddiwydiant.”
- Colli darparwyr sy’n cyflwyno cyrsiau mewn crefftiau arbenigol a thechnolegau newydd.
- Colli doniau o’r sector yn sgil y gofyn am fyrddau di-dâl gyda statws elusennol.

Cwestiwn 10: A ddylai Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg fod yn gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn o dan Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau? Os felly, sut gallai fod angen addasu elfen reoleiddio Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau i adlewyrchu'r ffaith nad yw Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg yn darparu dysgu?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	2
AB	7
AB/AU	1
AU	5
Unigol	2
Awdurdod lleol	8
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	13
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	50

Y farn gyffredinol

- 5.30 Roedd llawer yn anghytuno y dylai'r Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg fod yn gymwys am gyllid gan y Comisiwn o dan y Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau.
- 5.31 Dylai cyllid i Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg fod o dan gontract yn unig.

Dadansoddiad sectorol

- 5.32 Roedd yr holl sectorau'n anghytuno ar y cyfan y dylai Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg fod yn gymwys am gyllid gan y Comisiwn o dan Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau. Awgrymwyd y dylai cyllid a ddyfernir i Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg fod o dan gontract yn unig gydag allbynnau mesuradwy penodol yn gysylltiedig â phrosiectau.
- 5.33 Awgrymodd rhai ymatebwyr ysgolion ac AU na ddylai fod angen Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau ar Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg gan nad ydynt yn darparu addysgu, yn wyneb y gofynion rheoleiddiol arfaethedig a nodir ym mharagraff 74 o'r ddogfen ymgynghori.
- 5.34 Awgrymodd CCAUC fod y cwestiwn hwn yn amlygu angen am eglurder ynghylch sail resymegol a gweledigaeth y Comisiwn: "mae hyn yn dibynnu ar weledigaeth a diben y Comisiwn newydd. Os yw'n canolbwyntio ar yr addysgol, yna dylai'r cyllid y mae'r Comisiwn yn ei sianelu trwy Ymchwil ac Arloesi Cymru ar gyfer gweithgaredd ymchwil ac arloesi fod yn ymwneud yn glir â'r diben addysgol hwn".
- 5.35 Teimlai bron bawb o'r ymatebwyr o'r sectorau ysgolion ac awdurdodau lleol na ddylai Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg fod yn gymwys am gyllid gan y Comisiwn o dan Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, a theimlai lleiafrif na ddylai Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg dderbyn dim cyllid gan y Comisiwn.

Cwestiwn 11: Os na ddylid eu hariannu o dan Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, ym mha amgylchiadau a thrwy ba fecanweithiau y dylid eu hariannu? Pa fecanwaith/ fecanweithiau y gellid ei/eu sefydlu i sicrhau defnydd priodol o unrhyw gyllid cyhoeddus y gallai Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg ei gael?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	5
AB/AU	1
AU	6
Unigol	0
Awdurdod lleol	8
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	10
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	43

Y farn gyffredinol

- 5.36 Gallai cyllido Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg o dan Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau arwain at leihad yn y nifer o Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg sy'n derbyn cymorth i ddim ond ychydig, a chyllid craidd yn cael ei leihau ymhellach. Dylid sefydlu mecanwaith ar wahân y tu allan i'r Comisiwn.
- 5.37 Dylid ei sefydlu yn ôl amodau'r contract penodol.
- 5.38 Gellid parhau i ddefnyddio telerau ac amodau'r grant i gefnogi gweithgareddau ymchwil ac arloesi, o dan bwerau cyllid statudol Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 a/neu pwerau i gontractio.

Dadansoddiad sectorol

- 5.39 Roedd ymatebwyr y sectorau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac AB yn teimlo i raddau helaeth y dylai'r mecanweithiau atebolrwydd ar gyfer cyllid Sefydliad Ymchwil a Thechnoleg gael eu penderfynu a'u gosod o fewn telerau pob contract penodol.
- 5.40 Roed llawer o ymatebwyr o'r sector AU yn disgwyl i delerau ac amodau grantiau i barhau i gael eu defnyddio i gefnogi gweithgareddau ymchwil ac arloesi, o dan bwerau cyllido statudol sy'n cyfateb i Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 a/neu bwerau i gontractio. Dylai darparu addysgu/hyfforddiant ddod o dan gyfres o ofynion sylfaenol sy'n berthnasol ar gyfer pob darparwr.
- 5.41 Yn ôl cynrychiolwyr awdurdodau lleol, dylid sefydlu mecanwaith ar wahân y tu allan i'r Comisiwn. Awgrymwyd y dylai adrannau eraill o Lywodraeth Cymru fod yn cyllido swyddogaethau Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg. Dyfyniad a ailadroddid oedd "gallai hyn ddatblygu i fod yn filiynau'n llifo i'r ychydig a chyllid craidd yn cael ei leihau ymhellach. Dylid sefydlu mecanwaith ar wahân y tu allan i'r Comisiwn".
- 5.42 Roedd llawer o ymatebwyr o ysgolion yn ofni y gallai hyn "ddatblygu'n broses gymhleth a lleihau ymhellach fyth effaith cyllid sydd eisoes wed'i gyfyngu". Roeddent yn teimlo y dylid sefydlu mecanwaith ar wahân y tu allan i'r Comisiwn.
- 5.43 Teimlai'r mwyafrif o ymatebwyr DSW yn anghymwys i ateb y cwestiwn hwn; fodd bynnag, roedd awgrym y dylai pynciau ymchwil, unwaith y cânt eu dewis, gael eu diffinio'n glir ac y dylid sefydlu proses dendro er mwyn parhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau, ansawdd a chost.

Cwestiwn 12: Pe bai darparwyr dysgu nad oedd ganddynt statws elusennol yn gallu dod i gytundeb rheoleiddio, sut y gallai hynny fod yn wahanol i elfen reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau a ddefnyddir ar gyfer darparwyr dysgu eraill?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	1
AU	5
Unigol	0
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	8
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	40

Y farn gyffredinol

- 5.44 Dylai Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau fod yn berthnasol i sefydliadau â statws elusennol yn unig.

Dansoddiad sectorol

- 5.45 Roedd rhai cynrychiolwyr y sector AU yn amau'r sail dros eithrio darparwyr o'r gofyniad elusennol, ac ai'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau sy'n cynnig y ffordd orau ymlaen. Awgrymwyd bod model cofrestru yn cynnig sail fwy addawol ar gyfer rheoli perthnasodd na'r model cytundebau deilliannau. Awgrymodd CCAUC mai mater i'r Comisiwn ei benderfynu oedd hyn.
- 5.46 Awgrymwyd hefyd y dylai'r gofynion rheoleiddio ddibynnu ar y math o weithgaredd ac y dylai'r trefniadau i sicrhau cyfres gyson o egwyddorion gael eu rhoi ar waith i bob darparwr sy'n cyflwyno addysg uwch, gyda darpariaeth benodol i'r rheini sy'n derbyn cyllid cyhoeddus neu a ddynodwyd i dderbyn cymorth i fyfyrwyr.
- 5.47 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r sector AB yn anghytuno â'r cynnig, gan ddweud y dylai Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau bod yn berthnasol i sefydliadau â statws elusennol yn unig. Dylai pob darpariaeth arall fod dan gcontract.
- 5.48 Roedd awdurdodau lleol yn cydnabod yr anhawster wrth bennu rheoleiddio sy'n cynnwys darparwyr â statws elusennol a darparwyr â statws anelusennol. Awgrymwyd bod angen mwy o eglurder ar sut y

gallai hyn weithio. Dywedodd un ymatebydd: “byddai angen eglurder ynghylch rôl sefydliadau masnachol sy’n cyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru”.

- 5.49 Roedd ymatebion gan ysgolion yn gyffredinol negyddol wrth ymateb i’r cynnig. Fe wnaeth corff cynrychioli gweithlu nodi na fyddai chweched dosbarth oedolion yn gallu ennill statws elusennol a gallai cysylltu ttwy’r awdurdod lleol fod yn anodd i ysgolion. Teimlai Estyn fod achos cryf dros drin pob darparwr yr un fath, gydag uchafsymiau ffioedd yn eithriad posibl.
- 5.50 Credai’r mwyafrif o ymatebwyr DSW y dylai unrhyw ddarparwr dysgu a gaiff ei reoli gan y Comisiwn (boed hwy’n derbyn cyllid cyhoeddus neu beidio) fod yn destun yr un graddau o drylwyredd a chraff ag unrhyw un arall.

Cwestiwn 13: Ai’r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau yw’r ffordd orau ymlaen? Beth yw’r manteision a’r anfanteision?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	7
AB/AU	2
AU	10
Unigol	0
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	13
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	60

Y farn gyffredinol

- 5.51 Cymysg oedd yr ymateb i’r cynnig, gyda pheth gwrthwynebiad sylweddol i’r model Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau fel y caiff ei ddisgrifio ar hyn o bryd, er y croesewir y canolbwyntio ar ddeilliannau.

Dadansoddiad sectorol

- 5.52 Roedd ymatebwyr sector AU yn fwyaf tebygol o anghytuno â’r cynnig fel ffordd ymlaen. Roedd cryn anfodlonrwydd ynghylch y cynigion a phryder y byddai angen mwy o fanylion i’w deall yn llaw. Yn benodol, nid oedd yn glir sut y byddai’r model Cytundeb Rheoleiddio a

Deilliannau yn eistedd ochr yn ochr â'r Cynllun Ffioedd a Mynediad neu'n ei ddisodli. Roedd cefnogaeth eang i ddull seiliedig ar ddeilliannau, er mwyn sicrhau bod gwiriadau ar waith i gadarnhau cynaliadwydd y system.

- 5.53 Roedd Prifysgol Aberystwyth, er enghraifft, yn pwysu a mesur effeithiolrwydd y ddeialog bresennol gyda CCAUC ac yn awyddus i sicrhau y byddai'r Comisiwn yn parhau i gydweithio â sefydliadau addysgu uwch ar osod targedau yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol.
- 5.54 Nid oedd CCAUC yn ffafrio Cytundeb sengl ar gyfer Rheoleiddio a Deilliannau, gan gredu y dylai swyddogaeth au cytundeb o'r fath fod ar wahân. Awgrymodd y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth y dylai unrhyw fodel Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau gefnogi arloesi ynglŷn â dysgu, addysg a phrofiad y myfyriwr ac y dylai ddefnyddio dadansoddeg i gyfrannu at welliant parhaus.
- 5.55 Roedd yr Asianaeth Sicrhau Ansawdd, fodd bynnag, yn gweld y Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau fel datblygiad cadarnhaol, yn wyneb y profiad o ddefnyddio Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau yn yr Alban. Roedd yr UCU, fodd bynnag, yn anghytuno eu bod wedi gweithio'n dda yng nghyd-destun yr Alban.
- 5.56 Fe wnaeth UCM Cymru leisio cefnogaeth am ddull seiliedig ar ddeilliannau ond mynegodd siom gyda'r prinder manylion a roddwyd.
- 5.57 Roedd cynrychiolwyr y sector AB yn gyffredinol yn cefnogi'r ymateb gan Colegau Cymru a oedd yn awgrymu bod "angen i reolaeth pob perthynas fod yn rhesymol ac yn gymesur â'r elfen o risg sy'n gysylltiedig â darparwyr unigol. Rhaid i'r broses beidio â bod yn rhy gymhleth na dyblygu gweithdrefnau presennol. Ni ddylai'r ddeddfwriaeth arfaethedig gael ei drafftio'n rhy haearnidd." Fe wnaeth ymatebwyr nodi hefyd y byddai'n ddefnyddiol gweld sut beth fyddai drafft o Gytundeb Rheoleiddio a Deilliannau er mwyn ffurfio barn fwy manwl.
- 5.58 Ychwanegodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: "credwn fod gwerth i fodel cytundeb rheoleiddio a deilliannau cyhyd â'i bod digon hyblyg i alluogi ymateb i newidiadau. Prif fantais model o'r fath yw gallu gosod gofynion penodol ar ddarparwyr. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y Coleg a'r Gymraeg."
- 5.59 Galwodd ymatebydd arall ar i Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau fod mor gyson â phosibl ar draws y sector AHO; yn cael eu cyflwyno'r un pryd i bob darparwr ac nid yn cael eu 'treialu', er enghraifft, gyda darparwyr AB.
- 5.60 Roedd barnau cymysg gan gynrychiolwyr llywodraeth leol, gyda rhai yn gweld y newid fel haen ychwanegol o fiwrocratiaeth, tra bod eraill yn croesawu'r cynnig. Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y byddai'n ddefnyddiol cynnwys cyfeiriad at gompactau rhanbarthol fel modd o gysoni darpariaeth chweched dosbarth ac AB yn well mewn ardaloedd o ddarpariaeth gymysg.

- 5.61 Roedd pob ymateb o'r sector ysgolion yn anghytuno â'r cynnig – yn bennaf oherwydd roedd barn nad oedd yn cynnig unrhyw fantais dros y system bresennol ac y byddai'n profi'n fiwrocrataidd ac yn ddianghenraid.
- 5.62 Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr yn gyffredinol yn cefnogi'r cynnig fel modd o sicrhau diwydrwydd dyledus ac o adlewyrchu blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru.
- 5.63 Awgrymodd y mwyafrif o ymatebion y sector DSW fod yn rhaid i'r darparwr dysgu ganolbwyntio ar ddeilliannau ac roedd pawb yn cytuno neu'n fodlon mai'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau sy'n cynnig y ffordd orau ymlaen.

Cwestiwn 14: Pa bwerau y gallai'r Comisiwn fod ei angen i sicrhau bod darparwyr dysgu ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	1
AU	7
Unigol	2
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	13
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	57

Y farn gyffredinol

- 5.64 Roedd dal cyllid yn ôl yn cael ei weld fel y pŵer eithaf, ond fel dewis olaf yn unig.
- 5.65 Roedd rhywfaint o bryder ynghylch sut byddai'n gweithredu i chweched dosbarth ysgolion.

Dadansoddiad sectorol

- 5.66 Teimlai ymatebwyr o'r sector AU nad oedd y ddogfen ymgynghori'n nodi'r cynigion o ran pwerau, fel y gellid disgwyl o Ymgynghoriad Technegol. Y farn oedd ei bod yn anodd hefyd gweld sut bydd y Comisiwn yn gweithio'n effeithiol trwy'r awdurdodau lleol i gyflawni eu

dyletswyddau statudol mewn perthynas â chweched dosbarth ysgolion.

- 5.67 Roedd ar un sefydliad eisiau gweld fframwaith perfformiad yn cael ei sefydlu a'i redeg cyn i gosbau am beidio â chydymffurfio gael eu trafod. Roedd CCAUC yn galw am bwerau deddfwriaethol sy'n "glir a hawdd eu gweithredu", gan deimlo bod y cosbau presennol sydd ar gael o dan Ddeddf 2015 yn araf ac yn anodd eu gweithredu.
- 5.68 Roedd ar UCM Cymru eisiau gweld pwerau priodol i sicrhau bod darparwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau ond yn rhybuddio yn erbyn ymyraethau a allai fygwth ymreolaeth sefydliadol neu ryddid academiadd.
- 5.69 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr y sector AB yn gweld cadw cyllid yn ôl fel y prif bŵer cyffredinol sydd ar gael i'r Comisiwn. Roedd Colegau Cymru hefyd yn teimlo y dylai gael y pwerau i gyd-drafod â'r corff llywodraethu a gorfodi dirwyon yn unol â'i ddyletswyddau fel rheoleiddiwr. Roedd un ymateb yn ymwneud â phryder ynghylch y berthynas rhwng y Comisiwn a chweched dosbarth ysgolion o safbwynt pwerau ymyrryd, gan y gallai anallu i ymyrryd danseilio'r model AHO.
- 5.70 Roedd un unigolyn o'r farn y gallai'r pwerau gynnwys cadw cyllid yn ôl yn y dyfodol ac adfachu cronfeydd i alluogi dysgwyr i gael eu trosglwyddo i ddarparwyr eraill, ond yn awgrymu hefyd rhyddhau cyllid ychwanegol i wobrwyo rhagoriaeth.
- 5.71 Roedd ymatebwyr o'r sector awdurdodau lleol ac ysgolion o'r farn y gallai'r trefniadau presennol barhau, lle mae'r Gweinidog o Lywodraeth Cymru'n dirprwyo'r pŵer i awdurdodau lleol i reoli a herio'r gwaith o gynllunio a chyllido darpariaeth ôl-16 yn eu hysgolion. Hefyd, awgrymodd rhai ymatebion ychwanegol o'r sector ysgolion fod rheoleiddio ar gyfer chweched dosbarth ysgolion eisoes yn digwydd trwy'r corff llywodraethu, awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'r farn y gellid defnyddio dad-gofrestru mewn achosion difrifol iawn, ynghylch â dal cyllid yn ôl neu ddirwyon. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio'r un o'r rhain cyn deialog helaeth, a rhybuddion anffurfiol a ffurfiol.
- 5.72 Teimlai Estyn y gallai'r pwerau gynnwys rheoli cyllid, dylanwad dros aelodaeth cyrff gweithredu a llywodraethu a'r hawl / gallu i wneud cais am arolygiad ar unrhyw adeg. Roedd yr NEU yn daer dros sicrhau bod defnyddio unrhyw bwerau yn diogelu dysgwyr a gweithwyr proffesiynol dysgu.
- 5.73 Awgrymodd yr ECITB y dylid mabwysiadu dull cefnogol gan y Comisiwn yn y lle cyntaf i helpu awdurdodau lleol a darpwyr i gyflawni eu hymrwymadau Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau. Pe bai'r dull hwn yn profi'n aneffeithiol yna dylai'r pŵer i ymyrryd yn y ddarpariaeth trwy ddulliau fel archwiliadau ansawdd, cyfyngu ar niferoedd dysgwyr, ac yn y pen draw cadw cyllid yn ôl neu derfynu Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, fod ar gael i'r Comisiwn.

- 5.74 Roedd ymatebion y sector DSW i raddau helaeth yn unol â'r sector AB, y dylai pwerau fod yn seiliedig ar y gallu i gadw cyllid yn ôl ac mewn ardaloedd lle mae methiant cyson i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, yna bydd angen i'r darparwr dysgu wynebu cosbau llymach, gan gynnwys colli statws cofrestredig. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried hyn ond pan mae'r dewisiadau eraill am ddeialog wedi eu dihybsyddu.

Cwestiwn 15: A oes model arall y dylem ei ystyried? Os felly, beth yw'r model hwnnw a beth fyddai'r manteision?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	2
AB	7
AB/AU	1
AU	8
Unigol	0
Awdurdod lleol	8
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	11
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	50

Y farn gyffredinol

- 5.75 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r model presennol, er bod ar rai darparwyr eisiau gweld mwy o fanylion cyn ffurfio barn.

Dadansoddiad sectorol

- 5.76 Fe wnaeth ymatebwyr o'r sector AU fynegi amrywiaeth o farnhau, ond roedd y mwyafrif yn adlewyrchu cryfder canfyddedig y model presennol a'r angen i fabwysiadu golwg hirdymor, gan ffafrio naill ai barhau'r trefniadau presennol neu fabwysiadu model cofrestru. Teimlai amryw o sefydliadau addysg uwch fod y model arfaethedig yn seiliedig ar feddylfryd un-flwyddyn, tra byddai gan y Comisiwn ei hun gynllun pum-mlynedd. Roedd ar Brifysgol Caerdydd eisiau gweld "mwy o gysondeb â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel yr argymhellwyd gan Weingarten".
- 5.77 Ailadroddodd CCAUC y pwynt y dylai cofrestru a deilliannau fod yn ddwy swyddogaeth ar wahân, gan argymhell y dylid gwahanu'r rhain yn gofrestr (i'w ddiweddarau'n flynyddol) a chytundeb deilliannau mwy

hirdymor. Pwysleisiwyd hefyd y byddai cael cofrestr tryloyw o ddarparwyr yn neilltuol o bwysig.

- 5.78 Roedd rhywfaint o bryder bod y newidiadau a gynigir yn rhy drawsffurfiannol a bod hyn yn golygu risg sylweddol i'r ddarpariaeth.
- 5.79 Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys:
- 5.80 Atgynhyrchu model y Bartneriaeth Sgiliau Colegau a Phrifysgolion (CUSP) ledled Cymru i hyrwyddo cydweithio rhwng AU ac AB (a darparwyr eraill).
- 5.81 Mae Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn yn dal i ddysgu o brofiadau yn yr Alban er mwyn sicrhau bod y sefydliadau hyn yn gweithio i'w llawn botensial dros Gymru.
- 5.82 Yn ôl y sector AB, roedd yn anodd ateb heb wybodaeth bellach ar Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, er bod un ymateb yn awgrymu ei fod yn ddull teg cyn belled â bod y model deilliannau yn rhoi ystyriaeth i wahaniaethau sefydliadol a rhanbarthol, gan gynnwys tlodi.
- 5.83 Roedd ymatebwyr o'r sector awdurdodau lleol ac ysgolion yn cytuno i raddau helaeth â chadw'r model presennol ar gyfer chweched dosbarth ysgolion. Roedd amryw yn bryderus ynghylch gorfodi haen newydd o fiwrocratiaeth a fydd yn cynyddu pwysau ar gyllideb addysg sy'n lleihau.
- 5.84 Fe wnaeth Estyn, ynghyd ag eraill, nodi'r angen am sectorau ôl-16 i ddatblygu gwell sgiliau hunan-werthuso sy'n canolbwyntio'n fwy trylwyr ar "ddatblygu dysgwyr sy'n ymgorffori dyheadau Cymru".
- 5.85 Roedd llawer o'r ymatebion DSW yn fodlon gyda'r symudiad tuag at fodel Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau.
- 5.86 Fe wnaeth yr FISSS gynnig model cyfunol lle'r oedd rhywfaint o gyllid cyffredinol yn cael ei ddyrannu yn ogystal â chyllid ynghlwm wrth y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y system ac osgoi unrhyw risgiau i ddarparwyr dysgu.

Cwestiwn 16: Pa wybodaeth am ddarparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi sydd â Chytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a gymeradwywyd y dylai'r Comisiwn ei rhyddhau i'r cyhoedd?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	2
AU	7
Unigol	2
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	10
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	54

Y farn gyffredinol

- 5.87 Roedd cytundeb helaeth ar yr angen i gyhoeddi data llawn yn ymwneud â darparwyr a'u perfformiad yn erbyn targedau.
- 5.88 Mae llawer o wybodaeth eisoes ar gael (StatsCymru, Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ac Unistats).

Dadansoddiad sectorol

- 5.89 Roedd cynrychiolwyr y sector AU yn gyffredinol yn cydnabod yr angen i gyhoeddi gwybodaeth am y sector – gyda'r rhybudd posibl y gallai fod angen i'r wybodaeth hon gael ei gosod yn ei chyd-destun. Awgrymodd Prifysgolion Cymru y dylai'r manylion gynnwys: "pwerau i ddyfarnu graddau, teitl prifysgol, statws rheoleiddio, sut y caiff y darparwr ei gyllido, unrhyw gyrsiau a ddynodwyd yn benodol, cofrestriad cwmni, a statws elusen". Fe wnaeth darparwyr eraill nodi bod eisoes swm sylweddol o ddata ar gael trwy'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ac Unistats.
- 5.90 Roedd cynrychiolwyr sector AB yn cytuno'n fras fod y sector wedi arfer cael deilliannau wedi'u cyhoeddi a'u meincnodi â chystadleuwyr, felly dylai hyn fod ar gael i gymharu. Awgrymodd ColegauCymru "dylai hyn gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) enw'r sefydliad, dyfarniad cyllid, deilliannau disgwyledig, amodau'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, ffrâm amser, manylion dyraniad uniongyrchol lle bo'n berthnasol (ee AU a dosbarthiadau chwech)".

- 5.91 Roedd cynrychiolwyr ysgolion ac awdurdodau lleol yn cytuno'n gyffredinol y dylai'r un graddau o wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd i bob darparwr a chymuned. Roedd cynrychiolwyr y gweithlu yn y sector yn awgrymu y dylai hyn gynnwys deilliannau a chyrchfannau, yn ogystal ag ansawdd addysgu a dysgu a dylai fod mor dryloyw â phosibl.
- 5.92 Awgrymodd Estyn y dylai fod modd o gymharu gwahanol ddarparwyr ar gael i ddysgwyr a rhieni ac y dylai hyn gynnwys: "data deilliannau a chyrchfannau, a gwerthusiadau o ansawdd y ddarpariaeth a chymorth gofal a chanllawiau i ddysgwyr, gwybodaeth ynghylch ffioedd a chostau cyrsiau, ac o bosibl llais/barnau dysgwyr yn ffurf data arolygon".
- 5.93 Roedd y sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cytuno ac yn ychwanegu y dylai'r un graddau o wybodaeth fod ar gael yn gyhoeddus i bob darparwr a chymuned.
- 5.94 Roedd ymateb o'r sector DSW yn nodi mai'r hyn y byddai defnyddwyr yn fwyaf tebygol o fod arnynt eisiau ei wybod fyddai pa gyrsiau / adroddiadau mae'r darparwr wedi eu cyflwyno'n llwyddiannus a beth yw eu graddau llwyddiant. Roedd cytundeb bras y dylai'r wybodaeth gynnwys graddau llwyddiant, cyrchfannau dysgwyr, data cyflogaeth ac enillion a gwybodaeth ar lais y dysgwr a llais y cyflogwr.

Cwestiwn 17: Unwaith caiff ei chymeradwyo, a ddylai rhan reoleiddio'r Cytundeb fod yn barhaol, neu a ddylid ei hailystyried o bryd i'w gilydd? Os felly, pa mor aml y dylid ei hailystyried? Pa mor aml y dylid ailnegodi elfen ddeilliannau'r cytundeb?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	2
AU	8
Unigol	2
Awdurdod Lleol	10
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	10
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	55

Y farn gyffredinol

- 5.95 Gellid adolygu cytundebau rheoleiddio yn flynyddol yn y cylch tair-blynedd cyntaf, tra bod angen i gytundebau deilliannau fod yn eu lle am o leiaf dair blynedd i alluogi sefydliadau i gynllunio'n effeithiol.

Dadansoddiad sectorol

- 5.96 Teimlai cynrychiolwyr y sector AU y byddai tair-blynedd fel isafswm yn caniatáu ar gyfer cynllunio ac amser i weld effeithiau mwy hirdymor – yn enwedig ar gyfer rhan ddeilliannau cytundebau. Gallai fod elfennau o ran reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau fod yn destun adolygiad ysgafn yn amlach er mwyn sicrhau bod darparwr yn cadw at safonau ac i newidiadau allanol mwy hirdymor.
- 5.97 Teimlai ymatebwyr o'r sector AB y dylai fod cylch o dair-blynedd o leiaf er mwyn caniatáu ar gyfer cynllunio. Cydnabuwyd gan rai, fodd bynnag, y gallai adolygiadau tymor byrrach fod yn angenrheidiol yng nghamau cyntaf y Comisiwn i addasu os bydd angen.
- 5.98 Roedd y mwyafrif o ymatebion y sectorau awdurdodau lleol ac ysgolion yn canolbwyntio ar ddull mwy byrdymor ac yn cytuno bod adolygiad blynyddol ar gyfer y cylch tair-blynedd cyntaf yn briodol, gyda chytundebau'n cael eu haddasu ar ôl hynny.
- 5.99 Awgrymodd Estyn y gallai tymor adolygu pum-mllynedd fod yn briodol, gyda'r dewis i ddarparwyr alw am adolygiad cynharach lle byddai hyn er budd dysgwyr.
- 5.100 Roedd cynrychiolwyr y sector DSW yn cydnabod y dylid ailystyried adran reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau yn achlysurol, o bosibl wedi'i gydamseru â chylch cynllunio strategol y Comisiwn.
- 5.101 Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr o blaid adolygiadau parhaus a rheolaidd o gytundebau i adlewyrchu cyd-destun cyfnewidiol y cyflwyno.

Cwestiwn 18: Rhowch eich barn am y materion a restrwyd yn adran 'Materion ychwanegol' y papur hwn.

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	2
AB	7
AB/AU	0
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	5
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	7
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	43

Y farn gyffredinol

- 5.102 Roedd llawer o ymatebion yn canolbwyntio ar gydweithio er mwyn sicrhau bod datblygiad Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a threfniadau monitro yn briodol ac er mwyn osgoi dyblygu.

Dadansoddiad sectorol

- 5.103 Fe wnaeth cynrychiolwyr y sector AU gynnig amrywiaeth o ymatebion, yn canolbwyntio ar gydweithio ar bob cam wrth ddatblygu Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a monitro deilliannau. Gwnaeth Prifysgol De Cymru y pwynt: "Yn ein barn ni, nid ymddengys bod rhagor o bwerau i sicrhau bod prifysgolion yn cyrraedd deilliannau y cytunwyd arnynt, yn rhywbeth sydd ei angen na'n ddymunol, ac mae angen i'r Comisiwn osgoi rheoleiddio gormodol ar unrhyw gyfrif".
- 5.104 Awgrymodd y Cydbwyllgor Safonau Gwybodaeth gryfhau'r adran hon trwy gynnwys elfen gwelliant parhaus i wasanaethau, gan alluogi'r Comisiwn i chwarae rhan mewn hyrwyddo gwella a dysgu ar draws y sector. Roedd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn pwysleisio'r cyfleoedd i wneud defnydd o'r wybodaeth fonitro bresennol, fel y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ar gyfer yr ymchwil hwn.
- 5.105 Teimlai cynrychiolwyr y sector AB y byddai ar y Comisiwn angen pwerau priodol i reoli cydymffurfio ac archwilio, gan gynnwys cosbau i'w defnyddio fel ar ateb olaf.
- 5.106 Fe wnaeth ymatebwyr awdurdodau lleol fynegi pryder ynghylch y pentwr o waith a fyddai'n wynebu'r Comisiwn pe monitro pob

darparwr – gan awgrymu y gallai fod gan y consortia rhanbarthol rôl i'w chwarae yn hyn.

- 5.107 Roedd ymatebwyr o'r sector Ysgolion yn gyffredinol wrthwynebus i'r cynigion yng nghyd-destun dosbarthiadau chwech; gan awgrymu: "mae'r cynigion yn gwbl anaddas ar gyfer chweched dosbarth ysgolion. Maent yn cynrychioli ymateb anghymesur i fynd i'r afael â'r angen am newid sy'n ddianghenraid yn wyneb graddau'r goruchwyllo a'r atebolrwydd a orfodir eisoes ar ysgolion".
- 5.108 Roedd ar Estyn, fodd bynnag, eisiau dysgu mwy am y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer monitro effaith Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau.
- 5.109 Teimlai darparwyr DSW yn gyffredinol fod eu sector eisoes yn destun prosesau rheoli contractau yn rheolaidd ac felly byddent yn cefnogi cael Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau. Roedd pryderon ynghylch yr adnoddau fydd ar gael i gynnal y monitro, fodd bynnag.

6. Trosolwg o ymatebion i adran 4: Cryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio a chyllido

Cwestiwn 19: A ydych chi'n cytuno y dylai swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adrannau 31, 32, 33, 34, 35 a 36 o'r Ddeddf Dysgu a Medrau ddod i ben, ac y dylai'r Comisiwn arfer y swyddogaethau hynny neu swyddogaethau tebyg iawn iddynt?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	5
AB	7
AB/AU	2
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	9
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	13
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	6
Cyfanswm	62

Y farn gyffredinol

- 6.1 Roedd cytundeb cyffredinol gyda'r cynnig i drosglwyddo pwerau, gyda'r amod y dylai Gweinidogion gadw'r hawl i ymyrryd mewn amgylchiadau eithriadol.

Dadansoddiad sectorol

- 6.2 Roedd ymatebwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn rhanedig eu barn gydag un cefnogi'r cynigion i drosglwyddo pwerau a'r llall yn erbyn.
- 6.3 Roedd cyfranwyr AU yn cytuno â throsglwyddo'r pwerau presennol yn achos y sector AB, er y nodwyd y byddai'r dyletswyddau gorfodol ynglŷn ag AB a chweched dosbarth ysgolion yn golygu ymrwymadau sylweddol o ran adnoddau. Roedd rhai pryderon ynghylch ymestyn unrhyw drosglwyddo pwerau i AU, gan y teimlid y byddai'n tanseilio Deddf 1992. Awgrymwyd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru angen y pŵer i gadarnhau neu wrthod cynllun y Comisiwn pe bai'r pwerau hyn yn cael eu trosglwyddo.
- 6.4 Roedd ymatebwyr AB yn cytuno'n gyffredinol y dylid trosglwyddo'r swyddogaethau hyn yn llawn i'r Comisiwn, er mwyn sicrhau cysondeb

ar draws y sector. Teimlai un, fodd bynnag, y byddai'n fwy priodol dirprwyo pwerau i'r Comisiwn yn hytrach na'u trosglwyddo mewn cyfraith.

- 6.5 Roedd cynrychiolwyr sector Awdurdodau Lleol ac Ysgolion yn anghytuno'n gyffredinol â'r cynnig – byddai'n well ganddynt fod y Gweinidog yn cadw'r swyddogaethau hyn. Fe wnaeth yr NASUWT yn benodol leisio amrywiaeth o bryderon yn ymwneud â chymorth i chweched dosbarth ysgolion, cyllid ar sail deilliannau a'r costau i awdurdodau lleol o weithredu'r cynigion.
- 6.6 Roedd Estyn yn cefnogi cydgrynhoi pwerau i'r Comisiwn gan awgrymu: "Mae'n sicr fod angen mwy o gydlyniaeth ynghylch cyllid i ddosbarthiadau chwech. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru'n cyllido chweched dosbarth ysgolion mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, mae rhai yn cyllido cyrsiau, awdurdodau eraill yn cyllido rhaglenni dysgu, ac eraill yn cyllido yn ôl niferoedd."
- 6.7 Roedd darparwyr DSW yn gryf o blaid trosglwyddo dyletswyddau a phwerau i'r Comisiwn, yn unol â chymryd cyfrifoldeb ros gynllunio a cyllido'r ddarpariaeth ar draws y sector AHO.

Cwestiwn 20: A ydych chi'n credu y dylai Gweinidogion Cymru gadw rôl yn y broses o gynllunio, darparu a chyllido addysg a hyfforddiant 16-19 ac ôl-19? Os felly beth ddylai'r rôl honno fod?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	7
AB/AU	2
AU	9
Unigol	3
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	13
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	63

Y farn gyffredinol

- 6.8 Y farn gyffredinol oedd fod rôl strategol i Lywodraeth Cymru, ond na ddylai beryglu rôl y Comisiwn yn ei ddyletswyddau.

Dadansoddiad sectorol

- 6.9 Roedd ymatebwyr AU yn cytuno i raddau helaeth y dylai Gweinidogion Cymru gadw “rôl o roi cyngor a chanllawiau ar sail tystiolaeth” ond roeddent yn gwrthwynebu unrhyw gamau a fyddai’n peryglu’r berthynas hyd-braich bresennol gyda darparwyr neu’n peryglu annibyniaeth academiaidd neu sefydliadol. Fodd bynnag, roedd cytundeb gyda’r cynigion gyda’r mesurau diogelu a ddarperir gan Ddeddf 1992.
- 6.10 Roedd cyfranwyr AU yn gyffredinol wrthwynebus i rôl gan Weinidogion yn yr ystyr y byddai’n dyblygu pwerau’r Comisiwn, yn hytrach na goruchwyllo a chraffu ar y Comisiwn ei hun: “Rhaid peidio â chael unrhyw ddyblygu rhwng rôl Llywodraeth Cymru a rôl y Comisiwn newydd. Oni bai bod rheswm da, dylai goruchwyliaeth a chraffu Llywodraeth Cymru ar y Comisiwn (gan gynnwys cymeradwyo ei gynllun strategol) roi rôl ddigonol mewn cynllunio.”
- 6.11 Teimlai un darparwr fod lle i Weinidogion Cymru gynnal rôl gymeradwyo gyffredinol, ac felly yn cadw atebolrwydd yn y pen draw.
- 6.12 Roedd ymatebwyr o’r sectorau awdurdodau lleol ac ysgolion yn cytuno ar y cyfan fod rôl amlwg i Weinidogion Cymru gymeradwyo cyllid a chynnal atebolrwydd a chysondeb y Comisiwn a darparwyr. Teimlai rhai o gynrychiolwyr y sectorau y gallai Gweinidogion Cymru drefnu bod diogelu yn erbyn ymyrraeth gan adrannau Llywodraeth Cymru gyda’u blaenoriaethau eu hunain ac roedd un awgrym y dylai rhai elfennau o gyllid gael ei neilltuo er mwyn sicrhau “economi gymysg o ddarpariaeth” ar draws sectorau.
- 6.13 Awgrymwyd hefyd y gallai Gweinidogion Cymru drefnu cysylltiadau ag addysg cyn-16, gan sicrhau cynllunio, darparu a chynghor a chanllawiau ar gyfer llwybrau ôl-16. Teimlai Estyn y gallai fod yn briodol i Weinidogion “gynnal rôl yn ymwneud â roi cymeradwyaeth derfynol i naill ai gau chweched dosbarth presennol mewn ysgol neu greu darpariaeth chweched dosbarth newydd”.
- 6.14 Teimlad cynrychiolwyr DSW yn gyffredinol oedd “os yw’r Comisiwn yn mynd i fod yn gyfrifol am gynllunio a chyllido darpariaeth ar draws y sector AHO, yna dylid trosglwyddo’r rolau hyn iddo.”

Cwestiwn 21: A ydych chi'n cytuno y dylid creu'r un pwerau, fwy neu lai, ar gyfer y Comisiwn newydd â'r pwerau o dan adrannau 65 a 66 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ynghyd â'r pwerau yn adrannau 86 ac 87 o Ddeddf Addysg 2005?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	1
AU	8
Unigol	1
Awdurdod lleol	8
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	12
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	52

Y farn gyffredinol

- 6.15 Roedd barn fwyafrifol y dylid creu'r un pwerau, fwy neu lai.

Dadansoddiad sectorol

- 6.16 Teimlai ymatebwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned i raddau helaeth y dylid creu'r un pwerau, fwy neu lai, er bod un ymatebydd yn cymedroli hyn trwy gyfeirio at adran 66(1) ar ymgynghori ac yn dweud "dylid ymgymghori hefyd â'r darparwyr addysg perthnasol, ynghyd â chynrychiolwyr cyflogwyr priodol".
- 6.17 Fel o'r blaen, roedd ymatebwyr AU yn gyffredinol wrthwynebus i unrhyw weithredu a fyddai'n peryglu'r berthynas hyd-braich bresennol gyda darparwyr neu'n peryglu annibyniaeth academaidd neu sefydliadol. Roedd rhai cwestiynau ynghylch y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac Ymchwil ac Arloesi Cymru, a fyddai â phwerau tebyg o ran cyllido ymchwil. Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw gyfeiriad penodol at Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn y cynigion (a arferai gael ei gyllido gan CCAUC).
- 6.18 Roedd cyfranwyr AB yn cytuno â'r cynnig, gyda rhai'n ychwanegu y dylid cynnwys cyrff (a chyflogwyr) AB mewn unrhyw ymgynghoriad o fewn adran 66(1).
- 6.19 Roedd ymatebwyr o ysgolion ac awdurdodau lleol yn rhanedig rhwng cefnogi a gwrthwynebu creu'r un pwerau, fwy neu lai; fodd bynnag ni wnaeth y mwyafrif ymhelaethu ar eu safbwynt na'i esbonio. Roedd ar

un ymatebydd o'r sector Ysgolion eisiau tynnu sylw at yr angen i'r Comisiwn fonitro effeithiolrwydd yr ardoll Prentisiaethau wrth ddiwallu anghenion cyflogwyr a darpar brentisiaid.

- 6.20 Roedd tua hanner yn fras o ymatebwyr DSW yn cefnogi'r cynnig, gyda'r gweddill yn honni eu bod yn anghymwys i ateb y cwestiwn.

Cwestiwn 22: A ydych chi'n cytuno y dylid disodli adran 68 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 â phŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddyrannu cyllid i'r Comisiwn ar gyfer pob darpariaeth ôl-16? Oes yna elfennau penodol y dylid ystyried eu cynnwys neu beidio â'u cynnwys fel rhan o'r pŵer newydd hwn?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	7
AB/AU	2
AU	8
Unigol	1
Awdurdod lleol	7
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	12
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	53

Y farn gyffredinol

- 6.21 Roedd cefnogaeth gyffredinol i drosglwyddo'r pwerau presennol, ond nid i unrhyw newidiadau a allai effeithio ar y berthynas hyd-braich gyda darparwyr AU fel y nodir yn Adran 68.

Dadansoddiad sectorol

- 6.22 Roedd darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn rhanedig eu barn ar y cwestiwn hwn. Roedd y rheini a oedd yn erbyn y syniad o Adran 68 yn cael ei ddisodli â phŵer newydd yn ymwneud â holl ddarpariaeth ôl-16 yn bryderus y byddai'n creu haen arall o fiwrocratiaeth.
- 6.23 Roedd ar ymatebwyr AU yn gyffredinol eisiau gweld yr un pwerau sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd i ddyrannu cyllid i CCAUC yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i gyllido'r Comisiwn. Yn ogystal, sicrhau y dylai unrhyw bŵer i orfodi telerau ac amodau

ymwneud â defnydd y grant cyllid yn unig ac nid â chronfeydd eraill. Roedd cefnogaeth i symrlwydd a natur lefel-uchel Deddf 1992 a galwad ar i hyn cael ei gynnal. Roedd hefyd rhywfaint o ansicrwydd sut y bydd trosglwyddo pwerau yn gweithio gyda Chytundebau Rheoleiddio a Deilliannau fel y cynigiwyd, gyda galwad am fwy o eglurder ynghylch y cysylltiad arfaethedig rhwng cytundebau deilliannau a chyllid.

- 6.24 Roedd cyfranwyr AB yn cytuno â'r cynnig, heb unrhyw alwadau penodol am gynnwys na phaidio â chynnwys dim.
- 6.25 Roedd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru'n gwrthwynebu'r cynnig, gan nodi ofnau o fiwrocratiaeth ychwanegol a thraul ar adnoddau. Roedd eraill yn mynegi pryder am y goblygiadau i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.
- 6.26 Roedd cynrychiolwyr Ysgolion bron yn unfrydol yn gwrthwynebu'r cynigion, ar y sail y gallent arwain at leihad yn y cyllid i bob dysgwr mewn darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion. Roedd un ymatebydd yn bryderus ynghylch i ba raddau y byddai cydweddu rhwng cynlluniau sgiliau a chyflogaeth blyneddol Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a darpariaeth chweched dosbarth ysgolion ar lefel awdurdod lleol. Fe wnaeth Estyn godi pryder bach ynghylch cyllid ar gyfer darpariaeth AU heb ei ragnodi, a gaiff ei gyflwyno i raddau helaeth gan SAB a'i gyllido trwy eu dyraniad ar hyn o bryd.
- 6.27 Roedd y cynrychiolwyr DSW i gyd yn cytuno â'r cynnig.

Cwestiwn 23: A ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru neilltuo elfennau penodol o fewn cyfanswm y grant sydd ar gael i'r Comisiwn ar sail y math o ddarpariaeth i'w gyllido?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	8
AB/AU	2
AU	8
Unigol	1
Awdurdod lleol	8
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	10
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	54

Y farn gyffredinol

- 6.28 Barnau cymysg ar y cynnig, gydag awydd i gynnal y trefniadau presennol ar y naill law a barn y dylai cyllid gael ei arwain gan alw ar y llaw arall.

Dadansoddiad sectorol

- 6.29 Roedd sefydliadau addysg uwch yn gyffredinol gefnogol o'r cynnig, yn enwedig o safbwynt neilltuo rhwng cyllid AB ac AU. Nid oedd CCAUC yn cytuno'n gyffredinol â neilltuo, ac eithrio rhywfaint o neilltuo cychwynnol i gefnogi ymchwil wrth i'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi sefydlu'i hun. Fodd bynnag, roedd o'r farn mai mater i'r Comisiwn, ac nid i ddeddfwriaeth, oedd neilltuo, ac y byddai angen gallu newid dros amser a bod yn ymatebol i flaenoriaethau sy'n newid.
- 6.30 Roedd y mwyafrif o gyfranwyr AB yn gwrthwynebu neilltuo gan Lywodraeth Cymru ar y sail mai mater i'r Comisiwn ddylai penderfynu. Roedd rhai'n cefnogi graddau cychwynnol o neilltuo gan Lywodraeth Cymru, hyd nes bydd y Comisiwn wedi ennill ei blwyf. Teimlai'r rheini a oedd o blaid y byddai'n sicrhau y caiff cyllid digonol ei ddyrannu i'r amrywiol is-sectorau AHO.
- 6.31 Roedd cynrychiolwyr ysgolion ac awdurdodau lleol ar y cyfan yn erbyn unrhyw newidiadau i'r dyraniad presennol o gyllido ac felly'n croesawu cadw neilltuo ar gyfer eu sector. Roedd Estyn yn daer dros gynnal hyblygrwydd y Comisiwn ac felly ymatebolrwydd darparwyr ac o'r herwydd yn rhybuddio yn erbyn neilltuo rhy haearnaidd.
- 6.32 Roedd un ymatebydd awdurdod lleol yn cytuno â'r cynnig ond roedd arno eisiau bod yn glir a fyddai cyd-drafod digonol gyda rhanddeiliaid cyn gwneud dyraniadau, gydag unrhyw newidiadau'n cael eu cyflwyno'n raddau er mwyn osgoi dadsefydlogi'r ddarpariaeth.
- 6.33 Roedd cynrychiolwyr DSW ar y cyfan yn anghytuno â'r cynnig, ar y sail y dylai cyllid gael ei arwain gan alw. Teimlai un ymatebydd, fodd bynnag, y gellid gwneud hyn o fewn cyllideb neilltuedig ar gyfer y sector.
- 6.34 Roedd sylwedwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn gyffredinol yn cefnogi elfen o neilltuo gan Lywodraeth Cymru; fodd bynnag, ychwanegodd un ymatebydd: "Byddem yn bryderus pe bai hyn yn cael gwared ar fesurau diogelu a chyllid o feysydd fel dysgu oedolion yn y gymuned. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am eglurder ynghylch y rôl a'r flaenoriaeth a roddir i ddysgu oedolion gan y Comisiwn."

Cwestiwn 24: A ydych chi'n cytuno y dylid rhannu'r symiau a neilltuir ar lefel addysg bellach/addysg uwch er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r Comisiwn, ond gan gydnabod ein bod yn cynnig y dylai cyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â chyllid addysg bellach gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn newydd? Nid oes cyfatebiaeth mewn perthynas ag addysg uwch.

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	8
AB/AU	1
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	3
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	42

Y farn gyffredinol

- 6.35 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig gyda rhai amodau – yn enwedig ynghylch rôl a chyfrifoldebau'r Comisiwn. Roedd rhywfaint o bryderon ynghylch y goblygiadau i ddysgu oedolion.

Dadansoddiad sectorol

- 6.36 Roedd ymatebwyr AU yn croesawu'r syniad o rywfaint o sicrwydd mewn cyllid ar gyfer darparwyr AB ac AU i ganiatáu ar gyfer cynllunio. Mynegwyd nodyn o rybudd o ran y risgiau a achosir gan unrhyw leihad i gyllidebau AU a hefyd yr angen i gynnal buddsoddiad mewn ymchwil ac arloesi. Roedd cefnogaeth i weithredu argymhellion adolygiad Diamond er mwyn cynnal cystadleurwydd Cymru mewn addysg ac ymchwil. Teimlai CCAUC, fodd bynnag, mai mater i'r Comisiwn ei benderfynu oedd hyn.
- 6.37 Roedd cynrychiolwyr AB a DOyG yn cefnogi neilltuo (am gyfnod cyfyngedig) ond yn wylidwrs o golli amddifyniad a cyllid ar gyfer DOyG. Roedd ar Golegau Cymru eisiau eglurder ar rôl y Comisiwn mewn perthynas â DOyG, gydag awydd i weld "gwahaniaethu rhwng uwchsgilio a dysgu pellach oedolion, a ddylai fod yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn, a dysgu oedolion gyda chenhadaeth gymdeithasol, er mwyn eu cynnwys ac ennyn eu diddordeb, yn brif swyddogaeth."

- 6.38 Roedd un ymatebydd unigol yn amau'r cysyniad o reoli cyllid yn wahanol ar wahanol lefelau a chynigiodd y dylai'r model cyllido flaenoriaethu dysgu sy'n gysylltiedig â gofynion yr economi.
- 6.39 Roedd ymatebwyr awdurdodau lleol yn gyffredinol yn cefnogi'r cynnig, tra bod cynrychiolwyr y sector ysgolion yn pwysleisio'r farn na ddylid trin ysgolion yn yr un ffordd ag AB.
- 6.40 Roedd Estyn yn cefnogi'r dull cyffredinol o weithredu neilltuo ond yn teimlo y dylid rhoi ystyriaeth i berfformiad ac ansawdd darparwyr DSW. Roedd NEU Cymru yn bryderus ynghych effeithiau gwahaniaethu rhwng cyllid AB ac AU ar y Comisiwn.
- 6.41 Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru'n bryderus nad oedd y cynnig yn "gwahaniaethu'n ddigonol i ganiatáu neilltuo tuag at ddysgu seiliedig ar waith, oni bai mai'r bwriad yw gwneud hyn trwy'r trefniadau comisiynu a chontractio neu trwy AB fod yn brif ddeiliaid contractau DSW." Roedd arnynt eisiau mwy o eglurder ar y mater.

Cwestiwn 25: A ydych chi'n cytuno y dylai fod yna bŵer i Weinidogion Cymru gyllido darpariaeth AHO yn uniongyrchol (gan gynnwys addysg uwch), ar ôl rhannu unrhyw gynigion o'r fath i ddechrau â'r Comisiwn, a lle mae budd mawr i'r cyhoedd o wneud hynny?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	7
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	13
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	58

Y farn gyffredinol

- 6.42 Roedd consensws cryf yn erbyn y cynnig hwn, gan ei fod yn cael ei weld fel petai'n tanseilio'r Comisiwn ac o bosibl yn dargyfeirio arian oddi wrth gyllideb y Comisiwn.

Dadansoddiad sectorol

- 6.43 Roedd y sector AU yn unedig yn eu gwrthwynebiad i'r cynnig hwn, gan weld cyllid fel mater i'r Comisiwn. Gellid gweinyddu cyllid ychwanegol trwy'r Comisiwn i ddiwallu anghenion brys dysgwyr.
- 6.44 Roedd ymatebwyr AB yn unfrydol yn eu gwrthwynebiad i'r cynnig – gan ei weld mewn perygl o achosi dyblygu neu lurgunio blaenoriaethau. Gallai'r Comisiwn hefyd weinyddu cyllid ychwanegol ar gyfer achosion penodol, ond dylai'r rhain gael eu cadw i isafswm er mwyn osgoi biwrocratiaeth ychwanegol.
- 6.45 Roedd ymatebwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn gweld y cynnig fel rhywbeth a oedd yn peryglu'r egwyddor o'r Comisiwn yn gyfrifol am gyllid ac yn gweithredu fel corff hyd-braich. Roedd un ymatebydd yn cydnabod defnyddioldeb pŵer o'r fath fel rhywbeth o fudd mawr i'r cyhoedd.
- 6.46 Teimlai un ymatebydd unigol y byddai achos dros y pŵer, pe bai model cyllido 5-mllynedd heb ddim hyblygrwydd yn cael ei roi ar waith.
- 6.47 Er bod nifer o awdurdodau lleol ac ysgolion yn cydnabod yr angen am gyllid uniongyrchol ar gyfer gofynion yn ystod y flwyddyn er budd cenedlaethol, teimlai eraill y gellid gweinyddu hyn gan y Comisiwn yn hytrach na'n uniongyrchol gan Weinidogion Cymru.
- 6.48 Dangosodd cynrycholwyr cyflogwyr rywfaint o gefnogaeth i'r cynnig, ond dim ond mewn amgylchiadau eithaf gyda thryloywder llwyr.
- 6.49 Roedd cynrychiolwyr DSW yn erbyn y cynnig, gan amau pa amgylchiadau a fyddai'n arwain at angen amdano. Roedd teimlad y gallai unrhyw ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru danseilio'r Comisiwn ac y byddai'n well sicrhau bod y Comisiwn wedi cael ei gyllido'n ddigonol i ymateb i anghenion tymor byr.

Cwestiwn 26: Rydym yn gwybod bod yna ffrydiau cyllid ychwanegol, ar wahân i gyllid craidd. Os ydych yn derbyn cyllid o'r fath, a ydych o'r farn mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am y cyllid rydych yn ei gael?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	8
AB/AU	1
AU	8
Unigol	1
Awdurdod lleol	6
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	7
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	43

Y farn gyffredinol

- 6.50 Roedd gwrthwynebiad cyffredinol i'r cynnig, yn enwedig o ran Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a chyllid tebyg. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn cydnabod sail resymog sianelu cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy'r Comisiwn.

Dadansoddiad sectorol

- 6.51 Roedd y sector AU yn teimlo'n gyffredinol y dylai cronfeydd a ddaw ar hyn o bryd o wahanol feysydd Llywodraeth Cymru gael eu sianelu drwy'r Comisiwn, er y dylai ffynonellau eraill, fel grantiau ymchwil allanol, barhau trwy eu sianelau presennol. Gallai'r hyn a ddaw yn lle cronfeydd strwythurol yr UE yn y dyfodol gael eu sianelu trwy'r Comisiwn gan ddibynnu ar drefniadau manwl eu gweinyddiaeth. Roedd CCAUC yn disgwyl i ffrydiau cyllid ychwanegol gael eu sianelu drwy'r Comisiwn lle bo'n bosibl, ac o leiaf lle'r oedd cyllid yn dod o Lywodraeth Cymru.
- 6.52 Dywedodd ymatebwyr AB eu bod yn tynnu cyllid o amrywiaeth o ffynonellau – y rhani preifat a chyhoeddus. Barn y mwyafrif oedd y byddai symud pob cyllid (yn enwedig Cronfa Gymdeithasol Ewrop) i'r Comisiwn yn ddianghenraid o fiwrocrataidd.
- 6.53 Roedd ymatebwyr DOyG yn awyddus i weld corff i gymryd lle Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru i fod yn gyfrifol am yr olynydd i gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

- 6.54 Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ysgolion yn gyffredinol yn gwrthwynebu'r cynnig, ar y sail y dylai cyllid ychwanegol ddod o dan reolaeth cyrff rhanbarthol fel Cais Twf Gogledd Cymru. Roedd ar eraill, fel yr NEU, eisiau mwy o eglurder ar o le y byddai cronfeydd i gymryd lle rhaglenni'r UE yn dod.
- 6.55 Roedd cynrychiolwyr DSW yn gryf o blaid i holl raglenni cyflogadwyedd a sgiliau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ddod o dan gylch gwaith y Comisiwn. Roedd rhai yn bryderus y gallai rhai rhaglenni a gyllidir sy'n cefnogi dysgu seiliedig ar waith fod y tu allan i gylch gwaith y Comisiwn (Rhaglen Cymru'n Gweithio, er enghraifft).

Cwestiwn 27: A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn yr hyblygrwydd, yn ystod cyfnod trosglwyddo byr, i weithredu gwahanol fodelau cynllunio a chyllido ar draws pob math o ddarparwr ôl-16, gan hyrwyddo ar yr un pryd brosesau alinio a chydgrynhoi wrth i'r Comisiwn aeddfedu?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	10
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	57

Y farn gyffredinol

- 6.56 Roedd ymatebwyr (ac eithrio ysgolion) yn gyffredinol yn cefnogi'r syniad o gyfnod pontio ond roedd gan rai bryderon ynghylch ei hyd.

Dadansoddiad sectorol

- 6.57 Roedd ymatebwyr o'r sector AU yn cefnogi'r angen am hyblygrwydd mewn modelau cynllunio a chyllido ac roedd rhai yn awgrymu y dylai'r rhain barhau y tu hwnt i unrhyw gyfnod pontio, gan rybuddio am yr amser fyddai ei angen i gysoni trefniadau cyllido ar draws sectorau.

- 6.58 Roedd cynrychiolwyr y sector AB yn cydnabod yr angen posibl am gyfnod pontio ond roeddent yn bryderus y gallai fod terfyn amser llym arno. Awgrymwyd hefyd mai mater i'r Comisiwn oedd hyn a'i fod y tu allan y gylch gwaith yr ymgynghoriad.
- 6.59 Roedd ymatebwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'r Undeb Prifysgolion a Cholegau'n cefnogi'r cysyniad o hyblygrwydd yn ystod cyfnod pontio, ond roedd rhai'n bryderus ynghylch y diffiniad o gyfnod "byr".
- 6.60 Roedd Awdurdodau Lleol yn cytuno'n gyffredinol â'r cynnig a'r angen am newid graddol. Roedd cynrychiolwyr y sector Ysgolion yn gyffredinol yn gwrthwynebu'r egwyddor oherwydd canfyddiad o effaith negyddol yn cael ei yrru gan ansicrwydd.
- 6.61 Roedd cynrychiolwyr DSW yn cytuno, gyda'r amod nad oedd y cyfnod pontio yn hirach na hyd y trefniadau presennol. Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr yn gyffredinol yn cefnogi'r cynnig, gyda'r rhybudd fod yn rhaid cynnal buddsoddiad teg mewn sgiliau drwy'r adeg.

Cwestiwn 28: A ddylai fod yna drefniadau trosglwyddo i sicrhau bod cyllid craidd i unrhyw sefydliad yn cael ei ddiogelu i ddechrau? Beth fyddai'n gam diogelu rhesymol?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	2
AU	8
Unigol	1
Awdurdod lleol	9
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	12
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	56

Y farn gyffredinol

- 6.62 Fe wnaeth ymatebwyr leisio cefnogaeth gref i'r cynigion, er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd a allai effeithio ar fuddiannau dysgwyr.
- 6.63 Roedd cyfnod pontio o dair blynedd o leiaf yn cael ei ffafrio.

Dadansoddiad sectorol

- 6.64 Roedd y sector AU yn cytuno â'r angen i ddiogelu ffrydiau cyllido presennol er mwyn cyflawni dyletswyddau i fyfyrwyr ac ar flaenoriaethau polisi ac i gysoni ag argymhellion Adolygiad Diamond. Teimlai CCAUC y dylai'r trefniadau pontio'n cynnig camau diogelu cychwynnol a pharhad i ddarparwyr unigol, ond na ddylai'r graddau hyn o fanylder fod yn y ddeddfwriaeth.
- 6.65 Roedd cynrycholwyr y sector AB yn gweld hyn fel rhywbeth pwysig iawn i sicrhau diogelu wrth bonito, gydag unrhyw effeithiau mawr ar gyllid i gael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod hirach. Dylai'r manylion fod yn fater i'r Comisiwn, fodd bynnag.
- 6.66 Roedd ar awdurdodau lleol ac ysgolion eisiau gweld cyllid craidd yn cael ei ddiogelu, gydag unrhyw newidiadau mewn cyllid yn digwydd o fewn terfyn amser y cytunwyd arno o dair blynedd o leiaf, er mwyn caniatáu ar gyfer newid mewn cynllunio ac er mwyn i ddysgwyr gwblhau cyrsiau.
- 6.67 Roedd ar un darparwr DSW eisiau gweld cyfnod pontio 2-flynedd i bonito dysgwyr a chaniatáu am enillion rhesymol ar fuddsoddiad a ymrwymwyd. Roedd yr ymateb cyffredinol yr un fath ag ar gyfer C27.
- 6.68 Fe wnaeth cynrychiolwyr cyflogwyr fynegi rhywfaint o bryder na fyddai ymrwymiad tebyg yn cael ei wneud ar gyfer dysgu seiliedig ar waith – sy'n gweithredu yn erbyn parch cydradd.

Cwestiwn 29: A ydych chi'n cytuno y dylai fod disgwyl i'r Comisiwn adolygu'n rheolaidd wybodaeth am yr Ardoll Brentisiaethau ac ystyried ffyrdd newydd o ddyrannu cyllid ar draws y system os nad ystyrir bod yr ardoll yn bodloni anghenion cyflogwyr yng Nghymru?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	5
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	8
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	11
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	59

Y farn gyffredinol

- 6.69 Cytunwyd yn gryf y dylai'r Comisiwn adolygu gwybodaeth am yr Ardoll – fel gyda phob gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r sector.

Dadansoddiad sectorol

- 6.70 Roedd ymatebwyr o'r sector AU yn daer bod y Comisiwn yn cynnal persbectif y DU, gan nad oes gae chwarae gwastad rhwng Cymru a Lloegr ar hyn o bryd o safbwynt cyllid ardoll, gan roi SAU Cymru dan anfantais gystadleuol a pheidio â diwallu anghenion cyflogwyr a dysgwyr Cymru. Y teimlad oedd bod angen pwyslais yng Nghymru ar annog cwmnïau bach a chanolig i ymwneud â phrentisiaethau (o bosibl drwy rannu) a chywiro anghydbwysedd rhwng y rhywiau mewn rhai sectorau.
- 6.71 Roedd ymatebion o'r sector AB yn dangos yr angen i'r Comisiwn gadw ar y blaen i ddatblygiadau ar draws pob sector fel rhan o'i gylch gwaith. Roedd ymateb hefyd fod y system bresennol yn ddryslyd i gyflogwyr y DU sy'n wynebu systemau gwahanol yng Nghymru a Lloegr.
- 6.72 Roedd Awdurdodau Lleol ac Ysgolion yn cefnogi'r cynnig an fod canfyddiad ganddynt fod y system yn aneffeithiol yng Nghymru ar hyn o bryd. Dywedodd un: "Dylai system prentisiaethau Cymru adlewyrchu anghenion Cymru ac nid bod yn seiliedig ar bolisi a luniwyd yn San Steffan ar gyfer y DU gyfan. Dylai Llywodraeth Cymru gael y pŵer i ddynodi fframweithiau prentisiaethau. Mae angen i gyflogwyr Cymru sy'n cyfrannu at yr Ardoll Brentisiaethau weld bod eu cyfraniadau'n cael eu defnyddio yng Nghymru."
- 6.73 Roedd Estyn yn cefnogi'r cynnig, gan ychwanegu y gallai gynni "tystiolaeth amserol ac uniongyrchol i gefnogi'r Comisiwn". Rhybuddiodd am y risg o gyflogwyr yn defnyddio'r ardoll i gyllido cymwysteral lefel-isel i sicrhau enillion ar eu cyfraniadau. Roedd UCAC yn anghytuno'n gryf â'r cynnig, gan bwysleisio bod Cymru o dan anfantais o ran yr Ardoll Brentisiaethau ar hyn o bryd.
- 6.74 Roedd cyflogwyr yn gefnogol i'r cynnig. Teimlai CITB y gallai'r Ardoll Brentisiaethau fod yn allweddol wrth helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged prentisiaethau. Un dewis fyddai clustnodi cyfraniadau ardoll er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio ar sgiliau.
- 6.75 Roedd cynrychiolwyr DSW yn cytuno y dylai'r Comisiwn adolygu'r ardoll yn barhaus ac unrhyw ffurf arall o ardoll hyffyrddiant. Fodd bynnag, nodwyd bod mwy na hanner yr holl gyflogwyr sy'n defnyddio prentisiaethau yn gwmnïau bach a chanolig ac felly heb fod yn destun yr ardoll a'i bod yn hanfodol na fydd mater yr ardoll yn effeithio'n niweidiol ar y rhain.

Cwestiwn 30: A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn barhau i gydweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i lywio arlwy darparwyr dysgu?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	5
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	9
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	11
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	59

Y farn gyffredinol

- 6.76 Roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r Comisiwn ymgynghori â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, yn sgil eu dealltwriaeth o anghenion sgiliau rhanbarthol. Fodd bynnag, ni ddylid gosod hyn mewn deddfwriaeth, gan nad yw'r Partneriaethau hyn yn statudol, gallant fod yn gyfyngedig o ran oes ac yn un o nifer o sefydliadau a allai gyfrannu at gynllunio.

Dadansoddiad sectorol

- 6.77 Roedd ymatebwyr o'r sector AU yn cytuno y byddai cydweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fod yn fuddiol, ond na ddylid gosod hyn mewn deddfwriaeth, oherwydd eu natur anstatudol. Nodwyd bod diffyg cynrychiolaeth yng nghanolbarth Cymru ar hyn o bryd. Ni ddylid anwybyddu rôl sefydliadau eraill, fel cymunedau ymchwil AU, oherwydd eu cyfraniad at ddeall newidiadau byd-eang.
- 6.78 Awgrymodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru y gellid rhoi ystyriaeth bellach i'r modd o dderbyn cyngor a chadw hyblygrwydd at y dyfodol, er enghraifft trwy wybodaeth gan y gymuned ymchwil a diwydianwyr.
- 6.79 Fe wnaeth yr Undeb Prifysgolion a Cholegau nodi'r angen i gydbwysu anghenion Partneriaethau Sgiliau Rhanbarth ag anghenion unigolion er mwyn ail-ennyd diddordeb y rhai anodd eu cyrraedd a'r rhai sy'n byw mewn tldi.
- 6.80 Teimlais cynrychiolwyr y sector AB y dylai'r Comisiwn benderfynu ar ei berthnasoedd ei hun gyda chyrff priodol i ddatblygu ei

ddealltwriaeth o'r galw gan gyflogwyr. Roedd atebolrwydd a gwydnwch y Partneriaethau yn cael ei amau gan rai cyfranwyr.

- 6.81 Roedd cynrychiolwyr y sectorau Awdurdurdodau Lleol ac Ysgolion yn cefnogi cydweithio gyda'r Partneriaethau, gan gyfeirio at eu rôl wrth gynnig gwybodaeth leol a chyfeiriad strategol. Awgrymwyd y gellid dod â PSB hefyd i mewn.
- 6.82 Cymysg oedd barnau cynrychiolwyr cyflogwyr, gyda rhai yn gweld y Partneriaethau fel ffordd o osgoi cynllunio o'r brig i lawr, tra bod eraill yn amheus o allu'r Partneriaethau i gyflawni.
- 6.83 Roedd cynrychiolwyr DSW yn cydnabod y berthynas rhwng cyflogwyr a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (er gwaethaf y cyfyngiadau ar adnoddau) ond yn pwysleisio'r angen i gynnwys cwmnïau bach a chanolig yn ogystal â chyflogwyr mawr.

Cwestiwn 31: A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn allu dal yn ôl rhywfaint o'r gyllideb graidd ar gyfer pob sector, i'w ddyrannu ar sail yr argymhellion yn y cynlluniau sgiliau blynyddol?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	5
AB	8
AB/AU	1
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	9
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	11
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	58

Y farn gyffredinol

- 6.84 Roedd pryderon ynghylch dal cyllidebau craidd yn ôl ar sail ymateb i gynlluniau sgiliau blynyddol, o safbwynt gronynnedd y cynlluniau a'r gallu i gael yr adnoddau ar gyfer eu gweithredu.
- 6.85 Roedd pryderon hefyd ynghylch hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol, yn yr ystyr y gallai'r cynlluniau sgiliau gael eu diwygio yn y dyfodol.

Dadansoddiad sectorol

- 6.86 Roedd ymatebwyr o'r sector AU yn gwrthwynebu i hyn gael ei osod mewn deddfwriaeth ac yn teimlo y dylai cyllid craidd AU gael ei ddyrannu yn unol ag Adolygiad Diamond, gydag ymgynghori pellach ar newidiadau arfaethedig i gyllidebau craidd. Dylai'r Comisiwn, fodd bynnag, weithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Lleol, ond ymddiried mewn darparwyr i ymateb i adborth. Roedd hefyd yn cael ei weld fel petai'n gweithio yn erbyn yr egwyddor o ddarpariaeth yn cael ei arwain gan y dysgwr. Ymatebodd CCAUC y gallai hyn achosi problemau i gynaliadwyedd darparwyr dysgu a'u gallu i gynllunio ar gyfer yr hirdymor.
- 6.87 Teimlai cynrychiolwyr y sector AB na ddylai fod angen i weithredu fel hyn pe bai'r Comisiwn yn gweithredu'n effeithiol o fewn cynllun strategol sy'n seiliedig ar bob ffynhonnell, gan gynnwys cynlluniau sgiliau blynyddol. Awgrymwyd hefyd y byddai'r cynnig yn herio ymreolaeth y Comisiwn. Teimlai un ymatebydd y gallai cysylltiadau â chynlluniau sgiliau blynyddol fod yn symudiad negyddol: "Mae AB a DSW wedi dangos eu gallu i addasu eu gwaith yn ôl blaenoriaethau a dylai dyrannu cyllid aros gyda'r Comisiwn i ddiwallu'r gofynion hyn."
- 6.88 Awgrymodd cynrychiolwyr y sectorau awdurdodau lleol ac ysgolion y dylai'r cyllid presennol a ddyrennir i Bartneriaethau Sgiliau Lleol gael ei drosglwyddo i'r Comisiwn. Yn ôl un sylw, lle nad yw cynlluniau'n benodol ar gyfer dosbarthiadau chwech, ni ellid dal ysgolion yn atebol am sut roeddent yn eu cyflawni.
- 6.89 Galwodd yr NEU am gamau diogelu i sicrhau y gallai dysgwyr gael at gyrsiau o ansawdd da yn agos gartref, a allai ofyn am cynllunio a pharhad gweithluoedd.
- 6.90 Roedd ymatebwyr DSW yn cefnogi'r cynnig ond yn amau'r defnydd o "bob sector" yn y cwestiwn ac yn awgrymu y dylai cyfran helaeth o gyllid craidd ar draws yr holl sector AHO fod yn gysylltiedig â galw gan gyflogwyr.
- 6.91 Fe wnaeth cynrychiolwyr cyflogwyr dderbyn yn ofalus y cynnig yn amodol ar hyder fod y cynlluniau sgiliau blynyddol yn seiliedig ar wybodaeth fanwl am y Farchnad Lafur. Roedd arnynt hefyd eisiau eglurder ynghylch y graddau y gellid dal cyllid yn ôl.

Cwestiwn 32: A ydych o'r farn bod y cynigion uchod ar gyfer monitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd ledled y system AHO yn ddigonol ac yn briodol?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	7
AB/AU	2
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	9
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	11
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	56

Y farn gyffredinol

- 6.92 Roedd rhai pryderon ynglŷn â hyn, gyda chonsensws o blaid y Comisiwn yn cadw hyblygrwydd digonol i ddatblygu ac ymgynghori ar fanylion y pwerau.

Dadansoddiad sectorol

- 6.93 Roedd ar ymatebwyr o'r sector AU eisiau gweld mwy o fanylion er mwyn sicrhau y gallai monitro ac effeithiolrwydd fod yn effeithiol. Roedd pwyntiau penodol y mae angen i'r system eu hystyried, megis scyngor Adolygiad Weingarten y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ymyrryd ar lefel sector, gan ganiatáu i ddarparwyr weithredu'n ymreolus o fewn system i sicrwydd ac atebolrwydd, ac nid o dan o reolaeth. Dywedodd UCM Cymru nad oeddent yn credu bod y cynigion yn "ddigon uchelgeisiol".
- 6.94 Ymatebodd y sector AB y byddai'r cynigion yn caniatáu ymreolaeth annigonol i'r Comisiwn. Teimlai rhai ymatebwyr hefyd fod cymhlethdodau ynglŷn â chynllunio nad oedd wedi cael eu hystyried.
- 6.95 Dywedodd un unigolyn fod angen i ffyrdd o fesur perfformiad fod yn fwy penodol er mwyn deall effaith darpariaeth a'r gwerth am arian a gyflawnwyd.
- 6.96 Dywedodd cynrychiolwyr Ysgolion y byddai angen graddau uchel o graffu gan Lywodraeth Cymru ac y byddai angen i berfformiad ac atebolrwydd fod yn dryloyw. Roedd NEU Cymru yn bryderus nad

oedd y cynigion yn ymdrin yn llawn â'r anghysondebau mewn gofynion rheoleiddio ar draws y sector AHO.

- 6.97 Roedd cyflogwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r cynnig, gan bwysleisio'r angen am sicrhau ansawdd a monitro perfformiad, gyda chysondeb ar draws sectorau.
- 6.98 Teimlai cynrychiolwyr DSW fod y cwestiwn yn aneglur: dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru: "gan dybio mai'r hyn a olygir yw, a yw'r cynigion a amlinellir yn 'Y berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu' a 'Cryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio a chyllido' ar draws y system AHO yn ddigonol a phriodol, yna ydynt y maent."

Cwestiwn 33: Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod y system AHO yng Nghymru yn cael ei chynnal mewn ffordd gynaliadwy yn fwy hirdymor?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	7
AB/AU	1
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	9
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	10
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	55

Y farn gyffredinol

- 6.99 Roedd amrywiaeth helaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn gan gynnwys: cynnal gweithgaredd hyd-braich, dysgu oddi wrth gyfuniadau eraill, sicrhau adnoddau digonol, mabwysiadu dull hyblyg o weithredu ac asesiad effeithiol o effaith.

Dadansoddiad sectorol

- 6.100 Roedd ar ymatebwyr o'r sector AU eisiau synnwyr o gymesuredd – gan gyfeirio at y ffaith fod llawer o sefydliadau'n deillio'r rhan fwyaf o'u cyllid o leodd eraill. Mae angen i unrhyw newidiadau gael eu hystyried yng nghyd-destun eu heffaith ar effeithlonrwydd gweithredol

a chynnal gweithrediad cynaliadwy. Roedd un SAU yn gweld sefydlu'r Comisiwn fel cyfle i sicrhau "lefelau digonol a chynaliadwy o gyllid a rheoleiddio cymesur" ar draws y sector AHO. Fe wnaeth CCAUC fynegi cefnogaeth i barhau ad-drefnu'r sector AU yn llai o ddarparwyr cryfach, ynghyd ag argymhelliad i ymestyn hyn i sectorau eraill AHO.

- 6.101 Roedd UCM Cymru yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan bob sefydliad a reoleiddir gan y Comisiwn strwythur wedi ei gyllido'n llawn ar gyfer llais y dysgwyr.
- 6.102 Roedd y sector AB yn pwysleisio'r angen i'r Comisiwn gael ei sefydlu fel corff sy'n wirioneddol hyd-braich, yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth un cyfrannwr dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau diwylliant mewnol effeithiol yn y Comisiwn newydd – gan gyfeirio at wersi i'w dysgu o gyfuniadau eraill yng Nghymru a lleoedd eraill.
- 6.103 Roedd cyflogwyr yn mynegi awydd am fwy o ymwneud gan gyflogwyr ar draws pob sector a meintiau busnes. Galwodd CITB Cymru am system fwy cydlynus i ganiatáu trosglwyddo haws rhwng llwybrau academiaidd a galwedigaethol ac am fframwaith cenedlaethol gyda nodau hirdymor.
- 6.104 Roedd ar gynrychiolwyr DSW eisiau gweld strategaeth AHO yn unol â Hazelkorn. Yn absenoldeb hyn, dywedwyd ei bod yn anodd pennu camau i sicrhau gweithrediad cynaliadwy.
- 6.105 Roedd llawer o gynrychiolwyr y sector ysgolion yn galw am i ddosbarthiadau chwech gael eu gadael o dan eu hawdurdodaeth bresennol. Roedd eraill yn pwysleisio'r angen am drefniadau llywodraethu clir ac archwilio a rheoli cydymffurfiaeth.
- 6.106 Roedd sylwedwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn tynnu sylw at yr angen am fwy o bwyslais ar ddysgu oedolion a sicrhau buddsoddiad mewn addysg ar draws pob oedran.

7. Trosolwg o ymatebion i adran 5: Diogelu buddiannau dysgwyr

Cwestiwn 34: A ydych chi'n cytuno y dylai trefniadau diogelu dysgwyr fod yn gydnaws â chyfres gyffredin o egwyddorion, er mwyn sicrhau cysondeb i ddysgwyr ar draws y sector AHO?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	5
Ysgol	11
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	6
Cyfanswm	64

Y farn gyffredinol

- 7.1 Roedd y pwyslais ar ddiogelu dysgwyr yn cael ei groesawu'n helaeth, ynghyd â'r manteision o sefydlu cyfres gyffredin o egwyddorion i ganiatáu ar gyfer cysondeb a throsglwyddo a dilyniant haws rhwng sectorau.

Dadansoddiad sectorol

- 7.2 Roedd y sector AU yn gyffredinol yn teimlo bod ganddo drefniadau clir a chadarn ar gyfer diogelu dysgwyr os digwydd i raglen, pwnc neu safle gau, ac mae'r rhain yn destun craffu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Dylai trefniadau diogelu adlewyrchu'r graddau o risg i'r myfyriwr a rhoi sylw i ddysgu rhan-amser a dysgu o bell a grwpiau a dan-gynrychiolir. Nodwyd hefyd fod mesurau diogelu eraill yn berthnasol i brifysgolion, gan gynnwys cyfraith defnyddwyr. Roedd CCAUC yn croesawu'r lle amlwg a roddir i ddiogelu dysgwyr yn y ddogfen, gan alw ar i'r egwyddorion fod yn rhai lefel uchel ac sy'n galluogi hyblygrwydd. Wrth fabwysiadu'r egwyddor y dylai trefniadau ganolbwyntio ar y dysgwr, byddai'n gyson gweithedu cyfres gyffredin

o egwyddorion trwy bob lleoliad. Nododd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, fodd bynnag, fod effeithiolrwydd y trefniadau yn bwysicach na cysondeb er ei fwyn ei hun. Roedd UCM Cymru yn cefnogi'n gryf yr egwyddor o hawliau cyfartal i ddysgwyr ar draws pob sector. Fodd bynnag, roeddent yn rhybuddio yn derbyn diffinio egwyddorion yn rhydynn yn gynnar yn y broses ac yn credu ei bod yn hanfodol iddynt gael eu datblygu mewn partneriaeth gyda darparwyr.

- 7.3 Roedd sylwedwyr y sector AB yn cefnogi'r cynnig i sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu trin yn deg. Fe wnaeth un nodi bod "trosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol rhwng sectorau wrth drosglwyddo yn wendid mawr ar hyn o bryd".
- 7.4 Roedd ymatebwyr Awdurdodau Lleol ac Ysgolion yn cydnabod pwysigrwydd y pwnc ac yn awyddus i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu a gweithredu trefniadau diogelu dysgwyr ac unrhyw gamau mewn perthynas â chau cyrsiau. Roedd galwad hefyd am gyfathrebu clir ynglŷn â'r trefniadau o'r cychwyn, ac am weithdrefnau monitro a datrys cwynion gael eu rhoi ar waith. Roedd dwy ysgol yn erbyn y cynigion ar sail biwrocratiaeth ychwanegol. Roedd Estyn yn croesawu cyfres gyffredin o egwyddorion, gan nodi y gall gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn yr un sefydliadau brofi llwybrau gwahanol ar hyn o bryd ar gyfer cwynion neu wrandawriad i'w barn. Nododd un undeb athrawon fod y "pocedi o arferion da" y cyfeirir atynt yn y ddogfen wedi eu tynnu'n bennaf o arferion mewn ysgolion ac roeddent yn gweld hyn fel rhywbeth oedd yn atgyfnerthu dadl dros i ysgolion fod y tu allan i gylch gwaith y Comisiwn.
- 7.5 Roedd grwpiau cyflogwyr yn croesawu'r cynnig, gan ragweld cydgrynhoi darpariaeth yn y sector, a allai effeithio ar ddewis dysgwyr. Roedd teimlad y gallai camau diogelu mwy ffurfiol roi sefydlogrwydd yn ystod cyfnodau o ansicrwydd a diogelu buddsoddiad ariannol. Roedd galwadau am diogelu cyflogwyr (sef iawndal) os digwydd i gwrs gau, a rhywfaint o ddiogelu dysgwyr rhag effeithiau Brexit ar gyflogwyr a darparwyr.
- 7.6 Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr a darparwyr DSW yn croesawu'r cynnig, er bod Gofal Cymdeithasol Cymru'n galw am gamau diogelu ychwanegol i ddysgwyr bregus yn y gymuned AHO, gan fod darparwyr DSW yn mwynhau llai o sefydlogrwydd ariannol na Sefydliadau Addysg Bellach neu Sefydliadau Addysg Uwch.

Cwestiwn 35: A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a awgrymwyd? A oes yna egwyddorion y dylid eu hepgor neu egwyddorion ychwanegol y dylid eu cynnwys?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	1
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	8
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	11
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	55

Y farn gyffredinol

- 7.7 Roedd datblygu cyfres gyson o egwyddorion lefel uchel yn cael ei groesawu, ond dylid penderfynu'n ddiweddarach ar y trefniadau manwl.
- 7.8 Teimlai amryw o ymatebwyr y dylai'r egwyddorion gael eu cydgynhyrchu yn hytrach na'u gosod mewn deddfwriaeth.

Dadansoddiad sectorol

- 7.9 Dywedodd ymatebwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned fod i bob trefniant diogelu dysgwyr fod yn seiliedig ar ganolbwyntio ar y dysgwr; gan adnabod anghenion y mwyaf bregus yn enwedig.
- 7.10 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion gan ymatebwyr o'r sector AU, ar yr amod eu bod yn dal i fod yn rhai lefel-uchel, hyblyg a chymesur. Pwysleisiwyd hefyd fod gan y sector AU eisoes raddau uchel o fonitro a chydymffurfio ac roedd amheuaeth pa haen ychwanegol o gydymffurfio y gallai'r Comisiwn ei hychwanegu at hyn. Galwodd un am "brif egwyddor o ymrwymiad i sicrhau nad yw dysgwr yn cael ei roi mewn sefyllfa waeth nag ar gychwyn astudiaethau pe be newid yn anochel". Roedd UCM Cymru yn dadlau'n gryf dros gynnwys bod yn "ataliol" fel egwyddor allweddol, er mwyn osgoi'r risg

o “fod â chynllun diogelu a allai ddod yn broffwydoliaeth y mae’n ei gwireddu ei hun”.

- 7.11 Teimlai cyfranogwyr y sector AB y dylai hyn fod yn rhan o gynllun corfforaethol y Comisiwn, yn hytrach na’i osod mewn deddfwriaeth, ac y dylid ei ddatblygu trwy weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys gyda dysgwyr. Dylai trefniadau diogelu adlewyrchu’r graddau o risg i’r myfyriwr ac ystyried dysgu rhan-amser a dysgu o bell a grwpiau a dan-gynrychiolir.
- 7.12 Roedd un ymateb unigol yn rhoi pwyslais ar ddiben – sicrhau bod angen rhannu diben unrhyw raglen y cychwynnir arni gyda’r dysgwr “cyn, yn ystod ac fel rhan o’u dysgu”.
- 7.13 Roedd awdurdodau lleol o blaid y cynigion, er bod un ymatebydd yn bryderus ynghylch datrys cwynion, sy’n cynnig cyfle ar hyn o bryd i ddysgwyr gwyno trwy lywodraethwyr ysgol, systemau awdurdodau lleol neu trwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Awgrymwyd nad oedd llawer i’w ychwanegu gan y Comisiwn. Codwyd hefyd yr angen i roi sylw i gamau diogelu presennol o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.
- 7.14 Roedd gan y sector ysgolion farnau cymysg ar y cynnig, gydag un darparwr yn cyfeirio at y graddau cynyddol o graffu sydd eisoes yn effeithio ar ddarparwyr ac yn ofni rhagor o fiwrocratiaeth.
- 7.15 Roedd Estyn yn cefnogi’r cynigion yn gryf.
- 7.16 Roedd un cynrychiolydd cyflogwyr yn rhybuddio y byddai’n ofynnol i bob sefydliad gael Cynllun Diogelu a Chynnydd Dysgwyr, gan awgrymu y gellid cynnwys hyn mewn telerau contractau unigol. Tynnwyd sylw hefyd at yr her o ganfod cyflogwr i gymryd lle un arall i brentis ar ganol ei raglen fel rhywbeth na ellid ei warantu.
- 7.17 Roedd cyrff DSW yn croesawu’r cynnig ond gwnaethant bwynt am brentisiaid nad oedd yn dod o fewn trefniant yn effeithio ar sectorau eraill (fel y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol). Hefyd, o dan brosesau amserau ac effeithiol, adnabuwyd angen am Systemau Rheoli Gwybodaeth effeithiol ar draws sectorau. Roedd cwestiwn hefyd ynghylch pwy fyddai’n gyfrifol am y prosesau apelio o dan gydymffurfio a monitro.

Cwestiwn 36: A ydych chi'n cytuno â'r hyn yr awgrymir ei gynnwys mewn Cynllun Diogelu a Chynnydd Dysgwyr? A oes yna unrhyw beth y dylid ei ychwanegu neu ei hepgor?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	1
AU	8
Unigol	1
Awdurdod lleol	6
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	2
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	44

Y farn gyffredinol

- 7.18 Roedd cytundeb cyffredinol gyda'r cynnwys a awgrymir a'r cysondeb y dylai ei gyflwyno ar draws holl sectorau AHO.
- 7.19 Roedd ar amryw o ymatebwyr eisiau gweld gwell trefniadau rhannu data er mwyn diogelu dysgwyr sy'n pontio rhwng chweched dosbarth ysgolion a darparwyr eraill.

Dadansoddiad sectorol

- 7.20 Teimlai cynrychiolwyr y sector AU fod llawer o'r hyn yr awgrymir ei gynnwys mewn Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr eisoes wedi'i wreiddio mewn polisïau presennol ac roedd pryderon ynghylch cynnydd mewn baich gweinyddol o ganlyniad. Roedd CCAUC o'r farn fod "diogelu dysgwyr a chynnydd dysgwyr yn ddau beth gwahanol ac mae'n debyg nad yw'n briodol eu cyfuno hwy fel hyn". O ran cynnydd – awgrymwyd y byddai defnyddio rhif unigryw'r dysgwr i olrhain myfyrwyr, a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru i gronni credydau, o gymorth gyda hyn. Nodwyd yr angen i olrhain dysgwyr drwy drosglwyddo data yn effeithiol gan amryw o'r ymatebwyr.
- 7.21 Roedd galwad am i gynlluniau cynnydd gael eu defnyddio i hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol i newid darparwyr neu ailgydio mewn dysgu ar

ôl cyfnod o absenoldeb. Roedd y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth yn cynnig gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg a dadansoddeg dysgu mewn Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr, i gael rhybudd cynnar o ymddieithrio neu broblemau iechyd meddwl, er enghraifft.

- 7.22 Roedd ymatebwyr AB yn awyddus i bwysleisio'r angen am gynlluniau cynnydd i ddysgwyr ysgol sy'n symud ymlaen i AB a sectorau eraill – yn enwedig o safbwynt trosglwyddo data. Roedd teimlad hefyd fod y cynnig yn canolbwyntio ar ddiogelu ar draul cynnydd.
- 7.23 Teimlai UCM Cymru fod y cynigion yn rhy haearnidd ar hyn o bryd ac y gellid eu hail-gyflwyno'n well fel disgwyliadau i gefnogi'r egwyddorion. Fel gydag ymatebwyr eraill roeddent yn mynegi angen i gynnwys cyfeiriadau clir at y Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015, rôl yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a chontractau myfyrwyr.
- 7.24 Roedd ar awdurdodau lleol eisiau gweld cynllunio mwy effeithol gan ysgolion yn gweithio gyda darparwyr eraill i gyflawni pontio didramgwydd i ddysgwyr wrth adael ysgol. Roedd un yn gofyn am fwy o groes-gyfeirio at ddeddfwriaeth bresennol, fel Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.
- 7.25 Nid oedd ymatebwyr o Ysgolion yn cytuno â'r angen i chweched dosbarth ysgolion gynhyrchu Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr, er bod un undeb athrawon yn cynnig cynlluniau peilot lleol i ddyfeisio proses ar gyfer diogelu dysgwyr yng nghyd-destun pontio o ysgolion i leoliadau heb fod yn ysgolion.
- 7.26 Roedd Estyn yn amau cynigion i osgoi bod yn rhy haearnidd ynghylch fformatau Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr, gan y gallai'r rhain arwain at ddiffyg tryloywder a chymharedd. Roeddent yn galw hefyd am fethodoleg rhannu gwybodaeth i helpu dysgwyr sy'n trosglwyddo rhwng darparwyr, yn enwedig rhwng ysgolion a lleoliadau eraill.
- 7.27 Roedd un cynrychiolydd cyflogwyr yn nodi diffyg cyfeiriad at anghenion ychwanegol dysgwyr ac yn awgrymu hefyd y dylai cyngor gyrfaedd fod yn annibynnol ar y darparwr.
- 7.28 Roedd un cynrychiolydd Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn croesawu cynnwys arfaethedig y Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr – yn enwedig y sylw i lesiant ac iechyd meddwl ac anghenion dysgwyr anhraddodiadol.

Cwestiwn 37: Pa sanctiynau, os o gwbl, ddylai fod ar gael i'r Comisiwn mewn perthynas â Chynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	2
AU	8
Unigol	1
Awdurdod lleol	4
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	3
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	42

Y farn gyffredinol

- 7.29 Cytunwyd bod angen i ryw fath o arf fod ar gael fel dewis olaf yn achos darparwyr a oedd yn methu â chymryd Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Myfyrwyr o ddifrif. Fodd bynnag, mynegwyd amheuan a fyddai cosbau yn gweithio er budd gorau'r dysgwr.

Dadansoddiad sectorol

- 7.30 Fe wnaeth ymatebwyr o'r sector AU gyflwyno amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn, er mai'r ymateb mwyaf cyffredin oedd anallu i roi sylw heb ddeall pa gosbau oedd yn cael eu cynnig. Credai Prifysgolion Cymru fod y ddeddfwriaeth bresennol yn gosod fframwaith ar gyfer datblygu cynigion.
- 7.31 Awgrymodd CCAUC y dylai darparwyr ymdrin â diogelu dysgwyr fel rhan o ennill cofrestriad, tra dywedodd Swyddfa Dyfarnydd Annibynnol Addysg Uwch: "Yn ein profiad ni mae rhannu a lledaenu arferion da wrth ymdrin â chwynion ymysg darparwyr yn cael effaith cadarnhaol ar brofiadau dysgwyr os yw pethau'n mynd o chwith, sy'n well canlyniad i bawb na dibynnu ar gosbau yn unig."
- 7.32 Roedd UCM Cymru'n adleisio mai fel dewis olaf yn unig y dylid defnyddio cosbau ac y byddai eu defnyddio yn arwydd o bryderon am

anallu'r Comisiwn i weithredu'n gynharach. Roedd angen mwy o eglurder ar sut fath o gosbau a olygir ac nid oedd cosbau ariannol yn cael eu gweld fel ateb priodol.

- 7.33 Teimlai ymatebwyr o'r sector AB y gellid tynnu'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau oddi ar darparwyr â statws elusenol a diweddu contractau i ddarparwyr â statws anelusenol. Roedd un darparwr yn rhybuddio nad yw cosbau "efallai'n briodol bob amser" a bod angen cymryd gofal o ran eu gweithredu. Nodwyd hefyd y gallai costau achosi i ddarpariaeth aneffeithlon barhau'n agored a byddai hynny'n golygu costau ychwanegol i'r darparwr.
- 7.34 Roedd awdurdodau lleol yn credu y byddai'r gallu i ddal yn ôl neu adfachu cyllid yn briodol.
- 7.35 Awgrymwyd y gallai'r Swyddfa'r Dyfarnydd Annibynnol fod â rôl mewn rhoi gwybod i'r Comisiwn am gwynion dysgwyr, ac felly'n gosod sail i weithredu i rwystro'r angen am gosbau.
- 7.36 Roedd rhai cyflogwyr o'r farn y gellid gwahardd cyllid dros dro i unrhyw ddarparwr â threfniadau annigonol ar gyfer Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr. Roedd un, fodd bynnag, yn awyddus i sicrhau y gellir adnabod darparwyr eraill er mwyn osgoi effaith gormodol ar ddysgwyr.

Cwestiwn 38: A ydych chi'n cytuno y dylai'r trefniadau presennol ar gyfer datrys cwynion barhau ar gyfer chweched dosbarth ysgolion?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	1
AU	3
Unigol	2
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	12
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	53

Y farn gyffredinol

- 7.37 Roedd y sector ysgolion o'r farn bod y chweched dosbarth yn ffurfio rhan annatod o ysgolion ac felly y dylent fod yn destun y gyfres gyffredin o drefniadau ar gyfer pob dysgwr o fewn lleoliad yr ysgol.

Barnau eraill

- 7.38 Roedd yr wrth-ddadl gan rai ymatebwyr o sectorau heblaw ysgolion dros gysondeb ar draws holl ddarparwyr AHO, gyda hawl mynediad at gorff annibynnol sengl ar gyfer cwynion.

Dadansoddiad sectorol

- 7.39 Ymatebodd un SAU gyda'r farn nad oedd yn ymarferol gofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol gymryd cyfrifoldeb am chweched dosbarth ysgolion ac felly nid oedd dewis arall ar wahân i'r trefniadau presennol. Teimlai CCAUC na allai awdurdodau lleol gynnig dyfarniad annibynnol i ddysgwyr ysgolion ac y gallai Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol fod yn fwy priodol i'r holl ddysgwyr. Roedd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn cytuno y gallai Swyddfa'r Dyfarnydd Annibynnol fod "yn ymwneud mwy â myfyrwyr ac yn hygyrch i bobl ifanc, ac felly'n fwy priodol". Roedd Swyddfa'r Dyfarnydd Annibynnol yn croesawu'r cynnig i ymestyn ei rôl ond yn amau a ddylai hyn ymestyn i chweched dosbarth ysgolion, drwy fod "y tirwedd presennol eisoes yn gymhleth".
- 7.40 Teimlai UCM Cymru y dylai cysondeb ar draws pob sector fod yn fater o egwyddor, gan amau'n benodol allu awdurdodau lleol i gynnig datrysiadau annibynnol i gwynion.
- 7.41 Roedd ymatebwyr o'r sector AB yn galw am gysondeb ar draws holl ddarparwyr AHO ac yn teimlo y gallai cael gwahanol drefniadau ar waithi ysgolion wneud y Comisiwn yn agored i risg dianghenraid. Pe bai rôl Swyddfa'r Dyfarnydd Annibynnol yn cael ei hymestyn, dylai gynnwys chweched dosbarth ysgolion.
- 7.42 Awgrymodd un ymatebydd unigol gynyddu cylch gwaith yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn "rhoi sicrwydd o system addas i'r diben sy'n adolygu cwynion i gyrraedd canlyniadau cadarn".
- 7.43 Fe wnaeth un awdurdod lleol nodi mai anaml iawn roedd penderfyniadau ac apeliadau wedi digwydd o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, ond pe bai cwynion yn digwydd, dylai fod trefniadau cyffredin ar draws pob sector.
- 7.44 Roedd ymatebwyr o'r sector Ysgolion bron yn unfrydol yn eu teimlad bod y trefniadau presennol yn effeithiol ac y dylent aros yn eu lle, yn wyneb y ddadl fod chweched dosbarth yn rhan annatod o'u hysgolion. Roedd y trefniadau presennol o ran defnyddio cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol a'r Ombwdsmon yn cael eu gweld fel rhai cadarn. Roedd y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig hefyd ar gael ar gyfer achosion perthnasol. Cadarnhaodd Estyn y farn hon, gan

ddweud “mae’r trefniadau ysgolion mewn ysgolion yn gyffredinol briodol ac nid ydynt yn rhoi achos pryder”. Pe gallai’r trefniadau presennol lynu at gyfres o egwyddorion sy’n gyffredin â’r rhai a weithredir gan Swyddfa’r Dyfarnydd Annibynnol mewn sectorau eraill, yna ni fyddai angen newid.

- 7.45 Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr a busnes yn cytuno gyda’r cynnig, er bod Gofal Cymdeithasol Cymru’n galw am ddull system-gyfan lle gallai anghenion dysgwyr a darpar gyflogwyr gael eu gwasanaethu’n well gan ymateb mwy cydweithredol gan ddarparwyr.
- 7.46 Nid oedd ymatebwyr DSW yn cytuno, gan ddweud pe bai Swyddfa’r Dyfarnydd Annibynnol yn ymgymryd â’r rôl o ymdrin â chwynion heb eu datrys, yna dylid cynnwys ysgolion fel rhan o’r sector AHO.

8. Trosolwg o ymatebion i adran 6: Cryfhau llais y dysgwyr a'r gynrychiolaeth a roddir iddo

Cwestiwn 39: A ydych yn cytuno y dylid datblygu egwyddorion a gwerthoedd cyson o ran llais a chynrychiolaeth i ddysgwyr, ac y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr dysgu weithredu yn unol â'r rhain?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	2
AU	10
Unigol	3
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	12
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	64

Y farn gyffredinol

- 8.1 Roedd cefnogaeth helaeth i'r cynnig hwn fel symudiad tuag at mwy o gysondeb ar draws y sector AHO.

Dadansoddiad sectorol

- 8.2 Roedd ymatebwyr AU yn mynegi cefnogaeth gref i'r cynigion, ar sail cysondeb ar draws y sector. Teimlai amryw fod eu sefydliadau yn arwain yn y maes hwn trwy eu harferion presennol ac y gallent gyfrannu at ddatblygu egwyddorion. Mynegwyd rhywfaint o rybudd o ran osgoi pennu gormodol – a'r angen am arloesi a threfniadau sy'n briodol i'r cyd-destun. Roedd UCM yn galw am "gyfres gyson o werthoedd mewn perthynas â chynrychiolaeth prentisiaid a myfyrwyr" ac yn awgrymu y gellid gweld yr egwyddorion fel nodweddion corff cynrychioliadol effeithiol. Roedd UCM Cymru croesawu'r cynigion ac yn pwysleisio'r angen i ddatblygu fframweithiau mewn partneriaeth. Er y derbyniwyd na fyddai'r model AU yn gweithio ar draws pob sector, roedd yn hanfodol y dylai'r trefniadau sicrhau'r un graddau o gynrychiolaeth. Yn achos DSW, awgrymwyd y gellid edrych ar fodelau undebau llafur.

- 8.3 Roedd ymatebwyr AB yn unfrydol yn eu cefnogaeth ac yn galw am gysondeb ar draws pob sector. Teimlai rhai mai mater i'r Comisiwn oedd hyn i ymdrin ag ef. Roedd ar rai ymatebwyr eisiau sicrhau bod egwyddorion a gwerthoedd yn seiliedig ar gyd-drafod ystyrlon a'r defnydd o lais y dysgwr i ddylanwadu ar y ddarpariaeth a gwasanaethau atodol trwy bartneriaeth yn hytrach nag ymgynghori. Codwyd hefyd yr angen i ymateb i ofynion dysgwyr Cymraeg eu haiith wrth ddatblygu'r fframwaith. Teimlad Colegau Cymru oedd "dylai fod yn ofynnol trwy statud i'r Comisiwn ddarparu mecanwaith ar gyfer llais y dysgwr".
- 8.4 Roedd ymatebwyr llywodraeth leol ac ysgolion yn cytuno â'r cynnig ac yn galw am ymgynghori gyda pob grŵp dysgwyr AHO, gan gynnwys dosbarthiadau chwech. Teimlai ysgolion fod y trefniadau presennol mewn dosbarthiadau chwech yn llwyddiannus iawn ac wedi eu gwreiddio fel rhan o drefniadau arolygu Estyn. Fe wnaeth un ymatebydd nodi bod rhai myfyrwyr yn dilyn cyfuniad o ddarpariaeth AB a chweched dosbarth mewn ysgol a bod arnynt angen gallu troi at broses gyffredin ar gyfer cwynion.
- 8.5 Roedd ymatebwyr a oedd yn cynrychioli Cyflogwyr a DSW yn cytuno â'r cynigion.

Cwestiwn 40: A ydych yn cytuno y dylai cynrychiolwyr dysgwyr fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu elfen ddeilliannau'r cytundebau rheoleiddio a deilliannau?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	2
AU	10
Unigol	3
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	12
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	63

Y farn gyffredinol

- 8.6 Roedd cytundeb cryf â'r cynnig hwn, fel modd o ddod â chysondeb ar draws y sector AHO a sicrhau darpariaeth sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.
- 8.7 Roedd rhai Sefydliadau Addysg Uwch yn amau'r defnydd o Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau ond yn cytuno â'r cynnig yn y cyd-destun hwn.

Dadansoddiad sectorol

- 8.8 Yn y sector AU, roedd cwestiynau ynglŷn â'r defnydd o Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, ond cefnogaeth i gynnwys dysgwyr ynddynt lle cânt eu defnyddio. Fe wnaeth yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd nodi mai hyn yw'r arferiad yn yr Alban ac y dylid disgwyl yr un fath yng Nghymru. Roedd CCAUC yn cydnabod pwysigrwydd cyfraniad dysgwyr wrth ddatblygu cytundebau deilliannau ond yn teimlo'r angen ar i'r Comisiwn roi ystyriaeth i'r amrywiaeth ar draws sectorau.
- 8.9 Roedd cynrychiolwyr AB yn cefnogi'r awgrymiadau'n gryf, ond yn mynegi pryder y dylent weithredu yn yr un modd gyda chweched dosbarth ysgolion. Gallai hyn gynnwys ffurfio grwpiau o ddysgwyr o fewn ardal awdurdod lleol i helpu llunio Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau. Mae angen rhoi cefnogaeth i gynrychiolwyr dysgwyr i'w galluogi i gyfrannu'n llawn.
- 8.10 Roedd holl cynrychiolwyr llywodraeth leol yn cefnogi'r cynnig, er bod un yn pwysleisio'r angen i ddysgwyr fod yn gynrychioliadol o'u sectorau, yn hytrach na'u bod yn gweithredu fel unigolion.
- 8.11 Roedd ysgolion yn bryderus ynghylch sut byddai dysgwyr yn cael eu cynnwys mewn cytundebau deilliannau pan fo'r rhain yn cael eu trafod gyda'r awdurdod lleol. Awgrymwyd hefyd y byddai angen i awdurdodau lleol sefydlu cynghorau ieuencid neu feganweithiau tebyg er mwyn sicrhau cynrychiolaeth.
- 8.12 Roedd pawb o gynrychiolwyr Cyflogwyr yn cytuno â'r cynigion.
- 8.13 Roedd ymatebwyr DSW yn cytuno mewn egwyddor ond roedd ganddynt rai amheuan ynghylch dysgwyr yn gallu gweld gwybodaeth fasnachol sensitif wrth ddatblygu cytundebau deilliannau.
- 8.14 Roedd cynrychiolwyr y gweithlu'n cytuno ag egwyddorion a gwerthoedd cynrychioli llais y dysgwr ond roedd amheuan ynghylch y ffordd o wneud hynny. Nid oedd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau wedi eu hargyhoeddi bod y Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau yn effeithiol gan fod ymchwil gan y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) wedi dangos y gall llais y dysgwr fod yn wahanol iawn i lais eraill. Roedd y sector yn gweld llais y dysgwr fel rhywbeth pwysig iawn, ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol eraill fel y gweithlu.

Cwestiwn 41: A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer sicrhau llais a chynrychiolaeth i ddysgwyr? A ydych o'r farn y byddai hyn yn gweithio i bob darparwr dysgu?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	3
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	13
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	64

Y farn gyffredinol

- 8.15 Roedd cytundeb helaeth â'r cynnig hwn, ond rhai pryderon ynghylch cynnal hyblygrwydd wrth gyflwyno ac osgoi dyblygu mecanweithiau sy'n bod eisoes.

Dadansoddiad sectorol

- 8.16 Roedd y sector AU yn croesawu'r cynnig, gydag amryw o ymatebwyr yn cyfeirio at yr arfer presennol mewn SAU. Dylai fod yn berthnasol i bob darparwr AHO, gan gydnabod y byddai'n rhaid i rai darparwyr deithio ymhellach i gyflawni hyn. Cynigiodd CCAUC y dylai'r Comisiwn weithio gydag UCM Cymru a'r NSOA i wreiddio'r egwyddor a'r gwerthoedd ar draws y system. Roeddent hefyd yn cydnabod yr her i ddarparwyr DSW llynu ar fframwaith ffurfiol yn y cyswllt hwn. Roedd cwestiwn ynghylch sut y byddai'r fframweithiau arfaethedig yn gydnaws â threfniadau presennol (megis Wise Cymru, Senedd Ieuenctid, UCM Cymru etc) ac osgoi dyblygu. Fe wnaeth y Cydbwyllgor Safonau Gwybodaeth nodi'r potensial am ddulliau digidol i hyrwyddo cyd-drafod. Roedd UCM Cymru'n croesawu'r cynnig, unwaith eto'n pwysleisio'r angen am ddull partneriaeth o ddatblygu modelau priodol ar gyfer pob sector. Roedd hon yn farn a oedd yn cael ei harddel hefyd gan yr NAHT a oedd yn nodi partneriaeth UCM a CCAUC fel enghraifft o lle mae hyn wedi gweithio orau. Roedd model yr Alban hefyd yn cael ei weld fel enghraifft ddefnyddiol.
- 8.17 Roedd cynrychiolwyr AB yn cytuno â'r angen am fecanwaith ar gyfer llais y dysgwr, gan gynnal yr hyblygrwydd i ymateb i gyd-destun

sector neu ddarparwr. Unwaith eto, roedd rôl UCM Cymru a Wise Cymru yn cael ei gweld fel rhywbeth hanfodol.

- 8.18 Roedd cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol yn gryf o blaid y cynnig, gydag un yn holi pam y dylai myfyrwyr chweched dosbarth gael eu trin yn wahanol oherwydd eu lleoliad.
- 8.19 Roedd mwyafrif o ymatebwyr Ysgolion yn anghytuno â'r cynnig, gan gyfeirio at lwyddiat trefniadau presennol mewn ysgolion a'r anhawster o ddylunio fframwaith sengl sy'n addas i bob sector. Roedd yr NASUWT yn dadlau yn erbyn cynnwys dysgwyr mewn cyrff llywodraethu ysgolion ac yn gweld cynrychiolaeth llais y dysgwr yng nghyd-destun diffyg cyfraniad gan weithluoedd yn y cynigion. Roedd Estyn yn amau'r cynnig ar sail diffyg eglurder ac yn rhybuddio yn erbyn fframwaith cenedlaethol a allai ddyblygu rôl cyrff presennol fel UCM.
- 8.20 Roedd un cynrychiolydd gweithluoedd yn cytuno â'r cynnig am fframwaith cenedlaethol ond roedd yn nodi'r angen am eglurder ynghylch y sefyllfa lle'r oedd hyfforddiant yn cael ei rannu rhwng cyflogwr a darparwr. Fe wnaeth un arall godi'r mater o sicrhau bod dysgwyr llai hyderus neu lai huawdl yn cael eu cynnwys yn y broses gyd-drafod.
- 8.21 Roedd darparwyr DSW yn croesawu'r cynnig ar sail cefnogi parch cydradd gyda lleoliadau an-alwedigaethol.

Cwestiwn 42: Os felly, a ydych o'r farn mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am sefydlu'r fframwaith cenedlaethol arfaethedig?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	2
AU	7
Unigol	2
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	10
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	54

Y farn gyffredinol

- 8.22 Roedd cytundeb bron â bod yn unfrydol gyda'r cynnig hwn, ond neges glir y dylai gael ei gyd-gynhyrchu trwy ymgynghori'n fanwl gyda darparwyr a chynrychiolwyr dysgwyr.

Dadansoddiad sectorol

- 8.23 Roedd ymatebwyr AU yn cytuno â'r cynnig, ond mewn cydweithrediad â chyrff myfyrwyr fel UCM Cymru a Wise Cymru. Roedd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd hefyd yn cynnig rôl i gorff ansawdd annibynnol i gynnal y fframwaith. Yn ôl UCM Cymru, er mai'r Comisiwn ddylai fod yn datblygu'r fframwaith, gallai gwaith gychwyn cyn hynny ymysg darparwyr i osod y sylfeini ar gyfer cynrychioli dysgwyr yn effeithiol.
- 8.24 Roedd cynrychiolwyr y sector AB yn cytuno mai'r Comisiwn oedd yn y sefyllfa orau i sefydlu fframwaith, er bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn nodi'r angen i ddefnyddio profiad partneriaethau sy'n bod eisoes fel Wise Cymru ac i ddysgu o'r profiad yn yr Alban.
- 8.25 Roedd un ymatebydd unigol yn cytuno, ond galwodd am "ganolbwyntio ar ansawdd profiad ac effaith ar wybodaeth / cynnydd", gan awgrymu efallai nad yw'r Comisiwn yn gwneud hyn.
- 8.26 Roedd yr holl gynrychiolwyr Awdurdodau Lleol yn cytuno â'r cynnig, ac eithrio un a deimlai y gallai'r cyfrifoldeb fod gyda sefydliad allanol sydd eisoes yn gweithio ar lais y dysgwr.
- 8.27 Roedd ymatebwyr Cyflogwyr a DSW hefyd yn cytuno â'r cynnig.
- 8.28 Roedd cefnogaeth i'r cynnig yn gyson ymysg cynrychiolwyr y gweithlu hefyd. Rhaid i'r fframwaith cenedlaethol fod yn rhan o'r fframwaith rheoleiddio, ac felly'n caniatáu i'r Comisiwn weithredu os nad yw darparwyr yn cyrraedd y gofynion. Roedd yr NAHT yn cydnabod y byddai ar ddarparwyr angen ymwneud uniongyrchol wrth greu'r fframwaith er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben ym mhob sector.

Cwestiwn 43: A ddylai'r Comisiwn weithio gyda phob darparwr addysgol yng Nghymru i sicrhau bod digon o adnoddau a chefnogaeth i sefydlu cyrff a arweinir gan ddysgwyr i gynrychioli dysgwyr?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	2
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	10
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	55

Y farn gyffredinol

- 8.29 Roedd cytundeb helaeth gyda'r cynnig hwn, er bod cynrychiolwyr y sector Ysgolion yn bryderus am gyllid yn cael ei frigdorri i ariannu cyrff dysgwyr.

Dadansoddiad sectorol

- 8.30 Er bod cefnogaeth helpaeth gan ddarparwyr AU, roedd rhai'n bryderus y byddai hyn yn gofyn am gefnogaeth sylweddol mewn rhai achosion ac y gallent gael eu hanfanteisio trwy gefnogaeth ychwanegol yn cael ei rhoi i ddarparwyr heb ddim hanes a thystiolaeth o gefnogi cynrychiolaeth dysgwyr. Roedd UCM yn gryf o blaid gwneud darparu adnoddau i gyrff myfyrwyr yn un o ofynion rheoleiddio ar draws holl sectorau AHO.
- 8.31 Roedd ymatebwyr o'r sector AB yn cytuno â'r cynnig, gan gydnabod angen am hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer cyd-destunau gwahanol (yn enwedig DSW) ac am gyllid i sicrhau cefnogaeth i'r cynigion.
- 8.32 Roedd gan ysgolion ac awdurdodau lleol bryderon ynghylch sut y byddai cyrff dan arweiniad dysgwyr yn cael eu cyllido (gan osgoi brigdorri), gorfodi biwrocratiaeth ychwanegol a'r ffaith fod llinellau atebolrwydd eisoes yn bod gydag awdurdodau lleol a chonsortia. Roedd Cymwysterau Cymru'n tynnu sylw at yr angen i roi sylw i'r potensial am orgyffwrdd rhwng rolau a chyfrifoldebau amrywiol gyrff yng nghyd-destun cymwysterau.

- 8.33 Roedd y cynrychiolydd gweithlu, yr Undeb Prifysgolion a Cholegau, yn cydnabod bod y term hyfforddiant wedi ei hepgor yn y cynigion, gan awgrymu eithrio darparwyr hyfforddiant o'r Comisiwn. Roeddent yn mynnu bod yn rhaid i hyn beidio â digwydd.
- 8.34 Roedd gan gyrff cyflogwyr farnau cymysg, gydag un yn cytuno i ddarparu adnoddau, ond heb osod meini prawf manwl ac yn arall yn awgrymu bod gan sefydliadau presennol fel Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yr wybodaeth a'r profiad i gefnogi hyn. Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru'n mynegi pryderon ynghylch cynyddu cynrychiolaeth mewn sectorau gyda lefelau uchel o drosiant dysgwyr – yn enwedig mewn DSW.
- 8.35 Roedd darparwyr DSW yn croesawu'r adnoddau a'r cymorth ar gyfer cynyddu cynrychiolaeth dysgwr ond yn lleisio rhai anawsterau ynghych y trefniadau ar gyfer cyrff dysgwyr yn eu sector, oherwydd natur gwasgarog eu dysgwyr mewn gweithleoedd a'r ffaith fod lawer yn unigolion cyflogedig yn hytrach na dysgwyr llawn-amser. Awgrymwyd y gallai cyrff cynrychioli presennol fel UCM ac NSOA sicrhau cynrychiolaeth ar lefel systemau AHO.
- 8.36 Dywedodd un unigolyn y dylai hyn cael ei arwain gan UCM, gydag adnoddau'n cael eu darparu.
- 8.37 Galwodd un ymatebydd DOyG am sefydlu fforwm cenedlaethol i ddysgwyr sy'n oedolion er mwyn sicrhau llais sengl i ddysgwyr sy'n oedolion.

9. Trosolwg o ymatebion i adran 7: Sicrhau a gwella ansawdd

Cwestiwn 44: A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion cyffredinol a gynigir ar gyfer y fframwaith ansawdd? A ddylid ychwanegu, ddileu neu newid rhywbeth?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	2
AB	7
AB/AU	0
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	5
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	7
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	43

Y farn gyffredinol

- 9.1 Cytundeb cyffredinol gyda'r egwyddorion cyffredinol a gynigir ar gyfer ansawdd, er bod barn gref y dylai'r rhain adeiladu ar fframweithiau sy'n bod eisoes, yn enwedig yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn.
- 9.2 Fe wnaeth y sector AU fynegi pryder am y Comisiwn yn gweithredu fel cyllidwr ac fel rheoleiddiwr sicrhau ansawdd ac roedd ganddynt rai amheuon ehangach gyda'r cynigion.

Dadansoddiad sectorol

- 9.3 Roedd cynrychiolwyr y sector AU yn cydnabod y manteision o gael un fframwaith i gynnwys pob darparwr, ond mai mater i'r Comisiwn ac nid deddfwriaeth ddylai'r manylion fod. Codwyd pryder ynghylch bod y fframwaith yn rhy benodol a haearnaidd a diffyg meini prawf allweddol sy'n gyson â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG). Nodwyd bod sefydliadau addysg uwch yn gweithredu trefniadau cydnabyddedig yn y DU ac mewn cyd-destun rhyngwladol, a bod angen iddynt gynnal cymharedd er mwyn cystadlu. Mae hefyd drefniadau sy'n bod eisoes ar gyfer asesu ansawdd allanol gan ddarparwyr dibynadwy. Roedd amryw o ymatebwyr yn amau nifer o bwyntiau manwl gan gynnwys, er enghraifft, yn ymwneud â'r rhyngweithio gyda'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Deilliannau Myfyrwyr, y cysyniadau o werth am arian a deilliannau cynaliadwy a chysondeb gyda sefydliadau addysg uwch Lloegr. Cafodd llawer o'r pwyntiau hyn eu hadleisio gan CCAUC, a wnaeth hefyd godi'r pwynt o sicrhau ansawdd Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg.
- 9.4 Codwyd pryder ynghylch y Comisiwn yn gweithredu fel cyllidwr ac fel rheoleiddiwr sicrhau ansawdd, a allai fygwth annibyniaeth a didieddrwydd penderfyniadau. Awgrymwyd y byddai gosod cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd gydag "asiantaeth sicrhau ansawdd annibynnol a chredadwy yn rhyngwladol" yn helpu ymdrin â hyn.
- 9.5 Roedd UCM Cymru yn croesawu'r cynigion ond yn argymhell bod y Comisiwn yn cael y dasg o ddatblygu'r fframwaith trwy ddull partneriaeth.
- 9.6 Roedd ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynigion gan eu bod yn cydnabod bod angen ffordd newydd o weithredu. Fodd bynnag, mae angen adeiladu ar Estyn, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a fframweithiau eraill sydd â dangosyddion perfformiad allweddol. Dylid datblygu fframwaith i bob sector i gydnabod cefndiroedd amrywiol gwahanol ddarparwyr, gyda chyfres gyffredin o egwyddorion ar draws yr holl sector AHO. Awgrymwyd mai fframwaith yn unig ddylai fod yn ofynnol ar gyfer deddfwriaeth, gyda'r Comisiwn yn cael y dasg o'i ddatblygu.
- 9.7 Roedd ymatebwyr o'r sector Ysgolion yn cytuno gyda'r cynnig, gan alw i fframwaith Estyn gael ei gadw wrth aros am Adolygiad Donaldson.
- 9.8 Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr yn cytuno'n gyffredinol gyda'r cynigion, gan gydnabod yr angen am gysondeb ar draws y sector AHO. Tynnwyd sylw at yr angen am feincnod ansawdd, er mwyn osgoi sefyllfa roedd byddai darparwyr gwael, ond yn gwella, yn ymddangos yn uwch na'r rheini â safon gyson uchel. Roedd y cynnig i ymgynghori â chyflogwyr ar ansawdd y ddarpariaeth yn cael croeso arbennig. Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn tynnu sylw at yr amrywiad presennol mewn ansawdd darpariaeth mewn DSW ac AB, gyda rhai yn "annerbyniol" ac yn croesawu'r rhagolygon o sicrhau cysondeb ar draws pob lleoliad mewn AHO. Pwysleisiwyd na fyddai'r mesur o gynnydd fertigol yn briodol efallai mewn sector lle mae

cynnydd mewn hyfforddiant yn gysylltiedig â dyrchafiad ac felly'n cynnig cyfloedd cyfyngedig yn unig i unigolion.

- 9.9 Roedd cyfranwyr DSW yn cytuno â'r egwyddorion ac mewn datblygu dull gweithredu cyffredin, er y gallai fod yn anodd cyflawni hyn wrth ystyried cryfderau'r trefniadau presennol mewn gwahanol sectorau.
- 9.10 Roedd cynrychiolwyr gweithlu'n cytuno na ddylai'r corff sengl arfaethedig ar gyfer goruchwyllo asesu ansawdd allanol fod yn berthnasol i chweched dosbarth ysgolion. Roedd UCAC yn galw am ymgynghori pellach gyda'r rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys y gweithlu, wrth ddatblygu'r egwyddorion hyn ymhellach oherwydd y manylder a'r eglurder sydd ei angen gyda'r cynigion presennol. Dangosodd yr NASUWT anfonlonrwydd sylweddol gyda'r diffyg ymwneud â hwy wrth greu cynigion o'r fath: "Mae'r Undeb yn gresynu bod y strategaeth hon wedi cael ei hystyred a'i chynnig heb gynnwys, na chyfeirio at, y sefydliadau sy'n cynrychioli'r gweithlu, sef yr undebau llafur cydnabyddedig."

Cwestiwn 45: Ac eithrio chweched dosbarth ysgolion, a ddylai un corff gael ei ddynodi i gynnal asesiad ansawdd allanol o'r holl ddarpariaeth AHO? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb, ac esboniwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol yr ydych yn eu rhagweld.

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	8
AB/AU	2
AU	10
Unigol	1
Awdurdod lleol	5
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	10
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	54

Y farn gyffredinol

- 9.11 Roedd cytundeb gyda'r dyhead am drefniant sengl ar gyfer sicrhau ansawdd, ond y teimlad oedd mai nod tymor canolig oedd hwn ac nid rhywbeth i'w gynnwys mewn statud. Roedd dull partneriaeth yn cynnwys Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn cael ei gefnogi gan lawer.

Dadansoddiad sectorol

- 9.12 Roedd ymatebwyr AU yn wylidwrus o'r awgrym, gan eu bod yn gweithredu yng nghyd-destun y DU ac mewn amgylchiadau gwahanol i ddarparwyr eraill AHO. Byddain angen hefyd i unrhyw gorff sy'n gyfrifol am holl agweddau AHO ymrwymo i safonau Ewropeaidd er mwyn sicrhau cydnawsedd rhyngwladol. Teimlai CCAUC mai dehead hirdymor oedd y cynnig, gan nad oes unrhyw gorff unigol a'r cynhwysedd ar hyn o bryd i weithredu ar gyfer pob darparwr AHO.
- 9.13 Awgrymwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd y gellid, yn y tymor byr, cael mwy nag un corff yn gyfrifol am sicrhau ansawdd trwy weithio ar y cyd o dan un fframwaith ansawdd – a fyddai'n caniatáu i ddosbarthiadau chwech gael eu integreiddio'n fwy effeithiol.
- 9.14 Nid oedd UCM Cymru yn cytuno y gallai un corff gynnal asesiadau ar draws holl ddarparwyr AHO yn y tymor byr. Roedd yn awgrymu cadw rolau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn ac annog cydweithio rhwng y rhain.
- 9.15 Roedd darparwyr AB yn cydnabod yr angen am gysondeb ymysg yr holl ddarparwyr ond teimlo y dylai hyn gynnwys chweched dosbarth ysgolion. Roeddent yn gweld hyn fel rhywbeth a ddylai fod y tu allan i ddeddfwriaeth. Teimlai Grŵp Llandrillo Menai ei bod yn bwysicach sicrhau cysondeb rhwng AB a chweched dosbarth ysgolion na dod ag AB ac AU at ei gilydd. Aethant ymlaen i awgrymu y byddent yn "cefnogi AU yn symud tuag at drefn Sicrhau Ansawdd Addysg sy'n gwneud mwy o ddefnydd o brofiad uniongyrchol ac yn teimlo bod gan hyn y potensial o fod yn drawsffurfiannol i AU".
- 9.16 Roedd un ymatebydd unigol yn holi pam fod chweched dosbarth ysgolion wedi cael eu heithrio o'r cynigion, yn wyneb yr hyn sy'n gyffredin yn y cwricwlwm rhyngddynt a llawer o sefydliadau addysg bellach.
- 9.17 Adleisiwyd hyn gan un awdurdod lleol, a oedd yn amau'r cynnig, yn enwedig yng nghyd-destun awdurdodau lleol sy'n gwbl, neu bron yn gwbl, drydyddol ochr yn ochr ag eraill sy'n cadw chweched dosbarth ysgolion ond gydag addysgu Safon Uwch yn digwydd mewn AB yn ogystal. Ymddangosai fel rhywbeth anghyson i ddysgwyr profi gwahanol drefniadau yn y lleoliadau hyn.
- 9.18 Roedd ymatebwyr o'r sector Ysgolion yn cefnogi'r cynnig i sicrhau cysondeb a chodi hyder y cyhoedd ym mhob lleoliad AHO y tu allan i chweched dosbarth ysgolion. Roedd rhai ymatebwyr awdurdodau lleol yn amau'r dull gwahaniaethol sy'n gosod dysgwyr Safon Uwch mewn gwahanol systemau mewn ysgolion a cholegau.
- 9.19 Roedd UCAC yn gryf yn erbyn unrhyw drefn a oedd yn gwahanu arolygiadau chweched dosbarth oddi wrth y rheini ar gyfer yr ysgol gyfan a hefyd yn amau'r syniad o symud at gorff sicrhau ansawdd a allai fod heb wybodaeth o ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg a chyd-destun hyn.

- 9.20 Nid oedd Estyn yn cytuno â'r cynnig ac yn cyfeirio at ymchwil rhyngwladol a wnaeth ddarganfod un model presennol (ac arbrofol) yn unig o gorff sengl yn defnyddio arolygu i yrru gwelliannau ar draws y sectorau sy'n gynwysedig mewn AHO. Roedd yn cynnig tri dewis: fframwaith ar y cyd rhwng Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, cydweithio seiliedig ar gryfderau sefydliadau unigol neu gontract unigol gyda darparwr craidd yn contractio agweddau o'r sector nad oedd yn eu cyflawni ei hun.
- 9.21 Roedd cyrff cyflogwyr yn rhanedig ar y cynnig, gyda CITB Cymru, FISSS a'r ECITB tra nad oedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweld y cynnig fel rhywbeth ymarferol y tu hwnt i egwyddorion a chytundebau cyffredinol.
- 9.22 Roedd cynrychiolwyr DSW yn cydnabod manteision o ddynodi corff sengl ond yn teimlo ei bod yn her adnabod un corff i fod yn gyfrifol am bob darparwr AHO.
- 9.23 Roedd yr Undeb Addysg Cenedlaethol yn bryderus ynghylch diffyg eglurder yn yr adran hon, gan nad oedd yn glir iddynt hwy a fyddai Estyn yn rhoi'r gorau i arolygu sefydliadau addysg bellach. Gyda phryderon ynghylch corff arall yn cychwyn o'r cychwyn gyda sefydliadau addysg bellach, roedd ar yr undeb eisiau "sicrhau bod unrhyw gorff newydd yn gallu ystyried y swyddogaethau anghyson y mae gwahanol gyrff o fewn AHO o dan ddyletswydd i'w gweithredu".

Cwestiwn 46: A ydych chi'n cytuno â'r diffiniad arfaethedig o wella ansawdd? Os na, beth fydddech yn ei newid?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	1
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	6
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	9
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	51

Y farn gyffredinol

- 9.24 Roedd cytundeb gyda'r diffiniad a gynigiwyd "fel man cychwyn", ond barn y dylai fod o fewn cylch gwaith y Comisiwn i'w benderfynu.
- 9.25 Codwyd nifer o bryderon ynghylch geiriad a phwyslais y diffiniad arfaethedig.

Dadansoddiad sectorol

- 9.26 Roedd ymatebwyr o'r sector AU yn wylidwrus o'r diffiniad o wella ansawdd, gan alw am i ddiffiniad mwy manwl gael ei ddatblygu dros amser gyda phwyslais ar "weithredu strategol bwriadol". Defnyddir disgrifiad o'r fath o fewn diffiniad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a oedd yn cael ei gefnogi'n helaeth gan y sector a hefyd gan UCM Cymru. Roedd amryw o gynrychiolwyr y sector AU o'r farn fod iaith y diffiniad yn betrus a diuchelgais. Roedd teimlad y dylai'r iaith a ddefnyddir fod yn fwy cadarnhaol, gan gynnwys addysgu gan ei bod o fewn gallu darparwyr i ddylanwadu ar addysgu.
- 9.27 Roedd gan yr NEU bryderon bod y diffiniad yn ailadroddus ac roedd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau yn argymhell gweithio mewn partneriaeth gyda gweithwyr proffesiynol addysg i alluogi datblygu diffiniad ymarferol a mynd i'r afael o ddifrif ag ansawdd y ddarpariaeth.
- 9.28 Roedd darparwyr AB yn derbyn y diffiniad cyffredinol ond yn teimlo mai'r Comisiwn ddylai benderfynu ar y manylion. Roedd barn hefyd mai 'improvement' oedd y gair Saesneg priodol i'w ddefnyddio yn y cyswllt hwn, yn hytrach nag 'enhancement'.
- 9.29 Roedd ymatebydd unigol yn cytuno â'r diffiniad, ond yn teimlo bod yr elfen o barhad ar goll, ynghyd â chydabyddiaeth o'r amser a gymerir i ddatblygu systemau o ansawdd uchel trwy wella parhaus a chael gwared ar wastraff.
- 9.30 Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig ond roedd arnynt eisiau cyfeiriad at systemau hunan-wella.
- 9.31 Roedd ymatebwyr Ysgolion yn cytuno'n gyffredinol â'r diffiniad. Ymatebodd Estyn ei fod yn "eang iawn ac yn ymddangos yn briodol".
- 9.32 Nid oedd darparwyr DSW yn gwrthwynebu'r diffiniad arfaethedig, ond roedd arnynt eisiau mwy o gyfeiriad at wella parhaus, er mwyn cydnabod tirwedd cyson gyfnewidiol newid a gwella.

Cwestiwn 47: A ydych chi'n cytuno â chwmpas arfaethedig rôl y Comisiwn mewn perthynas â gwella ansawdd? Os na, beth fydddech yn ei newid?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	1
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	5
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	8
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	51

Y farn gyffredinol

- 9.33 Roedd cefnogaeth i'r Comisiwn chwarae rôl gefnogol ac arweiniol mewn cydweithrediad â chorff hyd braich.
- 9.34 Roedd llawer o ofnau fod y cynigion yn rhy benodol a haearnaidd.

Dadansoddiad sectorol

- 9.35 Teimlai ymatebwyr o'r sector AU fod y cynigion yn rhy benodol a haearnaidd yn eu hagwedd at wella ac y byddai parhau i weithio i gefnogi cyrff ansawdd dynodedig yn fwy priodol. Roedd Prifysgolion Cymru'n galw ar y "Comisiwn i gymryd mwy o rôl o gydgyssylltu yn hytrach nac ymgymryd â'r rôl yn fewnol". Roedd CCAUC o'r farn y dylai'r Comisiwn allu cymryd golwg strategol ar draws y system AHO gyda'r gallu i benderfynu natur ei weithgareddau. Roedd galwad am fwy o eglurder ar sut y byddai'n gwella ansawdd yn cysylltu â'r broses reoleiddio / cofrestru, er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posibl.
- 9.36 Daliai'r UCU mai "sefydlu'r Comisiwn i fethu" fyddai "tybio y bydd Comisiwn newydd yn llwyddo heb bolisi clir gan y Llywodraeth ar rolau a chylch gwaith yr amrywiol rannau o AHO". Roedd UCAC hefyd yn gofyn am eglurder ynghylch cyfrifoldebau chweched dosbarth ysgolion, y berthynas gydag awdurdodau lleol a chonsortia yn ogystal â'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol. Roedd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau hefyd yn holi pam nad oedd gwerthusiad o fethiant ELWa, a oedd yn cynnig y potensial i ddangos gwersi a ddysgwyd ac i osgoi eu hailadrodd. Roedd yr NEU yn bryderus nad

oedd yr adolygiad presennol o gonsortia rhanbarthol wedi cael ei ystyried yn yr ymgynghoriad.

- 9.37 Roedd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn croesawu'r cynnig i ddeddfu cyfrifoldebau am gwella ansawdd, ond yn teimlo hefyd y dylai hyn orwedd gyda "chorff neu gyrff sicrhau ansawdd credadwy yn rhyngwladol". Roedd ymateb arall yn awgrymu defnyddio Advance HE ar gyfer rôl o'r fath.
- 9.38 Roedd darparwyr AB yn cytuno â'r cynnig, gyda'r amod na fyddai'r Comisiwn yn dyblygu gwaith presennol ac yn cymryd cyfrifoldeb am chweched dosbarth ysgolion. Roeddent yn glir hefyd na ddylai unrhyw gyrff anstatudol gael eu nodi yn y ddeddfwriaeth.
- 9.39 Roedd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn bryderus ynghylch eithrio chweched dosbarth ysgolion o rai elfennau o'r cynigion. Roedd eraill yn gefnogol ond roedd arnynt eisiau i ymarferwyr allu chwarae mwy o ran wrth arwain gwelliant addysgol.
- 9.40 Roedd ymatebion o'r sector Ysgolion yn cynnig y dylai fframwaith presennol Estyn barhau i ddarparu gwella ansawdd i'r sector. Pe bai'r Comisiwn yn dal rôl statudol o safbwynt gwella ansawdd, roedd ar y sector angen eglurder ar y cyfrifoldebau am chweched dosbarth ysgolion.
- 9.41 Roedd ymatebwyr DSW yn cytuno y dylai gwella ansawdd fod yn rhan annatod o weithgareddau sicrhau ansawdd ond yn teimlo y dylai'r Comisiwn nodi'r ystod lawn o weithgareddau a fyddai'n berthnasol i bob sector unwaith y byddai'r cynllun strategol cenedlaethol wedi'i gytuno.
- 9.42 Credai Gofal Cymdeithasol Cymru y "dylai unrhyw gymwysterau a gynigir mewn dosbarthiadau chwech ac mewn DSW neu AB gael yr un systemau gwella ansawdd. Ni ddylid newid hyn ar sail lle cynigir y cymhwyster."

Cwestiwn 48: Sut y gellid teilwra rôl y Comisiwn o ran datblygu'r gweithlu i adlewyrchu anghenion gwahanol sectorau a darparwyr?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	8
AB/AU	1
AU	10
Unigol	2
Awdurdod lleol	6
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	8
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	54

Y farn gyffredinol

- 9.43 Roedd ymatebwyr yn awgrymu bod hwn yn rhywbeth i'r Comisiwn ei benderfynu. Nodwyd angen i gyd-drafod â sefydliadau perthnasol fel Cyngor y Gweithlu Addysg ac Advance HE i ddyfeisio model ar gyfer y sector sy'n osgoi dyblygu.

Dadansoddiad sectorol

- 9.44 Roedd ymatebwyr o'r sector AU yn awyddus i sicrhau bod y Comisiwn yn osgoi dyblygu'r gwaith a gyflawnir gan gyrff presennol ac yn canolbwyntio ar lenwi bylchau lle bo'r angen. Roedd Prifysgolion Cymru'n nodi bod gan y Comisiwn gyfrifoldeb am gyllido a rheoleiddio darparwyr dysgu AHO ac na ddylai ymgymryd â datblygu'r gweithlu ei hun. Yn ogystal, gellid defnyddio'r Ardoll Brentisiaethau a delir gan sefydliadau addysg uwch ar gyfer datblygu gweithluoedd. Fe wnaeth Prifysgol Caerdydd nodi angen i gomisiynu ymchwil yn y maes hwn er mwyn osgoi ymdrin â'r gwahanol sectorau fel pe bai pob un yr un fath. Wrth wneud hynny, byddai'r Comisiwn yn gallu adnabod bylchau mewn darpariaeth ac ymwneud yn uniongyrchol â rhannau o'r system nad ydynt yn dod o dan Gyngor y Gweithlu Addysg nac Advance HE. Roedd CCAUC yn cynghori'r Comisiwn i weithio mewn partneriaeth gyda'r ddau sefydliad hyn. Dywedodd Prifysgol Abertawe y byddai ymgymryd â rôl oruchwylio o'r fath yn golygu "cyfle am fwy o berchnogaeth a rheolaeth i sicrhau y gellir cyflawni'r nodau cyffredinol yn effeithiol gan y gweithlu sy'n datblygu."

- 9.45 Dywedodd y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth fod gwella gallu digidol staff yn faes hanfodol o anghenion datblygiadol ar draws y sector AHO – rhywbeth a allai fod yn rhan o'r dull strategol.
- 9.46 Roedd ymatebion o'r sector AB yn awgrymu angen i gyd-drafod â Chyngor y Gweithlu Addysg, cyflogwyr a chyrff perthnasol eraill. Roedd y sector yn cytuno mai rôl i'r Comisiwn benderfynu arni yw hyn.
- 9.47 Roedd ymatebion o'r sector Ysgolion yn cynnwys yr angen i ddeall y modelau dysgu proffesiynol presennol sy'n cael eu cyflwyno ar draws y sector AHO, gan gynnwys y rhaglen arweinyddiaeth ôl-16 genedlaethol a ddarperir gan gonsortia rhanbarthol. Gallai hyn wella'r gallu i drosglwyddo ar draws sectorau. Fodd bynnag, roedd barn gyferbyniol fod y gweithlu addysg ar gyfer cyn-16 ac ôl-16 yr un fath yn ei hanfod ac felly bod angen ystyried trefniadau cyn-16 er mwyn osgoi dyblygu gwaith.
- 9.48 Roedd ymatebwyr DSW yn galw am gysoni datblygiad proffesiynol parhaus ar draws sectorau AHO a mwy o gydraddoldeb mynediad at gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus. Cafodd Cyngor y Gweithlu Addysg ei nodi fel corff delfrydol i berchnogi a monitro safonau proffesiynol. Roedd cefnogaeth i reoleiddio safonau ar gyfer y gweithlu DSW er mwyn gwella statws y proffesiwn.
- 9.49 Yn unol â'r farn gyffredinol, roedd cynrychiolwyr gweithlu yn cydabod bod angen i'r Comisiwn gyd-drafod â'r cyrff perthnasol i adlewyrchu'r anghenion a chyflawni dros y proffesiwn yng Nghymru. Roedd yr NEU yn rhybuddio bod amlinellu rôl y Comisiwn o ran datblygu'r gweithlu yn hanfodol, oherwydd "os nad oes gennym y gweithlu i ddiwallu anghenion dysgwyr ni fydd y Comisiwn yn gallu cyflawni ei amcanion".
- 9.50 Roedd ar gynrychiolwyr cyflogwyr eisiau sicrhau cynnwys cynrychiolwyr diwydiant er mwyn galluogi deialog i greu adlewyrchiad gwirioneddol o anghenion ar gyfer y gweithlu.
- 9.51 Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydnabod y defnyddir y term 'athro' wrth drafod rôl strategol y Comisiwn, eto nid yw hyn yn cyfrif ond am grŵp bach o weithwyr proffesiynol yn nhermau ymarferwyr AHO. Wrth ystyried cludadwyedd staff addysgu rhwng AB ac ysgolion, mae angen ystyried "cymhwysedd galwedigaethol, cymwysterau a phrofiad sy'n cyflwyno dysgu mewn ysgolion".

10. Trosolwg o ymatebion i adran 8: Chweched Dosbarth

Cwestiwn 49: A ddylai fod gan y Comisiwn unrhyw bwerau eraill i ysgogi addasiad a reoleiddir o ran chweched dosbarth, ee cau lleoliad penodol, neu a fyddai negodi Rhan II o'r cytundebau rheoleiddio a deilliannau yn ffordd well o gyflawni hyn?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	0
AB	8
AB/AU	2
AU	4
Unigol	2
Awdurdod lleol	11
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	21
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	7
Cyfanswm	63

Y farn gyffredinol

- 10.1 Roedd ymatebion awdurdodau lleol, DSW ac ysgolion i'r ymgynghoriad yn dweud y dylid cyflawni hyn fel rhan o negodi Rhan II o'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau.

Barnau gwahanol

- 10.2 Roedd ymatebion AB yn dweud y dylai pwerau fod yn gyson ar draws yr holl sector AHO.

Dadansoddiad sectorol

- 10.3 Roedd ymatebwyr AU yn cytuno y dylid cynnwys diwygio chweched dosbarth ysgolion gyda'r diwygiadau arfaethedig ac y dylid cysoni eu rheoleiddio â rhannau eraill o'r sector AHO, gan alluogi tegwch ar draws y sector. Dywedodd Colegau Cymru fod y niferoedd mewn chweched dosbarth ysgolion yn dal i ddisgyn ac na ddylai trefniadau llywodraethu presennol chweched dosbarth fod yn absoliwt gan y byddai hyn yn llesteirio arloesi a newid. Roedd Grŵp Llandrillo Menai o'r farn y dylai'r Comisiwn adolygu darpariaeth ôl-16 rhanbarthol a defnyddio trothwyau mewn Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau i gynnal darpariaeth gynaliadwy, er enghraifft isafswm niferoedd mewn chweched dosbarth fesul canolfan, niferoedd fesul dosbarth.

- 10.4 Roedd gan UCM Cymru nifer o bryderon y gallai'r cynigion greu system ddwy-haen, gan y byddai gan sefydliadau AB ac AU, a darparwyr DSW a DOyG, linell gyswllt uniongyrchol â'r Comisiwn i negodi, trafod a datblygu eu Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, pan na fyddai hyn yn wir am ddarparwyr chweched dosbarth. Gallai hyn o bosibl arwain at ddull gweithredu unffurf o fewn ardal awdurdod lleol, gan weithredu Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau nad yw'n ystyried gofynion penodol sefydliadau a'r amrywiaethau cymdeithasol-economaidd rhanbarthol, a allai yn ei dro niweidio profiad y dysgwr o fewn chweched dosbarth. Fe wnaeth UCM fynegi pryderon hefyd ynghylch gallu awdurdodau lleol i sicrhau adnoddau ar gyfer datblygiad effeithiol Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau.
- 10.5 Roedd awdurdodau lleol yn cytuno'n gyffredinol mai gweithio gyda'r awdurdod lleol trwy drafod Rhan II o'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau fyddai'r ffordd orau ymlaen.
- 10.6 Fe wnaeth y sector godi pryderon hefyd ynghylch yr effaith y byddai cau chweched dosbarth yn ei gael ar ddiwylliant ysgolion ac ar y dysgwyr eu hunain. Cytunwyd y dylai cau chweched dosbarth penodol ddal i fod trwy drafod Rhan II o'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau er mwyn cynnal didueddrwydd.
- 10.7 Roedd cynrychiolwyr gweithlu yn arbennig o llafar ar y pwnc hwn: dywedodd yr undeb Voice fod rhoi pwerau o'r fath i'r Comisiwn yn "gorfodi haen ychwanegol o reoleiddio ac awdurdod dros ysgolion yn ogystal ag awdurdodau lleol a chonsortia". Roedd NASWT yn mynnu bod "datganiad yr ymgynghoriad presennol yn cyflwyno dadl er hwylustod i gefnogi cynnwys chweched dosbarth ysgolion o fewn cylch gwaith y Comisiwn, yn hytrach na gwir adlewyrchiad o ganlyniad yr ymarferiad ymgynghori blaenorol." Roedd yr undeb yn nodi 20 o feysydd yn y ddogfen ymgynghori lle mae amod ynghylch chweched dosbarth ysgolion. Fe wnaeth yr NAHT dynnu sylw at y rheoliadau trefnu ysgolion diweddar sydd yn erbyn cau ysgolion bach gwledig yn wyneb eu heffaith andwyo ar y gymuned ehangach. Nododd yr undeb y gallai chweched dosbarth mewn ysgolion llai gyflawni rôl debyg yn y gymuned leol.
- 10.8 Dywedodd ymatebion Ysgolion na ddylai chweched dosbarth fod yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn, yn wyneb y cymhlethdod iddynt fel sefydliadau. Y teimlad oedd bod awdurdodau lleol mewn sefyllfa well i wneud y penderfyniadau gan eu bod yn deall cefndir eu hysgolion.
- 10.9 Awgrymodd Estyn "fod angen i unrhyw bwerau i ysgogi newid rheoleiddiol o ran chweched dosbarth gael eu pennu'n glir er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a thegwch."
- 10.10 Cynigiodd Cydag y dylid rhoi targedau, trwy'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, i ysgolion unigol ym mhob ardal i gynyddu'r nifer o bynciau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg yn y chweched dosbarth. Roedd ysgolion cyfrwng Gymraeg yn frwd eu cefnogaeth i'r barnau a gyflwynwyd gan Cydag.

- 10.11 Awgrymodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru y dylai'r Comisiwn ymgorffori chweched dosbarth ysgolion rywbryd yn ddiweddarach er mwyn ei alluogi i ganolbwyntio ar feysydd eraill.
- 10.12 Credai cynrychiolwyr DSW y dylai chweched dobarth ysgolion gael eu trin yr un fath â darparwyr eraill ac byddai hyn "yn cael ei gyflawni'n well trwy gytuno, monitro ac adolygu'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau gyda'r awdurdod lleol".

Cwestiwn 50: Pa systemau adrodd ddylai fod yn ofynnol gan yr awdurdod lleol er mwyn dangos ei fod yn defnyddio'r cyllid a roddir ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth yn effeithiol?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	0
AB	8
AB/AU	1
AU	2
Unigol	2
Awdurdod lleol	11
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	15
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	6
Cyfanswm	53

Y farn gyffredinol

- 10.13 Mae ymatebion ysgolion ac awdurdodau lleol yn awgrymu bod systemau eisoes ar waith i ddangos defnydd effeithiol o gyllid ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth.
- 10.14 Roedd ymatebion AB, AU a DSW yn galw am i ofynion fod yn gyson â gweddill y sector AHO.

Dadansoddiad sectorol

- 10.15 Roedd Ysgolion yn cydnabod bod gan awdurdodau lleol eisoes systemau ar waith i fonitro ac adrodd ar ddefnydd effeithiol o gyllid mewn chweched dosbarth ysgolion. Roedd y rhan fwyaf o'r sector yn cytuno na ddylai'r Comisiwn gael unrhyw ran mewn rhedeg na chyllido chweched dosbarth ysgolion. Fodd bynnag, cydnabu un y byddai'n ddefnyddiol i'r Comisiwn gael swyddogaeth gyffredinol o ran dadansoddi data ar gyfer pob darparwr AHO a fyddai'n golygu bod yr

awdurdod lleol yn cyflwyno data ar y nifer staff, dysgwyr, cyrsiau a llwyddiannau dysgwyr.

- 10.16 Roedd ymatebwyr awdurdodau lleol hefyd yn cydnabod bod y systemau hyn eisoes ar waith, fel rhan o system Cynllunio ac Adrodd Awdurdodau Lleol, a chyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru. Roedd Caerdydd yn galw ar i'r holl gyllid gael ei ddychwelyd at awdurdodau lleol, gan nad oedd grantiau ar wahân ar gyfer chweched dosbarth ysgolion yn fodel llwyddiannus. Barn eraill, fodd bynnag, oedd os yw'r Comisiwn yn dosbarthu cyllid, dylai fod yn gyson gyda holl ddarparwyr eraill AHO.
- 10.17 Roedd ymatebion y sector AB yn nodi'r angen i sicrhau bod adrodd yn gyson ac yn gysylltiedig â disgwyliadau o weddill y sector AHO. Roedd y sector AB yn cytuno y dylid egluro'r trefniadau adrodd ar gyfer chweched dosbarth wrth baratoi'r ddeddfwriaeth ac y dylai ysgolion ddatgan cyfrifon ar wahân ar gyfer eu chweched dosbarth. Roedd Coleg Gwent yn cynnig "dylai adrodd fod ar lefel chweched dosbarth unigol a dylai Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau ei gwneud yn ofynnol gwahanu cyllid a chael asesiadau perfformiad ar wahân ar gyfer chweched dosbarth". Roedd Colegau Cymru yn amau'r syniad o'r awdurdod lleol yn cadw canran o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau a gedwir yn ganolog.
- 10.18 Roedd CCAUC yn awgrymu y byddai angen i'r broses cytundebau deilliannau gael ei datblygu rhwng y Comisiwn a phob ysgol (ac nid gyda'r awdurdod lleol). Roedd CCAUC yn awgrymu y dylid dod ag ysgolion i mewn trwy gyfnod pontio priodol. Nid oedd CCAUC yn credu y byddai'r cynigion o "hanner cynnwys" ysgolion yn ymarferol.
- 10.19 Roedd NAHT yn amau cyfeiriadau at ddatblygu partneriaethau cydweithredol o chweched dosbarth ysgolion ac yn mynnu "na ddylai cyfuno a ffedereiddio ddigwydd ond gydag ymgynghori llawn a dim ond os gellir profi mai hyn fyddai â'r mwyaf o fudd i ddysgwyr". Dylai'r awdurdod lleol fod yn gyfrifol hefyd am ddangos tystiolaeth o lefel y cyllid a gaiff ei gadw ac yn union i ba ddiben.
- 10.20 Dywedodd darparwyr DSW y dylai awdurdodau lleol "adrodd yn union yr un ffordd ag elfennau eraill o'r sector AHO".

Cwestiwn 51: A yw rôl y Comisiwn pan ddyfernir bod chweched dosbarth yn destun pryder yn briodol, neu a ddylai fod yn wahanol mewn rhyw ffordd?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	0
AB	8
AB/AU	1
AU	2
Unigol	3
Awdurdod lleol	11
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	14
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	6
Cyfanswm	53

Y farn gyffredinol

- 10.21 Roedd barnau cymysg, gyda galwadau am gysondeb ar draws pob sector gan lawer o'r sector, tra bod cynrychiolwyr ysgolion ac awdurdodau Lleol yn cefnogi cadw'r trefniadau presennol.

Dadansoddiad sectorol

- 10.22 Roedd cynrychiolwyr AB yn galw ar i bwerau fod yn deg rhwng pob darparwr er mwyn sicrhau cysondeb. Awgrymodd Coleg Gwent y pŵer i ddal cyllid yn ôl, a galwodd Grŵp Llandrillo Menai am gryfhau pwerau i gynnwys gosod terfynau amser i welliannau ddigwydd a phwerau i beri cau.
- 10.23 Fe wnaeth CCAUC ailadrodd barn gynharach yn dylai chweched dosbarth ysgolion gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn.
- 10.24 Galwodd UCM Cymru am fframwaith newydd i alluogi'r Comisiwn yn drafod yn uniongyrchol gyda darparwyr chweched dosbarth ar yr un sail â sectorau eraill.
- 10.25 Roedd ymatebwyr awdurdodau lleol yn cytuno'n bennaf y "dylai'r Comisiwn weithio gyda'r Awdurdod Lleol a'r Consortïwm Rhanbarthol i wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau lle nodwyd angen am welliant". Roedd ymatebion eraill yn nodi hyn fel rôl i'r awdurdod lleol gyda chefnogaeth gan gonsortia rhanbarthol, i'w gyflawni trwy Estyn yn unol ag Ysgolion sy'n Peri Pryder.

- 10.26 O fewn y sector ysgolion, y farn gyffredinol oedd bod systemau eisoes ar waith i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ymdrin ag ysgolion a'u cefnogi. Y farn oedd bod haen ychwanegol o fiwrocratiaeth yn ddianghenraid, heb unrhyw fanteision ychwanegol i ddysgwyr, gan fod ysgolion eisoes yn destun craffu trylwyr. Awgrymodd un ysgol y dylid ystyried cylch tair-blynedd cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch effeithiolrwydd.
- 10.27 Rhybuddiodd Estyn am ddyblygu posibl gyda'u trefniadau dilynol presennol a'r angen i gael un neges glir i ysgolion mewn mesurau arbennig.
- 10.28 Roedd cytundeb o fewn y sector DSW fod y lefel arfaethedig o ymyrraeth yn briodol.
- 10.29 Roedd cynrychiolwyr gweithlu yn galw am fwy o eglurder pwerau i ganiatáu pob darparwr i ddeall yr effeithiau posibl ar y darparwr ac ar ddysgwyr.

Cwestiwn 52: A ddylai fod gan y Comisiwn unrhyw bwerau eraill o ran darpariaeth chweched dosbarth?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	0
AB	8
AB/AU	1
AU	3
Unigol	1
Awdurdod lleol	11
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	15
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	6
Cyfanswm	53

Y farn gyffredinol

- 10.30 Nid amlinellwyd pwerau ychwanegol, ond daeth cadarnhad ar draws y sector AHO (ac eithrio ysgolion) y dylai fod cysondeb a chydraddoldeb ar draws y sector.

Barnau gwahanol

- 10.31 Roedd ymatebion gan Ysgolion yn dweud na ddylai'r Comisiwn chwarae unrhyw ran mewn rheoleiddio chweched dosbarth ysgolion.

Dadansoddiad sectorol

- 10.32 Roedd ymatebwyr o'r sector AB yn cydnabod yr angen am gysondeb a thegwch ar draws y sector AHO, gan gynnwys pwerau dros chweched dosbarth ysgolion. Awgrymodd Colegau Cymru, er enghraifft, "dylid ystyried a ddylai'r Comisiwn allu gosod trothwy y gellir ei orfodi'n gyfreithiol ynghylch maint chweched dosbarth er mwyn bod yn gymwys am gyllid." Aeth Grŵp Llandrillo Menai, gan ddweud os na all y Comisiwn dau darpariaeth chweched dosbarth aneffeithiol, yna nid oes reswm dilys dros ei sefydlu.
- 10.33 Roedd Prifysgol Abertawe yn bryderus ynghylch dyblygu darpariaeth gyfrwng Cymraeg ar draws chweched dosbarth ysgolion a sefydliadau addysg bellach, a allai effeithio ar y màs critigol i rai ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- 10.34 Fe wnaeth UCM Cymru godi pryder ynghylch cydraddoldeb darpariaeth ar draws y sector ôl-16, a'r wybodaeth gyfyngedig a roddir ynghylch mecanweithiau a fydd yn helpu myfyrwyr chweched dosbarth i drefnu a datblygu eu haddysg eu hunain.
- 10.35 Roedd ymatebwyr awdurdodau lleol yn cytuno y dylai chweched dobarth ysgolion gael eu trin yn gyfartal, gydag awdurdodau lleol yn cael eu trin yr un fath â cholegau AB. Dylai'r Comisiwn geisio gwellau rhannu arferion a darpariaeth o ansawdd uchel ar draws ffiniau awdurdodau lleol; gan annog sefydlu canolfannau rhagoriaeth o fewn ethos system hunan-wella.
- 10.36 Roedd ymatebwyr Ysgolion yn anghytuno â'r pwerau a awgrymir, gan gynnig na ddylai'r Comisiwn chwarae unrhyw ran mewn rheoleiddio chweched dosbarth ysgolion ar y sail y byddai'n ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth.
- 10.37 Cynigiodd Esgyn y byddai sicrhau ansawdd ar lefel awdurdod lleol yn effeithiol, wedi ei gefnogi gan adroddiad blynyddol o bob chweched dosbarth.
- 10.38 Roedd ymatebwyr y sector DSW yn cytuno â'r farn gyffredinol fod yn rhaid rheoleiddio chweched dosbarth ysgolion yn ôl telerau cymharol â phob elfen arall o'r sector AHO.
- 10.39 Roedd cynrychiolwyr gweithu ar y cyfan yn gwrthwynebu cynnwys chweched dosbarth ysgolion, yn enwedig gallu'r Comisiwn yn ysgogi cau chweched dosbarth. Yn hytrach, dylai pwerau'r Comisiwn ynghylch chweched dosbarth gael eu cyfyngu i argymhellion i awdurdodau lleol, consortia, Estyn a Llywodraeth Cymru. Galwodd UCAC am gymryd gofal, yn wyneb graddau'r diwygio sy'n digwydd o fewn ysgolion dros y blynyddoedd nesaf.

11. Trosolwg o ymatebion i adran 9: Cefnogi a datblygu prentisiaethau yng Nghymru

Cwestiwn 53: A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn chwarae rôl ganolog o ran datblygu Prentisiaethau yng Nghymru? Yn benodol, a ddylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i gyhoeddi Llwybrau Prentisiaeth yn ogystal â Thystysgrifau Prentisiaeth?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	8
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	4
Corff rheoleiddio	5
Ysgol	4
Trydydd sector	0
DSW	6
Cynrychiolwyr gweithlu	2
Cyfanswm	52

Y farn gyffredinol

- 11.1 Roedd cytundeb ar draws y sector AHO y dylai'r Comisiwn chwarae rhan ganolog wrth gyflwyno prentisiaethau Cymreig gan fod hyn yn helpu hyrwyddo cydraddoldeb rhwng yr academiaidd a'r galwedigaethol.
- 11.2 Lle bo anghytundeb, mae'r pryderon yn tueddu i fod ynghylch cwrpas a rôl y Comisiwn.
- 11.3 Roedd amheuan ynghylch ei ailenwi'n 'Llwybrau' gan y gall hyn greu dryswch.

Dadansoddiad sectorol

- 11.4 Roedd ymatebwyr y sector AU yn cytuno y dylai'r Comisiwn chwarae rhan ganolog, gan gynnwys cyllido pob darparwr prentisiaethau yn gyfartal â DSW. Roedd llawer o'r sector AU yn credu ei bod yn bwysig fod cyflogwyr / darparwyr yn cael eu grymuso i ddatblygu Llwybrau Prentisiaethau fel bo'r angen a'r gofyn ar gyfer gweithlu'r dyfodol, ond bod angen hefyd osgoi dyblygu neu ddryswch. Lleisiodd Prifysgol Caerdydd nodyn o amheuaeth a ellid sicrhau y byddai comisiynu llwybrau gan gyrff allanol yn arwain at yr ansawdd gofynnol, ond gan awgrymu hefyd y gallai'r Comisiwn ddefnyddio'r broses ardystio i olrhain deilliannau.

- 11.5 Roedd cytundeb a chefnogaeth ar draws gweddill y sector AHO (AB, DOyG, awdurdodau lleol ac ysgolion) i'r Comisiwn chwarae rôl ganolog yn cyflwyno prentisiaethau Cymreig, gan gynnwys llwybrau a thystysgrifau. Teimlai un ymatebydd fod angen adolygu'r diffiniad o brentisiaethau er mwyn adlewyrchu darpariaeth fel y Prentisiaethau Lefel-uwch neu'r Prentisiaethau Gradd sydd ar eu ffordd.
- 11.6 Roedd Estyn yn cefnogi rôl ganolog y Comisiwn wrth gyflwyno prentisiaethau yng Nghymru ond yn teimlo bod angen ailedrych ar lwybrau prentisiaethau er mwyn sicrhau ansawdd a pherthnasedd.
- 11.7 Awgrymodd Cymwysterau Cymru y gallai newidiadau i arferion yn Lloegr beryglu'r amrywiaeth o ddarpariaeth yng Nghymru a chyfyngu ar gyflwyno cymwysterau newydd. Awgrymwyd y gallai unrhyw symudiad i ddyblygu gwaith y Sefydliad Prentisiaethau yn Lloegr arwain at orgyffwrdd gwrthdrawiadol â Chymwysterau Cymru. Cyflwynodd y corff amrywiaeth o awgrymiadau mewn perthynas â sicrhau newidiadau effeithiol i'r system brentisiaethau.
- 11.8 Roedd y sector DSW yn cytuno'n gyffredinol y dylid cynnwys prentisiaethau yn y Comisiwn, ond trafodwyd faint o rôl y dylai'r Comisiwn ei chwarae. Roedd llawer o fewn y sector yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio arbenigedd o bob sector i sicrhau bod anghenion diwydiant yn cael eu diwallu, oherwydd cymhlethdod y maes. I wneud hynny, dylai'r cyfrifoldeb am ddatblygu llwybr ddal i fod gyda'r awdurdodau trwyddedu presennol gan fod ganddynt arbenigedd sylweddol a hanes o gynnwys cyflogwyr. Hefyd, dylai cyfrifoldeb am gyhoeddi tystysgrifau prentisiaethau ddal i fod gyda'r Cyngor Sgiliau Sector gan fod hyn yn cymryd llawer o adnoddau a chan ei fod eisoes yn cael ei gyflawni i safon uchel.
- 11.9 Codwyd pryder ynghylch y diffiniad a'r derminoleg o fewn y cynigion. Roedd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru'n gwrthwynebu'r diffiniad o brentisiaeth a ddefnyddir yn yr ymgynghoriad gan fod "y Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru yn symud tuag at sgiliau 'lefel-uwch'." Roedd y mwyafrif yn gwrthwynebu'r defnydd o'r gair 'llwybr' ('pathway') gan fod hyn yn cyfeirio ar hyn o bryd at is-arbenigeddau mewn Fframweithiau Prentisiaethau, gan argymhell defnyddio 'trywydd' ('route') yn lle hynny.
- 11.10 Roedd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn galw hefyd am weithredu ar frys i ddatblygu agwedd 'gwnaed yng Nghymru' at brentisiaethau. Roedd y teimlad hwn o frys yn amlwg o fewn y sectorau DSW a chyflogwyr, a oedd yn cytuno y dylai Cymwysterau Cymru gael y rôl o gynnal, datblygu a chymeradwyo Fframweithiau Prentisiaethau.
- 11.11 Barn CITB Cymru oedd "byddai gwahanu prentisiaethau yn anfon neges fod cymwysterau galwedigaethol yn ddewis israddol o gymharu â thrywydd academiaidd. Byddai gwahanu fel hyn hefyd yn lleihau cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a rhannu'r arferion gorau drwy'r sector". Roedd FSB Cymru yn credu bod y pwnc hwn yn bwysig iawn i lawer o gwmnïau yng Nghymru, ac yn teimlo nad oedd yn briodol ei

drafod yn yr ymgynghoriad hwn oherwydd y pwysau brys sydd ar y system ar hyn o bryd. Cynigiwyd ymgynghoriad ar wahân.

- 11.12 Dywedodd y cynrychiolydd gweithlu NAHT fod yn rhaid i'r cyrsiau hyn fod yn seiliedig ar ansawdd, gan y gallai cwrs wedi'i gynllunio'n wael ymestyn y bwlch ymhellach yn y parch at ddisgyblaethau galwedigaethol o gymharu â disgyblaethau academaidd.

Cwestiwn 54: Pa elfennau o'r system brentisiaethau bresennol sy'n gweithio'n dda ac y dylid eu cadw, a lle y gellir ei gwella drwy gael gwared ar gymhlethdod a gofynion statudol beichus?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	8
AB	8
AB/AU	1
AU	10
Unigol	2
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	6
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	45

Y farn gyffredinol

- 11.13 Mae angen i fframweithiau fod yn fwy hyblyg i ddiwallu anghenion cyflogwyr ac ymateb i amgylchiadau sy'n newid.
- 11.14 Mae angen datblygu prosesau fel eu bod yn fwy ystwyth ac ymatebol i alluogi'r uchod.

Dadansoddiad sectorol

- 11.15 Roedd ymatebwyr o Sefydliadau Addysg Uwch yn croesawu symlrwydd trefniadau cyllido yng Nghymru ar hyn o bryd, yn wahanol i'r system talebau yn Lloegr. Roedd llawer yn galw am fwy o eglurder ynghylch comisiynu fframweithiau a'r sail resymegol dros flaenoriaethau a chyflymu'r broses datganiadau o ddiddordeb ar gyfer prentisiaethau gradd. Dywedodd un sefydliad AU bod yr asesiadau cychwynnol a'r prosesau cynefino, a'r berthynas dridarn rhwng y dysgwr, y cyflogwr a'r darparwr yn gweithio'n dda yn y system ar hyn o bryd. Roedd ymatebion AU eraill yn galw am wella gwaith papur y

cyflwyno a gofynion cydymffurfio gyda phrofi trylwyr cyn lansio prentisiaethau gradd newydd.

- 11.16 Roedd ar CCAUC eisau gweld mwy o integreiddio ar draws lefelau i ganiatáu dilyniant drwy brentisiaethau. Fe wnaeth hefyd godi'r angen am gydymffurfiaeth yng nghyd-destun Sgiliau Hanfodol a'i effeithiau posibl.
- 11.17 Trafododd ymatebwyr AB yr angen i fframweithiau fod yn fwy hyblyg ac yn ymatebol i anghenion cyflogwyr. Mae cyfyngu prentisiaethau i sectorau blaenoriaeth yn awgrymu bod rhai cyflogwyr yn cyfrannu at yr ardoll ond nad oes darpariaeth ar gael iddynt. Roedd ystyried anghenion cyflogwyr trawsffiniol hefyd yn cael ei weld fel rhywbeth angenrheidiol.
- 11.18 Roedd ar un ymatebydd unigol eisiau gweld mwy o ddylanwad yn cael ei arwain gan alw oddi wrth gyflogwyr, gyda chyflogwyr yn gallu dewis rhwng amrywiaeth o ddarparwyr i gael yr ateb mwyaf addas.
- 11.19 Roedd Estyn yn canmol llwyddiant y rhaglen brentisiaeth bresennol o safbwynt y deilliannau medrau a chyflogaeth, ond yn rhybuddio yn erbyn yr effaith ar ddilyniant o roi gormod o bwyslais ar raglenni lefel-uwch a fyddai'n niweidiol i ddysgwyr economaidd anweithgar a dysgwyr bregus.
- 11.20 Roedd ymatebwyr o'r sector DSW yn nodi nifer o elfennau sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd. Mae'r berthynas gref rhwng darparwyr a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda ac mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn chwarae rhan hanfodol wrth gynrychioli anghenion diwydiant. Argymhellwyd y dylai Cymru gadw cysylltiad y Safonau Prentisiaethau â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS). Mae llawer o'r sector yn cytuno bod y ffordd mae'r Cynghorau Sgiliau Sector yn cyd-drafod â rhanddeiliaid yn fuddiol. Nododd un cynrychiolydd DSW fod y Cynghorau Sgiliau Sector wedi ymladd yn aflwyddiannus yn erbyn gofynion haearnaidd Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW), rhywbeth mae gan y Comisiwn a Manyleb Prentisiaethau Cymru gyfle i fynd i'r afael ag ef gyda llwybrau dilyniant syml.
- 11.21 Roedd y sector DSW yn cytuno bod y ddarpariaeth bresennol o gyflwyno ac ardystio yn gweithio'n dda gan fod gan bob sector ei gorff ei hun a gaiff ei is-gontractio i ddarparu ardystiadau. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i dimau o fewn y rôl hon yn y Comisiwn gynnal y lefelau angenrheidiol o wybodaeth o bob diwydiant er mwyn dyfarnu llwyddiant ymgeiswyr.
- 11.22 Roedd cyflogwyr a busnesau yn awgrymu amrywiaeth o welliannau. Mae angen cysondeb hyfforddiant a chyflwyno rhwng Cymru a Lloegr gan y byddai diffyg cludadwyedd yn niweidio diwydiant a chystadleurwydd Cymru. Roedd llawer o fewn y sector yn galw am fwy o gysondeb gyda galwadau'r farchnad lafur (cynnwys a sut y caiff ei gyflwyno) i ddiwallu anghenion cyflogwyr. Roedd argymhelliad o ganlyniad i hyn am ail-gyflwyno Panelau Cyngori ar Gymwysterau Sectorau (SQAP) i gyd-drafod yn uniongyrchol gyda chyflogwyr. Dylid

dyrannu adnoddau digonol i Cymwysterau Cymru fel yr awdurdod cyhoeddi. Roedd cwmni peirianegol sy'n defnyddio prentisiaethau yn galw am "gam beiddgar dros brentisiaethau" yng Nghymru gan gynnwys isafswm cyflog i brentisiaid a "chanolfannau rhanbarthol sy'n rheoli'r cysylltiad rhwng prentisiaid, safonau, ysgolion, y cyflogwyr a'r llywodraeth".

- 11.23 Roedd yr UCU yn dadlau bod "angen i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad trylwyr o brentisiaethau yng Nghymru". Gan fod cyfran sylweddol o'r economi wedi'i ffurfio o fusnesau bach a chanolig, mae "angen i'r Llywodraeth ystyried o ddifrif fframwaith Cymreig a fydd yn diwallu anghenion Economi Cymru, ei dinasyddion a'r gweithlu".

Cwestiwn 55: A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau â'r trefniant bod Gweinidogion Cymru'n pennu'r gofynion lefel uchel ar gyfer gweithredu'r system brentisiaethau yn y modd a gynigir ar hyn o bryd drwy Fanyleb Brentisiaethau Cymru?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	7
AB	8
AB/AU	1
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	6
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	43

Y farn gyffredinol

- 11.24 Roedd cytundeb gyda'r cynnig ar gyfer Manyleb Brentisiaethau Cymru, ond gyda phryderon ynghylch y graddau o bwerau a gedwir gan Lywodraeth Cymru.
- 11.25 Mae'n hanfodol fod y Comisiwn yn cael yr hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau rhwng sectorau ac addasu i newidiadau yn anghenion y farchnad lafur.

Dadansoddiad sectorol

- 11.26 Roedd ymatebwyr AU yn mynegi pryder ynghylch graddau'r rheolaeth y gallai Llywodraeth Cymru ei gweithredu dros y Comisiwn, yn enwedig o safbwynt ei gyfarwyddo i gydymffurfio â Manyleb Brentisiaethau Cymru. Roedd cytundeb helaeth ei bod yn holl bwysig sicrhau bod rhanddeiliaid yn rhan o'r broses o ddatblygu'r cynigion ac yn cael eu diogelu rhag disgwyliadau tymor byr. Roedd CCAUC yn pwysleisio'r angen i sicrhau mai dim ond trefniadau cyffredinol a gaiff eu nodi mewn deddfwriaeth/rheoliadau er mwyn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd.
- 11.27 Roedd ymatebion AB yn awgrymu y dylai Manyleb Brentisiaethau Cymru fod yn rhan o gyfrifoldeb y Comisiwn, ond y gellid ei rheoli'n allanol. Y consensws oedd mai mater i'r Comisiwn fyddai hyn, mewn ymgynghoriad â'r holl randdeiliaid perthnasol.
- 11.28 Roedd Cyngor Sir Benfro'n holi'r angen am drefniadau llywodraethu cadarn i'r Comisiwn a'r Bwrdd Cyngori ar Brentisiaethau Cymru. Dylid amlinellu trefniadau cyffredinol mewn deddfwriaeth er mwyn caniatáu hyblygrwydd i fynd i'r afael ag anghenion yr economi – gan gynnwys yr economi sylfaenol.
- 11.29 Teimlai Estyn y dylai Gweinidogion Cymru ddefnyddio rheoleiddwyr sy'n bod eisoes fel Cymwysterau Cymru i helpu'r Comisiwn i benderfynu'r gofynion cyffredinol ar gyfer Manyleb Brentisiaethau Cymru. Byddai hyn yn osgoi unrhyw wrthdrawiad buddiannau ar ran y Comisiwn.
- 11.30 Nid oedd ymatebwyr DSW yn gweld unrhyw broblemau, cyn belled â bod ystyriaeth i'r gwahaniaethau sectorol gyda fframweithiau arbenigol. Roedd galwadau am arbenigedd technegol er mwyn barnu cynnwys manwl y Llwybrau Prentisiaethau arfaethedig. Dywedodd ACT Training y gallai Manyleb Brentisiaethau Cymru gael ei rheoli gan gorff arall fel Cymwysterau Cymru ond y dylai ddal i fod o dan gyfrifoldeb y Comisiwn.
- 11.31 Roedd cyflogwyr a busnes yn cytuno â'r cynigion. Eu barn hwy oedd bod yn rhaid i'r Comisiwn sicrhau y cyrhaeddir system hyblyg sy'n gallu addasu ar gyfer y farchnad lafur (ee cydgysylltu'r cynlluniau am brosiectau seilwaith â'r ddarpariaeth sgiliau a Deddf Llesiant Cendlaethau'r Dyfodol). Roedd y FISSS yn croesawu "cyfres fwy ymatebol o bwerau a fydd yn galluogi newid cyflymach ac addasu i'r farchnad lafur wrth iddi newid".
- 11.32 Roedd y cynrychiolydd gweithlu UCW yn credu y byddai Manyleb Brentisiaethau Cymru yn gyfrwng addas i gyflawni dros Gymru cyn belled ag y caiff y diffiniad o brentisiaeth ei fireinio.

Cwestiwn 56: A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau, neu a oes gennych unrhyw sylwadau am y system brentisiaethau ddiwygiedig rydym wedi ei chynnig?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	7
AB	8
AB/AU	1
AU	10
Unigol	2
Awdurdod lleol	5
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	2
Trydydd sector	0
DSW	6
Cynrychiolwyr gweithlu	2
Cyfanswm	49

Y farn gyffredinol

- 11.33 Ni chodwyd unrhyw broblemau mawr, cafwyd amrywiaeth o sylwadau a mynegwyd angen am fwy o fanylion am gynnwys cyflogwyr a chysoni â pholisïau a chyflogwyr ledled y Deyrnas Unedig.

Dadansoddiad sectorol

- 11.34 Roedd ar gynrychiolwyr AU angen gwybodaeth ychwanegol, yn arbennig ynghylch sut mae cyflogwyr yn cyflwyno cynigion a'r berthynas gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Dywedwyd bod hyblygrwydd yn allweddol; ni ddylid nodi'r manylion mewn deddfwriaeth gan y byddai hyn yn llesteirio datblygu ac arloesi. Bydd angen rhoi llais cryfach i gyflogwyr, sicrhau bod y system yn diwallu eu hanghenion a byddai trefnu bod y gofrestr ar gael yn cyhoeddus yn galluogi cyflogwyr i ganfod y ddarpariaeth iawn. Fe wnaeth UCM fynegi siom ynghylch y diffyg gwybodaeth a sicrwydd y bydd llais y dysgwyr yn cael ei gydnabod yn llawn wrth gyflwyno prentisiaethau.
- 11.35 Ar y llaw arall, cododd yr UCU bryderon fod Llywodraeth Cymru'n edrych ar brentisiaid fel dysgwyr yn hytrach na "gweithwyr cyflogedig sy'n cymryd rhan mewn dysgu". Rhybuddiodd yr undeb hefyd yn erbyn anwybyddu dewisiadau cyflogaeth prentisiaid; pe bai hynny'n digwydd byddai'n negyddu gwybodaeth arwyddocaol sy'n sail i ddatblygiad addysgeg (roedd yr undeb yn nodi gwaith gan yr Athro Bill Lucas fel man cychwyn ar gyfer agenda Llywodraeth Cymru).

- 11.36 Roedd ymatebion AB yn cytuno bod ar y Comisiwn angen y pwerau sy'n berthnasol i Fanyleb Prentisiaethau Cymru a dyletswydd i greu fframwaith. Canfyddiad ColegauCymru a nifer o ddarparwyr AB oedd bod "y system o dan arweiniad cyflogwyr a gynigir yn gryfach na'r sefyllfa bresennol". Mae angen i'r ddarpariaeth fod yn gynrychioliadol o gyflogwyr o fewn unrhyw ranbarth penodol.
- 11.37 Roedd ymatebion awdurdodau lleol yn cytuno â'r dull, gan nodi bod angen ystyried hyrwyddo prentisiaethau ymysg pobl ifanc ar draws addysg cyn-16 ac y gallai partneriaethau rhwng DSW ac Ysgolion fod yn rhan o Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau. Mae angen pontio di-dor rhwng dewisiadau ôl-16. Awgrymodd un cynrychiolydd awdurdod lleol hefyd y gellid ailddyrannu cyllid yr Ardoll Brentisiaethau i ysgogi cyflogwyr i gefnogi rhaglenni prentisiaethau.
- 11.38 Roedd cyflogwyr a busnesau yn croesawu ymrwymiad i Cymwysterau Cymru fel sail ar gyfer diwygio yn y dyfodol gyda diwydiant ar lefel uchaf y system brentisiaethau. Codwyd pryderon gan Cogent Skills ynghylch y graddau o arbenigedd a gwybodaeth angenrheidiol sy'n ofynnol o bob sector, a'r risg y gall rhai ardaloedd gael eu hesgeuluso neu eu hanwybyddu gan y Comisiwn. Mae angen i drefniadau ystyried polisïau a chyflogwyr ledled y DU a bod yn gydnavs â hwy, ac mae angen mwy o ymgynghori ar bensaernïaeth y system. Gallai'r Panelau Cynghori ar Gymwysterau Sectorau gyfrannu at y Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru, gan gynnig cyfrwng i lais y cyflogwr. Mae gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gynrychiolaeth gymysg ledled Cymru ac mae angen i Ofal Cymdeithasol a Gofal Plant fod yn ymwneud â'r Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru.
- 11.39 Roedd ACT, y darparwr DSW, yn cytuno bod ar y Comisiwn angen y pwerau sy'n ymwneud â Manyleb Brentisiaethau Cymru a'r ddyletswydd i greu fframwaith ond na ddylai hyn fod yn haearnidd, gan ganiatáu yn hytrach am hyblygrwydd i gefnogi system dan arweiniad cyflogwyr. Roedd darparwyr DSW yn cytuno'n gyson fod yn rhaid i'r Comisiwn ystyried polisïau ledled y DU a chyflogwyr a gweithwyr sy'n gweithio ledled y byd.

12. Trosolwg o ymatebion i adran 10: Ymchwil ac arloesi

Cwestiwn 57: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig cyffredinol a strwythur manwl Ymchwil ac Arloesi Cymru o fewn y Comisiwn? Eglurwch pam.

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	7
AB/AU	2
AU	12
Unigol	1
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	2
Cyfanswm	40

Y farn gyffredinol

- 12.1 Roedd cytundeb gyda'r cynigion cyffredinol a'r amcan o sefydlu Ymchwil ac Arloesi Cymru.
- 12.2 Cefnogaeth helaeth i adolygiad yr Athro Reid – dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru weithredu ar yr argymhellion hyn.
- 12.3 Dylai aelodaeth a phenodi aelodau gael ei benderfynu gan y Comisiwn.

Dadansoddiad sectorol

- 12.4 Roedd y sector AU yn cytuno â'r cynigion cyffredinol ond yn anghytuno gyda llawer o feysydd y trefniadau manwl ar gyfer Ymchwil ac Arloesi Cymru. Roedd pryder gyda'r graddau arfaethedig o fanylder a'r cynnydd yn rheolaeth Llywodraeth Cymru nad oedd yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n gyson â'r hyn sydd i fod yn gorff hyd-braich. Dylai cyfansoddiad penodol pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru gael ei adael i'r Comisiwn i'w benderfynu, gan ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd.
- 12.5 Ochr yn ochr â chynrychiolwyr AU eraill, roedd CCAUC yn mynnu bod yn rhaid i'r weledigaeth gyffredinol gael ei phennu'n gliriach gan nad yw'n "cydnabod pwysigrwydd datblygu a chynnal sail ymchwil cryf a rhagorol o fewn Prifysgolion yng Nghymru". Roedd y sector yn rhoi'r pwysigrwydd mwyaf ar ymchwil yng Nghymru; mae ar Gymru angen sail ymchwil cystadleuol a oedd yn ysgogi galwadau am weledigaeth

fwy uchelgeisiol i Ymchwil ac Arloesi Cymru. Roedd cefnogaeth gadarn i argymhellion Adolygiad Reid i gryfhau sail ymchwil Cymru a chreu brand sengl cynhwysfawr ar gyfer gweithgareddau arloesi.

- 12.6 Roedd y teimladau hyn yn cael eu hadlewyrchu ymhellach mewn anghytundeb ag unrhyw newidiadau i'r lefelau o gyllid Ymchwil cysylltiedig ag Ansawdd a'r fecanwaith y caiff ei ddosbarthu. Roedd y sector yn gwrthwynebu'r lleihad tybiedig yn lefel cyllid Ymchwil cysylltiedig ag Ansawdd gan fod hyn yn rhoi cymorth sylfaenol i sail ymchwil Cymru a gallai adael Cymru dan anfantais yn erbyn ymchwil yn Lloegr, gan fod disgwyl i gyllid Ymchwil cysylltiedig ag Ansawdd yn Lloegr gynyddu.
- 12.7 Roedd y sector yn anghytuno hefyd â'r trefniadau llywodraethu a nodir yn y cynnig. Dywedwyd bod y gynrychiolaeth ar y Comisiwn o'r sector AU yn anghymesur o isel wrth ystyried mai AU sy'n cyfrannu fwyaf at yr agenda ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Roedd y sector yn cytuno y dylai cyllid Ymchwil cysylltiedig ag Ansawdd fod yn unol ag argymhellion Adolygiad Diamond a Reid. Roedd CCAUC yn crynhoi fel hyn: "ni fyddai'r strwythur, fel y caiff ei gynnig, yn rhoi digon o wybodaeth i Ymchwil ac Arloesi Cymru o'r sector AU, nac o gymhlethdodau methodolegau cyllido, i'w alluogi i wneud penderfyniadau gwybodus."
- 12.8 Roedd Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi yn mynegi pryder y byddai'r trefniadau arfaethedig yn pylu'r llinellau rhwng ymchwil ac arloesi a bod hyn yn galw am sicrwydd y byddai'r cyllidebau ar gyfer ymchwil ac arloesi yn fwy cytbwys. Er bod gan Gymru enw da am ragoriaeth ymchwil, mae tanberfformiad o safbwynt troi hyn yn fasnacheiddio a chreu cyfleoedd economaidd. Byddai cyfuno'r ddau yn gwaethygu'r problemau hyn. "Y cyfle y gallai sefydlu Ymchwil ac Arloesi Cymru ei greu yw gosod y stondin ar gyfer y strwythurau, systemau, sgiliau a buddsoddiad priodol sydd eu hangen i gryfhau a hyrwyddo datblygiad yr eco-system arloesi."
- 12.9 Roedd UCM Cymru yn cytuno y dylid penderfynu ar yr aelodau unwaith y mae'r Comisiwn wedi cael ei sefydlu.
- 12.10 Roedd ymatebwyr o'r sector AB yn cytuno'n fras â'r rhan fwyaf o'r cynnig. Nodwyd, fodd bynnag, fod Adolygiad Reid yn effeithio ar gynnig Ymchwil ac Arloesi Cymru, ond nad oedd yr amseru wedi caniatáu iddo ystyried hyn. Roedd teimlad helaeth o fewn y sector mai'r Comisiwn ddylai benderfynu nifer aelodau'r pwyllgor ac y dylai fod cynrychiolaeth ddigonol o'r sector AB (cynrychiolaeth gyfartal ag AU).
- 12.11 Dywedodd unigolyn y byddai galluogi ymreolaeth yn caniatáu i'r swyddogaeth ymateb i gyfleoedd byd-eang.
- 12.12 Roedd ysgolion yn adrodd diffyg eglurder o ran o fyddai unrhyw gyfle i chweched dosbarth ysgolion elwa.
- 12.13 Roedd Estyn yn croesawu'r nod o greu cydweithio rhwng ymchwil ac arloesi, "fodd bynnag, byddai'r cydweithio hwn yn elwa o gael ei

ymestyn i brosiectau tebyg eraill o dan gyfarwyddiaethau eraill o fewn Llywodraeth Cymru.”

- 12.14 Roedd y cynrychiolydd cyflogwyr ECITB yn cefnogi creu Ymchwil ac Arloesi Cymru ar y sail y bydd “Ymchwil ac Arloesi Cymru yn hwyluso dull mwy cydlynol o weithio rhwng AU, sefydliadau ymchwil fel UKRI a diwydiant” lle gellir cydweithio o ran rhannu gwybodaeth.
- 12.15 Roedd cynrychiolwyr DSW yn pwysleisio’r angen i Ymchwil ac Arloesi gael cysylltiadau cryf â diwydiant a chyrrff gwasanaethau cyhoeddus.

Cwestiwn 58: A ydych chi’n cytuno y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru gael cwrmpas mor eang o ran cyllid er mwyn gallu cyllido’r gweithgareddau a ddisgrifiwyd, hyd yn oed os yw ei gwmpas yn fwy cyfyng yn ei weithrediad terfynol, h.y. a ddylai gael hyblygrwydd o’r fath? Eglurwch pam.

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	6
AB/AU	2
AU	11
Unigol	1
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	2
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	36

Y farn gyffredinol

- 12.16 Roedd cytundeb cyffredinol y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru gael cwrmpas cyllido eang sy’n caniatáu ar gyfer hyblygrwydd ac ystwythder. Wrth wneud hynny, ni ddylai hyn leihau’r cyllid cysylltiedig ag ansawdd sy’n cyfrannu at ymchwil Addysg Uwch.

Dadansoddiad sectorol

- 12.17 Roedd y sector AU yn cytuno'n helaeth mai'r ffordd orau o gyflawni argymhellion adolygiad Reid yw trwy gael pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru a fydd yn cael yr annibyniaeth a'r hyblygrwydd i weithio gyda'r holl bartneriaid arloesi. Roedd y sector yn croesawu eglurder pellach ynghylch cyflwyno meini prawf ychwanegol ar gyfer cyllid heb ei neilltuo. Roedd wedi cael ei rybuddio y byddai gwyro oddi wrth y system ddyrannu cyllid Ymchwil cysylltiedig ag Ansawdd sydd ar waith ledled y DU yn effeithio ar allu prifysgolion Cymru i recriwtio a chadw ymchwilwyr, gan felly roi sail ymchwil Cymru dan anfantais gystadleuol o gymharu â gweddill Prydain. Roedd y sector yn cytuno y dylai cyllid Ymchwil cysylltiedig ag Ansawdd prifysgolion Cymru ddal i fyny â phrifysgolion Lloegr gan fod cyllid is ar gyfer hyn wedi llesteirio cystadleurwydd wrth drosoli cronfeydd allanol.
- 12.18 Nododd CCAUC y gellid cynnwys rhaglenni cyllid sy'n rhoi ysgogiadau ar gyfer gwell cydweithio rhwng prifysgolion a busnesau yng Nghymru yng nghylch gwaith y Comisiwn; ni ddylid cynnwys rhaglenni cyllid sy'n cyllido gweithgaredd busnes (o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd). Nododd ymatebydd arall o fewn y sector AU fod y Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol yn enghraifft o sut y gall llywodraeth annog cydweithio rhwng busnesau a phrifysgolion wrth ddiwallu anghenion Cymru yn y dyfodol.
- 12.19 Roedd rhai ymatebwyr AU yn nodi anghysondebau o fewn y ddogfen; gydag un pwynt yn nodi y bydd cyllid yn cael ei ganolbwyntio ar ymchwil lefel AU, ond adrannau eraill yn cynnig lledaenu cyllid i amrywiaeth helaeth o sefydliadau.
- 12.20 Roedd UCM Cymru hefyd yn credu na ddylai'r cwmpas arfaethedig o ran cyllid fod yn rhy benodol, gan y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru gael yr hyblygrwydd i ymateb i heriau a chyfleoedd newydd.
- 12.21 Dywedodd Cyngor Cyngorol Cymru ar Arloesi fod "canolbwyntio'n unswydd ar ddatblygu a chryfhau cynhwysedd a gallu creadigol yn rhoi siawns uchel o gyflawni system helaeth o arloesi." Mae'r Cyngor yn nodi nifer o ffactorau llwyddiant ar gyfer gwneud hynny, fel creu'r naws am agwedd 'pawb gyda'i gilydd' a "manteisio i'r eithaf ar botensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i osod Cymru'n fyd-eang fel 'cenedl flaengar' sy'n cysylltu nodau economaidd yn well â heriau cymdeithasol ac amgylcheddol". Roedd eraill o fewn y sector cyflogwyr yn cytuno â'r cwmpas bras o ran cyllid gan fod cynyddu cyllid ar gyfer ymchwil a arweinir gan her yn ymwneud ag angen penodol.
- 12.22 Roedd ymatebwyr o'r sector AB yn ansicr sut i ateb y cwestiwn hwn. Teimlai rhai y dylai cyllid arloesi ymwneud ag amrywiaeth o flaenoriaethau a gyhoeddir, er bod eraill yn credu mai rhywbeth i'r Comisiwn benderfynu arno yw hyn. Roedd galwad hefyd ar i'r mater hwn fod yn destun ystyriaeth bellach gydag arbenigwyr yn cyfrannu.
- 12.23 Roedd ymatebydd unigol ac ymatebydd awdurdod lleol yn cytuno â'r cwmpas o ran cyllid.

- 12.24 Roedd y mwyafrif o fewn y sector DSW yn teimlo nad oeddent yn gymwys i ateb, ond teimlai Instructus y dylai cyllido gael ei weithredu'n ofalus mewn partneriaeth â'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru.
- 12.25 Roedd y cynrychiolydd gweithlu UCU yn croesawu'r cylch gwaith cyllid a nodir o fewn y cynigion. Trwy gynnwys colegau AB bydd hyn yn galluogi ar gyfer gwreiddio gweithgareddau ymchwil ac arloesi yn ddyfnach o fewn cymunedau lleol.

Cwestiwn 59: A ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, y Comisiwn ac Ymchwil ac Arloesi Cymru, a'r berthynas â'r rheini sy'n derbyn cyllid a'r gymuned ymchwil ac arloesi? Eglurwch pam.

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	6
AB/AU	2
AU	11
Unigol	1
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	2
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	36

Y farn gyffredinol

- 12.26 Dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru weithredu hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru a chael mwy o reolaeth dros benderfyniadau cyllido, er mwyn caniatáu ymreolaeth a rhyddid.
- 12.27 Roedd cefnogaeth barhaus i gysoni Ymchwil ac Arloesi Cymru ag argymhellion Adolygiad Reid.

Dadansoddiad sectorol

- 12.28 Roedd cytundeb o fewn y sector AB fod angen i'r Comisiwn ac Ymchwil ac Arloesi Cymru fod yn gweithredu 'hyd-braich' o Lywodraeth Cymru ac y dylent fod yn rhydd i gyd-drafod yn uniongyrchol â darpar gyllidwyr / buddsoddwyr a rhanddeiliaid fel y

gwelant yn dda. Yn gysylltiedig â hyn, dylai Cadeirydd Ymchwil ac Arloesi Cymru gael ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn hytrach na Gweinidogion Cymru. Hefyd, dylai'r gweithdrefnau statudol a roddir ar waith gefnogi'r weledigaeth ymchwil ac arloesi fel yr amlinellir yn Adroddiad Reid.

- 12.29 Yn unol â'r farn gyffredinol, cytunai'r sector AU nad yw'r perthnasoedd a gynigir yn adlewyrchu ffurfio corff hyd-braich. Yn hytrach, dylai ffurf benodol pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru gael ei adael i'r Comisiwn ei benderfynu. Roedd cefnogaeth hefyd i berthynas weithio agos rhwng Ymchwil ac Arloesi Cymru ac UKRI, a fydd yn galluogi Cymru i ymwneud â gweithgareddau ledled y Deyrnas Unedig. Roedd y sector yn pwysleisio hefyd fod y cynigion yn llawer rhy fanwl i'w cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol, gan y bydd y graddau hyn o fanylion yn cyfyngu ar allu Ymchwil ac Arloesi Cymru i ymateb yn hyblyg i amgylchiadau a fydd yn newid yn y dyfodol. Mae'r cynnig yn pennu na ddylai fod disgwyl i Ymchwil ac Arloesi Cymru ymwneud yn uniongyrchol â Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd llawer o fewn y sector AU yn ystyried hyn fel cyfyngiad dianghenraid ar ryddid ac annibyniaeth Ymchwil ac Arloesi Cymru.
- 12.30 Pryder CCAUC oedd "byddai'r gofyn am i bob ymrwymiad cyllido gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn hynod o fiwrocrataidd ac yn cymryd llawer o amser. Byddai'n arwain at oedi sylweddol ac yn rhwystro Ymchwil ac Arloesi Cymru rhag gweithredu mewn modd effeithlon a phrydlon."
- 12.31 Roedd UCM Cymru yn cytuno â'r cynigion i Ymchwil ac Arloesi Cymru fod yn lled-annibynnol ond yn rhan annatod o'r Comisiwn. Roeddent yn argymhell y dylai penodiadau i Ymchwil ac Arloesi Cymru gael eu gwneud gan y Comisiwn a bod yn rhaid i gyllid gael ei ddyrannu o hyd braich.
- 12.32 Roedd Cyngor Cynggori Cymru ar Arloesi yn honni bod y cwmpas arfaethedig yn rhy fewnol ei agwedd ac nad oes lle i fusnes, menter a'r sector cyhoeddus ehangach. Roedd cyflogwyr a busnesau eraill yn cytuno gyda sefydlu Ymchwil ac Arloesi Cymru ond yn cydnabod bod angen iddo gael hyblygrwydd ac annibyniaeth digonol i ddiffinio'i strwythurau a'i flaenoriaethau ei hun sy'n adlewyrchu trefn sefydliadol gweithgaredd ymchwil ac arloesi. Fe wnaeth y sector hwn a chynrychiolwyr gweithlu godi pryderon ynghylch Llywodraeth Cymru yn cadw pwerau ar wahân i gyllido'r gweithgaredd hwn, mae hyn yn golygu na fydd Ymchwil ac Arloesi Cymru yn gael ei alluogi'n iawn i gyflawni ei amcanion.

13. Trosolwg o ymatebion i adran 11: Sicrwydd ariannol a llywodraethiant

Cwestiwn 60: A ydych chi'n cytuno y dylid rhoi pwerau statudol penodol i'r Comisiwn newydd mewn perthynas â sicrhau rheolaeth ariannol, cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethiant darparwyr AHO?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	7
AB/AU	2
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	4
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	8
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	50

Y farn gyffredinol

- 13.1 Cytundeb cyffredinol gyda'r cynnig.
- 13.2 Yn gyffredinol, roedd ar randdeiliaid Addysg Uwch eisiau mwy o fanylion cyn dod i farn ar y cynigion.
- 13.3 Cytundeb cyffredinol nad yr un ateb sy'n addas i bawb.

Dadansoddiad sectorol

- 13.4 Roedd ymatebwyr AU yn gyffredinol wrthwynebus i'r cynnig hwn neu'n dweud y byddai arnynt angen manylion pellach am y pwerau arfaethedig cyn y gallent wneud sylw. Roedd y prif bryder yn ymweud â'r potensial o golli ymreolaeth sefydliadol. Awgrymwyd y dylai'r system fod yn seiliedig ar egwyddorion sicrwydd (nad yw'n codi heriau cyfreithiol sylweddol i brifysgolion) ac nid egwyddorion rheoli (sy'n gwneud hynny). Byddai system sicrwydd yn sicrhau bod systemau a threfniadau cadarn yn cael eu rhoi ar waith, ac y cedwir atynt, ond byddent yn gadael y sefydliad yn rhydd i benderfynu beth yw'r systemau hyn a sut maent yn gweithredu. Nodwyd gan rai fod amrywiaeth y darparwyr AHO (a'r gwahanol risgiau o fewn y system) yn golygu na fyddai'n bosibl cael un ateb sy'n addas i bawb ar gyfer goruchwyllo'r holl sector.

- 13.5 Roedd CCAUC hefyd yn gyffredinol o blaid, gan ddweud: “Dylid, fe ddylid rhoi pwerau statudol penodol i’r Comisiwn newydd mewn perthynas â sicrwydd rheolaeth ariannol, iechyd ariannol a threfniadau llywodraethiant ar gyfer darparwyr AHO.” Er hyn, lle’r roedd chweched dosbarth ysgolion yn y cwestiwn, teimlai CCAUC y dylai’r berthynas fod rhwng y Comisiwn a’r awdurdod lleol ac y dylid dod â chweched dosbarth ysgolion i mewn i gylch gwaith y Comisiwn gam wrth gam.
- 13.6 Roedd cynrychiolwyr AB yn gyffredinol o blaid, gan dybio rhywfaint o hyblygrwydd wrth ymdrin â gwahanol sectorau. Roedd un ymatebydd AG a anghytunai yn teimlo: “dylai’r pwerau ymyrraeth a sicrwydd hyn a nodir fel pwerau statudol aros gyda [Llywodraeth Cymru].
- 13.7 Ac eithrio un ysgol, roedd pob ymatebydd o’r sector Awdurdodau Lleol ac Ysgolion yn cefnogi’r cynnig, er i lawer ychwanegu rhybudd y byddai’r pwerau hyn yn bod o fewn y berthynas rhwng y Comisiwn ac awdurdodau lleol yn hytrach na bod gan y Comisiwn berthynas uniongyrchol gydag ysgolion unigol.
- 13.8 Roedd cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant o blaid y cynigion ac awgrymodd llawer ohonynt y byddai’r pwerau hyn yn hanfodol er mwyn galluogi’r Comisiwn i gyflawni ei ddiben. Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru’n mynegi pryder ynghylch dyblygu pwerau gyda Cymwysterau Cymru a’r diffyg ystyriaeth sut y gallai hyn effeithio ar statws tendro a chontractio darparwyr DSW.
- 13.9 Roedd darparwyr DSW yn cytuno â’r cynigion ar y sail na fyddai’r Comisiwn yn gallu gweithredu ei ddyletswyddau heb bwerau o’r fath.
- 13.10 Roedd cynrychiolwyr gweithlu yn cytuno’n gyffredinol â’r cynigion ac eithrio mewn perthynas â chweched dosbarth ysgolion. Credai’r sector y dylai’r materion hyn barhau i fod yn gyfrifoldeb yr awdurdodau lleol. Roedd UCAC hefyd yn galw am fwy o fanylion ac eglurder ar bwerau ymyrryd y Comisiwn.

Cwestiwn 61: A ydych chi'n cytuno y dylai pob darparwr AHO fod yn ddarostyngedig i egwyddorion tebyg o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant? A ddylai'r Comisiwn allu cymhwyso trefniadau a gofynion gwahanol ar gyfer gwahanol fathau neu categorïau o ddarparwyr AHO?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	40

Y farn gyffredinol

- 13.11 Roedd consensws cyffredinol mai dyma oedd y dull gorau, ac eithrio ymysg y sector Ysgolion. Er yn croesawu cyfres o egwyddorion sicrwydd ariannol a llywodraethiant cyffredin, teimlai llawer y dylai'r Comisiwn allu gweithredu gwahanol drefniadau yn unol â'r strwythurau penodol a threfniadau comisiynu'r darparwyr.
- 13.12 Opsiwn 2 oedd yn cael ei weld fel y dewis mwyaf addas².

Dadansoddiad sectorol

- 13.13 Roedd y sector AU yn croesawu cyfres o egwyddorion cyffredin ar gyfer pob darparwr ond yn rhybuddio yn erbyn un ateb addas ar gyfer pawb. Roedd ar amryw o ymatebwyr eisiau dull seiliedig ar risg o fonitro, gyda phwyslais ar eglurder a thryloywder.

² Wrth ystyried sut y gallai swyddogaethau sicrwydd ariannol a llywodraethiant y Comisiwn weithredu, mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi tri opsiwn: Opsiwn 1 – Byddai'r holl sectorau AHO yn ddarostyngedig i'r un gofynion a'r un trefniadau monitro a gorfodi; Opsiwn 2 – Byddai'r holl sectorau AHO yn ddarostyngedig i egwyddorion sicrwydd tebyg ond byddai darpariaeth yn cael ei wneud i ganiatáu trefniadau a gofynion gwahanol ar gyfer gwahanol fathau neu categorïau o AHO yn unol â'r trefniadau comisiynu y maent yn gweithredu oddi tanynt; Opsiwn 3 – Byddai'r holl sectorau AHO yn ddarostyngedig i ofynion gwahanol.

- 13.14 Roedd pawb o'r sylwedwyr AB yn cytuno â'r cynnig ond roedd arnynt eisiau gwahaniaethu rhwng sefydliadau a reoleiddir (Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau) a sefydliadau dan gontract.
- 13.15 Nid oedd yr unig ymatebydd o'r sector Ysgolion yn cefnogi'r cynnig, gan ofni dyblygu a newidiadau ysgubol i'r ffordd y caiff chweched dosbarth ysgolion eu cyllido a'u rhedeg.
- 13.16 Roedd ar un ymatebydd, oedd yn canolbwyntio ar Ddysgu Oedolion yn y Gymuned, eisiau mwy o eglurder ar drefniadau ar gyfer gwahanol sectorau, gan nodi diffyg manylion ar gyfer DOyG a chynghor a chanllawiau gyrfaoedd.
- 13.17 Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr a diwydiant yn cytuno i lunio egwyddorion bras fel canllawiau, ond yn amlygu'r angen hefyd i osod y rhain mewn cyd-destun i gydnabod y gwahanol amgylcheddau a risgiau y mae pob sector o AHO yn eu hwynebu. Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru'n cydnabod yr anhawster i gyrraedd y cysondeb hwn heb newid yn sylfaenol lywodraethiant, natur a statws rhai ddarparwyr. Roedd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) yn awgrymu defnyddio is-grŵp addas i sicrhau bod y gwahanol drefniadau yn cadw at yr egwyddorion cyffredinol.
- 13.18 Roedd y sector DSW yn cytuno y byddai cyfres gyson o egwyddorion yn sicrhau cydraddoldeb ac yn negyddu unrhyw ganfyddiad o system reoleiddio wahaniaethol.

Cwestiwn 62: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i alluogi'r Comisiwn arfaethedig i gyhoeddi cyfres ffurfiol o ofynion ac amodau yn ogystal â darparu canllawiau i ddarparwyr a chynghor ar arfer da?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	2
AU	10
Unigol	2
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	2
Cyfanswm	40

Y farn gyffredinol

- 13.19 Cytundeb cryf gyda'r cynnig a dewisiadau hybrid 2 a 3³.
- 13.20 Ymatebwyr Ysgolion oedd yr eithriad.

Dadansoddiad sectorol

- 13.21 Roedd y sector AU yn gyffredinol o blaid – gyda rhai ymatebwyr yn ffafrio dewis 2 ac eraill yr awgrym hybrid 2/3. Roedd CCAUC yn pwysleisio pwysigrwydd gwreiddio'r "hyblygrwydd i addasu gofynion ac amodau i wahanol fathau a chatogorïau o ddarparwyr AHO". Roedd galwadau ar i'r egwyddor o sicrwydd gael ei phwysleisio'n gliriach yn y cynigion. Roedd y farn yn gymysg ynghylch graddau gorfodi canllawiau arferion da; roedd rhai o blaid gorfodi'r canlyniadau am anwybyddu arferion da ac eraill yn mynnu na ddylai fod yn rhaid i sefydliad ddilyn arferion da. Roedd ar y sector eisiau cyfle i roi eu barn ar beth yw arferion da.
- 13.22 Roedd sylwedwyr AB yn cytuno'n unfrydol â'r cynnig, gan dynnu sylw at fanteision rhannu arferion da.
- 13.23 Roedd y nifer bychan o gynrychiolwyr awdurdodau lleol yn cefnogi'r cynnig, heb ymhelaethu arno.
- 13.24 Nid oedd yr unig ymatebydd o'r sector Ysgolion yn cefnogi'r cynnig, gan ofni dyblygu a newidiadau ysgubol i'r ffordd y caiff chweched dosbarth ysgolion eu cyllido a'u rhedeg.
- 13.25 Nodwyd bod darparwyr canllawiau arferion da yn bod eisoes – fel Estyn – ac y dylid defnyddio'r rhain.
- 13.26 Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr a DSW yn cytuno â'r cynnig ar y sail y byddai'n sicrhau bod sefydliadau'n gwybod beth yw disgwyliadau'r Comisiwn. Yn ôl Gofal Cymdeithasol Cymru, pe dilynid y dull hwn, yna byddai angen prosesau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau y cedwir at egwyddorion a bod y trefniadau'n adlewyrchu arfer da a gyhoeddwyd. Nododd yr UCU fod "yn rhaid bod canlyniadau hysbys i anwybyddu cyngor ar arferion da".

³ Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi nifer o opsiynau ar gyfer sut y gallai swyddogaethau sicrwydd ariannol a llywodraethiant y Comisiwn weithredu gan gynnwys Opsiwn 1 – Cadw at y sefyllfa bresennol lle byddai'r holl drefniadau cyfredol yn cael eu cario ymlaen, er enghraifft yr amodau a'r gofynion a nodir mewn contractau a llythyrau dyfarnu grant ac yn y memorandwm ariannol a'r cod rheolaeth ariannol; Opsiwn 2 – Byddai'r Comisiwn yn paratoui ac yn cyhoeddi cyfres ffurfiol o ofynion ac amodau mewn ffordd debyg i'r memorandwm ariannol presennol ar gyfer addysg bellach neu'r cod rheolaeth ariannol ar gyfer addysg uwch; Opsiwn 3 – Byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu dull gweithredu llai ffurfiol drwy bennu egwyddorion eang, arfer gorau a chanllawiau y mae disgwyl i sectorau AHO eu hystyried.

Cwestiwn 63: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid darparu swyddogaethau galluogi i'r Comisiwn, ac y dylai'r ddeddfwriaeth bennu fframwaith fras ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant a rhoi disgresiwn i'r Comisiwn ddatblygu ei ofynion o fewn y fframwaith hwn?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	2
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	2
Cyfanswm	38

Y farn gyffredinol

- 13.27 Cytundeb gryf, gyda'r cynnig yn cael ei weld fel petai'n rhoi'r cydbwysedd iawn o bennu a dirprwyo pwerau.
- 13.28 Ymatebwyr o Ysgolion oedd yr eithriad.

Dadansoddiad sectorol

- 13.29 Roedd y sector AU yn cefnogi'r cynnig ar y sail y byddai'n cynnal statws hyd-braich a hefyd yn rhoi hyblygrwydd i'r Comisiwn, er yn gweithredu o fewn ffiniau a gafodd eu diffinio'n glir.
- 13.30 Opsiwn 2 oedd yn cael ei weld yn gyffredinol fel yr un gorau, er bod cefnogaeth i Opsiwn 1⁴. Roedd teimlad y dylai'r fframwaith a ysgrifennir i mewn yn y ddeddfwriaeth fod yn "gyffredinol a lefel-uchel". Cyfeiriodd llawer at bwysigrwydd cael y cydbwysedd priodol

⁴ Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi cyfres o opsiynau ar gyfer datblygu fframwaith sicrwydd ariannol a llywodraethiant AHO, sy'n cynnwys Opsiwn 1 – Byddai'r Comisiwn yn cael y swyddogaethau galluogi angenrheidiol yn unig i ymgymryd â gweithgareddau sicrwydd gyda disgresiwn llawn i bennu'r manylion gweithredol; Opsiwn 2 – Yn ogystal â darparu swyddogaethau galluogi i'r Comisiwn, dylid gwneud darpariaeth mewn deddfwriaeth ar gyfer fframwaith ariannol a llywodraethiant fras a rhoi disgresiwn i'r Comisiwn ddatblygu ei ofynion o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant o fewn y fframwaith hwnnw; Opsiwn 3 – Yn ogystal â darparu swyddogaethau galluogi i'r Comisiwn, dylai Gweinidogion Cymru ragnodi manylion y materion y gall neu y mae'n rhaid i'r trefniadau sicrwydd ymwneud â nhw.

rhwng materion a benderfynir gan y Comisiwn a chynnwys deddfwriaeth, rhywbeth a fydd yn gofyn am ystyriaeth ofalus a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid.

- 13.31 Roedd CCAUC yn cefnogi Dewis 1 ar y sail mai'r Comisiwn fyddai yn y sefyllfa orau i ddiffinio'r trefniadau, gan ddweud y byddai ymhelaethu ar faterion o'r fath ar y cam hwn "yn arwain at ddeddfwriaeth rhy benodol ac anhyblyg."
- 13.32 Roedd cynrychiolwyr AB, cyflogwyr a diwydiant, a darparwyr DSW i gyd yn cefnogi'r cynnig. Awgrymodd yr FISSS y byddai'n galluogi'r Comisiwn i "ddysgu ac addasu ei brosesau ar sail profiad ac ymateb darparwyr AHO."
- 13.33 Nid oedd cynrychiolwyr ysgolion yn cefnogi'r cynnig – gan ei weld fel haen ychwanegol a fyddai'n ychwanegu at lwyth gwaith arweinwyr ysgolion.

Cwestiwn 64: Ydych chi'n cytuno:

- a) y dylid rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i ymgynghori â darparwyr AHO ac unrhyw bersonau eraill y mae eu hystyried yn briodol wrth ddatblygu ei drefniadau ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant?
- b) y dylai Gweinidogion Cymru allu darparu canllawiau i'r Comisiwn ar ei drefniadau ar gyfer sicrwydd ansawdd a llywodraethiant ac y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn dalu sylw i'r canllawiau hyn?
- c) y byddai'r gofynion uchod yn ddigonol i sicrhau nad yw trefniadau'r Comisiwn ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant yn mynd y tu hwnt i'r cwmpas bwriedig? A oes angen unrhyw fesurau diogelu eraill?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	2
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	5
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	8
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	49

Y farn gyffredinol

- 13.34 Cefnogaeth bron yn unfrydol i a) a b), gyda phryderon ynghylch c)
- 13.35 Pryder penodol ymysg ymatebwyr Addysg Uwch, gyda llawer yn nodi pwysigrwydd cynnal rôl graffu i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran rheolaeth ariannol.

Dadansoddiad sectorol

- 13.36 Roedd ar y sector AU eisiau cynnal rôl graffu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â rheolaeth ariannol, rhywbeth a oedd yn cael ei weld fel mesur diogelu hanfodol. Y farn oedd ei bod yn bwysig cytuno ar hyn cyn ffurfio deddfwriaeth.
- 13.37 Roedd cefnogaeth i ymgynghori gyda darparwyr, ond dylid cynnwys rhanddeiliaid eraill hefyd, gan gynnwys dysgwyr. Ni ddylai hyn arwain at oedi rhy hir wrth ymateb i anghenion sefydliadau.
- 13.38 Nid oedd Prifysgolion Cymru'n cytuno bod y broses a gynigir ar gyfer datblygu a diwygio'r fframwaith sicrwydd ariannol a llywodraethiant yn un briodol.
- 13.39 Roedd y sector AB yn cytuno bron yn unfrydol â'r cynigion, gyda dau rybudd: y naill y dylid sefydlu pwyllgor cyllid sydd ar wahân i bwyllgor archwilio er mwyn galluogi craffu ar wahân, a'r rhybudd arall oedd i ganllawiau a gyflwynir i'r Comisiwn beidio â bod yn rhy feichus a chaniatáu annibyniaeth. Dylai'r Comisiwn hefyd allu ystyried ac anwybyddu canllawiau o'r fath.
- 13.40 Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr a diwydiant yn cytuno'n fras â'r holl gynigion gyda mymryn o amheuan ynghylch (c). Roedd ymatebwyr DSW yn cytuno'n gyffredinol ond yn gofyn hefyd a oedd y trefniadau'n cynnig mesurau diogelu digonol.
- 13.41 Roedd y mwyafrif o gynrychiolwyr ysgolion ac awdurdodau lleol yn cytuno â'r cynigion, er bod un yn teimlo y dylid eithrio chweched dosbarth ysgolion.
- 13.42 Roedd cynrychiolwyr DOyG yn cytuno â holl adrannau'r cynnig ond ni allent wneud sylwadau ar fesurau diogelu ychwanegol hyd nes byddai rôl y Comisiwn wedi cael ei ddiffinio'n gliriach.
- 13.43 Yn unol â'r barnau cyffredinol, roedd cynrychiolwyr gweithlu yn cytuno â'r egwyddorion rheoleiddio cyn belled â'u bod yn berthnasol i bob sector o fewn y system AHO. Fe wnaeth ASCL y sylw nad yw'r cynigion hyn yn berthnasol mewn perthynas â chweched dosbarth ysgolion.

Cwestiwn 65: A oes gennych unrhyw sylwadau neu bryderon ynghylch y cynnig bod y Comisiwn yn gofyn am wybodaeth gan ddarparwyr AHO, yn cynnal adolygiadau sicrwydd rheolaidd, ac yn mynd i mewn i eiddo ac edrych ar ddogfennau neu ddeunyddiau, er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	2
AU	8
Unigol	0
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	7
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	42

Y farn gyffredinol

- 13.44 Roedd cefnogaeth amodol i'r cynnig ar draws pob sector, yn amodol ar ddefnydd addas o bwerau a dull seiliedig ar risg o'u gweithredu.
- 13.45 Roedd, fodd bynnag, amryw o sylwadau bod elfennau o hyn y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad.

Dadansoddiad sectorol

- 13.46 Roedd ymatebwyr o'r sector AU yn pwysleisio'r angen i gynnal ymreolaeth sefydliadol ac academiaidd a sicrhau cydbwysedd o ran bod pwerau arfaethedig y Comisiwn yn briodol a chymesur.
- 13.47 Awgrymodd amryw o ymatebwyr AU y dylai pwerau o'r fath gael eu defnyddio fel dewis olaf yn unig ar ôl i dihysbyddu pob ymyrraeth arall.
- 13.48 Dywedodd CCAUC: "er mwyn iddo allu gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol, bydd yn hanfodol bod y Comisiwn yn gallu gofyn am wybodaeth gan bob darparwr AHO, cynnal adolygiadau sicrwydd cyfnodol, mynd i mewn i safleoedd ac arolygu dogfennau/nwyddau i gefnogi ei swyddogaethau sicrwydd ariannol a llywodraethiant. Bydd yr egwyddorion cyffredinol, sef bod y Comisiwn yn gweithredu'n rhesymol, neu â'r posibilrwydd o wynebu adolygiad barnwrol; ac yn adrodd i Weinidogion Cymru, a'r rheini'n craffu ar ei

waith, yn ddigonol er mwyn sicrhau nad yw'r Comisiwn yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen yn rhesymol i gyflawni ei ddyletswyddau".

- 13.49 Teimlai un ymatebydd AU y byddai'r dull hwn i raddau helaeth yn barhad yr arferion presennol, a dywedodd Prifysgol Wrecsam Glyndŵr "cyn belled ag nad ydynt yn fwy beichus na'r trefniadau presennol, ond dylai'r ymwneud fod yn deg ar draws pob categori o ddarparwyr ac yn gymesur â'u graddfa a'u maint".
- 13.50 Roedd ymatebwyr y sector AB yn gyffredinol yn cefnogi'r cynigion mewn egwyddor, ar yr amod y byddai dyblygu a biwrocratiaeth yn cael ei gadw i isafswm, ac na ddylid defnyddio'r hawl i fynd i mewn i eiddo, er enghraifft, ond mewn cysylltiad â phryderon penodol. Teimlai amryw o ymatebwyr AB fod rhai elfennau o'r cwestiwn yn mynd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad technegol. Er enghraifft, dywedodd Colegau Cymru: "dylid osgoi dyblygu a/neu systemau gor-fiwrocraidd. Dylai sefydlu'r Comisiwn roi cyfle i symleiddio prosesau ar gyfer gofyn am wybodaeth; hefyd dylai'r hawl i fynd i mewn i eiddo, er enghraifft, fod ar yr amod ei bod yn gysylltiedig ag angen penodol am sicrwydd".
- 13.51 Roedd y sector ysgolion yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol, gan dybio y "dylid darllen y cynigion fel pe baent yn gweithredu o fewn y berthynas rhwng y Comisiwn ac awdurdodau lleol yn hytrach na bod gan y Comisiwn berthynas uniongyrchol gydag ysgolion unigol". Roedd amryw o ymatebwyr o Ysgolion yn tybio na fyddai'r cynigion yn berthnasol i chweched dosbarth ysgolion o gwbl, gydag un yn nodi'r potensial am ddyblygu gwaith Estyn.
- 13.52 Roedd darparwyr DSW yn cydnabod yr angen am gydymffurfiaeth ond yn galw am ddull seiliedig ar risg ac osgoi bod yn rhy llawdrwm, gydag amryw o ymatebwyr yn dweud eu bod yn "credu bod hyn yn rhan angenrheidiol o unrhyw broses ac iddi'r nod o roi sicrwydd ariannol a llywodraethiant. Fodd bynnag, byddent yn rhybuddio yn erbyn i hyn ddod yn broses or-fiwrocraidd ac yn awgrymu dull seiliedig ar risg" – Educ8 Ltd, TSW Training Ltd, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Galwedigaethol. Ychwanegodd Instructs: "does dim pwynt i'r Comisiwn fod yn pennu disgwyliadau os nad oes neb yn gwirio a ydynt yn cael eu gweithredu". Mae Instructs yn cynghori y dylai'r broses gael ei gweithredu ar sail risg er mwyn osgoi gormod o wiriadau rhag digwydd.
- 13.53 Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr a diwydiant yn cydnabod bod cydymffurfio yn rhan allweddol o'r broses ac o'r herwydd nid oedd ganddynt broblemau gyda'r cynigion. Dywedodd FISSS y dylai hyn ddigwydd ochr yn ochr ag arolygiadau ac ymweliadau ac y dylai barhau fel adolygiad desg oni bai bod achos pryder pellach.
- 13.54 Roedd cynrychiolwyr gweithlu'n cefnogi'r cynigion er eu bod yn ychwanegu rhai argymhellion allweddol. Mae angen i'r Comisiwn weithredu mesurau diogelu priodol gan osgoi creu cyfundrefn o fiwrocratiaeth diangen.

Cwestiwn 66: A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn amrywiaeth o bwerau ymyrryd er mwyn ymdrin â methiant i gydymffurfio â gofynion sicrwydd ariannol a llywodraethiant?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	2
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	38

Y farn gyffredinol

- 13.55 Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig gan bob sector ac eithrio ysgolion.
- 13.56 Roedd rhybudd na ddylai'r pwerau fod yn fwy na'r rhai sydd eisoes ar waith.

Dadansoddiad sectorol

- 13.57 Roedd y cynrychiolydd DOyG yn cytuno bod angen pennu'r pwerau hyn mewn deddfwriaeth.
- 13.58 Roedd ymatebwyr y sector AB hefyd yn cytuno gyda'r cynnig ond bod arnynt eisiau sicrhau bod y pwerau'n cael eu diffinio mewn deddfwriaeth er mwyn rhoi'r oruchwyliaeth derfynol i Weinidogion Cymru ac fel bod Colegau Cymru'n cael y cyfle i adolygu'r pwerau arfaethedig.
- 13.59 Roedd ymatebwyr o'r sector AU yn cytuno'n fras â'r egwyddor ond roedd arnynt eisiau mwy o eglurder ynghylch pa bwerau fyddai'n cael eu cadw gan Weinidogion Cymru, er mwyn sicrhau bod pwerau ymyrryd y Comisiwn yn adlewyrchu meysydd a graddau ei gyfrifoldeb: "ydym, mewn egwyddor, er y byddem yn croesawu mwy o fanylion ar yr ystod arfaethedig hon o bwerau, y digwyddiadau sbarduno a chraffu ar weithredu'r pwerau hyn er mwyn sicrhau cymesuredd." (Prifysgol Caerdydd)

- 13.60 Dywedodd CCAUC: “Cytunwn y dylai'r Comisiwn gael amrediad o bwerau ymyrryd ar ei gyfer i ymdrin â methiant i gydymffurfio â gofynion sicrwydd ariannol a llywodraethiant. Dylai'r pwerau ymyrryd hyn fod yn ddigon cadarn i alluogi'r Comisiwn i ddiogelu buddiannau dysgwyr, cronfeydd cyhoeddus ac enw da'r system AHO yng Nghymru, gan fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i'r Comisiwn ymyrryd mewn modd amserol a chymesur”.
- 13.61 Roedd yr unig ymatebydd o'r sector ysgolion yn anghytuno â'r cynnig, gan ei weld fel rhywbeth biwrocraidd a diangen ac yn groes i fuddiannau dysgwyr.
- 13.62 Roedd UCU yn galw am ymyrraedd cyn gynted â phosibl fel nad yw swyddi a staff yn cael eu peryglu yn sgil llywodraethiant annigonol. Roedd yr undeb yn dadlau'n gryf hefyd y dylai fod “lle blaenllaw a chanolog i hyfforddiant yn y canllawiau i AB – unwaith eto mae ein barn wedi cael ei anwybyddu”.
- 13.63 Roedd y sector DSW yn cefnogi'r cynnig am amrediad o bwerau, i adlewyrchu'r angen ar draws gwahanol sectorau. Dywedodd amryw o ymatebwyr DSW: “Fel y nodwyd gydag ymdriniaeth y Comisiwn o'r swyddogaethau sicrwydd ariannol a llywodraethiant, ni ellir cael un ateb sy'n addas i bawb. Mae'r un peth yn wir am yr ymyraethau y bydd eu hangen gan y Comisiwn i helpu darparwr dysgu i wella ei berfformiad yn y meysydd hyn”.

Cwestiwn 67: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Gweinidogion Cymru gadw eu pwerau ymyrryd o dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ac y dylid galluogi'r Comisiwn i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch arfer y pwerau hynny?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	1
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	37

Y farn gyffredinol

- 13.64 Roedd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn, gyda chonsensws eang y dylai'r pwerau gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn.
- 13.65 Roedd y sylwadau wedi eu cyfyngu i raddau helaeth i ymatebwyr o'r sector Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Dadansoddiad sectorol

- 13.66 Roedd ymatebwyr y sector AB yn gyffredinol yn gwrthwynebu'r cynnig, gan fod arnynt eisiau trosglwyddo pwerau i'r Comisiwn gyda dim ond lleiafrif o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig y dylai Gweinidogion Cymru gadw eu pwerau ymyrryd o dan adran 57 o Ddeddf 1992: "Llywodraeth Cymru i barhau fel y prif reoleiddiwr" (Coleg Castell-nedd Port Talbot).
- 13.67 Ymysg ymatebwyr y sector AU, roedd pawb yn cytuno neu'n cytuno mewn egwyddor â'r dull, gyda rhai'n cymedroli hyn trwy ofyn am sicrwydd y byddai pwerau'r Comisiwn yn adlewyrchu ei gyfrifoldebau.
- 13.68 Teimlai rhai fod y mater yn fwy perthnasol i'r sector AB gan rybuddio am yr hyn y gallai'r cynnig hwn ei olygu i AU: "Mater i'r sector AB yn bennaf wneud sylwadau arno yw hwn. Fodd bynnag, nid yw'n glir ar yr olwg gyntaf i ni a fydd pwerau'r Comisiwn yn adlewyrchu ei gyfrifoldebau, ac mae perygl clir y gallai hyn gael sgil-effaith ar y ffordd mae'n gweithredu ei bwerau mewn perthynas ag AU." (Prifysgolion Cymru).
- 13.69 Awgrymwyd y gallai'r Comisiwn hysbysu Gweinidogion Cymru os oedd ganddo bryderon difrifol. "Bydd yn bwysig bod dull cyffredinol yr ymyrryd yn gyffredinol gyson ar draws y gwahanol sectorau o fewn y system AHO. Mewn AU, mae ymyrryd yn ymwneud i raddau helaeth â chyd-drafod gyda Gweinyddiaeth neu Gorff Llywodraethu Sefydliad Addysg Uwch, gyda Gweinidogion Cymru'n ymwneud o dan amgylchiadau eithriadol yn unig (ee dal yn ôl Cynllun Ffioedd a Mynediad Sefydliad Addysg Uwch)" (CCAUC)
- 13.70 Roedd rhai ymatebwyr o'r sector DSW yn cytuno â'r cwestiwn, roedd darparwyr eraill yn teimlo'u bod yn anghymwys i wneud sylw, ond yn nodi diffyg cysondeb pe bai Gweinidogion Cymru trosglwyddo rhai pwerau ond nid hwn.
- 13.71 Roedd pawb o'r ymatebwyr Cyflogwyr, Llywodraeth Leol ac Undebau yn cytuno â'r cynnig, gyda rhai yn ychwanegu nad oeddent yn gweld dim rheswm dros newid y trefniadau hyn.

Cwestiwn 68: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo rôl Prif Reoleiddiwr Elusennau ar gyfer sefydliadau addysg bellach i'r Comisiwn arfaethedig? Beth yw eich barn ynglŷn â'r cynnig i gadw'r gofyniad presennol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gofrestru â'r Comisiwn Elusennau?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	7
AB/AU	0
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	31

Y farn gyffredinol

- 13.72 Roedd cymeradwyaeth ofalus i'r cynnig i archwilio trosglwyddo'r rôl reoleiddio ar gyfer Addysg Bellach i'r Comisiwn.
- 13.73 Y teimlad oedd bod y trefniadau presennol ar gyfer Addysg Uwch yn gweithio ac felly ni chanfyddwyd unrhyw angen dros newid.

Dadansoddiad sectorol

- 13.74 Roedd ymatebwyr AB o blaid y cynnig ar y cyfan, yn awyddus i drosglwyddo pwerau i'r Comisiwn, er bod rhai'n nodi'r anghenion am ystyriaeth ac ymgynghoriad bellach gyda'r sector AB a'r Comisiwn elusennau cyn unrhyw newidiadau deddfwriaethol: "Ydym. Mewn egwyddor, mae ColegauCymru o'r farn y dylai'r Comisiwn arfaethedig gael swyddogaethau rheoleiddio a llywodraethu llawn. Dylid rhoi ystyriaeth lawn a gofalus i resymoli'r mecanweithiau ar gyfer rheoli'r holl sefydliadau yn y sector". (ColegauCymru) Roedd lleiafrif fodd bynnag yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru barhau fel y prif reoleiddiwr. Roedd ymatebwyr AB a fynegodd farn ar AU yn tueddu i gefnogi'r cynnig i gynnal y gofyniad presennol i sefydliadau AU yng Nghymru gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau.
- 13.75 Roedd ymatebwyr y sector AU yn gryf o blaid cadw'r trefniadau ar gyfer AU heb eu newid. Awgrymwyd bod angen cryfhau'r cynigion

presennol i fynd ymhellach na'r Comisiwn yn "talw sylw" i statws elusennol sefydliadau.

- 13.76 Fe wnaeth un ymatebydd AU nodi'r angen am gysondeb rhwng AU ac AB, gan fynegi cefnogaeth i gadw'r trefniadau presennol, ond gyda'r rhybudd canlynol: "Fodd bynnag, teimlwn ei bod yn bwysig trin elusennau AU ac AB yr un fath: naill ai mae'r ddau yn dod yn elusennau a eithrir, gyda'r Comisiwn arfaethedig yn Brif Reoleiddiwr yr Elusen, neu maent yn cofrestru'n uniongyrchol gyda'r Comisiwn Elusennau." (Prifysgol Aberystwyth) Ar y llaw arall, teimlai ymatebydd arall yn y sector hwn fod gwahaniaeth mewn ymdrinaeth rhwng AB ac AU "efallai'n anochel mewn rhai ardaloedd fel hon" (Prifysgol Wreccsam Glyndŵr)
- 13.77 Roedd CCAUC yn cefnogi trosglwyddo rolau o Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar y sail ganlynol: "Pe nas trosglwyddid rôl y Prif Reoleiddiwr Elusennau ar gyfer sefydliadau AB, byddai hyn yn achosi problemau posibl pe digwyddai ymyrraeth, gan y byddai'n rhaid cynnwys y Comisiwn newydd, Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn Elusennau."
- 13.78 Roedd CCAUC hefyd yn gyffredinol o blaid i'r sector AU ddod o dan yr un trefniadau rheoleiddio, er nad ystyrir hyn yn flaenoriaeth ar hyn o bryd: "Gan ein bod ni o'r farn ei bod yn bwysig fod dulliau cyffredinol rheoleiddio yn weddol gyson ar draws yr amrywiol sectorau, byddem hefyd yn cefnogi trosglwyddo rôl y Prif Reoleiddiwr Elusennau ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch i'r Comisiwn newydd. Fodd bynnag, yng nghyd-destun newidiadau sylweddol eraill sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Comisiwn, nid ystyrir hyn yn flaenoriaeth uchel i'w weithredu o'r cychwyn. Gellid gweithredu newid o'r fath unwaith y byddai'r Comisiwn wedi'i sefydlu ac wedi bod ar waith am ychydig flynyddoedd." (CCAUC)
- 13.79 Roedd y cynrychiolydd undeb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn hefyd yn cynnig cydnawsedd rhwng AB ac AU ond gan ddefnyddio model gwahanol: "Mae sefydliadau AB ac AU yn cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau ac mae rôl y rheoleiddiwr yn gorwedd gyda'r Comisiwn" (UCU)
- 13.80 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr DSW o'r fath y dylai Llywodraeth Cymru gadw rôl y Prif Reoleiddiwr Elusennau dros sefydliadau AB, er budd cysondeb, trwy eu bod yn dal y swyddogaeth hon dros bob elusen yng Nghymru.
- 13.81 Roedd ymatebwyr o'r sector Ysgolion yn galw am gysondeb ar draws AB ac AU, yn unol ag argymhellion yn adroddiad Hazelkorn. "Un o'r prif faterion a godwyd gan yr Athro Hazelkorn yw anghysondeb ar draws y sectorau AHO. Un o egwyddorion sylfaenol y diwygiadau hyn i AHO yw cyflwyno mwy o gysondebau. O'r herwydd, byddai'n fwy priodol cael ymdriniaeth gyson â statws elusennol AB ac AU – er enghraifft y Comisiwn i ddod y prif reoleiddiwr i bawb." (Estyn)

14. Trosolwg o ymatebion i adran 12: Llywodraethiant Addysg Uwch

Cwestiwn 69: A ydych chi'n cytuno y dylai'r Cyfrin Gyngor barhau i oruchwylio a chymeradwyo'r diwygiadau hynny i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch y bernir eu bod o bwys i'r cyhoedd?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	2
AB/AU	2
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	28

Y farn gyffredinol

- 14.1 Roedd cytundeb helaeth â'r cynnig hwn.
- 14.2 Roedd y Cyfrin Gyngor yn cael ei weld bron yn unfrydol fel y corff gorau i wneud hyn.

Dadansoddiad sectorol

- 14.3 Yn gyffredinol, roedd cytundeb gyda'r cynnig ar draws yr holl sectorau a ymatebodd i gwestiwn yr ymgynghoriad. Roedd cytundeb helaeth mai'r Cyfrin Gyngor oedd y corff gorau ar gyfer gwneud hyn, gyda'r wybodaeth a'r profiad angenrheidiol.
- 14.4 Mae'n ddealladwy mai'r sector AU oedd yn ymwneud fwyaf â'r cwestiwn hwn. Roedd rhai'n mynegi pryder ynghylch manylion, er enghraifft roedd Prifysgol Caerdydd yn pwysu na ddylai unrhyw newidiadau gael eu gwneud i ddogfennau llywodraethu "ond yn anaml ac mewn amgylchiadau eithriadol".
- 14.5 Fodd bynnag, roedd rhai ymatebion yn amau'r syniad o gyflwyno gofyniad budd y cyhoedd a'r Comisiwn yn cael rôl yn hyn. Er enghraifft, dywedodd Prifysgolion Cymru: "Ydym, ac eithrio'r elfen budd y cyhoedd. Cytunwn â'r farn a fynegwyd yn unfrydol gan

aelodau o'r grŵp ffocws AU, na ddylai'r trefniadau presennol ar gyfer newid y dogfennau llywodraethu a rôl y Cyfrin Gyngor gael eu newid yn sylfaenol ar hyn o bryd."

- 14.6 Fe wnaeth yr UCU nodi enghraifft ddiweddar lle'r oedd Prifysgol Leeds wedi ceisio tanseilio hawliau cyflogaeth, felly, "mae sicrhau bod y Cyfrin Gyngor yn cael rhoi cymeradwyaeth derfynol i newidiadau yn sicrhau craffu pellach lle gwnaed ymgais o'r fath".
- 14.7 Roedd Estyn yn cytuno â'r cynnig, gan ddweud: "Mae gan y Cyfrin Gyngor wybodaeth a phrofiad helaeth o faterion addysg uwch. Mae'r trefniadau presennol yn rhai cadarn."
- 14.8 Roedd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a darparwyr DSW eraill yn cymeradwyo'r cynnig – gan awgrymu: "Ymddengys i ni, bod gan y Cyfrin Gyngor y dyfnder a helaethrwydd profiad i gyflawni'r rôl hon, er mwyn darparu'r graddau gofynnol o oruchwyliaeth, ac o'r herwydd dylai barhau i roi cymeradwyaeth lle bo'n briodol."

Cwestiwn 70: A ydych chi'n ystyried bod y cynnig i ymestyn dull ailddosbarthu 2006 yn briodol ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch? Os na, pam?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	1
AB/AU	2
AU	8
Unigol	1
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	25

Y farn gyffredinol

- 14.9 Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg, gyda'r fantol yn erbyn y cynnig a barn gyffredinol y gellid ystyried hyn yn ddiweddarach.

Dadansoddiad sectorol

- 14.10 Teimlai'r mwyafrif o ymatebwyr sefydliadau addysg uwch na ddylid newid trefniadau ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu ar hyn o bryd – er bod barn gyffredinol y gellid ailedrych ar hyn unwaith y bydd y Comisiwn ar waith. Ymatebodd Prifysgolion Cymru: “Nac ydym, rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd yn unfrydol yn y digwyddiad ymgynghori, na ddylai trefniadau ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu gael eu newid ar hyn o bryd”. Dylai'r pwyntiau i'w hystyried yn y dyfodol gynnwys y rhestr o faterion y bernir eu bod o bwys i'r cyhoedd a sut y byddai'r rhestr yn cael ei defnyddio. Roedd Prifysgolion Cymru'n amau a fyddai'r dull a gynigir yn symleiddio pethau ac yn nodi risg sylweddol i'r cynigion arwain at ddeddfwriaeth wael.
- 14.11 Teimlai Prifysgol Aberystwyth y gallai ehangu'r dull gweithredu fod yn llesol pe bai'n arwain at leihad yn yr elfennau sydd angen eu nodi yn y Siarter Brenhinol a'r Statudau, er yn cadw gofyniad i gael dogfennau llywodraethu o'r fath.
- 14.12 Dywedodd Prifysgol Wrecsam Glyndŵr y byddai ehangu'r dull gweithredu yn golygu sefydlu mwy o gysondeb rhwng Corfforaethau AU a Sefydliadau Siartredig.
- 14.13 Teimlai'r Brifysgol Agored na ddylai rôl y Cyfrin Gyngor gael ei newid yn sylfaenol ar hyn o bryd.
- 14.14 Teimlai'r Undeb Prifysgolion a Cholegau, fodd bynnag, nad yw'r pwnc hwn yn flaenoriaeth ac y dylid ei ystyried gan y Comisiwn unwaith y bydd wedi cychwyn o ddifrif ar ei waith.
- 14.15 Roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn nodi risg y gallai'r cynnig hwn rwystro cynigion eraill (pwysicach) rhag derbyn ystyriaeth ddigonol. Y teimlad oedd felly y dylid ystyried y cynnig y tu allan i gylch gwaitih yr ymgynghoriad.
- 14.16 Roedd Estyn yn cytuno â'r cynnig – gan awgrymu y byddai'n rhoi mwy o ymreolaeth i sefydliadau addysg uwch ac yn eu cysoni â threfniadau sefydliadau addysg bellach.
- 14.17 Roedd darparwyr DSW a chyflogwyr yn cytuno â'r cynnig.

Cwestiwn 71: A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofynion statudol presennol sy'n gymwys i ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch er mwyn gallu ymestyn y dull gweithredu arfaethedig i bob sefydliad addysg uwch?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	1
AB/AU	1
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	25

Y farn gyffredinol

- 14.18 Roedd gwrthwynebiad cyffredinol i wneud y newid hwn ar hyn o bryd, er y gellid ailedrych ar hyn unwaith y byddai'r Comisiwn wedi'i sefydlu.

Dadansoddiad sectorol

- 14.19 Teimlai'r mwyafrif o ymatebwyr AU na ddylai trefniadau ar gyfer diwygio dogfennau gael eu newid ar hyn o bryd – er bod barn gyffredinol y gellid ailedrych ar hyn unwaith y byddai'r Comisiwn ar waith. Dywedodd CCAUC: “Mae'n werth i'r Comisiwn ystyried cynigion ar gyfer gwneud y newidiadau hyn rywbyrd yn y dyfodol er mwyn galluogi gwell cysondeb. Fodd bynnag, nid oes unrhyw broblemau'n codi o'r trefniadau presennol a gall fod goblygiadau ymarferol sylweddol os bydd sefydliadau'n rheoli'r newidiadau hyn yn ogystal â chanlyniadau eraill y ddeddfwriaeth arfaethedig.” Roedd rhywfaint o ansicrwydd hefyd ynghylch union ystyr y cynnig o ran “ehangu'r dull gweithredu” i bob sefydliad addysg uwch.
- 14.20 Roedd un ymateb o blaid y newid, gan y byddai'n arwain at gysondeb rhwng corfforaethau addysg uwch a sefydliadau siartredig. Roedd hyn gyda'r rhybudd y byddai'n rhaid i unrhyw beth a roddir ar waith i gymryd lle'r trefniadau presennol fod yn gadarn a dibynadwy.
- 14.21 Cynigiodd Estyn “y byddai'n “ddefnyddiol symleiddio ac uno'r broses i sefydliadau addysg uwch wneud diwygiadau i'w cyrff llywodraethu cyn

belled â bod materion sydd o bwys i'r cyhoedd a buddsoddiad cyhoeddus yn cael eu diogelu.”

- 14.22 Roedd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau yn hynod wylidwrus o'r cynnig hwn ond nid oeddent yn dymuno ychwanegu sylw ar hyn o bryd.

Cwestiwn 72: A ydych chi'n cytuno â rôl arfaethedig y Comisiwn mewn perthynas ag ystyried diwygiadau i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	2
AB/AU	1
AU	8
Unigol	1
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	25

Y farn gyffredinol

- 14.23 Roedd mwyafrif o ymatebion o'r sector AU o blaid y cynnig hwn, ond gyda rhai pryderon a rhybuddion ar y manylion a'r amseru.

Dadansoddiad sectorol

- 14.24 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cytuno â'r cwestiwn hwn, ac roedd mwyafrif yr ymatebion hyn o'r sector AU. Ar draws y sectorau roedd rhai sylwadau a phryderon. Roedd Prifysgolion Cymru'n cytuno mewn egwyddor, ond yn awyddus i weld mwy o fanylion ar y cynigion, er enghraifft o safbwynt rôl y Comisiwn wrth gynghori Prif Weinidog Cymru fel y Cyfrin Gyngorydd arweiniol. Roedd Prifysgol Wrecsam Glyndŵr yn cytuno â'r cynnig gan y byddai'n galluogi sefydliadau i ymwneud yn gynnar â'r Comisiwn i drafod diwygio eu dogfennau llywodraethu. Nododd yr angen ychwanegol i ystyried rôl y Comisiwn mewn diwygiadau i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg bellach.

- 14.25 Roedd eraill yn cytuno mewn egwyddor ond nad oeddent yn glir ar fanylion rôl arfaethedig y Comisiwn. Ymatebodd y Brifysgol Agored yng Nghymru, er enghraifft, fel hyn: "Cytunwn mewn egwyddor y gallai'r Comisiwn gael rôl ddefnyddiol yn y maes hwn ond byddai angen inni weld mwy o fanylion ar gynigion penodol er mwyn gwneud sylwadau pellach."
- 14.26 Awgrymwyd bod angen mwy o eglurder ynghylch y berthynas rhwng y Comisiwn a Phrif Weinidog Cymru (fel y Cyfrin Gyngorydd arweiniol) a'r mecanweithiau ar gyfer galluogi hyn er mwyn cynnal annibyniaeth y Cyfrin Gyngor. Roedd gan Brifysgol Aberystwyth "bryderon y byddai'r rôl ffurfiol arfaethedig i'r Comisiwn o ran ystyried diwygiadau i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yn gosod haen ychwanegol o fiwrocratiaeth yn y broses."
- 14.27 Dywedodd ymatebydd arall y byddai'r trefniadau a awgrymir yn galluogi Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn i reoli trefniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yn fwy trylwyr, trwy ymestyn cymeradwyaeth y tu hwnt i fudd y cyhoedd i gynnwys llywodraethu da.
- 14.28 Roedd sylw ychwanegol o'r ymatebion yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol symleiddio'r broses i sefydliadau addysg uwch wneud diwygiadau i'w cyrff llywodraethu (cyn belled â bod materion sy'n ymwneud â budd y cyhoedd a buddsoddiad cyhoeddus yn cael eu diogelu).

Cwestiwn 73: Er mwyn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig, a ydych chi'n cytuno â'r canlynol:

- a) dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar y weithdrefn ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu?
- b) dylai'r Comisiwn adolygu rhestr 2006 o faterion budd y cyhoedd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chyhoeddi canllawiau ynghylch y materion hynny y bydd y Cyfrin Gyngor yn parhau i'w goruchwyllo a'u cymeradwyo?
- c) dylid galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau i'r Comisiwn o ran y materion budd y cyhoedd y dylid parhau i graffu arnynt a'u goruchwyllo?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	1
AB/AU	2
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	1
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	25

Y farn gyffredinol

- 14.29 a). Roedd y mwyafrif o ymatebion o blaid y cynnig hwn, er bod barnau o fewn y sector AU yn gymysg ac amheuon ynghylch y raddfa amser.
- 14.30 b). Y prif ymateb oedd ydym, ond nid ar hyn o bryd.
- 14.31 c). Roedd pryderon y gellid defnyddio canllawiau i gyfarwyddo neu reoli sefydliadau addysg uwch.

Dadansoddiad sectorol

- 14.32 O ran a) roedd pryderon bod angen i natur y canllawiau arfaethedig a'r defnydd a wneir ohonynt gael ei drafod yn llawn, a oedd y tu hwnt i gwmpas y broses hon. Roedd Prifysgol Caerdydd yn mynnu y dylai'r canllawiau fod ar gael i gynulleidfa ehangach, er mwyn cyrraedd rhanddeiliaid fel dysgwyr a rhieni.
- 14.33 Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd ymatebwyr o'r sector AU yn gwrthwynebu'r syniad o Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau;

gyda lleiafrif a oedd yn cytuno ar y sail fod hyn i'w gwblhau trwy ymgynghori â rhanddeiliaid ar yr adeg priodol. Roedd Prifysgol Wrecsam Glyndŵr yn cytuno â'r dull gweithredu "gan nad oes unrhyw ganllawiau ysgrifenedig ar hyn o bryd".

- 14.34 Roedd y rhai a wnaeth sylwadau o sectorau eraill yn cytuno gyda chyhoeddi canllawiau ond yn cydnabod hefyd nad oedd hyn yn fater o frys i'r Comisiwn, y dylid caniatáu iddo "ymgynghori a symud ymlaen gyda'r cynigion hyn yn y dyfodol agos". (UCM Cymru)
- 14.35 Roedd mwyafrif o ymatebion i b) yn galw am adolygiad, gan ymgynghori gyda rhanddeiliaid "ar adeg briodol" oherwydd cymhlethdod y maes, rhywbeth y byddai'n well iddi gael ei ystyried gan y Comisiwn unwaith mae ei waith yn gliriach. Nododd Prifysgol Aberystwyth: "Dylai'r ymgynghoriad gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar ran y Prif Weinidog fel y Cyfrin Gyngorydd arweiniol ar faterion AU yng Nghymru, a dylai unrhyw ganllawiau diwygiedig ael eu cyhoeddi ar y sail honno."
- 14.36 O ran c), teimlai ymatebwyr unwaith eto nad dyma'r amser iawn i fod yn trafod hyn. Nid oedd yr ymatebwyr yn clir ar y sail resymegol dros Lywodraeth Cymru yn cynghori ar faterion o'r fath. Nododd Prifysgol Caerdydd: "Dylai'r cyfnodau adolygu fod o hyd priodol i beidio â chreu adweithiau dianghenraid i faterion sydd o ddiddordeb tymor byr."
- 14.37 Dalai darparwyr DSW y dylai hyn fod yn fater i'r Comisiwn ei benderfynu, trwy ymgynghori â rhanddeiliaid.

Cwestiwn 74: A ydych chi'n credu y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn diogelu budd y cyhoedd yn nhrefniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	3
AB/AU	0
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	1
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	26

Y farn gyffredinol

- 14.38 O fewn y sector addysg uwch, roedd mwyafrif o ymatebion yn erbyn y cynnig ac amheuan ynghylch y raddfa amser, tra bod barnau eraill yn fwy cymysg.

Dadansoddiad sectorol

- 14.39 O fewn y sector AU, y teimlad cyffredinol oedd nad dyma'r amser am newidiadau o'r fath, gan fod angen gwaith sylweddol i weithredu ar y cynigion. Roedd amheuaeth hefyd a fyddai cyflwyno'r newidiadau arfaethedig yn diogelu budd y cyhoedd mewn gwirionedd, gan yr awgrymwyd bod risg o wanhau'r diffiniad o beth oedd er budd y cyhoedd, gan golli hygredd yn y broses. Fe wnaeth Prifysgol Caerdydd grynhai fel hyn: "Credwn y gall y dull gweithredu arfaethedig weithio. Fodd bynnag, bydd angen i'r Comisiwn gadw mewn cof y risg posibl i'r diffiniad o fudd y cyhoedd gael ei ymestyn a'i lurnio i hybu buddiannau tymor byr gwahanol grwpiau o randdeiliaid, ac iddo gael ei wanhau neu ei lygru i'r graddau y bydd yn colli hygredd."
- 14.40 Ymatebodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru: "Na, nid ar hyn o bryd. Bydd gweithredu fel y bwriedir yn gofyn am waith sylweddol pellach. Ni ddylid newid y broses ar hyn o bryd a dylid gohirio unrhyw waith pellach yn y maes hwn tan yn ddiweddarach." Roedd UCU yn cytuno nad oedd yr amser yn iawn: "Ie, ond eto ar amser priodol, nid yr un pryd â sefydlu'r Comisiwn."
- 14.41 Teimlai amryw o ymatebwyr o'r sector AB fod y cynigion yn rhesymol, ac awgrymodd Colegau Cymru y dylai pob sefydliad addysg uwch gael pennaeth AB lleol ar eu corff llywodraethu er mwyn gwreiddio'r cysylltiadau.
- 14.42 Ymatebodd Estyn y dylai'r cynigion roi atebolrwydd priodol a phroses graffu addas i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Cwestiwn 75: Byddem yn croesawu sylwadau ynghylch a ddylai'r trefniant hwn barhau i weithredu yn y dyfodol fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn a'r gorfforaeth addysg uwch dan sylw, neu a ddylid gwneud darpariaeth mai ar argymhelliad y Comisiwn yn unig y gellir arfer y pwerau hyn.

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	1
AB/AU	1
AU	7
Unigol	0
Awdurdod lleol	1
Corff rheoleiddio	2
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	2
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	17

Y farn gyffredinol

- 14.43 Roedd ymatebwyr yn croesawu'r cynnig hwn a chael gwared ar bwerau Llywodraeth Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yn erbyn ei hewylllys.

Dadansoddiad sectorol

- 14.44 Daeth y mwyafrif o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn o'r sector AU ac yn gyffredinol roedd cefnogaeth gref i'r newid arfaethedig gan fod y trefniadau presennol yn cael eu gweld fel rhai anghyson (gan na ellir diddymud sefydliadau addysg uwch ymgorfforedig fel hyn) ac yn golygu risg o ail-ddosbarthu gan yr ONS.
- 14.45 Roedd barn gan rai ymatebwyr y gallai'r cynigion fynd ymhellach a chael gwared ar yr holl bwerau i ddiddymu sefydliadau. Teimlai eraill, fodd bynnag, y dylai'r pŵer i ddiddymu fod ar gael i Lywodraeth Cymru yn dilyn argymhelliad gan y Comisiwn (ar ôl ymgynghori dyledus gyda'r gorfforaeth addysg uwch dan sylw). Awgrymwyd y gallai'r Comisiwn wynebu adolygiad barnwrol pe defnyddid pwerau, pwerau a ddylai fod fel dewis olaf yn unig.
- 14.46 Awgrymodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru "y byddai'n synhwyrol ymgynghori â'r gorfforaeth addysg uwch o dan sylw yn ogystal â'r Comisiwn mewn achos o botensial am ganlyniad mor enbyd".

- 14.47 Fe wnaeth CCAUC grynhoi fel hyn: “Dylai fod pwerau diddymu ar gael i Weinidogion Cymru er mwyn galluogi polisïau yn y dyfodol a fyddai’n gofyn am newidiadau strwythurol fel uno sefydliadau. Cytunwn mai ar argymhelliad y Comisiwn yn unig y dylid arfer y pwerau hyn. Yn ymarferol, mae’r Comisiwn yn annhebygol o allu gwneud argymhelliad o’r fath, a heb fod yn destun her neu apêl gyfreithiol, heb fod wedi ymgynghori â’r gorfforaeth addysg uwch fel rhan o’r broses.”
- 14.48 Roedd UCM Cymru’n awgrymu y bydd unrhyw benderfyniad i ddiddymu corfforaeth addysg uwch o anghenraid yn destun craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol ac ymgynghori helaeth gyda’r sector a rhanddeiliaid eraill – ac felly’n rhoi mesur diogelu digonol.
- 14.49 Rhybyddiodd yr UCW y “byddai angen cymryd gofal dyledus pe bai hyn yn cael ei ddeddfu gan y byddai’n gadael y Comisiwn yn agored i her trwy adolygiad barnwrol, fel y gwelwyd mewn trafodaethau uno blaenorol yn ne-ddwyrain Cymru”.
- 14.50 Dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru “dylai’r system bresennol aros yn ei lle a dylai Gweinidogion Cymru ymgynghori â’r Comisiwn a’r gorfforaeth addysg uwch o dan sylw”.

Cwestiwn 76: Pa opsiwn yw’r mwyaf priodol yn eich barn chi, a pham? A oes unrhyw opsiynau eraill y dylid eu hystyried?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	1
AB/AU	1
AU	9
Unigol	0
Awdurdod lleol	1
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	22

Y farn gyffredinol

- 14.51 Roedd ymatebwyr o'r sector AU o'r farn mai Opsiwn 3⁵ oedd y mwyaf priodol, gan y byddai'n sefydlu cyfwerthedd rhwng corfforaethau addysg uwch yng Nghymru a Lloegr ac yn gwneud corfforaethau addysg uwch yn fwy cyson â sefydliadau siartredig.
- 14.52 Roedd sylwedwyr DSW yn ffafrio Opsiwn 2, gan mai hwn oedd yn cynnig y mwyaf o gysondeb gyda gweddill y sector AHO, gan gynnwys sefydliadau siartredig.

Dadansoddiad sectorol

- 14.53 Roedd ymatebion o'r sector AU yn canolbwyntio'n bennaf ar opsiwn 3 fel y dewis mwyaf addas / priodol i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau rhwng corfforaethau addysg uwch a sefydliadau siartredig yng Nghymru a rhwng corfforaethau AU yng Nghymru a Lloegr. Cafodd y diffyg cysondeb presennol rhwng corfforaethau AU a phrifysgolion siartredig ei godi fel mater a oedd yn gofyn am sylw ar frys, ar wahân i'r ymgynghoriad.
- 14.54 Roedd rhai ymatebwyr, fodd bynnag, yn galw am gadw pwerau diddymu mewn rhyw ffurf, gan ffafrio opsiynau 2 neu 4 o ganlyniad.
- 14.55 Roedd un ymatebydd hefyd yn amau sut roedd pwerau diddymu yn helpu buddiannau dysgwyr mewn achos o ansolfedd, gan awgrymu bod y gyfraith ansolfedd bresennol yn fwy effeithiol.
- 14.56 Teimlai Prifysgol Wrecsam Glyndŵr fod pwyslais sylweddol yn cael ei roi ar fethiant neu gam-reoli sefydliadol fel achos uno, yn hytrach na chanolbwyntio ar resymau mwy cadarnhaol y gallai'r Comisiwn eu cefnogi. Gan nad oes ond tair corfforaeth addysg uwch yng Nghymru, y teimlad oedd bod hyn yn amhriodol.
- 14.57 Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr o'r sector DSW yn ffafrio opsiwn 2; y model AB, gan mai hwn oedd â'r mwyaf o gysondeb â gweddill y sector AHO, gan gynnwys sefydliadau siartredig. Er enghraifft, meddai Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru: "Opsiwn 2 – y Model AB. Cred Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru mai'r dewis hwn sy'n cynnig y cysondeb mwyaf â gweddill y sector AHO, gan gynnwys sefydliadau siartredig, yn ogystal â chadw'r gallu i gyfarwyddo diddymu corfforaethau AU, er mai fel dewis olaf yn unig yw hyn, ac felly'n sicrhau mesurau diogelu i ddysgwyr ac enw da'r sector AHO yng Nghymru. Yn ogystal, bydd gweithredu fel hyn yn sicrhau cydraddoldeb â sefydliadau AU yn Lloegr."

⁵ Gweler y Crynodeb o'r arfarniadau opsiynau ar dudalen 117 o'r ddogfen ymgynghori am fanylion pellach.

Cwestiwn 77: O dan ba amodau neu amgylchiadau ydych chi'n ystyried ei bod yn briodol arfer pwerau diddymu?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	5
AB/AU	1
AU	8
Unigol	0
Awdurdod lleol	1
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	25

Y farn gyffredinol

- 14.58 Teimlai ymatebwyr mai fel dewis olaf yn unig y dylid defnyddio pwerau diddymu. Yr amgylchiadau y cyfeiriwyd atynt amlaf o ran pryd y dylid arfer pwerau diddymu oedd methiant sefydliadol a'r angen i ddiogelu buddiannau dysgwyr.

Dadansoddiad sectorol

- 14.59 Ymysg yr ymatebwyr o'r sector AU (y grŵp mwyaf a ymatebodd i'r cwestiwn hwn), y farn oedd na ddylai pwerau diddymu ond cael eu gweithredu fel dewis olaf un, pan mae popeth arall wedi methu; dywedodd llawer na ddylai gael ei wneud ond gyda chytundeb penodol y gorfforaeth addysg uwch.
- 14.60 Er enghraifft, dywedodd Prifysgol Caerdydd: "Cytunwn y dylid defnyddio'r pŵer diddymu i hwyluso uno neu drosglwyddo fel cosb eithaf, ond gyda buddiannau enw da addysg uwch yng Nghymru yn sail i unrhyw benderfyniad". Roedd gan amryw o ymatebwyr eraill farn debyg, gydag un yn dweud "rhaid i bwerau diddymu beidio â chael eu defnyddio ond ar anogaeth neu gyda chaniatâd y gorfforaeth addysg uwch. Ni ddylid byth eu defnyddio i ddiddymu corfforaeth AU yn erbyn ei hewyllys."
- 14.61 Teimlai Prifysgol Wrecsam Glyndŵr mai uno gwirfoddol fyddai'r unig amgylchiadau lle dylid defnyddio'r pŵer diddymu. Y teimlad oedd y byddai mecanweithiau eraill yn mynd i'r afael â cham-reoli neu

anhawster ariannol difrifol a'i bod yn glir mai diogelu myfyrwyr ddylai fod y flaenoriaeth ym mhob amgylchiadau.

- 14.62 Roedd pawb o'r ymatebwyr o'r sector AB yn galw am gysondeb mewn pwerau diddymu; gydag AB neu ar draws y sector AHO yn ei chyfanrwydd.
- 14.63 Roedd ymatebwyr y sector DSW yn tueddu i feddwl mai'r unig adeg y dylid defnyddio pwerau diddymu yw pan fydd pob ymyrraeth arall (ee trwy fecanwaith Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau) wedi methu, a lle bo angen clir am ymyrraeth bellach i ddiogelu buddiannau myfyrwyr a/neu mynd i'r afael ag achosion difrifol o fethiant sefydliadol.
- 14.64 Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn holi a ddylai materion yn ymwneud ag ansawdd gwael hefyd gael eu cynnwys o dan fethiannau sefydliadol (fel y nodir ym mharagraff 401 o'r ddogfen ymgynghori).
- 14.65 Roedd y cynrychiolydd gweithlu UCU yn ystyried y defnydd o bwerau diddymu "fel dewis olaf un, pan fo pob dewis arall wedi methu".

Cwestiwn 78: A ddylai pwerau diddymu fod yn arferadwy ar argymhellid y Comisiwn yn unig? Os felly, a ddylid ymestyn hyn i'r trefniadau presennol ar gyfer sefydliadau addysg bellach?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	6
AB/AU	1
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	1
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	28

Y farn gyffredinol

- 14.66 Er bod diddymu'n cael ei weld fel y dewis olaf un, gallai cynnwys y Comisiwn yn y broses ychwanegu haen ychwanegol o hyder.
- 14.67 Mae risg y gallai cynnwys y Comisiwn ei wneud yn agored i her gyfreithiol ac y gallai beri oedi mewn ymyrraeth pan fo angen gweithredu cyflym.

Dadansoddiad sectorol

- 14.68 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr y sector AU yn ffafrio'r cynigion ar gyfer AU ac yn awgrymu y dylid eu hymestyn ar draws y sector AHO er mwyn cael cysondeb. Fodd bynnag, fe wnaeth amryw o ymatebwyr leisio'r farn yn gryf na ddylid byth ddefnyddio pwerau yn erbyn unrhyw sefydliad yn erbyn ei ewyllys. Ymatebodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru: "Dylai, fel ddylai fod ar argymhelliad y Comisiwn, ond rhaid i'r broses alluogi gweithredu cyflym lle bo'r angen. Gellid, fe ellid ymestyn y trefniadau ar gyfer sefydliadau AB".
- 14.69 Roedd y mwyafrif o ymatebion o'r sector AB o blaid y cynnig (ar y ddau gyfrif). Fodd bynnag, credai Coleg Castell-nedd Port Talbot y gallai ymestyn i'r sector AB beryglu ei statws NPISH fel y'i gwarchodir yn Neddff Llywodraethu a Gwybodaeth Addysg Bellach ac Uwch Cymru 2014".
- 14.70 Roedd darparwyr DSW yn cytuno â dwy agwedd y cwestiwn. Roedd cynrychiolydd gweithlu yn cydnabod y bydd angen meddwl o ddifrif sut i ddiogelu'r Comisiwn rhag heriau cyfreithiol.

Cwestiwn 79: A ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig, hynny yw na ddylid gwneud newidiadau sylweddol i'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru ar hyn o bryd?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	6
AB/AU	1
AU	10
Unigol	1
Awdurdod lleol	1
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	29

Y farn gyffredinol

- 14.71 Roedd cytundeb helaeth gyda'r cynnig o fewn y sector AU.
- 14.72 Teimlai ymatebwyr AB y dylid ystyried trosglwyddo pwerau i'r Comisiwn.

Dadansoddiad sectorol

- 14.73 Roedd ar y sector AU eisiau mwy o amser i'r Comisiwn ei sefydlu ei hun cyn adolygu unrhyw systemau ar gyfer cymeradwyo pwerau dyfarnu graddau, er mwyn lleihau risg i enw da. Hefyd, roedd rhai pryderon y byddai unrhyw newidiadau'n awgrymu posibilrwydd o ostwng y trothwy ar gyfer sicrhau pwerau – fel a ddigwyddodd yn Lloegr.
- 14.74 Ymatebodd yr UCU: "Oes, mae arnom angen amser i'r Comisiwn newydd ei sefydlu ei hun ac edrych ar anghenion hirdymor Cymru ac enw da rhyngwladol y sector yng Nghymru – does arnom ni ddim eisau agor i'r sector preifat fel maen nhw wedi'i wneud yn Lloegr gan ein bod ni'n bryderus bod y dull gweithredu hwn yn peri risg sylweddol i ansawdd ac enw da rhyngwladol AU".
- 14.75 Roedd CCAUC hefyd yn ddrwgdybus o'r llwybr a gymerwyd yn Lloegr a'r goblygiadau i Gymru a'i dysgwyr: "Ydym, rydym o'r farn fod y newidiadau i'r Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil yn Lloegr, sy'n gostwng y trothwy i geisio am bwerau dyfarnu graddau, yn annoeth ac

yn debygol o arwain at risgiau uwch i ansawdd y ddarpariaeth. Nodwn, fodd bynnag, y bydd hyn yn rhoi pwysau am drefniadau cyfatebol i gymorth myfyrwyr rhwng Cymru a Lloegr, lle gallai Llywodraeth Cymru fod yn darparu cymorth i ddysgwyr sy'n byw yng Nghymru i astudio mewn sefydliad na fyddai'n bodloni meini prawf pwerau dyfarnu graddau yng Nghymru. Bydd angen i'r mater hwn gael ei ystyried ymhellach."

- 14.76 Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr y sector AB yn unfrydol yn eu cred y dylid archwilio'r syniad o drosglwyddo pwerau i'r Comisiwn. Awgrymwyd hefyd gan Goleg Castell-nedd Port Talbot "y dylai'r Comisiwn ystyried galluogi i gesiadau gan sefydliadau AB a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd am bŵer dyfarnu graddau a addysgir (TDAP) fod yn fwy cyraeddadwy".
- 14.77 Roedd Estyn yn cefnogi'r cynnig, gan gymeradwyo'r ffaith nad yw'r sector AU yng Nghymru yn cael ei yrru gan y farchnad. Ei farn oedd y byddai cynnal y status quo yn caniatáu amser i feddwl ymhellach am lywodraethiant ehangach a threfniadau rheoleiddio yng Nghymru.

Cwestiwn 80: A ydych chi'n cytuno â rôl arfaethedig y Comisiwn mewn perthynas ag ystyried ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	6
AB/AU	1
AU	10
Unigol	1
Awdurdod lleol	1
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	29

Y farn gyffredinol

- 14.78 Roedd barnau cymysg ynglŷn â'r cynnig ymysg cynrychiolwyr y sector AU, er y teimlai ymatebwyr AB y dylai'r holl bwerau perthnasol a chysylltiedig gael eu dal gan y Comisiwn.

Dadansoddiad sectorol

- 14.79 Fe wnaeth cynrychiolwyr y sector AU fynegi amrywiaeth o farnau ar y mater hwn. Teimlad Prifysgolion Cymru oedd: “Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas hir gyda Swyddfa'r Cyfrin Gyngor ac felly nid oedd dim rheswm da dros ei gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiwn ddatblygu perthnasoedd newydd a sefydlu proses newydd.” Yn ogystal, rhybuddiodd yn erbyn yr agwedd farchnadeiddio sydd ar waith yn Lloegr, er mwyn osgoi risgiau i fesurau diogelu dysgwyr. Er bod rhai sefydliadau addysg uwch yn cytuno'n llwyr â hyn, roedd eraill yn mynegi mwy o gefnogaeth i'r cynnig; roedd Prifysgol Abertawe, er enghraifft, yn cydnabod bod rôl i'r Comisiwn yma, cyn belled â bod y penderfyniad terfynol yn aros gyda'r Cyfrin Gyngor. Roedd CCAUC yn cefnogi'r cynnig, ar yr amod “na ddylid gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r gweithdrefnau a'r meini prawf presennol”.
- 14.80 Roedd ymatebwyr AB yn unfrydol y dylai'r pwerau gael eu dal gan y Comisiwn. Roedd pawb o'r sector DSW yn cytuno â'r cwestiwn gyda llawer yn ateb “Ydym”.
- 14.81 Teimlai Estyn fod y ddogfen yn cyflwyno dadl dros gyflwyno “pwerau dyfarnu graddau hyblyg, neu i nifer cyfyngedig o bynciau, yn enwedig yng ngoleuni graddau carlam a dewisiadau cynyddol AU”.
- 14.82 Credai UCM Cymru y gallai cynyddu rôl i'r Comisiwn mewn perthynas â phwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru “fod â'r potensial o arwain at fwy o hyblygrwydd ac ymatebolrwydd”, er y byddai angen i unrhyw newidiadau gael eu gwneud gan ymgynghori â'r sector AU.

Cwestiwn 81: A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn ystyried effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer darparu addysg uwch mewn addysg bellach fel rhan o'i gylch gwaith strategol ehangach ar gyfer darpariaeth AHO?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	8
AB/AU	1
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	4
Cynrychiolwyr gweithlu	2
Cyfanswm	32

Y farn gyffredinol

- 14.83 Roedd cytundeb helaeth gyda'r cynnig hwn, er bod galwadau amlwg am fwy o eglurder ynghylch y trefniadau arfaethedig.

Dadansoddiad sectorol

- 14.84 Roedd cytundeb cyffredinol ar draws yr holl sectorau, er i rai pwyntiau ac ystyriaethau allweddol gael eu hamlygu. Roedd Prifysgolion Cymru yn galw am fwy o eglurder ar y cynigion er mwyn sicrhau nad oedd oedd trefniadau "yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr weithredu neu gydweithio mewn ffordd benodol, gan y gallai hyn olygu her i ymreolaeth sefydliadol neu fod â chanlyniadau o dan gyfraith cystadleuaeth". Roedd Prifysgol De Cymru yn adleisio hyn, gan ddweud "ni all y Brifysgol gefnogi'r cynnig hwn ar hyn o bryd gan ei fod yn dal yn aneglur. Dylai AU mewn AB weithredu yn yr un ffordd ag AU yn ehangach. Mae'r ddarpariaeth yn ddarostyngedig i'r un gofynion ansawdd ar hyn o bryd." Awgrymodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd y dylai unrhyw adolygiad fod yn annibynnol o'r Comisiwn, gan fod ganddo fuddiant.
- 14.85 Gofynnodd UCM Cymru am fwy o wybodaeth ar y cynnig cyn gwneud sylw.

- 14.86 Roedd ymatebwyr y sector AB yn cefnogi'r cynnig, yn enwedig yng nghyd-destun AU galwedigaethol, er y teimlai rhai fod hyn y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad technegol.
- 14.87 Roedd Estyn yn cefnogi'r cynnig "er mwyn cefnogi'r gyriant am fwy o gysondeb, gwella ansawdd ac effeithiolrwydd".
- 14.88 Roedd ymatebwyr DSW yn galw am adolygiad ar frys o drefniadau yng nghyd-destun datblygu Prentisiaethau Gradd.

15. Trosolwg o ymatebion i adran 13: Cefnogi'r Gymraeg

Cwestiwn 82: A ydych chi'n cytuno y dylid gosod dyletswydd benodol ar y Comisiwn i roi sylw dyledus i'r Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	3
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	5
Ysgol	17
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	70

Y farn gyffredinol

- 15.1 Roedd cytundeb ar draws y sector AHO y dylid gosod dyletswydd benodol ar y Comisiwn i roi sylw dyledus i'r Gymraeg, yn enwedig gyda'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dadansoddiad sectorol

- 15.2 Roedd cytundeb helaeth ar draws pob sector y dylid gosod dyletswydd benodol ar y Comisiwn i roi sylw dyledus i'r Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau ac fe wnaeth llawer y sylw ychwanegol y dylai'r Comisiwn fod yn ddarostyngedig i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 15.3 Ymysg ymatebion Dysgu Oedolion yn y Gymuned, roedd lleiafrif (un allan o bedwar ymatebydd) yn erbyn y cynnig.
- 15.4 Roedd pawb o'r ymatebwyr AB o blaid y cynnig a theimlai amryw y dylai hyn fod trwy Fesur y Gymraeg neu ddeddfwriaeth ddilynol.
- 15.5 Roedd pawb o'r ymatebwyr AU hefyd o blaid, gyda rhybudd gan un ymatebydd nad yw geiriad y cwestiwn yn eglur: "O fewn corff y ddogfen mae'n cyfeirio at fwriad y dylai'r Comisiwn fod yn destun Safonau newydd y Gymraeg; os mai ar hyn mae'r cwestiwn yn canolbwyntio, yna byddem yn cytuno. Os mai bwriad arall sydd iddo,

mae angen mwy o eglurder yn y cwestiwn ... os yw'r cwestiwn yn canolbwyntio ar werth cael y Gymraeg fel 'thema drawsbynciol' yna gallwn weld rhywfaint o rinwedd yn hynny."

- 15.6 Roedd CCAUC yn cefnogi'r cynnig ond yn rhybuddio yn erbyn pennu'r berthynas rhwng y Comisiwn a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn derfynol yn y ddeddfwriaeth: "Fe wnaeth CCAUC oruchwylio sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan weithio gyda phartneriaid eraill, ac mae'n croesawu ymestyn rôl y Coleg i gynnwys addysg bellach. Rydym o'r farn y dylai'r Coleg gynnal ei annibyniaeth oddi wrth Llywodraeth trwy symud yn ôl i fod o dan oruchwyliad corff hyd-braich. Mae hyn yn neilltuol o bwysig gan y bydd cylch gwaith y Coleg bellach yn cyfateb i gylch gwaith y Comisiwn AHO newydd. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y dylid crybwyll cyrff penodol mewn deddfwriaeth."
- 15.7 Ymysg ymatebwyr Llywodraeth Leol ac Ysgolion roedd cefnogaeth bron yn unfrydol i'r cynnig; mewn llawer o achosion roedd gosod dyletswyddau ynglŷn â'r Gymraeg ar y Comisiwn yn cael ei weld fel rhywbeth hanfodol. Cynigiodd un ymatebydd ysgol beth allai'r dyletswyddau hyn ei olygu:
- "gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
 - digonolrwydd y ddarpariaeth addysgol Gymraeg bresennol;
 - sut y gall gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol;
 - sut y gellir datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol;
 - hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sector AHO."
- 15.8 Roedd llawer o ymatebwyr yn mynegi eu cefnogaeth i'r cynnig hwn yn gryf iawn: "Mae UCM Cymru'n cefnogi'r ymrwymiad i strategaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg. Credwn yn angerddol y dylai pob myfyriwr yng Nghymru gael mynediad at addysg gynhwysol lle na chaiff yr un myfyriwr ei anfanteisio ar sail eu nodweddion na'u cefndir. Mae addysg gynhwysol yn un lle mae gan bob myfyriwr y cyfle i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg."
- 15.9 Roedd cyflogwyr a busnesau'n cytuno y dylid integreiddio cyfrifoldeb dros ddarpariaeth Gymraeg o fewn y Comisiwn. Roedd y sector DSW hefyd yn cydnabod "trwy fod â dyletswyddau penodol tuag at y Gymraeg, bydd y Comisiwn mewn sefyllfa well i oruchwylio cyflawni'r holl faterion a amlinellir yng nghwestiwn 83." (Partneriaeth Sgiliau Galwedigaethol)
- 15.10 Roedd cynrychiolwyr gweithlu yn cytuno'n helaeth â'r cynigion, gan gydnabod "bod y Gymraeg yn rhan bwysig o ddiwylliant unigryw Cymru a'r sector AHO." (UCU)
- 15.11 Awgrymwyd y dylid rhestru'r Comisiwn o dan Ddeddf y Gymraeg ac y byddai'n hanfodol wrth gefnogi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cwestiwn 83: Wrth roi sylw dyledus i'r Gymraeg, a ydych chi'n cytuno y dylid disgwyl i'r Comisiwn ystyried materion fel a ganlyn:

- a) gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
- b) digonolrwydd y ddarpariaeth addysgol Gymraeg bresennol;
- c) sut y gall gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol;
- d) sut y gellir datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol;
- e) hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sector AHO?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	8
AB/AU	2
AU	10
Unigol	3
Awdurdod lleol	10
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	11
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	63

Y farn gyffredinol

- 15.12 Roedd cytundeb ar draws y sector AHO y dylid gosod dyletswydd benodol ar y Comisiwn i roi sylw dyledus i'r Gymraeg, yn enwedig gyda'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dadansoddiad sectorol

- 15.13 Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg, gyda llawer o ymatebwyr yn dweud y dylid disgwyl i'r Comisiwn ystyried rhai, ond nid pob un, o'r materion hyn.
- 15.14 Ymysg ymatebwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned, roedd anghysondeb sylweddol, ac un ymatebydd yn cynghori yn erbyn cynnwys manylion penodol o'r hyn y dylid disgwyl i'r Comisiwn ei ystyried: "Er yn werthfawr, nodau i'r weinyddiaeth bresennol yw'r rhain i gyd ac maent yn agored i newid yn y dyfodol, felly ni ddylent ffurfio rhan o'r ddeddfwriaeth i sefydlu'r Comisiwn. Gall y Comisiwn, pan gaiff ei sefydlu, benderfynu bod y rhain yn ddarnau penodol o waith

i'w cyflawni. Mae perygl fod yr ymgynghoriad presennol yn ceisio clymu dyfodol y Comisiwn i bolisi'r llywodraeth bresennol."

15.15 Mynegwyd barnau cymysg ymysg ymatebwyr AB hefyd:

- roedd ychydig ohonynt yn ffafrio rhai o'r materion hyn ond nid pob un
- roedd un a gytunai â'r cwmpas arfaethedig ond a deimlai na ddylai fod yn ceisio cynnwys popeth
- roedd llawer yn erbyn cynnwys y materion hyn, yn wyneb y risg o glymu'r Comisiwn i nodau gweinyddiaeth bresennol Llywodraeth Cymru, sy'n "agored i newid yn y dyfodol, felly ni ddylent ffurfio rhan o'r ddeddfwriaeth i sefydlu'r Comisiwn. Gall y Comisiwn, pan gaiff ei sefydlu, benderfynu bod y rhain yn ddarnau penodol o waith i'w cyflawni. Mae perygl fod yr ymgynghoriad presennol yn ceisio clymu dyfodol y Comisiwn i bolisi'r llywodraeth bresennol."

15.16 Mewn AU roedd cefnogaeth gyffredinol i gwmpas arfaethedig sylw'r Comisiwn i'r Gymraeg, er bod rhai ymatebwyr yn nodi rhai heriau i'w hystyried, gan gynnwys:

- cyfyngedig yw'r cyfleoedd i astudio'n ddwyieithog a thameidiog ar y gorau yw'r gefnogaeth i astudio drwy'r Gymraeg
- prinder llwyfannau a rhaglenni digidol hanfodol sy'n defnyddio a chynnwys yr iaith, ee: nid yw systemau cyffredin i ganfod llên-ladrad yn gweithio yn y Gymraeg.
- angen eglurder o'r hyn a olygir neu a fwriedir gydag "ystyried" ac, yn ei dro:
 - pryderon ynghylch yr hyn sy'n ymddangos fel bwriad i'r Comisiwn ymwneud â materion manwl y cwricwlwm;
 - eglurder ynghylch sut mae mesur 'digonolrwydd'.
- pryder ynghych absenoldeb y term 'dwyieithog' a'r awgrym na fydd darparwyr mwyach yn cyflwyno darpariaeth ddwyieithog, a all yn ei dro:
 - effeithio ar barodrwydd staff i ddatblygu eu sgiliau iaith; a
 - diweddu'r 'rhwyd ddiogelwch' o'r gallu i gyflwyno addysg ddwyieithog i'r rheini sy'n cychwyn defnyddio'r Gymraeg i gyflwyno'r cwricwlwm.

15.17 Roedd CCAUC yn cefnogi'r cynigion, gan bwysleisio'r angen i gydweithio â sefydliadau eraill i weithredu ar y cylch gwaith hwn: "Yn wyneb pwyslais a her amcan Cymraeg 2050, mae'n bwysig cynnwys unigolion sydd eisoes yn yr amgylchedd dysgu. Mae Addysg Uwch, a gefnogir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wedi galluogi twf mewn addysg Gymraeg ac yn chwarae rhan allweddol mewn darpariaeth Cymraeg i Oedolion, gan weithio o fewn y Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol newydd. Yn wyneb amcan uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg, dylai gweithio'n effeithlon i gynnal ac ehangu'r ddarpariaeth bresennol ddal i fod yn flaenoriaeth".

15.18 Roedd ymatebwyr awdurdodau lleol yn llethol o blaid y materion arfaethedig. Gydag un eithriad, a oedd yn gwrthwynebu pob un o'r materion, roedd pob ysgol hefyd o blaid y cwmpas arfaethedig, gydag

un yn mynegi'r angen am gydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Cymwysterau Cymru i gyflawni nodau penodol ynglŷn â'r Gymraeg.

- 15.19 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr DSW yn cefnogi'r cynigion ac yn cyflwyno'r ymateb safonol canlynol (nodir crynadau mewn cromfachau): "credwn y dylai fod disgwyl i'r Comisiwn ystyried yr HOLL faterion y tynnir sylw atynt yn y cwestiwn ... mae'r sector AHO yng Nghymru'n cynnig cyfle sylweddol i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn sgil y gallu mewn ffrydiau addysg ôl-orfodol i gynnal a chynyddu'r lefel o Gymraeg a ddysgwyd gan ddisgyblion mewn addysg orfodol ... Yn hanesyddol, mae'r cynnig o ddarpariaeth o fewn AHO wedi bod yn gyfyngedig a thameidiog ar y gorau; sydd o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys y nifer cyfyngedig o gymwysterau sydd ar gael; yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael (o safbwynt adnoddau ffisegol a staff sy'n gallu addysgu ac asesu yn y Gymraeg); a chanfyddiad o ddiffyg galw gan gyflogwyr a dysgwyr."
- 15.20 Roedd un ymatebwydd DSW yn galw am bragmatiaeth wrth gyflawni'r ddyletswydd hon ynglŷn â'r Gymraeg: "Ni ddylid gorfodir'r [Comisiwn] i ddilyn agenda'r Gymraeg lle nad yw'n synhwyrol gwneud hynny."
- 15.21 Pwysleisiodd UCM Cymru gymaint yw'r brys am gynyddu'r cyrsiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, rhywbeth y mae angen i'r Comisiwn fynd i'r afael ag ef.
- 15.22 Roedd cyflogwyr a busnesau'n cytuno'n gryf y dylai'r Comisiwn ystyried yr holl faterion hyn. Aeth CITB ymhellach i ddweud: "Yn ogystal ag ystyried, dylai'r Comisiwn gysoni ei holl waith â'r materion a restrir uchod."

Cwestiwn 84: Beth yw eich barn ynghylch y berthynas rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Comisiwn yn y dyfodol? Byddwch cystal â chynnwys sylwadau ar y berthynas o ran cyllido'r Coleg a'i weithgareddau gweithredol yn ogystal ag atebolrwydd y Coleg i'r Comisiwn.

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	7
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	16
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	60

Y farn gyffredinol

- 15.23 Roedd y sector AHO yn cytuno ar y cyfan y dylai'r Comisiwn reoleiddio a chyllido'r Coleg, fodd bynnag, roedd y sector AU yn cadarnhau'r angen am gorff annibynnol, wedi ei gyllido'n briodol.

Dadansoddiad sectorol

- 15.24 Roedd ymatebion o'r sectorau DOyG ac AB yn cytuno y dylai'r Coleg gael ei reoleiddio a'i gyllido gan y Comisiwn. Er enghraifft, dywedodd ColegauCymru: "Dylai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gael ei reoleiddio a'i gyllido gan y Comisiwn o safbwynt ei waith AB ac AU".
- 15.25 Roedd ymatebwyr o'r sector AU yn cefnogi cydweithio a chydweithredu agos rhwng y Coleg a'r Comisiwn yn unol ag argymhellion adolygiad Diamond, gyda strwythur cadarn ac annibynnol wedi'i gyllido'n briodol i'r Coleg. Awgrymodd CCAUC: "Dylai'r cyllid gynnwys dwy elfen, un i gefnogi seilwaith graidd y Coleg a'r llall wedi'i chlustnodi i ddiben gwella a hwyluso darpariaeth gyfrwng Cymraeg, ar draws y system AHO".
- 15.26 Roedd mwyafrif yr ymatebion o'r sectorau ysgolion ac awdurdodau lleol yn cynnig ei bod yn "holl bwysig darparu dilyniant i ddysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr ystod oedran". Felly teimlai ymatebwyr awdurdodau lleol y dylai'r Coleg gael ei wreiddio'n llawn

yn y Comisiwn, dylai fod yn atebol iddo a chael ei gyllido y tu allan i gyllid craidd.

- 15.27 Roedd ysgolion a oedd yn ymateb yng ngogledd Cymru yn cefnogi'r egwyddor o gyllido'r Coleg yn annibynnol, er mwyn "hyrwyddo lefel briodol o gyd-herio a chyd-gefnogi rhwng y gwahanol gyrff".
- 15.28 Credai ymatebwyr DSW y "dylai'r Coleg fod yn gyfrifol am wella a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar draws y sector AHO". Roedd teimlad fod ymestyn gwaith y Coleg i gynnwys AB a DSW eisoes yn gweithio tuag at yr hyn a gynigir. Awgrymodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru y dylai'r Coleg ddal i fod yn gorff annibynnol, wedi'i gyllido gan y Comisiwn.
- 15.29 Roedd y Coleg yn uchel ei barch ymhlith cyflogwyr a busnesau a ymatebodd, gan ei ddisgrifio, er enghraifft fel rhywbeth "amhrisiadwy i hwyluso'r llwybr i Lywodraeth Cymru". Roedd ymestyn gwaith y Coleg i DSW ac AB yn cael ei weld fel datblygiad cadarnhaol gyda chefnogaeth i barhad gwaith o'r fath a'r Comisiwn yn cymryd drosodd y cyllid ar gyfer y gweithgaredd hwn.
- 15.30 Roedd cynrychiolwyr gweithlu yn gyffredinol yn croesawu ymestyn rôl y Coleg, yn benodol o ran cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Roedd UCAC yn amlinellu egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'r hyn y bydd angen i'r Coleg eu cael: sicrwydd ariannol, rhyddid sefydliadol, atebolrwydd clir a sefydlogrwydd o ran cyllid ac atebolrwydd.

Cwestiwn 85: Beth yw eich barn ynghylch y berthynas rhwng y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Comisiwn yn y dyfodol? Byddwch cystal â chynnwys sylwadau ar y berthynas o ran cyllid a gweithgarwch gweithredol y Ganolfan Genedlaethol a'i hatebolrwydd i'r Comisiwn.

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	5
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	42

Y farn gyffredinol

- 15.31 Teimlai'r mwyafrif o ymatebion y sector AHO y dylai'r Ganolfan Genedlaethol ddod o fewn cylch gwaith y Comisiwn er mwyn sicrhau strategaeth gyfannol a chydlynol i gyflawni'r amcanion o ran y Gymraeg yn y sector.

Dadansoddiad sectorol

- 15.32 Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno â'r cynnig ac yn rhannu barnau ac ymatebion tebyg.
- 15.33 Er bod rhai ymatebwyr AU o'r farn y dylai'r Ganolfan Genedlaethol ddod o dan y Comisiwn er mwyn cysondeb â'r trefniadau presennol, teimlai eraill yn gryf yn dylai ddal i fod yn gorff annibynnol gyda pherthynas uniongyrchol â Llywodraeth Cymru.
- 15.34 Roedd Cymdeithas Ddysgedig Cymru'n cynnig cydweithio agos rhwng y Ganolfan a'r Coleg Cymraeg Genedlaethol, ynghyd â phwyllgor statudol ar gyfer darpariaeth gyfrwng Cymraeg ar draws y sector AHO i roi canllawiau yn y maes hwn.
- 15.35 Roedd gan ymatebwyr y sector AB hefyd farnau cymysg ynghylch a ddylai'r Ganolfan Genedlaethol fod yn rhan o'r Comisiwn neu beidio. Er enghraifft, ar y naill law roedd Colegau Cymru ac eraill yn dweud: "dylai fod yn allanol ac ni ddylai gael ei rheoleiddio gan y Comisiwn", tra bod Coleg Gwent yn ymateb "dylai'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gael ei chyllido a'i rheoleiddio gan y Comisiwn fel rhan o'r sector AHO". Fe wnaeth Coleg y Cymoedd y pwynt y dylid trin y Ganolfan yn gyson â Dysgu Oedolion yn y Gymuned gan fod "ganddynt werthoedd cymdeithasol tebyg".
- 15.36 Ymatebodd y sector awdurdodau lleol yn glir y dylai'r Ganolfan Genedlaethol fod yn atebol i'r Comisiwn ac roedd y sector ysgolion yn rhannu'r farn hon.
- 15.37 Pwysleisiodd UCAC y byddai trefniadau cyllido ac atebolrwydd yn cael dylanwad dwfn ar y berthynas rhwng y Ganolfan Genedlaethol a'r Comisiwn. Cynigiodd fod angen i'r Ganolfan Genedlaethol gael sicrwydd ariannol hirdymor, rhyddid sefydliadol, atebolrwydd clir i'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn ogystal ag i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.
- 15.38 Roedd ymatebion y sector DSW yn awgrymu pwysigrwydd i'r Ganolfan Genedlaethol ddod yn rhan o'r Comisiwn ac yn cydnabod y rôl bwysig a chwaraeir gan y Ganolfan wrth lenwi meysydd lle mae bylchau y mae'r sector AHO wedi methu â mynd i'r afael â hwy. Pwysleisiwyd hefyd ei rôl mewn uwchsgilio ymarferwyr AHO.
- 15.39 Roedd cyflogwyr a busnesau'n cefnogi cynnwys y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o fewn y Comisiwn. Roedd CITB Cymru yn cefnogi rôl gan y Comisiwn o oruchwylio'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg er mwyn creu llwybrau dysgu clir a chyson yn y Gymraeg.

16. Trosolwg o ymatebion i adran 14: Data, ystadegau ac ymchwil

Cwestiwn 86: Beth yw eich barn ynghylch rhoi perchenogaeth o'r setiau data sydd ym meddiant Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill ar hyn o bryd i'r corff newydd?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	5
AB	7
AB/AU	1
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	5
Corff rheoleiddio	4
Ysgol	3
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	4
Cyfanswm	45

Y farn gyffredinol

- 16.1 Dylai'r Comisiwn gymryd perchenogaeth o setiau data a sylai eu harolygu a'u hadolygu.
- 16.2 Ni ddylai beichiau adrodd gynyddu o ganlyniad i hyn.
- 16.3 Dylai'r Comisiwn ddefnyddio data ar gyfer cymharu ar draws sectorau.

Dadansoddiad sectorol

- 16.4 Roedd ymatebwyr o'r sector AB yn cytuno'n unfrydol y dylid rhoi cyfrifoldeb am setiau data i'r Comisiwn. Roeddent yn argymhell yn gryf hefyd y dylid adolygu'r setiau data hyn cyn casglu mwy o ddata. Dywedodd un fod angen adolygu setiau data ariannol yn drylwyr, er enghraifft.
- 16.5 Er y codwyd llawer o ffactorau gan gynrychiolwyr AU, roedd consensws cyffredinol y dylid rhoi perchnogaeth o setiau data o'r fath i'r Comisiwn. Byddai hyn yn rhoi cyfle i adolygu'r ddarpariaeth bresennol gyda'r nod o sefydlu gwell effeithlonrwydd ledled y sector. Roedd CCAUC yn cydnabod y bydd ar y corff newydd eisau defnyddio data cysylltiedig o ysgolion, AB ac AU i olrhain cynnydd a chanlyniadau; nid fydd hyn yn bosibl os na fydd yr holl ddata

perthnasol ar gael i'r corff newydd. Yn ogystal, roedd ymatebwyr o'r sector AU yn cytuno na ddylai beichiau adrodd gynyddu'n ddiangen wrth drosglwyddo perchenogaeth. Argymhellwyd hefyd fod y trefniadau newydd yn cael eu gwneud yn gydnaws â threfniadau adrodd ehangach addysg uwch.

- 16.6 Roedd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau yn edrych ymlaen at ganlyniadau adolygiad Weingarten, gan ddisgwyl iddo argymhell canllawiau newydd yn unol â GDPR a chasglu data dim ond lle gellir dangos tystiolaeth ei fod yn gwella dysgu.
- 16.7 Roedd cytundeb o fewn awdurdodau lleol y dylid rhoi perchenogaeth i'r Comisiwn.
- 16.8 Roedd y farn o fewn ysgolion yn adlewyrchu barn y sector AU. Er mwyn i'r Comisiwn gymryd rôl oruchwylio, bydd arno angen mynediad at yr amrywiol setiau data ym mhob sector.
- 16.9 Roedd Estyn yn gweld hyn fel cyfle i adolygu casglu data ôl-16, yn enwedig ansawdd y data a'r gallu i gymharu data ar draws sectorau. Yn ôl eu canfyddiad hwy, y flaenoriaeth oedd set gyson o fesurau sy'n galluogi ar gyfer ffordd deg a defnyddiol o fesur canlyniadau.
- 16.10 Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr yn cefnogi'r cynnig, gan gydnabod yr angen am sail dystiolaeth gadarn i seilio penderfyniadau arni. Roedd y FISSS yn galw am ddata sy'n gysylltiedig â darpariaeth AHO i gael ei gyhoeddi fel Ystadegau Gwladol. Roedd hyn yn cael ei adleisio gan Gofal Cymdeithasol Cymru, a deimlai hefyd ei bod yn ddiddorol bod y cynnig yn awgrymu y byddai'r Comisiwn yn casglu data, yn hytrach na defnyddio data a gasglwyd gan eraill ac yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer rhannu data yn cael eu rhoi ar waith i fanteisio i'r eithaf ar werth data o'r fath.
- 16.11 Roedd cefnogaeth fawr i hyn o fewn y sector DSW. Roeddent hefyd yn annog cynnydd yn y swm o ddata sydd ar gael yn gyhoeddus ar berfformiad sefydliadau a myfyrwyr, gan y bydd hyn yn galluogi sefydliadau i gael sail gryfach ar gyfer cynllunio ymchwil a sgiliau. Wrth wneud hynny, roedd y sector yn cydnabod y bydd angen i gryn dipyn o waith paratoi gael ei wneud; byddai hyn fodd bynnag yn cryfhau ansawdd ymchwil yng Nghymru a'r graddau y mae ar gael.

Cwestiwn 87: A ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar ysgolion uwchradd a darparwyr dysgu eraill a chyrff arholi i rannu data ynghylch nodweddion a chyraeddiadau dysgwr â darparwr dysgu newydd y mae'r dysgwr yn cofrestru ag ef?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	8
AB/AU	2
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	6
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	9
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	53

Y farn gyffredinol

- 16.12 Roedd cytundeb fod dyletswydd o'r fath er budd dysgwyr, i sicrhau pontio di-wniad rhwng sefydliadau.
- 16.13 Mae achosion lle mae rhannu gwybodaeth eisoes yn digwydd. Argymhellwyd datblygu un dull cyson cenedlaethol.

Dadansoddiad sectorol

- 16.14 Roedd cytundeb yn gyffredinol o fewn y sector AU y dylai'r ddyletswydd hon fod. Mae'r gallu i olrhain cynnydd dysgwyr a deall galluoedd myfyrwyr yn rhesymau allweddol dros eu cefnogaeth. Roedd y sector yn cydnabod bod adnabyddwr dysgwr unigryw eisoes yn bod. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae'n ofynnol fod y dysgwr yn cael sicrwydd am ddibenion rhannu'r data hyn a'u bod yn cael eu diogelu'n briodol. Roedd pryderon ynghylch sut y defnyddir y data rhwng darparwyr a'i gilydd a'r graddau sylweddol o wallau y mae treialon wedi eu profi.
- 16.15 Awgrymodd Prifysgol Caerdydd fod hyn yn rhoi cyfle i feddwl y tu hwnt i setiau data codau caled ac ystyried ateb seiliedig ar system gwmwl i'r holl ddysgwyr y gellid rhoi mynediad iddo i gyrff perthnasol.
- 16.16 Roedd UCM Cymru'n pwysleisio pwysigrwydd data cywir a fydd yn caniatáu ar gyfer "ymatebion wedi eu teilwra i dan-gynrychiolaeth ac anfantais". Credent y dylid gosod y ddyletswydd ar ddarparwyr i

fonitro a rhannu'r data hwn, fodd bynnag dylai'r ddyletswydd hon osgoi cynyddu llwyth gwaith darparwyr.

- 16.17 Roedd cytundeb unfrydol gyda'r cynnig ymysg cynrychiolwyr y sector AB, a gredai fod pontio esmwyth yn "holl bwysig" er budd y dysgwyr.
- 16.18 Cytunai cynrychiolwyr awdurdodau lleol fod angen dull cenedlaethol cyson. Roedd y grŵp hwn yn dymuno bod yn rhan o ymgynghoriad ar yr amrywiaeth o nodweddion cyn cytuno, er mwyn sicrhau nad yw'n mynd yn groes i GDPR.
- 16.19 Roedd cynrychiolwyr ysgolion yn nodi eu bod eisoes yn arfer gyffredin i rannu gwybodaeth rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion, a'i fod er budd dysgwyr i gefnogi integreiddio gyda darparwr newydd.
- 16.20 Cytunai Estyn y "byddai trosglwyddo llyfn ac amserol gwybodaeth am broffil dysgwyr, gan gynnwys cymwysterau a enillwyd, anghenion dysgu, anabledau ac anawsterau yn cam cadarnhaol iawn ymlaen ac yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithio ar y cyd rhwng darparwyr cyn-16 ac ôl-16." Awgrymodd Estyn hefyd y defnydd o gosb pe na bai gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo mewn dull cywir ac amserol. Dywedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol y byddai rhannu gwybodaeth fel hyn yn caniatáu i addasiadau allweddol gael eu gwneud gan y darparwr.
- 16.21 Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr yn gryf o blaid y cynnig.
- 16.22 Roedd y sector DSW yn cefnogi hyn fel "senario delfrydol", gan gydnabod yr angen am brotocolau effeithiol ar gyfer rhannu data.

Cwestiwn 88: A oes unrhyw bwerau, dyletswyddau neu faterion eraill y dylid eu hystyried wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y swyddogaethau hyn i'r corff newydd?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	6
AB/AU	1
AU	8
Unigol	0
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	2
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	2
Cyfanswm	32

Y farn gyffredinol

- 16.23 Cefnogir y defnydd o un system, sy'n cyfyngu ar ddyblygu setiau data sy'n bod eisoes.
- 16.24 Mae angen tryloywder o fewn y gyfundrefn ddata newydd.

Dadansoddiad sectorol

- 16.25 Ymatebodd y sector AB y dylai ceisiadau am ddata a storio data fod yn rhesymol ac na ddylent ddyblygu setiau data sy'n bod eisoes.
- 16.26 Nododd y sector AU fod data sy'n ymwneud â darparaeth AU yn cael ei gasglu ar ran CCAUC gan yr Awdurdod Safonau Addysg Uwch (HESA). O'r herwydd, rhaid i unrhyw bwerau sy'n ymwneud â chasglu data gynnwys y dewis o gael sefydliad yn casglu data ar ran y Comisiwn. Ni ddylai deddfwriaeth gyfyngu ar sut y cesglir data, dylai fod modd casglu data gan wahanol systemau lle bo hynny'n briodol. Roedd y sector yn cefnogi'r newidiadau hyn gan eu bod yn cynnig cyfle i adolygu'r tirwedd hwn, a symleiddio a safoni'r defnydd o ddata.
- 16.27 Roedd CCAUC yn rhagweld mai HESA fyddai'n dal i fod y sefydliad ar gyfer casglu data AU am resymau fel cael gwybodaeth gymharol ledled y DU, yr adolygiad diweddar ar gasglu data gan HESA a'r gallu i gysylltu ar draws data AU, AB ac ysgolion. Roeddent yn argymhell hefyd na ddylai deddfwriaeth fod yn haearnidd o safbwynt casglu data er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y tirwedd addysg.
- 16.28 Dywedodd UCM Cymru fod yn rhaid i dryloywder fod yr egwyddor sylfaenol y tu ôl i unrhyw gyfundrefn data. Rhaid i ddata fod ar gael yn rhwydd ac yn ddealladwy.
- 16.29 Gwrthododd y mwyafrif o ysgolion ag ymateb i'r cwestiwn, er i un corff cynrychioliadol awgrymu na ddylai'r dyletswyddau hyn ymwneud â chweched dosbarth ysgolion.
- 16.30 Roedd un cynrychiolydd ysgol/AB yn croesawu manylion pellach ar raddau'r effaith posibl ar eu cyflenwad o ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Yn ogystal, byddent yn croesawu trafodaeth ar rannu data i ymchwilwyr a phobl eraill berthnasol.
- 16.31 Roedd darparwyr DSW yn cydnabod pa mor wael y gweithredir systemau TG ar draws y sector cyhoeddus ac felly roeddent yn pwysu am gymryd gofal wrth symud ymlaen tuag at system integredig. Roedd cynrychiolwyr yn nodi bod datblygiad MIAP (Rheoli Gwybodaeth ar draws Partneriaid – rhaglen a gafodd ei disodli gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu) yn addo dull 'systemau cyfan' o reoli data dysgwyr – byddai'n fuddiol sicrhau na chollir unrhyw seilwaith neu wersi a ddysgwyd yn null gweithredu'r Comisiwn. Mae angen i'r Comisiwn ei gwneud yn glir i bob darparwr dysgu beth fyddai gofynion technegol unrhyw system TG mewn da bryd cyn unrhyw fudo data.

17. Trosolwg o ymatebion i adran 15: Materion yn ymwneud â chyllid myfyrwyr

Cwestiwn 89: A allai cynyddu nifer y graddau carlam ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru yn well?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	7
AB/AU	2
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	3
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	39

Y farn gyffredinol

- 17.1 Gallai graddau carlam gyfrannu at gymysgedd amrywiol o ddarpariaeth Addysg Uwch, sydd ei angen er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr a dysgwyr yng Nghymru. Mae gan hyn y potensial i ehangu mynediad at Addysg Uwch.
- 17.2 Mae angen craffu pellach ac ymgynghoriad ar wahân.

Dadansoddiad sectorol

- 17.3 Y farn a ddaeth i'r amlwg yn fwy na dim oedd safbwynt a oedd yn cael ei gefnogi'n helaeth ar draws pob sector. Cydnabuwyd bod angen cymysgedd amrywiol o ddarpariaeth Addysg Uwch er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr a dysgwyr. Y canfyddiad oedd fod gan raddau carlam y potensial i fod yn gyfrannwr cryf i'r math hwn o gymysgedd helaeth o ddarpariaeth.
- 17.4 Er bod cefnogaeth gyffredinol i raddau carlam, codwyd nifer o gwestiynau gan gynrychiolwyr y sector AU. Yn gyntaf, roedd pryderon fod graddau carlam yn cael eu gyrru ymlaen heb fawr ddim tystiolaeth o'r galw ac maent yn annhebygol o fod yn addas ar gyfer pob pwnc gradd. Fodd bynnag, nodwyd bod sawl sefydliad yng Nghymru eisoes yn darparu gradd dwy-flynedd ac roedd angen i ddiwallu gofynion cyflogwyr am ddarpariaeth o'r fath. Roedd CCAUC yn gefnogi'r cysyniad o raddau carlam, ond teimlent fod y gallu i ddatblygu'r rhain

y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Teimlai darparwyr AU a oedd yn ymateb y gallai graddau carlam fod yn ddeniadol i'r rheini sydd eisoes â phrofiad gwaith – drwy ganiatáu iddynt leihau cwrs pedair blynedd i dair.

- 17.5 Roedd amryw o bryderon ynghylch y goblygiadau y byddai gradd o'r fath yn eu cael ar lwyth gwaith a phrofiad myfyrwyr. Hefyd, mae ymchwil 'Punt yn eich Piced' UCM yn tynnu sylw at yfaith fod cyfran fawr o fyfyrwyr yn gweithio ochr yn ochr â'u hastudiaethau; byddai'r cynnig hwn yn cyfyngu ar eu gallu i wneud hynny, yn ôl UCM Cymru. Nododd Undeb Prifysgolion a Cholegau y byddai astudio carlam o'r fath yn effeithio ar allu dysgwyr i gyfuno astudio gyda chyfnodau o fyfyrto a meddwl beirniadol, a fyddai'n lleihau'r gallu i gymryd gwaith cyflogedig rhan-amser wrth astudio ac yn peryglu amodau gwaith staff. Mynegwyd pryderon tebyg am yr effaith y gall hyn ei gael ar ddarparwyr gan ymatebwyr o'r sector AU.
- 17.6 Yng ngoleuni'r pryderon hyn ymddengys yn amlwg fod angen mwy o graffu. Roedd CCAUC "wedi synnu at y lefel o fanylder a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori, a oedd yn anghymesur i'r pwnc, ac y dylid ymdrin ag ef ar wahân." Yn ôl UCM Cymru, "mae'r diffyg eglurder, ystyriaeth ac ymgynghori â myfyrwyr unwaith eto'n amlygu'r angen i ddatblygu diffiniad ac ateb sy'n benodol ar gyfer Cymru."
- 17.7 Roedd Swyddfa'r Dyfarnydd Annibynnol, fodd bynnag, ag agwedd gadarnhaol tuag at ddarpariaeth garlam a theimlent y gallai gynnig dewis ychwanegol i fyfyrwyr ac a fyddai'n cael ei groesawu ganddynt, cyn belled â bod gan sefydliadau brosesau ansawdd digonol ar waith a'u bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Roedd y Brifysgol Agored yn adleisio'r cymorth i hyblygrwydd, ond roedd ganddynt rywfaint o bryderon ynghylch yr oblygiadau i fyfyrwyr – er enghraifft ynghylch lefel grantiau cynhaliaeth.
- 17.8 Roedd un ymatebydd llywodraeth leol yn croesawu'r hyblygrwydd y gallai graddau carlam ei gyflwyno i'r system – gan awgrymu treialu darpariaeth mewn sector y credir ei fod wedi dangos galw.
- 17.9 Roedd Estyn yn croesawu'r rhagolygon o raddau carlam, oherwydd eu potensial am fwy o hyblygrwydd a buddion ariannol strwythur costau cystadleuol. Awgrymwyd hefyd y byddai'r rhain yn apelio at y rheini sydd eisoes mewn gwaith cyflogedig.
- 17.10 Roedd ymatebwyr o'r sectorau AB a DSW yn cefnogi cynyddu'r nifer o raddau carlam ar sail ehangu mynediad a gallai ddiwallu anghenion unigolion yn well, gan gydnabod hefyd ei fod yn ddatblygiad pwysig o ran diwallu anghenion cyflogwyr. Roedd cyflenwad cyflymach graddedigion i'r gweithlu a'r llwybr cyflymach y gallai graddau carlam ei gynnig ar gyfer uwchsgilio staff yn rhesymau dros eu barn.
- 17.11 Dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru mai ansawdd darpariaeth oedd y ffactor pwysicaf: "Rydym wedi cael enghreifftiau rhagorol o weithio'n agos gyda llawer o brifysgolion ledled Cymru i sicrhau bod rhaglenni gradd (yn benodol mewn blynyddoedd cynnar a gofal plant) yn diwallu

anghenion cyflogwyr, ac felly dysgwyr, yn well. Mae a wnelo hyn lai â'r amser a dreuliwyd a mwy â'r cynnwys a'r ymwneud â chyflogwyr."

Cwestiwn 90: A yw'r trefniadau deddfwriaethol presennol, yn enwedig y diffyg terfyn ffioedd ar gyfer cyrsiau carlam, yn cyfyngu ar y gwaith o ddatblygu a chyflwyno graddau carlam yng Nghymru?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	6
AB/AU	1
AU	8
Unigol	2
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	2
Ysgol	2
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	32

Y farn gyffredinol

- 17.12 Dylai hyn fod yn destun ymgynghoriad ar wahân.
- 17.13 Gall y trefniadau terfyn ffioedd presennol gyfyngu ar ehangu darpariaeth cyrsiau carlam; bydd angen addasu ffioedd er mwyn sicrhau bod gradd o'r fath yn hyfyw i sefydliadau.

Dadansoddiad sectorol

- 17.14 Roedd y sectorau DOyG, AB ac AU yn cytuno ei bod yn amhriodol defnyddio ymgynghoriad technegol i ystyried newid polisi o'r fath; yn hytrach dylai hyn fod yn destun ymgynghori a chraffu pellach.
- 17.15 Roedd adborth o'r sector AU yn cytuno'n gyffredinol gyda'r farn fod y terfynau ffioedd presennol yn rhwystr i ddarparu graddau carlam. Roedd gan un ymatebydd ddadansoddiad clir fod gradd garlam yn gofyn am fwy o adnoddau na rhaglen gradd draddodiadol; er enghraifft gyda'r angen am dymor ychwanegol yn yr haf a'r gydnabyddiaeth y bydd myfyrwyr yn cwblhau nifer uwch o gredydau bob blwyddyn. Felly byddai angen codi ffi uwch. Roedd un SAU wedi cael ei ddrysus gan y cwestiwn, gan ddweud eu bod wedi eu cyfyngu gan derfynau ffioedd blyneddol ac y byddai hyn yn peri problem ar gyfer darparu graddau carlam. Roedd llawer o'r ymatebion o'r sector

yn nodi y dylai terfynau ffioedd adlewyrchu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno graddau carlam, i'w galluogi i fod yn hyfyw. Rhoddodd un yr enghraifft o ddarparwr yn Lloegr yn codi £12,000 am raddau carlam. Fel gwrth-ddadl, dywedodd un darparwr eu bod eisoes yn rhedeg cwrs gradd dwy flynedd yn seiliedig ar system drithymor. Y ffactor a oedd wedi cyfyngu arnynt hwy oedd diffyg diddordeb yn y farchnad.

- 17.16 Nid oedd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau yn credu mai'r terfynau ffioedd yw'r broblem, ond mae materion ymarferol ac addysgol i'w hystyried.
- 17.17 Roedd y nifer cyfyngedig o ymatebwyr awdurdodau lleol ac ysgolion yn cytuno â'r cwestiwn.
- 17.18 Roedd pryder un unigolyn ynghylch diffyg deddfwriaeth yn cael ei fynegi fel mater pwysicach, gyda'r gred y bydd y farchnad yn canfod ei phris ei hun am raddau carlam.
- 17.19 Roedd un cynrychiolydd cyflogwyr yn cydnabod bod angen trefniadau newydd i gyfateb i gost uwch graddau carlam o fewn y flwyddyn. Ni theimlai gweddill y sector eu bod yn gymwys i ateb.

Cwestiwn 91: Sut y gellid diffinio graddau carlam?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	2
AB	7
AB/AU	1
AU	6
Unigol	2
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	2
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	30

Y farn gyffredinol

- 17.20 Dylai'r diffiniad fod yn gyson â diffiniadau a ddefnyddir mewn lleoedd eraill o fewn y Deyrnas Unedig.
- 17.21 Dylai hyn fod yn destun ymgynghoriad ar wahân.

Dadansoddiad sectorol

- 17.22 Roedd y rheini o fewn y sector AU yn cefnogi defnyddio diffiniad ymarferol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr o raddau carlam, gan nodi pwysigrwydd mabwysiadu diffiniad sy'n gyson â gweddill y DU er mwyn osgoi dryswch yn y farchnad.
- 17.23 Roedd ymateb o'r sector AB yn cytuno bod y pwnc hwn y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn a bod angen ymgynghoriad ar wahân.
- 17.24 Roedd un sylwebydd unigol yn amau'r angen i ddiffinio graddau carlam neu eu trin ar wahân i ddarpariaeth arall.
- 17.25 Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol o'r farn fod y cyfnod o amser a gymerir i gwblhau gradd yn ffordd ddefnyddiol o ddiffinio graddau carlam.
- 17.26 O fewn y sector DSW teimlai llawer nad oeddent yn gymwys i ateb y cwestiwn. Cytunai un â'r farn gyffredinol o fabwysiadu diffiniad sy'n gyson ledled y DU ond y gallai fod yn fuddiol mabwysiadau'r diffiniad o raddau carlam o Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017. Teimlai ymatebydd DSW arall y dylai gael ei diffinio mewn termau graddau traddodiadol ond gan nodi ei bod yn cael ei chyflwyno dros dymor calendr byrrach.

Cwestiwn 92: Beth yw eich barn chi am y costau posibl sydd ynghlwm â chyflwyno graddau carlam dwy flynedd? Yn benodol, beth yw'r goblygiadau posibl ar gyfer ffioedd dysgu sy'n daladwy am gysiau o'r fath ac ar gyfer cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr cymwys?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	7
AB/AU	1
AU	8
Unigol	1
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	2
Ysgol	1
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	31

Y farn gyffredinol

- 17.27 Dylai hyn fod yn destun ymgynghoriad ar wahân.
- 17.28 Nid yw graddau carlam yn cynnig cyfleoedd am gostau is oherwydd heriau logistaidd a strwythurol.
- 17.29 Dylai cymorth cynhaliaeth gynnwys cyfnod yr haf er mwyn cynnal drwy gydol y cyfnod astudio.

Dadansoddiad sectorol

- 17.30 Fe wnaeth ymatebwyr o'r sector AU godi nifer o bryderon ynghylch cost ac aneffeithlonrwydd graddau carlam. Byddai'r gost ychwanegol o gyflogi staff addysgu ychwanegol dros fisoedd yr haf a'r heriau logistaidd a strwythurol yn peri bod graddau carlam yn gostus i brifysgolion. Mae'r tebygolrwydd o ddosbarthiadau llai eu maint yn arwydd o aneffeithlonrwydd posibl gradd o'r fath, gan achosi pryder pellach o fewn y sector.
- 17.31 Roedd y sector AU yn cytuno y byddai angen i lefelau cymorth cynhaliaeth hefyd fod yn uwch i'r rheini sy'n cwblhau gradd garlam oherwydd y nifer uwch o wythnosau o astudio academiaidd. Nododd Prifysgolion Cymru nad yw'r pecyn cynhaliaeth presennol ar gyfer gradd dair blynedd yn cynnwys cyfnod yr haf – dylai hyn fod o fewn yr asesiad o faint mae'r myfyriwr ei angen i fyw arno.
- 17.32 Fe wnaeth UCM Cymru godi pryderon y gallai'r radd garlam fod â'r "potensial i niweidio myfyrwyr" gan y byddai'n cyfyngu ar eu gallu i weithio a helpu gyda'u costau byw.
- 17.33 Roedd cynrychiolwyr y sector AB yn cytuno'n gyffredinol fod angen ymgynghori pellach ar y mater hwn, er y teimlai rhai fod hyblygrwydd yn cael ei weld fel rhywbeth da a derbyniol.
- 17.34 Roedd un unigolyn yn gweld manteision posibl i raddau carlam – fel defnyddio dysgu cyfunol a "dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr". Yn ogystal, byddai'n rhoi cyfle am arfarnu costau, oherwydd "byddai arfarniad costau cyflwyno yn rhoi cyfle rhagorol i ddarparwyr adolygu eu costau a'u cynnwys er mwyn sicrhau mai dim ond gweitharedd sy'n ychwanegu gwerth a gaiff ei ddarparu."
- 17.35 Roedd barn gymysg ymysg cynrychiolwyr awdurdodau lleol. Credai un na ddylid cynyddu ffioedd ar y sail bod y radd garlam yn cael ei chyflawni mewn amser byrrach tra dywedodd ymatebydd arall y dylai'r pris adlewyrchu'r costau a ysgwyddir dros gyfnod y cwrs gradd.
- 17.36 Roedd Estyn yn daer dros sicrhau na ddylai dysgwyr sy'n dymuno dilyn graddau carlam gael eu digalonni rhag gwneud hynny oherwydd costau uchel cyrsiau a chynhaliaeth.
- 17.37 Roedd CITB Cymru yn croesawu'r cynigion, ond yn galw am gydbwysedd rhwng buddiannau'r dysgwr a buddiannau'r darparwr.

- 17.38 Nid oedd y mwyafrif o gynrychiolwyr DSW yn teimlo'u bod yn gymwys i ateb y cwestiwn hwn. Teimlai un fod yn rhaid i'r ffi ar gyfer cyrsiau carlam fod yn realistig i ddarparwyr allu rheoli'r newidiadau angenrheidiol ond y dylai hefyd gynnig gostyngiad sylweddol i fyfyrwyr yng nghyfanswm costau graddio.
- 17.39 Cydnabyddid yn gyson y byddai costau ychwanegol ynghlwm â chyflwyno graddau carlam ac y byddai hyn yn treiddio drwodd i ffioedd dysgu.

Cwestiwn 93: Yn eich barn chi, a oes angen ystyried unrhyw faterion eraill yn ymwneud â graddau carlam?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	2
Cyflogwyr a busnesau	0
AB	6
AB/AU	1
AU	9
Unigol	1
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	1
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	29

Y farn gyffredinol

- 17.40 Dylai materion sy'n ymwneud â chyllid myfyrwyr fod yn destun ymgynghoriad ar wahân.
- 17.41 Mae gan radd garlam y potensial i effeithio'n negyddol ar brofiad dysgwyr a llesteirio dysgu mewn dyfnder.

Dadansoddiad sectorol

- 17.42 Nododd ymatebwyr o'r sector AU fod angen adeiladu hyblygrwydd i mewn i'r ddarpariaeth, er mwyn y rheini a all fod ar y llwybr gradd garlam, i ganiatáu iddynt y dewis i ostwng y dwysedd i'r llwybr llawn amser 'traddodiadol'. Roedd pryderon nodedig o fewn y sector hwn yn cynnwys y goblygiadau i brofiad cyffredinol y dysgwr a dyfnder y dysgu yn sgil natur garlam y cwrs gradd. Dangosodd rhai darparwyr AU ddiffyg 'awydd' am y radd garlam.

- 17.43 Roedd ar UCM angen “eglurder ynghylch a yw graddau carlam yn unol â Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd a Phroses Bologna.”
- 17.44 Dywedodd y Cydbwyllgor Safonau Gwybodaeth: “Gellid defnyddio technoleg ddigidol i oresgyn rhai o'r rhwystrau ymarferol i gyflwyno graddau carlam – gan alluogi, er enghraifft, i rai modiwlau gael eu cyflwyno trwy ddefnyddio dysgu o bell ar-lein neu ddysgu cyfunol yn ystod cyfnod yr haf rhwng blynyddoedd 1 a 2.”
- 17.45 Roedd cytundeb cyffredinol ymysg ymatebwyr sector AB y dylid rhoi sylw i hyn o fewn ymgynghoriad ar wahân.
- 17.46 Roedd barn gymysg o fewn cynrychiolwyr awdurdodau lleol. Fe wnaeth un godi pryderon ynghylch llesiant dysgwyr oherwydd y cyfnodau byr o ymwneud. Fe wnaeth un arall argymhell cynnydd yn y nifer o raddau cyflogedig a gynigid gan y byddai hyn yn galluogi myfyrwyr i ennill sgiliau wrth iddynt astudio.
- 17.47 Ymatebodd un unigolyn y byddai angen sicrhau bod dysgwyr sy'n cychwyn ar ddarpariaeth garlam yn “barod am y safon” – rhywbeth sy'n gofyn am gydweithio rhwng AB ac AU.
- 17.48 Teimlai'r mwyafrif o gynrychiolwyr DSW nad oeddent yn gymwysedig i ateb, ond awgrymodd un y gellid cynnig llwybrau hyblyg rhwng graddau carlam a graddau llawn-amser tair-blynedd.

Cwestiwn 94: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai'r Comisiwn reoleiddio'r holl ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru sy'n ceisio cael eu cyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	2
AB	7
AB/AU	2
AU	9
Unigol	2
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	2
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	37

Y farn gyffredinol

- 17.49 Roedd cefnogaeth helaeth i'r cynnig.

Dadansoddiad sectorol

- 17.50 Roedd mwyafrif llethol o ymatebwyr ar draws sectorau yn cytuno y dylai'r Comisiwn reoleiddio'r holl ddarparwyr AU yng Nghymru.
- 17.51 Roedd y sector AU yn cefnogi'r cynnig yn llawn, gan groesawu model sy'n gweithredu gofynion rheoliadol craidd, a dweud ei bod yn gwneud synnwyr i Gymru gael un corff sy'n gyfrifol am gynnal ansawdd a chyflwyno AHO. Wrth wneud hyn, mae angen i'r categorïau dynodi fod yn glir, gyda gofynion diamwys ar gyfer bod yn rhan o'r rhain. Nodwyd hefyd y bydd ar y Comisiwn angen yr adnoddau a'r fframwaith priodol i gyflawni hyn yn effeithiol.
- 17.52 Roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cytuno â'r cynnig, ond yn teimlo mai mater i'r Comisiwn ei ystyried oedd hyn.
- 17.53 Roedd Estyn yn cefnogi'r egwyddorion, gan ddweud: "byddai'n fantais creu system reoleiddio fwy ystyrlon ac effeithlon".
- 17.54 O fewn y sectorau eraill, y cyfan a wnaeth y rhai a ymatebodd oedd mynegi eu cytundeb â'r cynnig. Roedd un ymateb unigol o'r sector ysgolion yn anghytuno â'r cynnig, heb esboniad am y farn hon.

Cwestiwn 95: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid parhau i ddarparu dau gategori ar gyfer dynodi cyrsiau darparwyr addysg uwch yng Nghymru at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	2
AB	7
AB/AU	0
AU	8
Unigol	1
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	2
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	32

Y farn gyffredinol

- 17.55 Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig, ond nodwyd amrywiaeth o rybuddion a risgiau.
- 17.56 Roedd llawer o ymatebwyr yn galw am ganolbwyntio ar anghenion a buddiannau myfyrwyr wrth ystyried y mater.

Dadansoddiad sectorol

- 17.57 Roedd ymatebwyr o'r sector AU yn cytuno y dylai dau gategori ddal i fod, ond nid fel y'u defnyddir ar hyn o bryd. Y farn gyffredinol o fewn y sector oedd y dylai gofynion rheoliadol fod yn gyffredin i'r holl ddarparwyr, nid yn seiliedig ar fuddion ariannol i ddarparwyr, a gyda buddiannau'r myfyriwr yn gyrru penderfyniadau.
- 17.58 Credai CCAUC fod yn rhaid i uchelgais Ysgrifennydd y Cabinet i greu system gyfan "gael ei chadarnhau gan ddysgwyr â hyder lawn bod y darparwyr lle maent yn astudio, waeth pa raddau o gymorth a fuddsoddir yn y darparwyr hynny gan y pwrs cyhoeddus, o ansawdd da ac yn gynaliadwy'n ariannol".
- 17.59 Roedd cynrychiolwyr AB yn gyffredinol yn cefnogi'r gwahanu, ond yn dadlau na ddylai fod yn seiliedig ar yw'r astudio yn llawn amser neu'n rhan amser. Roedd ymatebwyr adleisio teimlad AU y dylai gofynion rheoliadol fod yn seiliedig ar anghenion myfyrwyr, nid ar unrhyw fudd ariannol i ddarparwyr. Fe wnaeth un cynrychiolydd AB godi pryderon fod gwahaniaethu fel hyn "yn mynd yn groes i egwyddorion cydraddoldeb".
- 17.60 Ymatebodd Estyn na allai "weld y sail resymegol dros y ddau gategori ar hyn o bryd. O safbwynt cydraddoldeb a mynediad teg, yr hyn a fyddai'n ymddangos yn iawn fyddai nad oes ond un categori dynodedig".
- 17.61 Roedd cynrychiolwyr cyflogwyr yn gyffredinol yn cefnogi'r gwahaniaethu.

Cwestiwn 96: Pa un o'r tri opsiwn yw'r mwyaf priodol yn eich barn chi a pham? A ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch y tu allan i Gymru fodloni un o'r tri opsiwn hefyd?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	2
AB	5
AB/AU	0
AU	8
Unigol	1
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	1
Cyfanswm	28

Y farn gyffredinol

- 17.62 Ni ddylai dynodi cyrsiau barhau ymhlith swyddogaethau Gweinidogion Cymru; dylai'r swyddogaethau hyn yn hytrach gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn.
- 17.63 Opsiynau 'a' a 'b'⁶ oedd yn cael eu gweld fel y rhai mwyaf addas gan y byddent yn sicrhau cysondeb.

Dadansoddiad sectorol

- 17.64 Roedd y farn yn rhanedig o fewn y sector AU. Yn gyffredinol roedd dewisiadau 'a' a 'b' yn cael eu ffafrio ar sail cysondeb. Dylid ystyried dewis 'c' os bydd gofynion rheoleiddio yn cael eu bodloni'n llwyr gan y fframwaith rheoleiddio sy'n ei ddisodli. Mae disgwyliad y bydd mesurau cadarnach yn cael eu rhoi ar waith i ddarparwyr sydd heb statws elusennol. Fodd bynnag, nodwyd gan un darparwr y gall arallgyfeirio o fewn y diwydiant olygu y gall y dewis i sefydliadau beidio â bod yn elusen fod yn bwysig.

⁶ Mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnig y dylai darparwyr yng Nghymru fodloni un o'r dewisiadau canlynol er mwyn cael eu cymeradwyo am Gytundeb Rheoleiddio a Deilliannau: Opsiwn (a): byddai'n ofynnol i ddarparwyr sy'n ceisio dynodiad cyrsiau yn y naill categori neu'r llall fod yn elusennau; Opsiwn (b): dim gofyniad i ddarparwyr sy'n ceisio dynodiad cyrsiau yn y naill categori na'r llall i fod yn elusennau; Opsiwn (c): byddai'n ofynnol i ddarparwyr sy'n ceisio dynodiad categori 1 naill ai fod yn elusennau (fel ar hyn o bryd ar gyfer sefydliadau a reoleiddir o dan Ddeddf 2015) lle na fyddai'n ofynnol i ddarparwyr sy'n ceisio dynodiad cyrsiau yng nghategori 2 fod yn elusennau.

- 17.65 Roedd teimlad cryf ymysg rhai cynrychiolwyr AU na ddylai cronfeydd a dderbyniwyd o gyllid cyhoeddus gael eu defnyddio er budd cyfranddalwyr sefydliadau di-elw ac mai statws elusennol ddylai fod yr agwedd sy'n diffinio Sefydliadau Addysg Uwch. Roedd hefyd y cwestiwn o risg posibl i enw da'r sector AU fel cyfanrwydd pe na bai pob darparwr yn destun yr un gwiriadau o ran ansawdd, cynaliadwyedd ariannol, rheolaeth a llywodraethu. Roedd yr Undeb Prifysgolion a Cholegeau yn bryderus ynghylch yr effaith cymdeithasol y gallai darparwyr heb statws elusennol ei gael: "Mae gan Gymru hanes balch o fuddsoddi mewn addysg i'w phobl, dylem wrthsefyll yn gryf yn unrhyw ymgais i danseilio'r diwylliant hwnnw."
- 17.66 Ar y llaw arall, daliai cynrychiolwyr AU eraill nad oes reswm pam na ddylid caniatáu i ddarparwyr gystadlu yn y farchnad cyn belled â'u bod yn gallu bodloni'r safonau cadarn sy'n ofynnol. Nid oedd CCAUC yn gwrthwynebu darparwyr sydd heb statws elusennol, ar y sail y dylai'r darparwyr hyn fod "wedi ymrwymo i fuddsoddi cronfeydd sydd dros ben i weithgareddau sy'n cefnogi dysgwyr neu a oedd er budd y cyhoedd, gan ddangos hyn trwy ddatganiad budd y cyhoedd."
- 17.67 Barn CCAUC oedd os yw gweinidogion Cymru'n dymuno cefnogi myfyrwyr o Gymru i astudio mewn darparwyr eraill mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, yna dylent gadw'r pŵer i ddynodi'n benodol ddarparwyr cymwys ar gyfer cefnogi myfyrwyr, ond dylai hyn fodloni'r un gofynion rheoleiddio â nodir gan y Comisiwn.
- 17.68 Roedd y mwyafrif ymatebwyr o'r sector AB yn cefnogi barn Colegau Cymru, a oedd yn gwrthod y cynnig y dylai dynodi cyrsiau barhau i fod yn un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru, gan ddweud y dylai'r swyddogaethau hyn gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn yn lle hynny. Teimlid hefyd mai dewis 'a' oedd y mwyaf priodol gan y byddai'n dod â mwy o gysondeb. Teimlai un ymatebydd fod y cwestiwn hwn yn gorwedd y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad, fodd bynnag.
- 17.69 Roedd hefyd wahaniaethau barn ymysg ymatebwyr awdurdodau lleol, gydag un yn dweud nad oes unrhyw ofynion ar i ddarparwyr AU fod yn elusennau, tra bod y llall yn dewis opsiwn 'a'.
- 17.70 Nid yw ysgolion yn cyflwyno barn.
- 17.71 Er y teimlai'r mwyafrif o gynrychiolwyr DSW eu bod yn anghymwys i ateb, mynna un mai cysondeb yw'r peth allweddol. Mae dau yn cytuno gyda dewis 'c' gan mai hwn sy'n cynnig y mwyaf o hyblygrwydd.

Cwestiwn 97: A oes unrhyw faterion eraill yr ydych yn credu y dylid eu hystyried mewn perthynas â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	5
AB/AU	0
AU	7
Unigol	0
Awdurdod lleol	3
Corff rheoleiddio	1
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	2
Cyfanswm	25

Y farn gyffredinol

- 17.72 Roedd galwad am system o gofrestru i'r holl ddarparwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd gofynion rheoleiddio.
- 17.73 Mae gan asesiad llawn o effaith ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau nad oes problem gyda chydraddoldeb.

Dadansoddiad sectorol

- 17.74 Ymateb y mwyafrif ymysg ymatebwyr o'r sector AU oedd galwad am system o gofrestru ar gyfer pob darparwr. Ar hyn o bryd, nid yw'r holl ddarparwyr yn gymwys i ymgeisio am statws sefydliad wed'i reoleiddio, er y gallant fod yn ymgeiswyr da ar gyfer dynodi cyrsiau yn awtomatig. Yn ogystal, roedd cefnogaeth i system o gofrestru er mwyn sicrhau bod pob darparwr yn cyrraedd gofynion rheoleiddio.
- 17.75 Roedd rhai darparwyr AU yn cydnabod bod y trefniadau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ymgeisio am ddynodiad penodol i gyrsiau rhan-amser. Ymddengys fod hyn yn anfanteisio poblogaeth benodol o fyfyrwyr yng Nghymru sydd â'r mwyaf o angen am hyblygrwydd.
- 17.76 Roedd cytundeb unfrydol ymysg ymatebwyr o'r sector AB y dylai fod asesiad llawn o effaith y cynigion hyn ar gydraddoldeb.
- 17.77 Roedd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn gofyn y cwestiwn: "Os mai'r strategaeth yw bod yn gyson â blaenoriaethau economaidd, a ddylai'r Comisiwn gael rhywfaint o ddylanwad dros statws gradd

dynodedig a chyllid myfyrwyr yn gysylltiedig ag anghenion sectorau a chymhellion i wella a chadw sgiliau yng Nghymru?”

- 17.78 Credai'r Undeb Addysg Cenedlaethol y dylid ystyried cymhellion ariannol i helpu sicrhau cyfiawnder cymdeithasol i ddysgwyr yn y sector AHO. Maent yn nodi bod cefnogi'r rheini sy'n NEET⁷ yn allweddol i hyn.
- 17.79 Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd rôl rheoleiddwyr gweithluoedd neu gyrff proffesiynol eraill.

⁷ Person ifanc nad yw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ('Not in Education, Employment or Training')

18. Trosolwg o ymatebion i adran 16: Asesiad effaith

Cwestiwn 98: I lywio ein hasesiad o effaith bosibl y cynigion hyn, a ydych yn rhagweld unrhyw effaith benodol ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig (o fewn diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010)? Pa effeithiau ydych chi'n credu y byddai ar yr unigolion hynny? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	3
AB	6
AB/AU	0
AU	4
Unigol	0
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	2
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	2
Cyfanswm	25

Y farn gyffredinol

- 18.1 Teimlai llawer o ymatebwyr fod angen cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, ond roedd y mwyafrif yn methu â chyfleu unrhyw effeithiau penodol y gallai'r diwygiadau eu creu.
- Barnau gwahanol
- 18.2 Awgrymodd lleiafrif o ymatebwyr fod y diwygiadau'n annhebygol o gael unrhyw effaith ar y rheini â nodweddion gwarchodedig.

Dadansoddiad sectorol

- 18.3 Ymysg ymatebwyr o'r sectorau DOyG ac AB fe wnaeth y mwyafrif nodi angen am asesiad o effaith y diwygiadau ar gydraddoldeb, ynghyd â datganiadau neu adroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb. Awgrymodd amryw y dylai'r dull o asesu effaith gael ei lywio gan arferion gorau Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.
- 18.4 Mewn AU, roedd hefyd rhywfaint o alw am asesiad effaith ar gydraddoldeb. Roedd Prifysgol Caerdydd yn un o'r ychydig ymatebwyr a amlinellodd sut y gallai'r diwygiadau effeithio ar y rheini â nodweddion gwarchodedig: "gall darpariaeth AU gynhwysol a hygyrch helpu gyda mynd i'r afael â phroblemau ehangach anghydraddoldeb ac amddifadedd yng Nghymru." Roedd Prifysgol

Caerdydd yn galw hefyd am adolygiad o gynlluniau blaenorol ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais ar sail rhyw er mwyn penderfynu lle i ganolbwyntio blaenoriaethau ar gyfer y Comisiwn wrth symud ymlaen.

- 18.5 Ymysg ymatebwyr awdurdodau lleol, cyflogwyr a busnes a DSW, y farn gyffredinol oedd nad yw'r diwygiadau hyn yn debygol o gael effaith ar y rheini â nodweddion gwarchodedig. Fe wnaeth un ymatebydd llywodraeth leol nodi angen i fod yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion cymunedau gwledig a difreintiedig a dysgwyr y Gymraeg: "gall y cynigion effeithio'n wahanol mewn ardaloedd penodol o Gymru gydag effeithiau penodol ar gymunedau gwledig a difreintiedig ac ar y gallu i gael at ddarpariaeth dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, byddai angen i'r Comisiwn sylweddoli na fyddai dull "un maint addas i bawb" yn gweithio ac y byddai angen dulliau wedi eu haddasu i ofynion lleol er mwyn cynyddu effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol.
- 18.6 Awgrymodd FISSS fecanweithiau ar gyfer asesu'r effaith ar y rheini â nodweddion gwarchodedig: "Gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol trwy ei gwneud yn ofynnol i ddata deilliannau gael ei gyhoeddi yn ôl grwpiau gwahanol, a thrwy gynnwys mesurau perthnasol yn y Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a gytunwyd gyda darparwyr, a thrwy ei gwneud yn un o swyddogaethau craidd y Comisiwn ei fod yn annog amrywiaeth ymgeiswyr ac yn darparu cymorth digonol yn ei reolaeth o raglenni a'i ddyraniadau cyllid i gefnogi er enghraifft, myfyrwyr ag anghenion ychwanegol."
- 18.7 Fe wnaeth Estyn dynnu sylw at ddiffyg ystyriaeth ddyledus o'r diwygiadau sydd ar ddod o fewn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol: "Byddem yn disgwyl i'r Comisiwn gysylltu â chomisiynwyr eraill fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Gallai fod yn amserol ystyried pa ofynion a osodir ar y Comisiwn i fonitro ac adrodd ar fynediad at AHO a llwyddiant ynddo gan grwpiau â nodweddion gwarchodedig a grwpiau bregus eraill a dan-gynrychiolir".

Cwestiwn 99: Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

- i) cael effeithiau positif neu gael effeithiau positif ychwanegol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- ii) peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	1
AB	7
AB/AU	2
AU	5
Unigol	0
Awdurdod lleol	2
Corff rheoleiddio	3
Ysgol	0
Trydydd sector	0
DSW	5
Cynrychiolwyr gweithlu	3
Cyfanswm	29

Y farn gyffredinol

- 18.8 Roedd pawb yn cytuno y dylai'r Gymraeg fod yn ganolog ac y dylid ei hymgorffori i bob agwedd o waith y Comisiwn trwy hefyd ddarparu canllawiau ar draws pob sector.
- 18.9 Fe wnaeth nifer o ymatebwyr o sawl sector fynegi pryder ynghylch sefydlu pwyllgor ar gyfer y Gymraeg, oherwydd y perygl y gallai arwain at ymleiddio'r Gymraeg o waith craidd y Comisiwn.

Dadansoddiad sectorol

- 18.10 Ymysg ymatebion DOyG ac AB, roedd galwad helaeth ar i'r Comisiwn fod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Roedd amryw yn y sectorau hyn yn rhybuddio yn erbyn sefydlu pwyllgor y Gymraeg: "dylai'r Comisiwn fod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg a rhaid ymgorffori'r Gymraeg i bob agwedd o waith y Comisiwn yn hytrach na'i bod yn gylch gwaith un pwyllgor yn unig, gan arwain at y perygl o ymleiddio." (Addysg Oedolion Cymru)
- 18.11 Cyn belled ag yr ymgorfforir y Gymraeg fel hyn, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn "hyderus y gallai'r Comisiwn chwarae rhan briodol o

safbwynt datblygu a gweithredu polisi ieithyddol yng Nghymru, gan gynnwys Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru.”

- 18.12 Roedd ymatebwyr o’r sector AU yn cytuno’n gyffredinol y dylai’r Gymraeg fod yn ganolog i waith y Comisiwn, ac nid yn ystyriaeth ychwanegol. Roedd Prifysgol Aberystwyth yn awgrymu y dylid cynnig cyllid wedi’i glustnodi i gymell myfyrwyr Cymraeg, cefnogi swyddi Cymraeg a chysiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd cyllid wedi’i glustnodi yn cael ei gefnogi gan Estyn hefyd a oedd yn argymhell defnyddio Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau i gynnwys gofynion penodol i awdurdodau lleol o ran cynnal a hyrwyddo’r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg. Yn ôl awgrym un ymatebydd o’r sector AU, trwy gynyddu gofynion yn y sector preifat am Gymraeg llafar, byddai graddedigion yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg er mwyn llwyddo yn y sector preifat a’r sector cyhoeddus yng Nghymru.
- 18.13 Roedd UCM Cymru’n dadlau dros greu pwyllgor o fewn y Comisiwn i oruchwylio datblygiad y Gymraeg, ond yn nodi hefyd “nad yw creu pwyllgor yn ddigon” ac yn awgrymu y dylai aelod penodol o fwrdd y Comisiwn fod yn gyfrifol am hyrwyddo a datblygu diwylliant dwyieithog o fewn y Comisiwn.
- 18.14 Fe wnaeth yr ymatebydd ysgolion adnabod “angen i sicrhau bod gan y Comisiwn ei hun bolisiau ieithyddol cadarn ar gyfer penderfynu ei ddefnydd ei hun o’r Gymraeg, gan gynnwys ei bolisi recriwtio staff ei hun ac unrhyw waith mae’n ei gomisiynu gan eraill”. Yn ogystal, nododd yr ymatebydd hwn: “rhaid cydnabod rôl ganolog – ac unigryw – chweched dosbarth ysgolion am y ffordd maent yn cynnig addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg o fewn awyrgylch ac ethos Cymraeg sy’n creu siaradwyr rhugl a hyderus. Mae’r ffaith honno ynddi’i hun yn golygu y dylid sicrhau rhyw raddau o amddiffyniad i chweched dosbarth, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.”
- 18.15 Awgrymodd yr ymatebydd llywodraeth leol y dylai’r polisi cyfrwng Cymraeg “gael ei ffurfio mewn cydweithrediad â’r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol sydd wedi adnabod anghenion am ddarpariaeth a sgiliau Cymraeg.”
- 18.16 Rhybuddiodd yr ymatebydd DSW yn erbyn gwneud y defnydd o’r Gymraeg yn ofynnol ym mhob cymhwyster, hyfforddiant neu brentisiaethau, gan y gallai fod yn “rhy ddrud ac y gallai arwain at leihad mewn hyfforddiant”. Yn lle hynny, awgrymwyd y gellid trefnu bod cyllid ar gael ar gyfer hyfforddiant “lle mae angen wedi cael ei adnabod gan y Comisiwn a’i gefnogi gan gyflogwyr.”

Cwestiwn 100: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer o Ymatebion
DOyG	1
Cyflogwyr a busnesau	4
AB	5
AB/AU	1
AU	9
Unigol	3
Awdurdod lleol	4
Corff rheoleiddio	5
Ysgol	8
Trydydd sector	0
DSW	1
Cynrychiolwyr gweithlu	5
Cyfanswm	46

Dadansoddiad sectorol

- 18.17 Fe wnaeth nifer bach o ymatebwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned ychwanegu eu pwyntiau eu hunain at ymateb cyffredinol DOyG a ddrafftwyd gan Addysg Oedolion Cymru a'i gyflwyno gan nifer o'i aelodau (gweler Adran 20 isod am fanylion yr ymateb cyffredinol hwn). Roedd y mwyafrif o'r sylwadau hyn yn canolbwyntio ar bryderon ynghylch lleihau darpariaeth DOyG ac awgrymiadau ar gyfer sut mae angen i'r sector DOyG gael ei helpu i ehangu fel rhan o ddiwygiadau ehangach AHO.
- 18.18 Roedd galwadau penodol am ddiwygio Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cynnwys:
- Rhoi'r gorau i doriadau parhaus mewn darpariaeth DOyG a chynyddu'r nifer a'r amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael.
 - Cynyddu'n benodol y nifer o gyrsiau academaidd/lefel uwch.
 - Mwy o gyrsiau ar gael am ddim neu am bris gostyngol i bobl sy'n derbyn budd-daliadau.
 - Tynnu ymaith y rhwystrau i DOyG i bobl sy'n derbyn budd-daliadau: "Gall DWP/JCP rwystro myfyrwyr rhag astudio neu eu taflu oddi ar eu cyrsiau rhan-amser, am astudio tra maent ar fudd-daliadau. Dylai hyn stopio."
 - Categorioidio ehangach o ddysgwyr anabl.
 - Mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â cholli cyllid ESF ar gyfer darpariaeth DOyG, ar ôl Brexit.
- 18.19 Roedd un ymatebydd yn pwysleisio pwysigrwydd darpariaeth lefel-uwch DOyG a gyflwynir gyda'r nosau, er mwyn darparu ar gyfer y

rheini mewn gwaith sydd â diddordeb mewn newid gyrfa, i alluogi'r boblogaeth ehangach i gael ei harfogi ar gyfer y tirwedd cyflogaeth sy'n newid yn barhaus a chyfrannu at gymuned lwyddiannus a byrlymus yng Nghymru.

- 18.20 Roedd rhai o'r rhain yn cynnwys profiadau personol iawn o sut mae DOyG wedi bod o fudd i ymatebwyr: "heb addysg oedolion fyddwn i ddim lle'r ydw i heddiw, dw i'n ddiolchgarh iawn am y gwaith maen nhw'n ei wneud a'r siawns maen nhw wedi'i roi i mi i wella fy mywyd i mi a'm plant."
- 18.21 Ymysg ymatebwyr AB roedd dwy thema gyson:
- Dim digon o ganolbwyntio ar DOyG yn y cynigion: "ni roddwyd sylw digonol [i Ddysgu Oedolion yn y Gymuned] o ran ei swyddogaeth uwchsgiliau na'i elfen genhadaeth gymdeithasol drwy'r holl ymgynghoriad hwn." (ColegauCymru)
 - Nifer o faterion a chwestiynau wedi cael eu cynnwys yn ddianghenraid yn yr ymgynghoriad: "Byddai'n ymddangos bod nifer o'r cwestiynau a ofynnir yn 'crwydro' oddi wrth y ddeddfwriaeth sydd ei hangen i sefydlu'r Comisiwn – ac y gellid felly ymdrin yn fwy effeithlon â hwy trwy gyfres o ymgynghoriadau pellach." (Coleg Gŵyr Abertawe)
- 18.22 Roedd pwyntiau eraill a godwyd yn cynnwys:
- Sicrhau bod mesurau atebolrwydd yn ddigon cadarn heb lesteirio gallu'r Comisiwn i weithredu'n effeithiol.
 - Diogelu llywodraethiant cadarn a chysondeb ynghylch is-gontractio a masnachfreinio ar draws holl sector AHO (ac yn enwedig mewn AU a DSW).
 - Lleihau biwrocratiaeth: "[angen] osgoi creu 'anghenfil' o sefydliad ac iddo fiwrocratiaeth dianghenraid, a dysgu o'r gorffennol, ee ELWa." (Coleg Cambria)
 - Sefydlu strwythurau a diwylliant mewnol priodol o'r cychwyn.
- 18.23 Un thema gyffredin o ymatebwyr AU oedd y syniad fod sefydliadau AU yn gweithio'n rhyngwladol ac na ddylai'r diwygiadau a gynigir danseilio eu safle cystadleuol yn y farchnad Brydeinig a rhyngwladol: "Os yw diwygio AHO yn peri bod sefydliadau AU Cymru yn ymddangos ac yn dod yn llai cystadleuol, gallai hyn gael effaith mawr ar fusnes/cyllid y sefydliad AU. Golyga hyn allu rhagori yn y TEF [Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Deilliannau Myfyrwyr], Tablau Cynghrair a'r REF [Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil]. Rhaid modelu a deall effaith newidiadau mewn ffrydiau cyllid a newidiadau mewn rheoleiddio ar allu sefydliadau i wneud yn dda yn y dangosyddion hyn." (Prifysgol Aberystwyth)
- 18.24 Nodwyd bod angen i'r Comisiwn gydnabod y gwahaniaethau rhwng gwahanol feysydd y sector AHO. Dywedodd un ymatebydd: "Mae'r ddogfen ymgynghori yn methu â chydabod bod corfforaethau AB a sefydliadau AU yn wahanol mewn ffordd allweddol: mae'r olaf (sefydliadau AU) yn gyrff dyfarnu, nid yw hyn yn wir am gorfforaethau AB, felly rhaid i system ansawdd asesu prosesau ar y naill law a

deilliannau ar y llaw arall. Mae'n diogelu ymreolaeth sefydliadol wrth wneud dyfarniadau yn dyngedfennol bwysig." (Prifysgol De Cymru)

- 18.25 Roedd un ymatebydd AU yn amau hyfywedd creu un corff ansawdd sy'n gor-symleiddio cwmipas y sector AU ac sy'n methu â chydabod y llwyfan rhyngwladol mae'r sector yn gweithredu arno a'r prosesau a'r mesurau ansawdd sydd eisoes yn bod i'r sector (ee y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch, Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU, Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU, Y Gymdeithas Ewropeaidd dros Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch): "Mae gennym amheuan difrifol ynghylch y syniad o un corff ansawdd, gan nad ydym yn gweld pwy fyddai'n gallu cynnig yr hygredded i'r sector y mae'r trefniadau presennol gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn ei wneud ... mae mwy o apêl i'r cysyniad o fframwaith, seiliedig ar egwyddorion y mae cyrff cydnabyddedig yn gweithredu mewn dull penodol o'i fewn." (Prifysgol De Cymru)
- 18.26 Yn unol â sylwadau ar elfennau penodol o'r ymgynghoriad, roedd nifer o ymatebwyr AU yn rhybuddio yn erbyn rhoi gormod o fanylder yn y ddeddfwriaeth: "Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhoi llawer iawn o bwyslais ar faterion o fanylder technegol ... gallai dull gor-benodol yn y ddeddfwriaeth arwain at anhyblygrwydd ac anhawster yn y dyfodol, lle byddai canolbwyntio ar egwyddorion yn rhoi'r hyblygrwydd a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu effeithiol dros amser." (Cadeiryddion Prifysgolion Cymru)
- 18.27 Roedd sylwadau eraill yn cynnwys cais am amserlen ddeddfwriaethol ar gyfer gweithredu'r diwygiadau a datganiad o weledigaeth ar gyfer y sector ôl-orfodol.
- 18.28 Roedd ymatebwyr o gyrff y sector AU yn nodi nifer o bryderon ynghylch:
- Manylion annigonol ar feysydd deddfwriaethol fel sut y byddai'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau arfaethedig yn gweithredu neu drosglwyddo darpariaethau'r DU i lyfr statud Cymru
 - "Mae'r cynigion fel y maent yn sefyll yn rhy benodol, yn rhoi gormod o reolaeth i Lywodraeth Cymru, ac nid ydynt yn darparu ar gyfer dull gweithredu hyd-braich."
 - Mae strwythur llywodraethiant arfaethedig y Comisiwn yn drwsogl ac yn annhebygol o fod yn effeithiol
 - Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau fel model ar gyfer rheoli perthynas
 - Diffyg eglurder ar sut y caiff y Comisiwn ei gyllido a sut y bydd y Comisiwn yn ei dro yn cyllido darparwyr
 - Yr angen i osgoi agwedd un maint addas i bawb fel y cynigion am un corff ansawdd
 - Diffyg agwedd eangfrydig yn y cynigion, fel y dangosir yn y cyfyngiadau arfaethedig ynghylch Ymchwil ac Arloesi Cymru a fyddai'n llesteirio gweithgaredd ymchwil a datblygu yng Nghymru ac a allai niweidio enw da rhyngwladol Cymru am ragoriaeth ymchwil.

- 18.29 Roedd ymatebwyr o gyrff y sector AU yn mynegi'r angen am y canlynol:
- model cofrestru gyda gofynion sylfaenol i bob darparwr er mwyn cynnal ansawdd darpariaeth addysg uwch yng Nghymru a sicrhau bod gwell trefniadau diogelu a chynrychioli i bob dysgwr ledled Cymru
 - Llywodraeth Cymru i gynnwys rhanddeiliaid ar grwpiau swyddogol i ddatblygu deddfwriaeth ddrafft i gyflawni'r cynigion hyn.
- 18.30 Ymysg ymatebwyr llywodraeth leol, roedd sylwadau ychwanegol yn cynnwys:
- Yr awgrym bod chweched dosbarth ysgolion yn cael eu heithrio ar y cychwyn (neu'n barhaol) o'r strwythur cyllido trydyddol newydd.
 - Pryder nad oedd digon o ganolbwyntio yn y ddogfen ar Ddysgu Oedolion yn y Gymuned a'r angen am ymrwymiad ariannol gan y Comisiwn a Llywodraeth Cymru i alluogi dysgwyr o gymunedau difreintiedig a grwpiau a dan-gynrychiolir i ddychwelyd at addysg a chael eu cefnogi'n ariannol i wneud hynny.
 - Yr angen i ddarparu grantiau i oedolion difreintiedig sy'n ddysgwyr mewn DOyG, AB, AU a DSW, yn enwedig yn wynebu y goblygiadau i economi Cymru wrth i weithwyr mudol adael Cymru yn sgil Brexit.
 - Yr argymhelliad y dylai'r Comisiwn oruchwylio unrhyw raglen sy'n olynu cyllid ESF ar gyfer addysg yng Nghymru, ar ôl Brexit.
 - Yr angen i'r Comisiwn ddangos sut y bydd addysg Gymraeg yn cael ei hymestyn yn unol â chynlluniau'r Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol, gofynion Deddf y Gymraeg a deddfwriaeth arall berthnasol.
 - Cael gwared ar y gair 'Trydyddol' o'r teitl a gynigir ar gyfer y Comisiwn newydd, yn wyneb y cynigion i barhau i gefnogi economi ôl-16 gymysg, gan gynnwys chweched dosbarth ysgolion.
 - Holi sut mae'r Comisiwn yn bwriadu gwneud y canlynol:
 - Ystyried datblygiadau addysgol cyn-16 er mwyn rhannu'r arferion gorau a allai fod yn berthnasol i ôl-16, er enghraifft gwaith y grwpiau clwstwr ysgolion a phontio rhwng cyfnodau
 - Diweddarau gwybodaeth yn gyson ar ddiwygio'r cwricwlwm cyn-16 a'i effaith ar barhau i ddatblygu sgiliau ôl-16 mewn lleoliadau heblaw chweched dosbarth
 - Dod â rhanddeiliaid allweddol ôl-16 eraill, sy'n gweithio ar wahân ar hyn o bryd, at ei gilydd (er enghraifft, Gyrfa Cymru a Rhwydwaith Seren) er mwyn sicrhau dull gweithredu ystyrlon i bopeth sy'n berthnasol i ôl-16.
 - Cwestiwn ynghylch a fydd y Comisiwn yn gweithredu fel grŵp lobiö dros agweddau ôl-16 ar lwyfan cenedlaethol, er enghraifft, ar sicrhau bod Lefel 3 Bagloriaeth Cymru yn cael ei dderbyn gan holl brifysgolion y DU fel cymhwyster sy'n gyfwerth â Safon Uwch.

- Pryder a fyddai Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau yn ddigon sensitif i gydnabod yr amrywiaeth darpariaeth sy'n bod mewn ardaloedd awdurdodau lleol.
- Pryder ynghylch diffyg cysondeb neu dir cyffredin rhwng y cynigion AHO ac elfennau o Genhadaeth ein Cenedl: "Sut, er enghraifft, mae'r trefniadau hyn yn sicrhau na fydd y 'pedwar amcan' yn peidio â bod yn berthnasol yn 16 oed ac y bydd egwyddorion y cwricwlwm newydd yn parhau? Yn yr un modd, bydd y cynigion yn gosod addysg gyfrwng Cymraeg ôl-16, yn enwedig mewn cymunedau mwy gwledig ac anghysbell o dan fyggythiad sylweddol."
- Amheuaeth y bydd y cynigion yn arwain at leihad mewn darpariaeth chweched dosbarth a phryderon am yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar yr ysgolion, eu gallu i recriwtio a chadw athrawon a statws ysgol o fewn cymuned: "Ni allwn gefnogi cynigion a fydd yn peryglu ansawdd y cynnig mewn chweched dosbarth fel hyn nac un a fydd yn cyfyngu ar ddewis disgyblion a rhieni." (Gwasanaeth Cyflawni Addysg)
- Pryder ynghylch haen ychwanegol o fiwrocratiaeth a chost i awdurdodau lleol ac ysgolion ar adeg pan fo cyllid eisoes yn dynn.

18.31 Fe wnaeth cyrff cynrychioliadol amrywiaeth o sylwadau ychwanegol gan gynnwys:

- Yr angen i gynnwys cyflogwyr mewn ymchwil a chynrychiolaeth barhaol i gyflogwyr ar fwrdd y Comisiwn / cefnogaeth i ymgorffori Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Bwrdd Cyngori ar Brentisiaethau Cymru "fel y gall y cyfathrebu fod yn effeithiol o fewn un sefydliad annibynnol".
- Yr awgrym fod y Comisiwn yn cysylltu ag ysgolion i roi cyngor a chanllawiau gyrfu i fyfyrwyr 14-16 oed
- Pwyslais ar gydweithio rhwng darparwyr yn hytrach na chystadleuaeth am gyllid
- Pryder ynghylch "deuoliaeth cyllido", lle mae sefydliadau AB yn gyndyn o ganiatáu i fyfyrwyr fynd ar brofiad gwaith oherwydd gall myfyrwyr da fod yn cael cynnig swydd heb orffen eu cwrs, a byddai cyllid am y myfyrwyr hyn wedyn yn cael ei dynnu'n ôl. Golyga hyn y gall cyrsiau ddod yn anhyfyw ran o'r ffordd drwodd, neu bod cyrsiau heb brofiad gwaith wedyn yn arwain at fyfyrwyr â sgiliau gwaith annigonol.
- Diffyg manylion ynghylch cysondeb (er enghraifft o safbwynt fframweithiau cymwysterau neu gyfleoedd dilyniant) rhwng y cynnydd mae pobl ifanc yn ei wneud hyd at 16 oed a'r camau nesaf maent yn eu cymryd mewn dysgu.
- Yr angen am gydweithio agosach rhwng Estyn a chyrff arolygu a rheoleiddio eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd, gyrru gwelliannau mewn deilliannau myfyrwyr a chefnogi cynnydd tuag at y weledigaeth yn Ffyniant i Bawb

- Amheuaeth ynghylch y sail resymegol dros gynnwys ymchwil ac arloesi yng nghwmpas y Comisiwn, a phryder y byddai cylch gwaith y sefydliad yn rhy eang
- Argymhellion ar gyfer y broses o ddiwygio prentisiaethau: “dylai unrhyw ddiwygiadau i’r ffordd y caiff Prentisiaethau eu rheoli a’u gweinyddu fod yn ddarostyngedig i ddull achos busnes sy’n sicrhau bod y prosesau newydd a awgrymir yn lleihau costau, gwella ansawdd a gyrru effeithlonrwydd a gwerth.” (Ffederasiwn Sgiliau a Safonau Sector Diwydiant – FISSS)
- Pryderon ynghylch y teitl a gynigir ar gyfer y Comisiwn:
 - Dryswch posibl ynghylch y term ‘trydyddol’, sy’n cyfeirio’n benodol at chweched dosbarth ysgolion ac AB yn unig yng Nghymru, tra bod y diffiniad Ewropeaidd o drydyddol yn cynnwys popeth y tu hwnt i addysg uwchradd
 - Amheuan ynghylch y defnydd o’r gair ‘Comisiwn’: “Nid oes unrhyw gynnig am Gomisiynydd o fewn yr ymgynghoriad ac felly nid yw ‘Comisiwn’ yn ystyrion.” (CCAUC)
 - Pryder ynghylch cynnwys ‘Cymru’ yn y teitl, a fyddai’n “tansellio un o’r cynigion allweddol o fewn Reid o safbwynt cael presenoldeb yn Llundain a newid y canfyddiad o ymchwil Cymreig”. (UCU)
 - Mae’r dewisiadau eraill a awgrymwyd yn cynnwys: “Cyngor Addysg ac Ymchwil (Education and Research Council) neu’r Bwrdd Addysg ac Ymchwil (Education and Research Board)”
- Angen posibl am swyddogaeth arsylwi i fonitro ymddygiadau sefydliadol a myfyrwyr ac anghenion yr holl sail wybodaeth ar draws Ymchwil ac Arloesi y DU, y Comisiwn newydd, ac Ymchwil ac Arloesi Cymru.
- Defnyddio’r corff newydd, yr Academi Genedaethol Arweinyddiaeth Addysgol, fel dolen gyswllt a system ar gyfer sicrhau parhad mewnbwn o’r sector ysgolion.
- Angen i’r Comisiwn egluro ei gylch gwaith a sut mae’n wahanol i sefydliadau ‘haen ganol’ eraill, yn enwedig y rheini sy’n berthnasol i ysgolion (Estyn, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, Byrddau Arholi, Cymwysterau Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg, ymysg eraill) er mwyn osgoi dyblygu/gorgyffwrdd a dryswch
- Angen i’r amserlen ar gyfer y newidiadau arfaethedig fod yn synhwyrol, cymesur â graddfa bresennol diwygio addysg yng Nghymru, yn enwedig i ysgolion
- Yr angen i ddatblygu strwythurau llais y dysgwr wedi eu cyllido’n llawn o fewn pob sefydliad a reoleiddir ledled Cymru
- Yr angen am gydweithio agos rhwng y Comisiwn a chyrrff perthnasol eraill (Cymwysterau Cymru, Estyn, Llywodraeth Cymru a Swyddfa’r Dyfarnydd Annibynnol) er mwyn sicrhau bod eu cylchoedd gwaith a’u dulliau o ymdrin â chwynion yn cael eu cyfleu mewn ffordd ystyrlon
- Canfyddiad o ganolbwyntio ar AU uwchlaw is-sectorau eraill AHO.

18.32 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr o ysgolion yn mynegi pryderon ynghylch newidiadau a gynigir i chweched dosbarth ysgolion ac yn pwysleisio'r rôl bwysig mae chweched dosbarth yn ei chwarae o fewn cymuned gyffredinol yr ysgol. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Y syniad fod ysgolion yn ymdrin â'r cwricwlwm mewn ffordd berthnasol ac ystyrlon y tu hwnt i addysg orfodol
- Yr effaith ar recriwtio a chadw athrawon mewn ysgolion nad ydynt mwyach yn cyflwyno cyrsiau Safon Uwch: "Fe fyddem yn dweud wrth bob athro yng Nghymru na fyddwch byth yn addysgu Safon Uwch os byddwch yn dod yma i weithio ac os oes arnoch eisiau gwneud hynny, fe fydd mewn coleg AB. Felly, pam fyddai neb ac arnynt eisiau addysgu Safon Uwch yn hyfforddi i fod yn athrawon a dod i weithio yng Nghymru?"
- Pryder bod y ddogfen ymgynghori'n cynnig newidiadau sylweddol i ddarpariaeth chweched dosbarth ond bod yr ymgynghoriad wedi bod trwy ddogfen gyfreithiol gymhleth iawn ac efallai fod llawer o ysgolion heb ddeall ei harwyddocâd: "Fel prifathrawon teimlwn y dylai cynrychiolwyr fod wedi dod i'n cyfarfodydd i esbonio'r broses ymgynghori a chanfasio ein barn."
- Pryder ynghylch colli myfyrwyr chweched dosbarth mewn ysgolion a'r cyfraniad ehangach maent yn ei wneud i gymuned yr ysgol: "Mae myfyrwyr chweched dosbarth yn gweithredu fel esiamplau gwyb ac anogaeth i blant iau anelu'n uchel i lwyddo. Yn yr un modd, mae amgylchedd yr ysgol yn cynnig cyfleoedd gwyb i fyfyrwyr chweched dosbarth wirfoddoli a chyfrannu at gymuned yr ysgol."
- Mynegwyd ofn, er gwaethaf ymrwymiad i "gadw economi gymysg o ddarpariaeth sy'n diwallu anghenion gwahanol ardaloedd a dysgwyr" yn y cyflwyniad i'r ddogfen ymgynghori, bod perygl os yw'r Comisiwn i gael rôl sylweddol mewn cyllido, hyfywedd a rhedeg chweched dosbarth ysgolion, y gallai "wneud penderfyniadau ynghylch addysg drydyddol yn gyffredinol yn y dyfodol, ar draul dewis i fyfyrwyr a rhieni."
- Roedd cred fod y cynigion yn or-fiwrocrataidd a dianghenraid, yn enwedig gan fod chweched dosbarth ysgolion eisoes yn ddarostyngedig i graffu trylwyr a chynyddol gan Lywodraeth Cymru, Estyn a'r consortia rhanbarthol.

19. Ymatebion cyffredinol i'r ymgynghoriad

- 19.1 Cyflwynwyd yr ymateb cyffredinol canlynol gan 314 o gynrychiolwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Fel un sydd yn gweld gwerth aruthrol i Addysg Oedolion yn y Gymuned, hoffwn gefnogi'r ymateb isod gan aelodau a Mudiad Gwirfoddol Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales. Hoffwn i chi ei ystyried fel fy ymateb personol:

Ymateb i gynigion i sefydlu a gweithredu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru: Yr achos o blaid darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru

Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yw'r unig ddarparwr cenedlaethol addysg oedolion yng Nghymru, a chroesawn ddogfen ymgynghori ddiweddar Llywodraeth Cymru "Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf" a'r cynigion cysylltiedig ar gyfer gwella addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.

System Addysg Ôl-Orfodol Wirioneddol Effeithiol

Mae'r ddogfen yn datgan: "Mae system addysg ôl-orfodol wirioneddol effeithiol yn diwallu anghenion dysgwyr o bob math. Mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n gadael yr ysgol ac yn paratoi ar gyfer eu gyrfaedd a'u bywydau fel oedolion, pobl ifanc y mae angen ail gyfle arnynt ar ôl ymddieithrio o'r byd addysg, oedolion hŷn sy'n ailhyfforddi i ymateb i anghenion marchnad lafur sy'n newid, a phobl o bob oed sydd am wella eu haddysg mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt."

Mae'n hollbwysig bod rôl Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn diwallu anghenion dysgwyr, ac yn ehangu cyfranogiad mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch trwy greu cyfleoedd ar gyfer dilyniant.

Dysgu Ail Gyfle

Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn darparu mynediad at addysg o unedau lefel mynediad i gymwysterau sgiliau sylfaenol yn ogystal â chymwysterau ar lefel dau a thri FfCChC (Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru) i oedolion o bob cefndir, ond gyda phwyslais penodol ar y rhai hynny a gollodd y cyfle i ddysgu neu y mae angen ail gyfle arnynt. Gall y sefydliad ddarparu llawer o straeon llwyddiant mewn perthynas ag ystod eang o ddysgwyr; gan gynnwys y rheini a ddisgrifiwyd uchod a llawer mwy.

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Ychydig o gyfeiriad at Ddysgu Oedolion yn y Gymuned a geir yn y cynigion fel ag y maent, er gwaethaf ei effeithiolrwydd o ran diwallu ystod amrywiol o anghenion dysgwyr. Fel sefydliad, credwn fod angen mwy o ystyriaeth i ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'i rôl allweddol yn cyflawni'r dyheadau a amlinellwyd yn y cynigion.

Er y bydd Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn cyflwyno ymateb sefydliadol manwl i'r ddogfen ymgynghori lawn, credwn fod angen rhoi pwyslais arbennig ar ein pryderon ynghylch diffyg cynrychiolaeth ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Ceir pwyslais dealladwy ar gyflawniad statudol a'r pwysau ar adnoddau, ond o ystyried ei gyfraniad hanfodol at ystod o bolisiau Llywodraeth Cymru, **ni ddylid diystyru Dysgu Oedolion yn y Gymuned.**

Dysgu Gydol Oes

Croesawn yr ymrwymiad a ddangoswyd i ddysgu gydol oes; fodd bynnag, anogwn yn gryf y dylai Dysgu Oedolion yn y Gymuned gael llais clir yn y Comisiwn arfaethedig, a hynny drwy gynrychiolaeth bwrpasol, os oes modd.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi herio sefydliadau academiaidd i "ail-greu ymdeimlad o genhadaeth ddinesig"; ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a gweithio gyda'r gymuned i hyrwyddo gwybodaeth, dysgu a sgiliau ar draws cymdeithas; rôl sydd i raddau helaeth iawn wrth wraidd Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales a phopeth a wnawn.

Rydym yn cefnogi'n llawn y gred fel y'i hamlinellir yn nogfen bolisi Llywodraeth Cymru "Dysgu Oedolion yn y Gymuned" sef:

- "yn ogystal â magu sgiliau, mae dysgu oedolion yn dod â manteision ehangach",
- dylai fod pwyslais ar sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith,
- dylid cynnwys "gwell integreiddio cymdeithasol" fel deiliant dysgu disgwylidig.

Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales wedi croesawu'r agenda sgiliau, ac ar yr un pryd yn cynnal ymrwymiad cadarn i addysg ar gyfer cymdeithas weithgar, iechyd a lles a hyrwyddo datblygiad cymunedol ac atebion cydweithredol.

Fel yr unig ddarparwr cenedlaethol Dysgu Oedolion yn y Gymuned, rydym yn cydnabod pwysigrwydd dysgu gydol oes er mwyn sicrhau unigolion, gweithluedd a chymunedau gwybodus, hyblyg, deallus, iach a gwydn.

Rydym yn hyderus yng ngallu a galluogrwydd ein sefydliad i ymateb yn effeithiol i'r heriau a amlinellwyd yn y cynigion ar gyfer diwygio. Rydym, felly, yn annog bod rôl hanfodol Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cael ei chydabod yn fwy grymus yn y cynigion, fel bod Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn parhau â llais clir a rôl gydnabyddedig mewn perthynas â'r strategaeth ehangach ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.

Sylwadau Cyffredinol

Sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned (Sefydliad Dysgu a Gwaith, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol)

- Pwyso ar y Llywodraeth i barhau i adolygu'r gweithredu a'r adnoddau fydd eu hangen
- Effaith Brexit – oes gan y sector y cynhwysedd i ymateb i hyn ac i ddiwygiadau pell-gyrhaeddol y Comisiwn?
- Dim sylw i ddysgu gydol oes ac anghenion oedolion sy'n ddysgwyr
- Dylid ystyried gweithredu fesul cam gan y gall y Comisiwn fod yn cymryd gormod o ymatebion newydd ar unwaith.
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol – “byddai'n ddoeth i'r Ganolfan gael cysylltiad uniongyrchol gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru, oherwydd pwysigrwydd y Ganolfan wrth gyflawni Cymraeg 2050.”
- “ein barn gychwynnol yw ei bod yn gyn-amserol i'r Ganolfan drosglwyddo i'r Comisiwn, heb fod mwy o wybodaeth ar gael am y Comisiwn ac am Gomisiwn newydd y Gymraeg. Mae elfennau creadigol, cymunedol i waith y Ganolfan nad yw'n gallu cael ei fesur a'i gefnogi drwy ddulliau y sector ôl-16 yn unig. Byddai'n rhesymol peidio gwneud unrhyw newid strwythurol pellach i'r sector dysgu Cymraeg i Oeolion nes bod y Ganolfan wedi cael mwy o gyfle i wneud ei waith a phan fydd, dyweder, 3 blynedd o ddata dibynadwy gennym er mwyn mesur ei effaith.” – Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Sector Addysg Bellach

- Coleg Cymraeg Cenedlaethol – Er mwyn sefydlu perthynas weithio effeithiol rhwng y Comisiwn a'r Coleg, mae angen i'r Comisiwn gael cyfrifoldebau penodol yng nghyd-destun addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg – dylai fod mwy o fanylion am y Comisiwn arfaethedig ar gyfer y Gymraeg, y berthynas rhyngddo a'r Coleg, a gyda'r Comisiwn ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. “Hyderwn y bydd y Comisiwn newydd yn amlygu, ar bob lefel, ymwybyddiaeth o gyfeiriad polisi ieithyddol yng Nghymru, a chyfraniad pwysig y Comisiwn tuag at wireddu'r cyfeiriad polisi hwn.”

Sector Addysg Uwch

- Cefnogaeth i drefniadau llywodraethiant arfaethedig y Comisiwn – mae hyn yn briodol er mwyn cefnogi sector AHO cydgysylltiedig.
- Pwysigrwydd o gynrychiolaeth ddigonol i addysg uwch ym mhwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru, maes o bryder gyda'r cynigion presennol.
- Y Comisiwn i fod yn gorff hyd-braich gyda rôl addasol. Credai Prifysgolion Cymru fod y cynigion yn rhy haearnidd a phenodol fel maent yn sefyll, ac felly nid ydynt yn cynnig y dull gweithredu hyd-braich hwn.
- Cymeradwyaeth gref i ganfyddiadau Adolygiad Reid (cefnogwyd gan Brifysgol Caerdydd, Cadeiryddion Prifysgolion Cymru)
- Datblygu gweledigaeth bell-gyrhaeddol gydag Ymchwil ac Arloesi Cymru a chysoni hon â'r eco-system ymchwil ehangach
- Symleiddio gofynion adrodd

- Mae'r canolbwyntio ar ddiogelu buddiannau dysgwyr ac ar lais y dysgwr yn cael ei groesawu
- Adeiladu ar gryfderau presennol trefniadau ansawdd o fewn AU
- Cefnogaeth helaeth i'r cyfeiriad y cynigir ei ddilyn yn y ddogfen bresennol.
- Cyfarwyddwr meddygol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru – mae'n bwysig cryfhau cydgysylltu strategol HSSG a chyllid arloesi gyda chyllid Llywodraeth Cymru yn gyffredinol. – Sefydlu perthynas gydag Ymchwil ac Arloesi Cymru cyn gynted ag y caiff ei greu. Cysylltu'r Comisiwn yn brodol ag aelod o Ymchwil ac Arloesi y DU.
- Cefnogi'r uchelgais i resymoli mecanweithiau cyllid a threfniadau contractio i ennill y gwerth gorau i Gymru (CCAUC). Roedd gan CCAUC hefyd nifer o amheuron ynghylch y cynigion.
- Mae llai o bwyslais yn yr ymgynghoriad ar yr heriau a'r cyfleoedd sylweddol sy'n gysylltiedig ag arloesi – ond mae hyn yn hanfodol i gynnydd economaidd a chymdeithasol. "Rhaid bod mwy o gysylltiad rhwng cyfle ac ymchwil ac aroloesi" (Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi)
- Mae gan y Brifysgol Agored drefniadau ar waith ar hyn o bryd gyda chynghorau cyllido i gydymffurfio â gofynion rheoleiddio ac adrodd – hoffent i hyn barhau o dan oruchwyliaeth y Comisiwn newydd.
- Mae Prifysgolion Cymru'n cefnogi nod y cynigion i wella goruchwyliaeth o'r sector, ond mae angen mynd i'r afael ag amryw o faterion – felly nid yw'r cynigion yn barod i symud ymlaen at ddrafftio deddfwriaethol. Dywedodd hefyd "mae gormod o fanylion ar feysydd y dylid gadael i'r Comisiwn benderfynu ac eto manylion annigonol ar feysydd deddfwriaethol pwysig fel sut y byddai'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau arfaethedig yn gweithredu".
- Manteision – potensial i'r sector AHO fod yn ymatebol i anghenion sgiliau, cyfle i sicrhau gweithredu Adolygiadau Diamond a Reid. "Ar y cam hwn mae arnom angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwneud mewn ffordd ystyrlon â grwpiau swyddogol a fydd yn edrych ar ddeddfwriaeth ddrafft a'i datblygu fel y bydd yn gweithredu'r cynigion hyn mewn ffordd effeithiol a llwyddiannus. Credwn fod angen ailedrych ar ddiben craidd y cynigion hyn a diwygio'n cynigion mewn ymateb i'r diben craidd hwn."
- UWTSD – cefnogi mesurau i symleiddio a chysoni prosesau AB ac AU.
- Roedd un unigolyn sydd â phrofiad sylweddol yn y sector yn nodi bod monitro wedi bod yn broblem ers amser maith. Mae'r Comisiwn arfaethedig "yn ffordd wych o ddangos unrhyw elfennau o dan yr wyneb trwy ddefnyddio amrediad mwy cynhwysol o ddangosyddion. Ar ôl edrych ar AHO ledled Ewrop rwyf yn gwybod nad yw'r hyn sy'n gweithio i un o anghenraid yn gweithio i'r llall. Sylweddolais hefyd y gall ystadegau fod yn gamarweiniol,

ond fod angen i unrhyw naratif adlewyrchu'r camagraff. Yn olaf gellir rhannu arferion da ond rhaid cael gwared ar arferion drwg."

- Dywedodd un cynrychiolydd llywodraeth leol y dylai'r ddarpariaeth a gynigir fod yn: hygyrch i bawb, cynhwysol ac yn rhoi anogaeth, cynnig hyblygrwydd, sicrhau llwybrau dilyniant, rhoi statws cydradd rhwng pynciau academiaidd a galwedigaethol a chynnwys canllawiau gyrfa.
- Mae gan NASUWT bryderon "bod cwrmpas a phwerau arfaethedig y Comisiwn wedi mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen, a bod llawer o ddyletswyddau eraill wedi cael eu hymgorffori'n ddiangen i rôl y Comisiwn." Hefyd yn dal at eu barn y dylai sefydliadau AB ddychwelyd i reolaeth awdurdodau lleol. Codir pryderon gan yr Undeb fod y Comisiwn yn cynrychioli creu cwango a fyddai'n gwbl amddifad o atebolrwydd democrataidd. Ymddengys y cynigion fel petaent yn groes i ddiwygiadau sy'n digwydd yn y sector ysgolion. Mae diffyg gweledigaeth ar gyfer y Comisiwn, rhywbeth y dylai Llywodraeth Cymru ddal i fod yn gyfrifol amdano ac am ei gydnawsedd â'r sector addysg. Mae'r diffyg gweledigaeth yma wedi achosi dryswch a chymhlethdod y cynigion. Nodwyd pryder hefyd ynghylch y diffyg cyd-drafod gyda'r sector ysgolion drwy gydol y broses ymgynghori. "Mae grwpiau ffocws rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan Miller Research UK wedi peidio â gwahodd undebau'r gweithlu i bob un ond un o'r seminarau ac unwaith eto wedi methu cyd-drafod yn iawn gyda chweched dosbarth ysgolion." Codwyd pryderon hefyd am bwyslais anghymesur ar lais y dysgwyr; dylent chwarae rhan ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Roedd yr Undeb hefyd yn amau a all fod economi gymysg o ddarpariaeth pan fo rhai awdurdodau lleol wedi gwadu'r dewis o ddilyn AHO mewn chweched dosbarth ysgol. Canfu NASUWT na ddarparwyd digon o amser i ymateb yn ddigonol i'r ymgynghoriad, a bod yn "taflu amheuan difrifol ar hygredd yr ymgynghoriad ei hun". Pwysleisiodd yr Undeb na ellir rhuthro'r ddeddfwriaeth ar gyfer y Comisiwn, a bod yn rhaid cael ystyriaeth lawn a gofalus o'r holl effeithiau a'r canlyniadau nas bwriadwyd.
- ASCL Cymru – "Mae perygl gwirioneddol yma mai diwedd hyn fydd sefydliad haen-ganol eto fyth, yn cael ei redeg ar gost sylweddol, yn creu mwy o waith i arweinwyr ysgolion ar adeg pan maent eisoes yn atebol i nifer sy'n cynyddu fwyfwy o sefydliadau eraill." Roedd hefyd yn cydnabod y graddau helaeth o newid a'r argyfwng presennol mewn recriwtio a chadw yn y proffesiwn addysgu – felly ni all ASCL ei gefnogi oherwydd y diswyddiadau posibl a'r anghymhelliad i athrawon weithio yng Nghymru. Roedd adolygiad Donaldson yn dangos pwysigrwydd arwyddocaol chweched dosbarth i'r holl ysgol. Nid yw'r fecanwaith gyllido ôl-16 yn addas i chweched dosbarth ysgolion. Roedd gwrthwynebiad clir i haen ychwanegol o fiwrocratiaeth: "Byddem felly'n pwysu ar Lywodraeth Cymru i ailystyried ei chynigion."
- UNISON Cymru – rhaid diogelu gweithwyr a rhaid i undebau llafur chwarae rhan lawn yn y broses. Mae angen cywiro'r

anghydbwysedd cyllid rhwng AB ac AU fel bod ganddynt adnoddau digonol i baratoi ar gyfer yr agenda uwchsgilio at y dyfodol.

- Fe wnaeth Cyngor y Gweithlu Addysg godi pryderon “bod yr ail ymgynghoriad hwn yn ailadrodd gwallau y gwnaethom dynnu sylw atynt yn ein hymateb i'r ymgynghoriad cyntaf, sef bod methiant i ddal darlun llawn rheoleiddio yn y sector AHO.” (mae'r sylwadau hyn wedi eu rhestru)
- Roedd Estyn yn cefnogi'r bwriad cyffredinol am ddull gweithredu cyson yn y sector ôl-16. Eto roedd yn argymhell ystyriaeth fanylach o sut y gallai cynigion dynnu sylw oddi wrth y trefniadau sicrhau ansawdd presennol a chefnogi datblygiad y cwricwlwm newydd. Trydydd Sector
- Amlinellodd Chwarae Teg negeseuon allweddol;
 - “Dylai cydraddoldeb rhywiol gael ei brifffrydio trwy holl strwythurau a gweithgareddau'r Comisiwn.” hynny yw o fewn Comisiwn ac iddo gydbwysedd rhwng y rhywiau
 - Asesiad effaith ar gydraddoldeb i arwain cynllun y Comisiwn newydd, gan gynnwys dadansoddiad beirniadol o safbwynt y rhywiau gan ystyried y gwahanol ffyrdd y mae dynion a merched yn cymryd rhan mewn addysg ôl-orfodol
 - Mesurau i'w rhoi ar waith i sicrhau bod y Comisiwn a darparwyr yn chwarae rhan mewn gweithgaredd i hyrwyddo cydraddoldeb
Dysgu Seiliedig ar Waith
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru – roedd y Ffederasiwn yn llwyr gefnogi creu corff i oruchwylio'r sector AHO, eto “mae'n dal i fod llawer o fanylion i weithio trwyddynt os yw'r corff newydd am fod yn gwbl abl i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.”
Y Gymraeg
- Fe wnaeth Comisiwn y Gymraeg awgrymu cyfarfod i drafod y camau nesaf
Cyflogwyr a busnesau
- Roedd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn credu bod hyn yn gam cadarnhaol tuag at integreiddio ehangach – “Gallai hyn fod o fudd i economi a busnesau Cymru, yn ogystal â dysgwyr, os yw'n caniatáu ar gyfer mwy o weithio ar y cyd, a mwy o ganolbwyntio ar gyllido a strategaeth yn y meysydd lle mae'r enillion gorau i economi Cymru.” Roedd hefyd yn ychwanegu nifer o broblemau / argymhellion.
- Dywedodd Jenkins and Davies Engineering fod cyfanswm eu cyfraniad wedi codi ers i'r Ardoll Brentisiaethau gael ei chyflwyno, ond eto roedd y gefnogaeth gan yr ECITB wedi lleihau.
Dywedodd y cynrychiolydd y byddai “wrth ei fodd yn gweld Cymru'n cymryd cam herfeiddiol dros brentisiaethau”, ac y gallai hyn fod yn ffurf: gwarantu prentisiaeth i bawb sy'n gadael ysgol ond heb fod yn mynd i addysg bellach; Llywodraeth Cymru'n talu isafswm cyflog i brentisiaid; a chanolfannau rhanbarthol yn rheoli'r

cysylltiad rhwng prentisiaid, safonau, ysgolion, y cyflogwyr a'r Llywodraeth.

- FISSS – Bydd hyn yn effeithio ar yr ochr gyflenwi ond cyfyng yw'r drafodaeth ar sut y gellir symbylu'r ochr gyflenwi; mae angen i gyflogwyr newid yn sylfaenol y ffordd maent yn edrych ar y bobl maent yn eu cyflogi a'r ffordd maent yn eu gwerthfawrogi. Hefyd yn cydnabod y gall yr amcan o gyrraedd targedau deilliannau a gosod a gweithredu'r polisi wrthdaro â chefnogi arloesi a diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Nodi hefyd y "gallai cynllun strategol AHO elwa o fod yn rhan mwy penodol o gynllun economaidd ehangach Cymru." – Hanfodol fod cytundebau deilliannau yn adlewyrchu anghenion sgiliau sectorol – "byddai'r Ffederasiwn a'n haelodau yn hapus i helpu Llywodraeth Cymru / y Comisiwn i ddiffinio'r rhain."

20. Atodiad 1: Sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad

20.1 Cyflwynodd y sefydliadau canlynol ymateb i'r ymgynghoriad:

- Addysg Oedolion Cymru
- ASCL Cymru
- Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA)
- Cadeirydd Rhwydwaith Ymchwil Dirprwy Is-Gangellorion Prifysgol Cymru
- Cadeiryddion Prifysgolion Cymru
- Chwarae Teg
- CITB Cymru
- Cogent Skills
- Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Coleg Gwent
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Y Cymoedd
- ColegauCymru
- Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn
- Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC)
- Cymdeithas Ddysgedig Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)
- Cymwysterau Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
- Cyngor Cynghori Cymru ar Arloesi
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Benfro
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor y Gweithlu Addysgu
- Dinas a Sir Caerdydd
- Dirprwy Addysg – Cyngor Sir Gaerfyrddin
- ECITB
- Educ8 Group
- Estyn
- Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (FSB)
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- Ffederasiwn Sgiliau a Safonau Diwydiant (FISSS)
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Gomisiynydd y Gymraeg

- Grŵp 14-19 Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot
- Grŵp Llandrillo Menai
- Gwasanaeth Addysg Gatholig
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Hyfforddiant ACT
- Instructus
- Jenkins and Davies Engineering
- NAHT
- NASUWT
- Partneriaeth Sgiliau Galwedigaethol
- Prifathrawon 11-18 Sir Gaerfyrddin
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgolion Cymru
- Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru
- Sgiliau Iechyd a Chyfiawnder
- St Brigid's School
- TSW Training Ltd
- Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU Cymru)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru
- Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU)
- UNSAIN
- Voice the Union
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Yr Academi Brydeinig
- Ysgol David Hughes
- Ysgol Dyffryn Conwy
- Ysgol Glan Clwyd
- Ysgol Gyfun Gwynllyw
- Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr